

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 26/03/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid](#)  
[Questions to the Minister for Finance](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#)  
[Questions to the Minister for Local Government and Government Business](#)

[Cwestiwn Brys: Amseroedd Ymateb Ambiwylansys](#)  
[Urgent Question: Ambulance Response Times](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)  
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Ewrop](#)  
[Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): Europe](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Dreth Gyngor](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Council Tax](#)

[Dadl Plaid Cymru: Tlodi ac Iechyd](#)  
[Plaid Cymru Debate: Poverty and Health](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Denu Merched i Wyddoniaeth—yr Achos dros Fanteisio i'r Eithaf ar Botensial Gwyddoniaeth yng Nghymru](#)  
[Short Debate: Women into Science—the Case for Maximising Science Potential in Wales](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

## Questions to the Minister for Finance

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Health and Social Services

13:30 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*1. A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau ychwanegol i ddyrannu cyllid untro i'r Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? OAQ(4)0394(FIN)*

*1. Does the Minister have any additional plans for the allocation of one-off funding to the Health and Social Services portfolio? OAQ(4)0394(FIN)*

13:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

*Cafodd ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2013-14 eu gosod yn y gyllideb atodol a gytunwyd gan y Cynulliad ar 11 Mawrth.*

*Our spending plans for 2013-14 were set out in the supplementary budget approved by the Assembly on 11 March.*

13:31 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Diolch am yr ateb.*

*Thank you for that response.*

Minister, you will be aware that next year's budget includes a health technologies fund payment of over £2 million to Betsi Cadwaladr University Local Health Board for the installation of da Vinci robotic surgery at Glan Clwyd Hospital. Can you tell me whether there is an agreed timeline for the submission of the business case with regard to that particular investment?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod cyllideb y flwyddyn nesaf yn cynnwys taliad o dros £2 filiwn gan y gronfa technolegau iechyd i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer gosod cyfarpar llawdriniaeth robotig da Vinci yn Ysbyty Glan Clwyd. A allwch ddweud wrthyf pa un a gytunwyd ar amserlen ar gyfer cyflwyno'r achos busnes dros y buddsoddiad penodol hwnnw?

13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is something that formed a very important part of our budget agreement. Indeed, it is from 1 April that the money is available. I have been assured in terms of discussions with the Minister for Health and Social Services that business plans are due and forthcoming.

Roedd hyn yn elfen bwysig iawn o'n cytundeb cyllidebol. Yn wir, mae'r arian ar gael o 1 Ebrill. Cefais sicrwydd o ran trafodaethau gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod cynlluniau busnes yn yr arfaeth ac y cânt eu cyflwyno maes o law.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

## Datganiad Cyllideb Llywodraeth y DU

## The UK Government's Budget Statement

13:31 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith Datganiad Cyllideb 2014 Llywodraeth y DU ar wariant Cymru? OAQ(4)0389(FIN)

2. What assessment has the Minister made of the effect on Welsh expenditure of the UK Government's 2014 Budget Statement? OAQ(4)0389(FIN)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau Datganiad Cyllideb 2014 Llywodraeth y DU i Gymru? OAQ(4)0392(FIN)

5. Will the Minister make a statement on the implications for Wales of the UK Government's 2014 Budget Statement? OAQ(4)0392(FIN)

**Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau cyllido i Gymru a gyhoeddwyd yn Natganiad Cyllideb 2014 Llywodraeth y DU? OAQ(4)0387(FIN)

8. Will the Minister make a statement on levels of funding for Wales announced in the UK Government's 2014 Budget Statement? OAQ(4)0387(FIN)

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y £36 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru yn Natganiad Cyllideb 2014 Llywodraeth y DU? OAQ(4)390(FIN)

12. Will the Minister make a statement on the extra £36 million announced for the Welsh Government in the UK Government's 2014 Budget Statement? OAQ(4)390(FIN)

13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Er gwaethaf y newid bach yn nherfyn gwariant adrannol Cymru, bydd ein cyllideb yn parhau i fod 10% yn is mewn termau real erbyn 2015-16 o'i gymharu â 2010-11.

Despite the marginal change to the Welsh departmental expenditure limit, our budget will still be 10% lower in real terms by 2015-16 than it was in 2010-11.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the Minister wanted a grouping on this question.

Credaf fod y Gweinidog wedi gofyn i'r cwestiynau hyn gael eu grwpio.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, thank you, Presiding Officer. Could I group questions 2, 5, 8 and 12? Diolch.

Do, diolch, Lywydd. A ellid grwpio cwestiynau 2, 5, 8 a 12? Diolch.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Simon Thomas.

Galwaf ar Simon Thomas.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

13:32

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer, and I thank the Minister for her reply. Although I join with the Minister in regretting any cuts to the Welsh Government, and indeed the continuing austerity policies being pursued in Westminster, we do now need to join together to fight for a fairer funding formula for Wales in the long term. Will she join me in regretting the fact that the leader of Scottish Labour therefore wants to continue with the Barnett formula, which I know is not her policy and not the Welsh Government's policy? In what way does she think that we can all work together, while we remain in the United Kingdom, to work for fair funding for all constituent parts of the United Kingdom?

Diolch, Lywydd, a diolch i'r Gweinidog am ei hymateb. Er fy mod yn cytuno â'r Gweinidog ac yn gresynu at unrhyw doriadau i Lywodraeth Cymru, ac yn wir y polisïau llymder parhaus sydd ar waith yn San Steffan, mae angen inni yn awr ddod ynghyd i frwydro i gael fformiwla ariannu decach i Gymru yn yr hirdymor. A wnaiff ymuno â mi wrth resynu at y ffaith bod arweinydd Llafur yr Alban, felly, yn awyddus i barhau â fformiwla Barnett, y gwn nad ei pholisi hi ydyw na pholisi Llywodraeth Cymru? Yn ei barn hi, sut y gall pob un ohonom gydweithio, tra y byddwn oll yn rhan o'r Deyrnas Unedig, i anelu at gyllid teg i bob un o'r rannau'r Deyrnas Unedig?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the most important achievements of this Assembly, and the way in which we have approached our funding needs, is to have cross-party consensus. Of course, that led to the support, first of all, for the Holtham commission, which identified that the Barnett formula was no longer fit for purpose for us in Wales; indeed, others have said that quite clearly in terms of the Barnett formula, and that was also reflected in the cross-party Silk commission. I also engaged in constructive inter-governmental talks with the Chief Secretary to the Treasury, which did result in the first step in terms of addressing a fair funding formula and outcome for Wales. Of course, that is clearly reflected in the way forward as we progress with the Bill, which, of course, we are delighted was published last week. This is where I feel that we in Wales have to ensure that we hold on to our consensus, and to the agreement that was very clear in the recommendations from Silk, that we need fair funding in Wales and that the Welsh Government will continue to work constructively with the UK Government to achieve that.

Un o gyflawniadau pwysicaf y Cynulliad hwn, a'r ffordd rydym wedi ymdrin â'n hanghenion ariannu, yw bod gennym gonsensws trawsbleidiol. Wrth gwrs, arweiniodd hynny, yn gyntaf, at gefnogi comisiwn Holtham, a nododd nad oedd fformiwla Barnett bellach yn addas at y diben inni yng Nghymru; yn wir, mae eraill wedi datgan hynny'n gwbl glir o ran fformiwla Barnett, ac adlewyrchwyd hynny hefyd yng nghyfansoddiad trawsbleidiol comisiwn Silk. Cymerais hefyd ran mewn trafodaethau rhynglywodraethol adeiladol gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, a arweiniodd at y cam cyntaf o ran ymdrin â fformiwla ariannu a chanlyniad teg i Gymru. Wrth gwrs, adlewyrchir hynny'n glir yn y ffordd ymlaen wrth inni fwrw ati â'r Bil, yr ydym, wrth gwrs, wrth ein boddau iddo gael ei gyhoeddi'r wythnos diwethaf. Dyma ble y teimlaf fod angen inni yng Nghymru sicrhau ein bod yn cynnal ein consensws, a'r cytundeb a oedd yn glir iawn yn argymhellion Silk, fod angen ariannu teg arnom yng Nghymru ac y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn ffordd adeiladol â Llywodraeth y DU er mwyn cyflawni hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

**Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The cross-party talks that you refer to are one thing, but cross-party talks across the Labour Party would probably be beneficial in this respect. Do you agree with the Labour leader in Scotland that Barnett has served all parts of the UK well?

Mae'r sgysiaau trawsbleidiol y cyfeiriwch atynt yn un peth, ond fwy na thebyg y byddai sgysiaau trawsbleidiol ar draws y Blaid Lafur o fudd yn hyn o beth. A gytunwch gydag arweinydd y Blaid Lafur yn yr Alban fod Barnett wedi bod o fudd i bob rhan o'r DU?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wonder whether you agree with the Scottish Government in terms of it hanging on to a Barnett formula, which we know is outdated and does not meet the needs of the people of the whole of the United Kingdom. We are concerned to meet the fair funding needs of not only the people in Wales, but, indeed, people across the whole of the United Kingdom.

Tybed a ydych yn cytuno gyda Llywodraeth yr Alban o ran ei phenderfyniad i barhau â fformiwla Barnett, y gwyddom nad yw bellach yn gyfredol ac nad yw bellach yn diwallu anghenion pobl ymhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Rydym yn awyddus i ddiwallu anghenion ariannu teg nid yn unig pobl yng Nghymru, ond, yn wir, bobl ledled y Deyrnas Unedig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

**Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, Welsh budgets are 10% lower than they were in 2010. Do you agree with me that residents need not look any further when they see local authorities having to make substantial savings?

Weinidog, mae cyllidebau Cymru 10% yn is nag yr oeddent yn 2010. A gytunwch â mi nad oes angen i drigolion edrych ymhellach pan fyddant yn gweld awdurdodau lleol yn gorfod gwneud arbedion sylweddol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Gwyn Price for that question. Of course, we have faced unprecedented cuts to our budget as a result of the UK Government's austerity plans over the last four years, and those are successive budgets. We have done what we can to mitigate the impact of those cuts, but the scale of the reductions mean that we have made some tough decisions. On the point about addressing the needs of local communities, I have now started on a tour of Wales, talking to people at the sharp end in our public services, and to those who use our services, about the priorities and the prospects for difficult budget times ahead.

Diolch Gwyn Price am y cwestiwn hwnnw. Wrth gwrs, rydym wedi wynebu toriadau digynsail i'n cyllideb o ganlyniad i gynlluniau llymder Llywodraeth y DU yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ac mae'r rheini'n gyllidebau olynol. Rydym wedi gwneud yr hyn a allwn i liniaru effaith y toriadau hynny, ond mae maint y gostyngiadau yn golygu ein bod wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd. O ran diwallu anghenion cymunedau lleol, rwyf bellach wedi dechrau ar daith o amgylch Cymru, yn siarad â phobl ar reng flaen ein gwasanaethau cyhoeddus, ac â'r rheini sy'n defnyddio ein gwasanaethau, am y blaenoriaethau a'r rhagolygon ar gyfer y cyfnod cyllidebol anodd sydd o'n blaenau.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:36 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you will join me in welcoming the extra £36 million that is coming to Wales as a result of the UK Government budget statement last week. Between 1997 and 2014, council tax in Wales has increased by a staggering 148%. In 1997, the average band D council tax was £495; now, that is more around £1,226. Some £38.9 million was given to Wales to freeze council tax. Minister, what plans do you have in place to prevent the constant, year-on-year, council tax increases, and would you consider allocating some of this £36 million to allow for a council tax reduction, or even a freeze, here in Wales?

Weinidog, rwy'n siŵr yr ymunwch â mi i groesawu'r £36 miliwn ychwanegol sy'n dod i Gymru o ganlyniad i ddatganiad cyllideb Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf. Rhwng 1997 a 2014, mae'r dreth gyngor yng Nghymru wedi cynyddu ar gyfradd syfrdanol o 148%. Yn 1997, roedd y dreth gyngor band D gyfartalog yn £495; yn awr, mae'n agosach at £1,226. Rhoddwyd tua £38.9 miliwn i Gymru i rewi'r dreth gyngor. Weinidog, pa gynlluniau sydd gennych ar waith i atal y codiadau cyson, flwyddyn ar ôl blwyddyn, i'r dreth gyngor, ac a fydddech yn ystyried dyrannu rhywfaint o'r £36 miliwn hwn er mwyn gallu lleihau'r dreth gyngor, neu hyd yn oed ei rewi, yma yng Nghymru?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:36 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wish I could join you in welcoming a consequential. Yes, we did get a positive consequential of £36 million in the budget last week, but, of course, we also got a bill. We got a bill for at least another £70 million over a two-year period to bear additional costs in terms of public sector pensions, which, of course, we would honour. Furthermore, we have still to endure a 31% cut in real terms to our capital budget between 2009-10 and 2015-16. It is quite clear that, if you were in charge, local government in Wales would bear a cut, and not only bear a cut itself in terms of allocation from your budgetary prospects, but also to education and schools, where we have maintained that 1% safeguard.

Hoffwn allu ymuno â chi i groesawu cyllid canlyniadol. Do, cawsom swm canlyniadol cadarnhaol o £36 miliwn yn y gyllideb yr wythnos diwethaf, ond, wrth gwrs, cawsom fil hefyd. Cawsom fil am o leiaf £70 miliwn arall dros gyfnod o ddwy flynedd er mwyn cwmpasu costau ychwanegol o ran pensiynau'r sector cyhoeddus, y byddem, wrth gwrs, yn ei anrhydeddu. At hynny, rydym yn dal i orfod dioddef gostyngiad o 31% mewn termau real i'n cyllideb cyfalaf rhwng 2009-10 a 2015-16. Mae'n eithaf amlwg, pe bydddech chi'n rheoli, y byddai llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu toriadau, ac nid yn unig yn wynebu toriadau ei hun o ran y dyraniad o'ch rhagolygon cyllidebol, ond hefyd ym maes addysg ac ysgolion, lle rydym wedi cadw'r diogelwch hwnnw o 1%.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

13:37 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Minister, coming back to the issue of fair funding, I am sure that you would agree with me that, if reform of the Barnett formula was easy, your colleagues, while they were in power in London, would have undertaken such a reform. However, would you also agree with me that one of the reasons why Scotland could be seen to be beneficially funded at the moment is not just as a consequence of Barnett, but actually because of the successful negotiation, prior to devolution, of additional moneys to the Scottish block? That is something that the Northern Irish were able to achieve as a peace dividend, as they rebuilt after the Troubles. Therefore, what work has the Welsh Government done to put a case to the Westminster Government about how the Welsh block needs to be supplemented by payments and allocations above and beyond the Barnett formula because of Welsh need?

Weinidog, gan ddechrau wrth ymuno â mi, pe bai'n hawdd diwygio fformiwla Barnett, y byddai eich cyd-Aelodau, pan oeddent mewn grym yn Llundain, wedi ymgymryd â phroses ddiwygio o'r fath. Fodd bynnag, a fydddech hefyd yn cytuno â mi nad dim ond o ganlyniad i Barnett y gellid ystyried ar hyn o bryd bod yr Alban yn cael dyraniad ariannol buddiol, ond mewn gwirionedd oherwydd y ffordd y llwyddwyd, cyn datganoli, i negodi arian ychwanegol i floc yr Alban? Mae hynny'n rhywbeth y llwyddodd Gogledd Iwerddon i'w gyflawni fel difidend heddwch, wrth iddynt ailadeiladu yn dilyn yr Helyntion. Felly, pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gyflwyno achos i Lywodraeth San Steffan ynghylch sut mae angen ategu bloc Cymru â thaliadau a dyraniadau yn ychwanegol at fformiwla Barnett oherwydd anghenion yng Nghymru?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

- 13:38 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Cross-party consensus welcomed Gerry Holtham's report and his estimate that we have been underfunded through the Barnett formula, and underfunded by £300 million. Quite clearly, I have played my part as the Minister for Finance, certainly at the forefront of negotiations, to improve our funding settlement. If you recall, the funding settlement and the dispute that we had over the Olympics was one example of that, where we actually got the money. That was as a result of the negotiations that were led, particularly, by myself as the Minister for Finance, with the UK Government. However, it is also quite clear that we are underfunded, and I think that that is the focus that we all have to concentrate on in terms of negotiations with the UK Government.
- Croesawyd adroddiad Gerry Holtham a'i amcangyfrif ein bod wedi cael ein tanariannu drwy fformiwla Barnett, a hynny o £300 miliwn â chonsensws trawsbleidiol. Yn amlwg, rwyf wedi chwarae fy rhan fel y Gweinidog Cyllid, yn sicr yn rhan flaenllaw o'r negodiadau, er mwyn gwella ein setliad ariannu. Os cofiwch, roedd y setliad ariannu a'r anghydfod a gawsom mewn perthynas â'r Gemau Olympaidd yn un enghraifft o hynny, lle y gwnaethom lwyddo i gael yr arian. Roedd hynny o ganlyniad i'r negodiadau gyda Llywodraeth y DU, a arweiniwyd yn benodol gennyf fel y Gweinidog Cyllid. Fodd bynnag, mae hefyd yn gwbl amlwg ein bod wedi ein tanariannu, a chredaf mai dyna'r ffocws y mae angen i bob un ohonom ganolbwyntio arno o ran negodiadau gyda Llywodraeth y DU.
- 13:39 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Minister, do you agree with the statement and the statistics from the Institute for Fiscal Studies that, as a result of the coalition Government's austerity policies, living standards in Wales and in the United Kingdom are not going to rise above 2002 levels?
- Weinidog, a gytunwch â'r datganiad a'r ystadegau gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, o ganlyniad i bolisiau llymder y Llywodraeth glymblaid, na wnaiff safonau byw yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig godi uwchlaw lefelau 2002?
- 13:39 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I do. You do not have to go anywhere further than that authoritative, independent organisation, the Institute for Fiscal Studies. It has acknowledged that living standards and household incomes will not only decline, and have declined since 2010, but that they will continue to decline due to the UK Government's austerity measures, and, indeed, they will certainly decline if the present Tory-led Government wishes to shrink the state, which the IFS noted it would be doing, back to the levels of 1948. That was from the IFS.
- Cytunaf. Nid oes angen edrych ymhellach na'r sefydliad awdurdodol, annibynnol, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Cydnabu nid yn unig y bydd safonau byw ac incwm cartrefi yn gostwng, a'u bod wedi gostwng ers 2010, ond y byddant yn parhau i ostwng oherwydd mesurau llymder Llywodraeth y DU, ac, yn wir, y byddant yn sicr yn gostwng os yw'r Llywodraeth bresennol o dan arweiniad y Toriaid yn awyddus i leihau'r wladwriaeth, y nododd y Sefydliad y byddai'n gwneud, gan ddychwelyd i lefelau 1948. Dyna a ddywedodd y Sefydliad.
- 13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I call on the opposition spokesperson, Paul Davies.
- Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Paul Davies.
- 13:40 **Paul Davies** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Minister, you have claimed that the UK budget was a missed opportunity and does nothing to boost economic growth, but that is certainly not the view of businesses across Wales, where the decision to double the annual investment allowance to £500,000 until the end of 2015 will allow many firms to receive full relief on expenditure on things such as machinery. Surely, you must accept that this is business friendly, and will you, therefore, join me in welcoming measures such as this to support businesses in Wales?
- Weinidog, rydych wedi honni y methwyd cyfle gyda chyllideb y DU ac nad yw'n gwneud dim i hybu twf economaidd, ond yn sicr, nid dyna yw barn busnesau ledled Cymru, lle bydd y penderfyniad i ddyblu'r lwfans buddsoddi blynyddol i £500,000 hyd at ddiwedd 2015 yn caniatáu i lawer o gwmnïau gael rhyddhad llawn ar wariant ar bethau fel peiriannau. Does bosibl bod yn rhaid ichi dderbyn bod hyn o fudd i fusnesau, ac a ymunwch â mi, felly, i groesawu mesurau o'r fath i helpu busnesau yng Nghymru?

- 13:41 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, there were aspects of the budget that were welcome, in terms of the focus on relief for energy-intensive industries, but I would say that that was as a result of the First Minister calling for that very clearly and consistently in our negotiations with the UK Government. There are also some opportunities in terms of enterprise zones, and an extension of those. However, that is set against the fact that we had a budget that has delivered continued cuts to our public finances. I hope that you, as finance spokesperson, Paul Davies, will join me in raising this point with your UK Government, because yesterday we had the Confederation of British Industry calling for an extension and an enhancement of our infrastructure through capital spend, and that is not what we have as a result of this budget. We have a 31% cut to our capital budget, and, indeed, we have nothing for those people who are suffering at the sharp end of this Government's austerity measures.
- Yn amlwg, roedd agweddau ar y gyllideb a oedd i'w croesawu, o ran y ffocws ar ryddhad ar gyfer diwydiannau ynni-ddwys, ond roedd hynny, yn fy marn i, o ganlyniad i'r ffaith bod Prif Weinidog Cymru wedi galw am hynny'n glir iawn ac yn gyson yn ein negodiadau gyda Llywodraeth y DU. Mae rhai cyfleoedd hefyd o ran ardaloedd menter, ac ehangu'r ardaloedd hynny. Fodd bynnag, mae hynny yn erbyn y ffaith bod ein cyllideb wedi parhau i arwain at doriadau i'n cyllid cyhoeddus. Gobeithio y gwnewch ymuno â mi, fel y llefarydd cyllid, Paul Davies, wrth godi'r pwynt hwn gyda Llywodraeth y DU, oherwydd ddoe galwodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain am estyniad ac am welliant i'n seilwaith drwy wariant cyfalaf, ac nid dyna a gawsom o ganlyniad i'r gyllideb hon. Cawsom ostyngiad o 31% yn ein cyllideb gyfalaf, ac, yn wir, nid oes gennym unrhyw beth i'w gynnig i'r bobl hynny sy'n dioddef waethaf o ganlyniad i fesurau llymder y Llywodraeth hon.
- 13:42 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Let me tell the Minister that the only budgets that are full of missed opportunities for Wales are the budgets delivered by your Government here in Cardiff. One way that the Welsh Government could support businesses in Wales, and work with the UK Government, is by expanding enhanced capital allowances in all of the existing enterprise zones in Wales. Given your Government's response to the Finance Committee's report on enterprise zones, what action has the Welsh Government taken on this specific issue since the publication of that report?
- Gadewch imi ddweud wrth y Gweinidog mai'r unig gyllidebau sy'n llawn cyfleoedd a gollwyd i Gymru yw'r cyllidebau a gyflwynwyd gan eich Llywodraeth chi yma yng Nghaerdydd. Un ffordd y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi busnesau yng Nghymru, a gweithio gyda Llywodraeth y DU, yw drwy ehangu lwfansau cyfalaf uwch ymhob un o'r ardaloedd menter presennol yng Nghymru. O ystyried ymateb eich Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ardaloedd menter, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd ar y mater penodol hwn ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw?
- 13:42 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, this is for the Minister for Economy, Science and Transport, who has welcomed that one aspect of the budget, which she will be able to use to good effect.
- Yn amlwg, mater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw hwn, sydd wedi croesawu'r un agwedd honno ar y gyllideb, y bydd yn gallu ei defnyddio yn effeithiol.
- 14:43 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister for Finance today, and the First Minister yesterday, took the interesting option of trying to duck the financing-of-Wales issue by asking our opinion about the actions of another party in Scotland. For the record, I think that the SNP is doing a pretty good job of standing up for the interests of Scotland. Your job is to stand up for the interests of Wales. Are you confident that you can win the argument within the Labour Party, against the opinion of the Labour leader in Scotland, so that Labour in the 2015 manifesto will include a pledge to reform Barnett?
- Gwnaeth y Gweinidog Cyllid heddiw, a'r Prif Weinidog ddoe, ddewis diddorol o geisio osgoi trafod y mater o ariannu Cymru drwy ofyn am ein barn am y camau gweithredu a gymerwyd gan blaid arall yn yr Alban. Hoffwn gofnodi fy mod o'r farn bod yr SNP yn llwyddo i raddau helaeth i weithredu er budd yr Alban. Eich swyddogaeth chi yw gweithredu er budd Cymru. A ydych yn hyderus y gallwch ennill y ddadl o fewn y Blaid Lafur, yn erbyn barn arweinydd Llafur yr Alban, fel y bydd y Blaid Lafur, ym manifesto 2015, yn cynnwys addewid i ddiwygio Barnett?
- 13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am a bit confused, Rhun, in terms of your analysis. You question me about the Labour Party in Scotland and say that I should not question you about the Scottish nationalist party in Scotland.
- Rwyf wedi drysu braidd, Rhun, o ran eich dadansoddiad. Rydych yn fy holi am y Blaid Lafur yn yr Alban ac yn dweud na ddylwn eich holi chi am blaid genedlaethol yr Alban yn yr Alban.
- 13:44 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It is a different party.
- Plaid wahanol yw honno.

13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Let us get back to the consensus that we have here in Wales, cross-party, which I know that you share, that we have to work together to demonstrate the confidence of this National Assembly, backing the Welsh Government, backing me, to ensure that we get a fair deal. It builds on Kirsty Williams's question; it is about a fair deal in terms of Barnett and in terms of future prospects. That is why, Paul Davies, I asked the Chancellor for more money for infrastructure. That is what business wants; they want more money for infrastructure, and that means a better capital deal.

Gadewch inni ddychwelyd at y consensws trawsbleidiol sydd gennym yma yng Nghymru, y gwn eich bod yn ei rannu, fod yn rhaid inni gydweithio er mwyn dangos hyder y Cynulliad Cenedlaethol hwn, sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru, sy'n fy nghefnogi i, er mwyn sicrhau ein bod yn cael bargaen deg. Mae'n ymhelaethu ar gwestiwn Kirsty Williams, mae'n ymwneud â bargaen deg o ran Barnett ac o ran rhagolygon ar gyfer y dyfodol. Dyna pam, Paul Davies, y gofynnais i'r Canghellor am fwy o arian ar gyfer seilwaith. Dyna y mae busnesau yn awyddus i'w gael; maent am gael mwy o arian ar gyfer seilwaith, ac mae hynny'n golygu gwell bargaen cyfalaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:44 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the recent UK budget contained a range of measures, I am sure that you would agree—I have heard you agree with some of them already today—designed to boost the economy and to put more money back into the pockets of hard-working people in Wales, including the raising of the personal tax allowance, far-reaching reforms to pension laws so that people have more control over their own money and, last but not least, the scrapping of the beer tax escalator and the taking of 1p off a pint of beer, thereby boosting the pub trade in Wales. What will you do to augment these policies in Wales? Will your Government consider revisiting your business rates policy to make sure that more businesses in Wales are taken out of business rates altogether and that business is given that boost from your Government that it has not had to date?

Weinidog, roedd cyllideb ddiweddar y DU yn cynnwys amrywiaeth o fesurau, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno—rwyf wedi eich clywed yn cytuno â rhai ohonynt eisoes heddiw—a gynlluniwyd i roi hwb i'r economi ac i ddychwelyd mwy o arian i bocedi pobl sy'n gweithio'n galed yng Nghymru, gan gynnwys codi'r lwfans treth personol, diwygiadau pellgyrhaeddol i ddeddfau pensiwn fel bod gan bobl fwy o reolaeth dros eu harian eu hunain ac, yn olaf ond yn arwyddocaol, cael gwared ar y cynnydd yn y dreth gwrw a thynnu 1c oddi ar beint o gwrw, gan felly roi hwb i'r fasnach tafarndai yng Nghymru. Beth a wnewch i ychwanegu at y polisiau hyn yng Nghymru? A wnaiff eich Llywodraeth ystyried edrych eto ar eich polisi ardrethi busnes er mwyn sicrhau y caiff mwy o fusnesau yng Nghymru eu hepgor rhag ardrethi busnes yn llwyr ac y caiff busnesau yr hwb hwnnw nad yw eich Llywodraeth wedi'i roi iddynt hyd yn hyn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do want to repeat, and to remind Nick Ramsay, that we have been managing a series of difficult budget settlements since 2010. Our budget will be 10% lower than it was in 2010-11 as a result of budget cuts imposed by the UK Government. That is the context that we are working in in terms of dealing with difficult priorities. If you look at the scenarios ahead of us, the Welsh budget could be almost 20% lower in real terms than it was in 2010-11. It is not just the economic outlook that we have to look at in terms of that budgetary squeeze on capital and revenue, but what we can do to protect our funding in the way that means it is making the most difference. The most difference it is making is for young people—not as a result of your budget, which said nothing about young people whatsoever. Our Jobs Growth Wales is creating more than 4,000 extra job opportunities for 16 to 25-year-olds in 2015-16, and we are doubling of the number of children benefiting from Flying Start. [Interruption.]

Hoffwn ailadrodd, ac atgoffa Nick Ramsay, ein bod wedi bod yn ymdopi â chyfres o setliadau cyllideb anodd ers 2010. Bydd ein cyllideb 10% yn is na 2010-11 o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Dyna'r cyd-destun rydym yn gweithio o'i fewn o ran ymdrin â blaenoriaethau anodd. Os edrychwch ar y senarios sy'n ein hwynebu, gallai cyllideb Cymru fod bron i 20% yn is mewn termau real na 2010-11. Nid dim ond y rhagolygon economaidd y mae'n rhaid inni eu hystyried o ran y wasgfa gyllidebol honno ar gyfalaf a refeniw, ond yr hyn y gallwn ei wneud i ddiogelu ein cyllid yn y ffordd sy'n golygu ei bod yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl ifanc—nid o ganlyniad i'ch cyllideb, na chyfeiriodd at bobl ifanc mewn unrhyw ffordd. Mae Twf Swyddi Cymru yn creu mwy na 4,000 o gyfleoedd swyddi ychwanegol i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed yn 2015-16, ac rydym yn dyblu nifer y plant y mae Dechrau'n Deg o fudd iddynt. [Torri ar draws.]

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will call on Mohammad Asghar and I will reserve my comments until later.

Galwaf ar Mohammad Asghar a chadwaf fy sylwadau tan ym ddiweddarach.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:46 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Madam Presiding Officer. Minister, funding for Wales will increase by £36 million over the next two years thanks to measures announced in the budget. When deciding how to allocate this money, will the Minister consider the need for a cancer drugs fund in Wales so that 24 cancer medicines available in England but denied to Welsh patients can be prescribed in Wales, please?

Diolch, Fadarn Lywydd. Weinidog, bydd cyllid Cymru yn cynyddu £36 miliwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf diolch i fesurau a gyhoeddwyd yn y gyllideb. Wrth benderfynu sut i ddyrannu'r arian hwn, a fyddai'r Gweinidog cystal ag ystyried yr angen am gronfa cyffuriau canser yng Nghymru fel y gellir rhagnodi'r 24 o feddyginiaethau canser sydd ar gael yn Lloegr ond y cânt eu gwrthod i gleifion Cymru yng Nghymru?

13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Well, Mohammad Asghar, I think that you heard earlier on that, sadly, our budget will decrease by £70 million over the next two years, so the £36 million is quickly lost. However, I would also hope that you would back the fact that we have invested in our health service and our priorities in the health service. The budget for the Welsh NHS is now the largest ever and an additional £620 million will be invested over three years to reflect needs and priorities.

Wel, Mohammad Asghar, credaf ichi glywed yn gynharach am hynny. Yn anffodus, bydd ein cyllideb yn gostwng £70 miliwn yn ystod y ddwy flynedd nesaf, felly buan y caiff y £36 miliwn ei golli. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn gobeithio y byddech yn cefnogi'r ffaith ein bod wedi buddsoddi yn ein gwasanaeth iechyd a'n blaenoriaethau yn y gwasanaeth iechyd. Bellach mae'r gyllideb ar gyfer y GIG yng Nghymru ar ei lefel uchaf erioed a chaiff £620 miliwn ychwanegol ei fuddsoddi dros gyfnod o dair blynedd er mwyn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau.

## Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-20

## European Structural Funds 2014-20

13:48 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*3. Beth yw'r sefyllfa bresennol o ran cymeradwyo rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 ar gyfer Gorllewin De Cymru? OAQ(4)0393(FIN)*

*3. What is the current position with regard to the approval of the 2014-2020 European structural funds programmes for South Wales West? OAQ(4)0393(FIN)*

13:48 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The new structural funds programmes for Wales are currently being considered by the European Commission, with their approval expected in mid-summer due to delays in the UK Government's submission of the UK partnership agreement.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried rhaglenni newydd y cronfeydd strwythurol i Gymru ar hyn o bryd, a disgwylir iddynt gael eu cymeradwyo ganol yr haf o ganlyniad i oedi wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno cytundeb partneriaeth y DU.

13:48 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. Last month, you visited Swansea University's new campus, which has been partly funded by the European Investment Bank, and you saw for yourself the opportunities that science and research can bring to areas. Before programmes are submitted for approval, what discussions are you having to ensure that there is synergy between the structural funds programmes and Horizon 2020 in order for the programmes to be best utilised to benefit science, research and development, and the local economies that could grow from that?

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fis diwethaf, gwnaethoch ymweld â champws newydd Prifysgol Abertawe, a ariannwyd yn rhannol gan Fanc Buddsoddi Ewrop, a gwelsoch drosoch eich hun y cyfleoedd y gall gwyddoniaeth ac ymchwil eu cyflwyno i ardaloedd. Cyn y caiff rhaglenni eu cyflwyno i'w cymeradwyo, pa drafodaethau sy'n mynd rhagddynt er mwyn sicrhau bod synergedd rhwng rhaglenni'r cronfeydd strwythurol a Horizon 2020 er mwyn i'r rhaglenni gael eu defnyddio yn y ffordd orau er budd gwyddoniaeth, ymchwil a datblygu, a'r economïau lleol a allai ddatblygu o hynny?

- 13:48 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank David Rees for that question. I was delighted to visit the EU-funded, world-class innovation hub at Swansea's campus. It is an excellent example of the successful investment of EU funds and of the UK's membership of the EU. The work that the Horizon 2020 unit is doing through the Welsh European Funding Office is clearly ensuring that we have that synergy with the next round of structural funds. Indeed, we updated business last week at a very well attended business breakfast about the opportunities for business in the next round of structural funds. That was also attended by higher education institutions.
- Diolch i David Rees am y cwestiwn hwnnw. Roeddwn wrth fy modd yn ymweld â'r ganolfan arloesi wych a ariennir gan yr UE yng nghampws Abertawe. Mae'n enghraifft ardderchog o fuddsoddi cronfeydd yr UE yn llwyddiannus ac aelodaeth y DU o'r UE. Mae gwaith uned Horizon 2020 drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn amlwg yn sicrhau synergedd â'r cylch nesaf o gronfeydd strwythurol. Yn wir, rhoesom y wybodaeth ddiweddaraf i fusnesau yr wythnos diwethaf mewn brechwast busnes lle cafwyd lefelau presenoldeb uchel am y cyfleoedd i fusnesau yn ystod y cylch nesaf o gronfeydd strwythurol. Roedd sefydliadau addysg uwch hefyd yn bresennol.
- 13:49 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, ar ddydd Mawrth, bu i Jill Evans, Aelod Seneddol Ewropeaidd Plaid Cymru, ymweld â Glyn-nedd i weld y gwaith sy'n cael ei wneud yno i adnewyddu'r ardal gyda'n cynghorydd, Del Morgan, sydd wedi bod yn gwthio adfywiad yn yr ardal honno ers blynnyddoedd bellach. A fydech yn cytuno â mi a llongyfarch ein cynghorydd ni yn yr ardal honno am y gwaith y mae ef wedi ei wneud i sicrhau adfywiad yn yr ardal honno? Hefyd, a allwch chi ddweud wrthym, o'r arian Ewropeaidd a ddaw yn y dyfodol, pa fath o arian fydd yn mynd i'r ardal benodol hon, sy'n denu nifer fawr o dwristiaid ar gyfer y teithiau cerdded sy'n boblogaidd iawn yn yr ardal honno?
- Minister, on Tuesday, Jill Evans, the Plaid Cymru MEP, visited Glynneath to see the work that is being done there to regenerate the area with our councillor Del Morgan, who has been pressing for regeneration in that area for many years now. Would you agree with me and would you congratulate our councillor in that area on the work that he has done to ensure regeneration in that area? Could you also tell us, in terms of the European funding for the future, what kind of funds will be provided to this specific area, which attracts a great many tourists for the walking tours that are extremely popular in that area?
- 13:50 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, the outcome of that European Union funded investment, which, of course, was matched by our investment, in Glynneath has had excellent impact. If we look at the current round, in south-west Wales, EU projects have created 6,900 jobs and some 1,950 businesses and helped 19,000 people into work. That is the important message from the investment of our European funds. Of course, that will be reflected as we move forward with successful beneficiaries in the next round of programmes.
- Yn amlwg, mae canlyniad y buddsoddiad hwnnw a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, a gyfatebwyd, wrth gwrs, gan ein buddsoddiad ni, yng Nglyn-nedd wedi cael effaith ardderchog. Os ystyriwn y cylch presennol, yn ne-orllewin Cymru, mae prosiectau'r UE wedi creu 6,900 o swyddi a thua 1,950 o fusnesau ac wedi helpu 19,000 o bobl i ddod o hyd i waith. Dyna'r neges bwysig sy'n deillio o fuddsoddi ein cronfeydd Ewropeaidd. Wrth gwrs, caiff hynny ei adlewyrchu wrth inni symud ymlaen gyda buddiolwyr llwyddiannus yn y cylch nesaf o raglenni.
- 13:50 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, when the Enterprise and Business Committee met with European Commission officials recently, they emphasised the complementarity of using different funds, as David Rees has said. However, they also emphasised time and again the importance of a very clear strategic focus for the use of those funds. As those programmes are being developed now, will you be publishing an overarching European engagement strategy to make sure that we are making absolutely the most of all the opportunities that are available to us through funding and other engagement means too?
- Weinidog, pan gyfarfu'r Pwyllgor Menter a Busnes â swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd yn ddiweddar, gwnaethant bwysleisio ategolrwydd defnyddio gwahanol gronfeydd, fel y dywedodd David Rees. Fodd bynnag, gwnaethant hefyd bwysleisio dro ar ôl tro bwysigrwydd ffocws strategol clir iawn ar gyfer defnyddio'r cronfeydd hynny. Gan fod y rhaglenni hynny yn cael eu datblygu yn awr, a fyddwch yn cyhoeddi strategaeth gyffredinol ar gyfer ymgysylltu ag Ewrop er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael inni drwy drefniadau ariannu a dulliau ymgysylltu eraill hefyd?
- 13:51 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- May I say to Eluned Parrott that I was delighted to come before the Enterprise and Business Committee last week? We discussed these very issues in terms of not only synergy and complementarity with Horizon 2020 but all the other range of funds that, of course, can have an impact and dovetail with the structural funds.
- A gaf fi ddweud wrth Eluned Parrott fy mod wrth fy modd yn cael ymddangos gerbron y Pwyllgor Menter a Busnes yr wythnos diwethaf? Gwnaethom drafod yr union faterion hyn nid yn unig o ran synergedd ac ategolrwydd â Horizon 2020 ond hefyd o ran yr holl amrywiaeth o gronfeydd eraill a all, wrth gwrs, gael effaith ac ymblethu â'r cronfeydd strwythurol.

13:51	<b>Byron Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Minister, given that the new funding programme is on the horizon, as you have outlined, will you comment on WEFO as the delivery body of any approved funding programmes, given the concerns highlighted and reported by the Finance Committee and in Dylan Jones-Evans's report? Concerns were raised about the monitoring of what effect the funds totalling £1.8 billion between 2007 and 2013 were having on Welsh communities. Do you have confidence in WEFO's ability in this funding round?	Weinidog, o ystyried bod y rhaglen ariannu newydd ar y gorwel, fel yr amlinellwyd gennych, a wnewch sylwadau ar WEFO fel y corff ar gyfer rhoi unrhyw raglenni ariannu cymeradwy ar waith, o ystyried y pryderon a amlygwyd ac a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Cyllid ac yn adroddiad Dylan Jones-Evans? Codwyd pryderon ynghylch monitro pa effaith roedd y cyllid gwerth cyfanswm o £1.8 biliwn a fuddsoddiwyd rhwng 2007 a 2013 yn ei chael ar gymunedau yng Nghymru. A ydych yn hyderus yng ngallu WEFO yn y cylch ariannu hwn?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:52	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	I am clearly not only confident but I think the beneficiaries bear it out. I do not want to repeat the statistics again; I am sure that the Presiding Officer would not want me to. In terms of south-west Wales, do you not consider that that is an achievement? Of course, it is the managing authority, WEFO, that has helped to deliver it, as well as the project monitoring committee.	Yn amlwg, rwyf nid yn unig yn hyderus ond credaf fod y buddiolwyr yn profi hynny. Nid wyf am ailadrodd yr ystadegau eto; rwy'n siŵr na fyddai'r Llywydd am imi wneud hynny. O ran y de-orllewin, oni chredwch fod hynny'n gyflawniad? Wrth gwrs, yr awdurdod rheoli, WEFO, sydd wedi helpu i'w gyflawni, ar y cyd â phwyllgor monitro'r prosiect.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Prosiectau Cyfalaf Newydd</b>		<b>New Capital Projects</b>		
13:52	<b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido prosiectau cyfalaf newydd? OAQ(4)0381(FIN)</i>	<i>4. Will the Minister make a statement on the funding of new capital projects? OAQ(4)0381(FIN)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:52	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	We are continuing to use all the tools we have at our disposal to support our investment priorities set out in the Wales infrastructure investment plan and boost jobs and growth.	Rydym yn parhau i ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael inni i gefnogi ein blaenoriaethau buddsoddi a nodir yng nghynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ac i hybu swyddi a thwf.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:52	<b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Diolch am yr ateb hwnnw. Wrth gwrs, rydym wedi trafod trydaneiddio rheilffyrdd Cymru yn barod, yn enwedig trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Nid wyf eisiau trafod y ddadl sy'n bodoli rhwng San Steffan a Chymru, ond rwyf am ddeall pa drafodaethau yr ydych fel Llywodraeth wedi eu cael â Network Rail, gan mai Network Rail fydd yn delifro ar sialens y prosiect hwn. A allwch chi ehangu ar yr hyn yr ydych wedi ei wneud hyd yn hyn fel Llywodraeth?	Thank you for that response. Of course, we have already discussed the electrification of Welsh railways, particularly the electrification of the Valleys lines. I do not want to discuss the ongoing argument between Westminster and Wales, but I do want to understand what discussions you as a Government have had with Network Rail, as it will actually deliver on the challenge of this project. Could you expand on what you have done to date as a Government?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:53	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Well, that is a matter for the Minister for Economy, Science and Transport. Clearly, it is also a very important priority in terms of transport in our Wales infrastructure investment plan.	Wel, mater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw hynny. Yn amlwg, mae hefyd yn flaenoriaeth bwysig iawn o ran trafnidiaeth yn ein cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:54	<b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Could the Minister give a progress report on how the plans for the new cancer hospital at Veldinre are developing, and what method of capital finance would be used?	A allai'r Gweinidog roi adroddiad cynnydd ar hynt y cynlluniau ar gyfer yr ysbyty cancer newydd yn Felindre, a pha ddull cyllid cyfalaf a gâi ei ddefnyddio?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 13:53 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Julie Morgan for that question from Cardiff North. We have already announced that we are working with the Velindre NHS Trust to identify ways in which we can finance innovative finance opportunities for attracting what would be £200 million capital investment, because it is about developing a new cancer centre. That, of course, is to ensure that Welsh patients continue to receive the best care and cancer treatments. Certainly, I will have more to say on the progress of this in due course.
- Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn hwnnw o Ogledd Caerdydd. Rydym eisoes wedi cyhoeddi ein bod yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre i nodi ffyrdd y gallwn ariannu cyfleoedd cyllid arloesol i ddenu buddsoddiad cyfalaf o £200 miliwn, gan ei fod yn ymwneud â datblygu canolfan cancer newydd. Gwneir hynny, wrth gwrs, er mwyn sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn parhau i dderbyn y gofal a'r triniaethau cancer gorau. Yn sicr, bydd gennyf ragor i'w ddweud am gynnydd yn hyn o beth maes o law.
- 13:54 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The M4 in south Wales is one of the worst traffic bottlenecks in the United Kingdom. Traffic congestion around Newport, Minister, is a regular phenomenon for the people and the police in Newport and it is damaging our economy in South Wales East. Will the Minister update this Assembly as to when funding will be made available to allow work to commence on the much needed relief road?
- Mae'r M4 yn y de ymhlith y ffyrdd lle ceir y tagfeydd traffig gwaethaf yn y Deyrnas Unedig. Mae tagfeydd traffig yng nghyffiniau Casnewydd, Weinidog, yn ffenomenon rheolaidd i bobl a heddlu Casnewydd ac mae'n cael effaith andwyol ar ein heconomi yn Nwyrain De Cymru. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad o ran pryd y caiff arian ei ryddhau i ganiatáu i waith ddechrau ar y ffordd liniaru sydd ei hangen yn ddirfawr?
- 13:54 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, the great thing, and I am sure that we will all unite on this, is the news that we got confirmation in terms of the Wales Bill last week that we will have early access to borrowing, and the M4 is a key candidate project for that. It is a hugely important project; it is the Confederation of British Industry's No. 1 project priority for Wales. We await the outcome of the consultation, but I am confident that now that we can move forward in terms of those borrowing powers so that we can proceed in terms of affordability.
- Wrth gwrs, y peth ardderchog, ac rwy'n siŵr y bydd pawb yn cytuno ar hyn, yw'r newyddion ein bod wedi cael cadarnhad o ran Bil Cymru yr wythnos diwethaf y byddwn yn gallu gwneud cais am fenthyciadau cynnar, ac mae'r M4 yn brosiect ymgeisio allweddol yn hynny o beth. Mae'n brosiect hynod bwysig; dyma brif flaenoriaeth Cydffederasiwn Diwydiant Prydain o ran prosiectau yng Nghymru. Rydym yn aros am ganlyniad yr ymgynghoriad, ond rwy'n hyderus y gallwn bellach symud ymlaen o ran y pwerau benthycia hynny er mwyn inni allu bwrw ati o ran fforddiadwyedd.
- 13:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.
- Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 13:55 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, you will know that, among the consequentials from last week's budget, the Welsh Government is receiving £18.39 million in capital over the next two years, which it can, of course, use for infrastructure investment. Can you confirm that you will be using this money in that way to boost infrastructure development in Wales?
- Diolch, Lywydd. Weinidog, fel y gwyddoch, ymhlith y symiau canlyniadol o gyllideb yr wythnos diwethaf, mae Llywodraeth Cymru yn cael £18.39 miliwn mewn cyfalaf dros y ddwy flynedd nesaf, y gall, wrth gwrs, ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. A allwch gadarnhau y byddwch yn defnyddio'r arian hwn yn y fath fodd i hybu datblygiadau seilwaith yng Nghymru?
- 13:55 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Importantly, we now have a Wales infrastructure investment plan, which steers the pipeline of projects, which has clear priorities, which is backed by business, and which also includes local government priorities. It is clear that the infrastructure decisions that I will make will be based on that plan.
- Yn bwysig, mae cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru bellach ar waith, sy'n llywio'r prosiectau sydd ar y gweill, sy'n cynnwys blaenoriaethau clir, a gefnogir gan fusnesau, ac sydd hefyd yn cynnwys blaenoriaethau llywodraeth leol. Mae'n amlwg y bydd y penderfyniadau seilwaith a wneir gennyf yn seiliedig ar y cynllun hwnnw.

- 13:56 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. You will know that that extra capital consequential is just one of many capital consequentials that you have received over the years, making up some of the shortfall in capital that the Welsh Government has experienced, which is not as bad as it would have been under Alistair Darling's original plans back in 2009. Given that you are getting this additional money, can you confirm when you will be revealing to us how that money will be spent, and can you say which part of the infrastructure plan the money will be committed to?
- Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, dim ond un o blith llawer o symiau cyfalaf canlyniadol a gawsoch dros y blynyddoedd yw'r swm cyfalaf canlyniadol ychwanegol hwnnw, gan wneud iawn am rywfaint o'r diffyg cyfalaf a brofwyd gan Lywodraeth Cymru, nad yw cynddrwg ag y byddai wedi bod o dan gynlluniau gwreiddiol Alistair Darling nôl yn 2009. O ystyried eich bod yn cael yr arian ychwanegol hwn, a allwch gadarnhau pryd y byddwch yn datgelu inni sut y caiff yr arian hwnnw ei wario, ac a allwch ddweud pa ran o'r cynllun seilwaith y caiff yr arian ei ymrwymo iddi?
- 13:56 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I would say that although we, of course, welcome the capital consequentials, we are still bearing a 31% cut. We are still driving our innovative finance solutions, as I just said in response to the question about a new cancer centre. We also now have borrowing powers. We are constrained by the fact that we have 15% of our capital spending power through financial transactions, and as you know, Peter Black, that is something on which we are negotiating for the best repayment arrangements that we can have.
- Wel, hoffwn ddweud er ein bod, wrth gwrs, yn croesawu'r symiau cyfalaf canlyniadol, ein bod yn dal i ysgwyddo gostyngiad o 31%. Rydym yn dal i ystyried ein datrysiadau cyllid arloesol, fel y dywedais wrth ymateb i'r cwestiwn am ganolfan canser newydd. Mae gennym bellach bwerau benthyca hefyd. Mae'r ffaith bod 15% o'n grym gwario cyfalaf yn deillio o drafodion ariannol yn ein cyfyngu, ac, fel y gwyddoch, Peter Black, mae hynny'n rhywbeth rydym yn ei drafod er mwyn sicrhau'r trefniadau ad-dalu gorau posibl.
- 13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 5 was grouped for answer and answered earlier on. I call William Powell to ask question 6.
- Cafodd cwestiwn 5 ei grwpio i'w ateb ac fe'i hatebwyd yn gynharach. Galwaf ar William Powell i ofyn cwestiwn 6.

## Dyraniadau Buddsoddi i Arbed

## Invest-to-save Allocations

- 13:57 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd dyraniadau Buddsoddi i Arbed i'r gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? OAQ(4)0388(FIN)*
- 6. Will the Minister make a statement on the availability of Invest to Save allocations to the Health and Social Services budget? OAQ(4)0388(FIN)*
- 13:57 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Invest-to-save support is available to public service providers in Wales, including local health boards and NHS trusts. Bids made under round eight of the fund are currently being considered and I will be making announcements about new awards shortly.
- Mae cymorth Buddsoddi i Arbed ar gael i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae ceisiadau a wnaed o dan gylch wyth o'r gronfa yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a byddaf yn gwneud cyhoeddiadau am ddyfarniadau newydd yn fuan.
- 13:57 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Minister very much for that response. Two weeks ago, in its report on the supplementary budget, the Finance Committee found that:
- Diolch yn fawr i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Bythefnos yn ôl, yn ei adroddiad ar y gyllideb atodol, canfu'r Pwyllgor Cyllid mai:
- 'Invest-to-save funds should only be used where there is robust evidence of savings resulting from the investment, not where this is a need for extra funding, which will probably result in savings over time.'
- 'Dim ond mewn achosion lle mae tystiolaeth gadarn bod arbedion yn cael eu cynhyrchu o fuddsoddiadau y dylid defnyddio cronfeydd buddsoddi i arbed, ac nid ar gyfer achosion lle mae angen arian ychwanegol, sy'n debygol o gynhyrchu arbedion dros amser.'

One example that would, in my view, perfectly fit the bill in this connection would be if such funds were to be committed to the development of the pain management facility at Bronllys Hospital in Powys, where direct savings could be made that would apply to the overall NHS in Wales, particularly by reducing patients' dependency on costly and increasingly ineffective painkilling medication. Given that, to what extent have you discussed the use of such funding allocations with your colleague, the Minister for Health and Social Services, and what assessment has been made of the potential savings that could flow from that?

Un enghraifft a fyddai, yn fy marn i, yn gwbl addas yn y cyswllt hwn fyddai pe câi cronfeydd o'r fath eu hymrwymo i ddatblygu'r cyfleuster rheoli poen yn Ysbyty Bronllys ym Mhowys, lle y gellid sicrhau arbedion uniongyrchol a fyddai'n berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, yn enwedig drwy leihau dibyniaeth cleifion ar feddyginiaeth lladd poen costus a chynyddol aneffeithiol. O ystyried hynny, i ba raddau rydych wedi trafod y defnydd o ddyraniadau cyllid o'r fath gyda'ch cyd-Weinidog, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a pha asesiad a wnaed o'r arbedion posibl a allai ddeillio o hynny?

- 13:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I think that you have stretched your time somewhat there. I call the Minister. Credaf eich bod wedi mynd dros eich amser braidd. Galwaf ar y Gweinidog.
- 13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Very briefly in response, innovative ways of delivering services are part of the aim and motive of invest-to-save, but it is also, crucially, about driving the delivery of savings. Obviously, health boards are free to put proposals forward. Yn gryno iawn mewn ymateb, mae ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau yn rhan o nod a chymhelliant buddsoddi i arbed, ond mae a wnelo hefyd, yn hollbwysig, â sicrhau arbedion. Yn amlwg, mae croeso i fyrdau iechyd gyflwyno cynigion.
- 13:59 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
The Minister knows that I strongly support invest-to-save. It is important that real savings are generated by invest-to-save so that they can be invested back into future schemes. Councils are using borrowing from reserves as an alternative to the Welsh Government's invest-to-save scheme. Can the Minister confirm that only schemes that generate real savings will be supported by the Welsh Government? Mae'r Gweinidog yn gwybod fy mod yn gadarn o blaid buddsoddi i arbed. Mae'n bwysig bod buddsoddi i arbed yn esgor ar arbedion gwirioneddol er mwyn gallu buddsoddi'r arbedion hynny mewn cynlluniau yn y dyfodol. Mae cynghorau yn benthyca o gronfeydd wrth gefn yn lle defnyddio cynllun buddsoddi i arbed Llywodraeth Cymru. A all y Gweinidog gadarnhau mai dim ond cynlluniau sy'n esgor ar arbedion gwirioneddol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru?
- 13:59 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Well, clearly, it is about the delivery of savings in order for us to use those recycled savings to invest further in projects that meet the criteria. Wel, yn amlwg, mae'n ymwneud â chyflawni arbedion er mwyn inni ailgylchu'r arbedion hynny a'u defnyddio i fuddsoddi ymhellach mewn prosiectau sy'n bodloni'r meini prawf.
- 13:59 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Minister, there is clear evidence that investment in primary and community care can help to save money elsewhere in the national health service, and enable people to innovate. Given that you are making record-breaking cuts to the national health service budgets, what scope is there within future budget rounds, or perhaps even within next year's budget round, for some additional flexibility for innovation within the national health service in Wales? Weinidog, mae tystiolaeth glir y gall buddsoddi mewn gofal sylfaenol a chymunedol helpu i arbed arian mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth iechyd gwladol, a galluogi pobl i arloesi. O ystyried eich bod yn gwneud toriadau uwch nag erioed i gyllidebau'r gwasanaeth iechyd gwladol, pa bosibiliadau sydd o fewn cylchoedd cyllidebol yn y dyfodol, neu efallai hyd yn oed o fewn cylch cyllidebol y flwyddyn nesaf, am rywffaint o hyblygrwydd ychwanegol ar gyfer arloesi o fewn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru?

14:00	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I do not know whether £620 million more into the Welsh NHS over three years is record-breaking cuts; it is certainly not to the people who responded positively to that announcement. You make a very valid point about the fact that we are trying to drive that change and invest in primary and community healthcare. Of course, that is reflected in many of the invest-to-save and regional collaboration fund projects that are forthcoming.</p>	<p>Nid wyf yn gwybod pa un a yw buddsoddi £620 miliwn yn fwy yn y GIG yng Nghymru dros dair blynedd yn cyfateb i doriadau uwch nag erioed; yn sicr nid felly i'r bobl a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cyhoeddiad hwnnw. Gwnewch bwynt dilys iawn am y ffaith ein bod yn ceisio rhoi'r newid hwnnw ar waith a buddsoddi mewn gofal iechyd sylfaenol a chymunedol. Wrth gwrs, caiff hynny ei adlewyrchu mewn sawl un o'r prosiectau buddsoddi i arbed a phrosiectau'r gronfa cydweithredu rhanbarthol sydd yn yr arfaeth.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:00	<p><b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, one of the key recommendations made in the interim evaluation of the invest-to-save scheme was that, instead of waiting for external organisations to submit ideas for funding, the Welsh Government could set out key themes for each round of bidding, in order to tackle and target specific Welsh Government priorities. In other words, take the lead and drive the agenda.</p>	<p>Weinidog, un o'r argymhellion allweddol a wnaed yn y gwerthusiad interim o'r cynllun buddsoddi i arbed oedd y gallai Llywodraeth Cymru, yn hytrach nag aros i sefydliadau allanol gyflwyno syniadau i'w hariannu, bennu themâu allweddol ar gyfer pob cylch o geisiadau, er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau penodol Llywodraeth Cymru a'u targedu. Hynny yw, cymryd yr awenau a llywio'r agenda.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:00	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I certainly believe that that is what we are doing, Lindsay Whittle. I think that the report from the Finance Committee was very valuable in that respect.</p>	<p>Yn sicr, credaf mai dyna rydym yn ei wneud, Lindsay Whittle. Credaf fod adroddiad y Pwyllgor Cyllid wedi bod yn werthfawr iawn yn hynny o beth.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Cronfeydd Strwythurol</b>		<b>Structural Funds</b>	
14:01	<p><b>Julie James</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth gyffredinol ar gyfer defnyddio cronfeydd strwythurol yn ne-orllewin Cymru? OAQ(4)0383(FIN)</i></p>	<p><i>7. Will the Minister make a statement on the overall strategy for utilising structural funds in south-west Wales? OAQ(4)0383(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:01	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Our strategy for maximising the European structural funds in Wales is to work in partnership to deliver economic growth, create jobs and support individuals in greatest need.</p>	<p>Ein strategaeth ar gyfer gwneud y gorau o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru yw gweithio mewn partneriaeth i sicrhau twf economaidd, creu swyddi a chynorthwyo'r unigolion mwyaf anghenus.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:01	<p><b>Julie James</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, Minister. We have heard a lot in the Chamber and in our various committees about a range of EU funds, including the structural funds, and how they enhance an enormous number of areas of strategic importance to Wales. Minister, will you look at ensuring that the whole range of EU funds, especially in areas that are subject to the structural funds, reach those people in Wales who most need access to those funds and benefit the people and businesses of the areas currently benefiting from the structural funds?</p>	<p>Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rydym wedi clywed cryn dipyn yn y Siambr ac yn ein hamrywiol bwyllgorau am amrywiaeth o gronfeydd yr UE, gan gynnwys y cronfeydd strwythurol, a sut maent yn gwella nifer eithriadol o ardaloedd sydd o bwysigrwydd strategol i Gymru. Weinidog, a ewch ati i sicrhau bod yr amrywiaeth cyfan o gronfeydd yr UE, yn enwedig mewn ardaloedd y mae'r cronfeydd strwythurol yn berthnasol iddynt, yn cyrraedd y bobl hynny yng Nghymru y mae angen y cronfeydd hynny arnynt fwyaf a'u bod o fudd i bobl a busnesau'r ardaloedd y mae'r cronfeydd strwythurol o fudd iddynt ar hyn o bryd?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:01 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly, this is where the partnership is crucial. It is a partnership between the public, private and third sectors. Of course, it is also a partnership with further education, higher education and, indeed, communities. In terms of progressing to the next stage, it is imperative that we engage and deliver for those outcomes that you so clearly articulate.

Yn amlwg, dyma lle mae'r bartneriaeth yn hanfodol. Mae'n bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Wrth gwrs, mae hefyd yn bartneriaeth ag addysg bellach, addysg uwch ac, yn wir, cymunedau. O ran symud ymlaen i'r cam nesaf, mae'n hanfodol ein bod yn ymgysylltu ac yn cyflawni er mwyn sicrhau'r canlyniadau hynny a fynegir mor glir gennych.

14:02 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, the overall aim of structural funding is to improve the economic output of the areas in receipt of those funds. When west Wales and the Valleys qualified for funding in 1999, it was the Government's aspiration to reach a Welsh gross value added of 95% of the UK level. As we enter the third round of funding, the Welsh GVA is at 72.3%. What GVA target are you setting for this round of funding and what are you changing in order to achieve it?

Weinidog, nod cyffredinol cyllid strwythurol yw gwella allbwn economaidd yr ardaloedd sy'n cael y cyllid hwnnw. Pan ddaeth gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys i gael cyllid yn 1999, dyhead y Llywodraeth oedd cyrraedd gwerth ychwanegol crynswth o 95% o lefel y DU yng Nghymru. Wrth inni ddechrau'r trydydd cylch ariannu, mae gwerth ychwanegol crynswth Cymru ar lefel o 72.3%. Pa darged GYC rydych yn ei bennu ar gyfer y cylch ariannu hwn a beth rydych yn ei newid er mwyn ei gyflawni?

14:02 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Clearly, we want to move to the point where we improve our GVA. It is also against the backdrop of the investment that we have to make, in line with the programme objectives. It has to build on what has delivered appropriately in this round. Of course, that is where it is all-important that the backbone projects take us forward, as well as the economic prioritisation framework.

Yn amlwg, rydym am symud at y pwynt lle y byddwn yn gwella ein GYC. Mae hefyd yn erbyn cefndir y buddsoddiad y mae'n rhaid inni ei wneud, yn unol ag amcanion y rhaglen. Rhaid iddo adeiladu ar yr hyn a lwyddodd i'w gyflawni'n briodol yn ystod y cylch hwn. Wrth gwrs, dyna lle y mae'n hollbwysig sicrhau mai'r prosiectau meingefn sy'n ein tywys ymlaen, yn ogystal â'r fframwaith blaenoriaethu economaidd.

14:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Question 8 was grouped and was answered earlier. We now move to question 9.

Cafodd cwestiwn 8 ei grwpio ac fe'i hatebwyd yn gynharach. Symudwn yn awr i gwestiwn 9.

### Cyllidebau Cyfalaf Tan 2016-17

### Capital Budgets for 2016-17

14:03 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllidebau cyfalaf tan 2016-17? OAQ(4)0380(FIN)

9. Will the Minister make a statement on capital budgets to 2016-17? OAQ(4)0380(FIN)

14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The UK Government has yet to publish its budgets for 2016-17, but by 2015-16 our capital budget will be 31% lower in real terms than it was in 2009-10.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei chyllidebau ar gyfer 2016-17 eto, ond erbyn 2015-16 bydd ein cyllideb cyfalaf 31% yn is mewn termau real nag oedd yn 2009-10.

14:03 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Does the Minister agree with me that one of the most short-sighted actions that the UK Government has done has been to cut our capital budgets, which were originally budgeted, I think, to be cut by 40%? Is it not likely, on the basis of the Institute for Fiscal Studies's analysis of the budget over the last week, that capital budgets stand to be cut even further by the UK coalition Government, having a depressing effect on employment in the construction industry?

A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi mai un o'r camau gwaethaf lle nad ystyriwyd y canlyniadau hirdymor a gymerodd Llywodraeth y DU fu lleihau ein cyllidebau cyfalaf, y bwriadwyd yn wreiddiol, credaf, eu lleihau 40%? Onid yw'n debygol, ar sail dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid o'r gyllideb dros yr wythnos ddiwethaf, y caiff cyllidebau cyfalaf eu lleihau hyd yn oed ymhellach gan Lywodraeth glymblaid y DU, gan gael effaith andwyol ar gyflogaeth yn y diwydiant adeiladu?

- 14:04 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- That is absolutely true. I thank Leighton Andrews for that question and for making that point. It is quite clear that the Organisation for Economic Co-operation and Development says that it is investment in schools and infrastructure that will lead to a balanced recovery. We will not have a balanced recovery unless we have that investment. That is why I called for a boost in our capital budget from the UK Government, which, of course, was not forthcoming in the budget last week.
- Mae hynny'n hollol wir. Diolch i Leighton Andrews am y cwestiwn hwnnw ac am wneud y pwynt hwnnw. Mae'n eithaf amlwg bod y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn nodi mai buddsoddi mewn ysgolion a seilwaith fydd yn arwain at adferiad cytbwys. Ni cheir adferiad cytbwys oni wneir y buddsoddiad hwnnw. Dyna pam y gofynnais am gynnydd i'n cyllideb cyfalaf gan Lywodraeth y DU, nas cafwyd, wrth gwrs, yn y gyllideb yr wythnos diwethaf.
- 14:04 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- In an earlier answer, Minister, you mentioned that borrowing powers would be available in the near future to fund major infrastructure projects such as the M4 relief road and that this ability would support capital projects. What specific discussions have you had on the M4 relief road with the UK Government and what timescales are we looking at?
- Mewn ateb cynharach, Weinidog, gwnaethoch sôn y byddai pwerau benthyca ar gael yn y dyfodol agos i ariannu prosiectau seilwaith mawr fel ffordd liniaru'r M4 ac y byddai'r gallu hwn yn cefnogi prosiectau cyfalaf. Pa drafodaethau penodol rydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am ffordd liniaru'r M4 a pha amserlenni a bennwyd?
- 14:05 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- This is clearly an important project, which, of course, is led by the Minister for the Economy, Science and Transport. She will report on the outcome of the consultations that she has been undertaking. However, as Finance Minister, I have been working to secure with the Chief Secretary to the Treasury the right profile in terms of access to borrowing to ensure that we have the finances right when the project is ready to go.
- Mae hwn yn amlwg yn brosiect pwysig, a gaiff, wrth gwrs, ei arwain gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Bydd yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ganddi. Fodd bynnag, fel y Gweinidog Cyllid, bûm yn gweithio gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys i sicrhau'r proffil cywir o ran y gallu i fenthyca er mwyn sicrhau bod y cyllid priodol gennym pan ddaw'n bryd rhoi'r prosiect ar waith.
- 14:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the Plaid Cymru finance spokesperson, Jocelyn Davies.
- Galwaf ar lefarydd cyllid Plaid Cymru, Jocelyn Davies.
- 14:05 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, as you know, the capital budget available is a reflection of spend in England, and the lack of clarity on UK Government spending announcements, as we saw recently with flooding and the costs associated with it, causes uncertainty for us in relation to the consequentials. So, what work is being done to get that needed clarity at the time that UK Governments make announcements?
- Diolch, Lywydd. Weinidog, fel y gwyrddoch, mae'r gyllideb gyfalaf sydd ar gael yn adlewyrchu gwariant yn Lloegr, ac mae'r diffyg eglurder o ran cyhoeddiadau gwariant Llywodraeth y DU, fel y gwelsom yn ddiweddar gyda'r llifogydd a'r costau cysylltiedig, yn achosi ansicrwydd inni mewn perthynas â'r symiau canlyniadol. Felly, pa waith sy'n mynd rhagddo er mwyn sicrhau'r eglurder sydd ei angen pan fydd Llywodraeth y DU yn gwneud cyhoeddiadau?
- 14:06 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- That is vital, and I thank Jocelyn Davies for that question. Quite clearly, we got no consequential from any of the flooding announcements that were made. I am very pleased, alongside the Minister for Natural Resources and Food and the Minister for the Economy, Science and Transport, that we had already invested, as a result of our investment in priorities, in flood protection. However, I made the point to the Chief Secretary to the Treasury that I felt that we had not been informed in time and that we had not been alerted. Fortunately, we had made provision. However, that point was very carefully and firmly made in my last meeting with the Chief Secretary to the Treasury.
- Mae hynny'n hanfodol, a diolch i Jocelyn Davies am y cwestiwn hwnnw. Yn amlwg, ni chawsom unrhyw symiau canlyniadol o unrhyw un o'r cyhoeddiadau a wnaed mewn perthynas â'r llifogydd. Rwy'n falch iawn, fel y mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ein bod eisoes wedi buddsoddi, o ganlyniad i'n buddsoddiad mewn blaenoriaethau, ym maes amddiffyn rhag llifogydd. Fodd bynnag, dywedais wrth Brif Ysgrifennydd y Trysorlys fy mod o'r farn nad oeddem wedi cael gwybod mewn pryd ac nad oeddem wedi cael ein rhybuddio. Yn ffodus, roeddem wedi darparu ar gyfer sefyllfa o'r fath. Fodd bynnag, gwnaed y pwynt hwnnw'n ofalus ac yn gadarn iawn yn ystod fy nghyfarfod diwethaf gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

14:06	<b>Jocelyn Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Minister, you mentioned earlier that you were looking forward to the borrowing powers and the early access to borrowing intended, as you said, for the M4, which you referred to earlier as the 'candidate project'. Can you outline for us what control you will have over early access, whether that offer is completely conditional on the M4 project or whether other infrastructure projects could be in the running?	Weinidog, gwnaethoch sôn yn gynharach eich bod yn edrych ymlaen at y pwerau benthycyca a'r cyfle i fenthycyca'n gynnar a fwriadwyd, fel y dywedaso, ar gyfer yr M4, y gwnaethoch gyfeirio ato yn gynharach fel y 'prosiect ymgeisio'. A allwch amlinellu inni pa reolaeth a fydd gennych dros y gallu i fenthycyca'n gynnar, pa un a yw'r cynnig hwnnw yn gwbl amodol ar brosiect yr M4 neu pa un a allai prosiectau seilwaith eraill fod yn gymwys?
14:07	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Clearly, we were very encouraged by the timescale for the Bill that is coming forward. In fact, it was published last week and the timescale means that we should have it on the statute book certainly, hopefully, in this calendar year and, if not, early in the next. So, we are going to have our full panoply of legislative powers. However, early access is crucial to ensure that we have a borrowing line for projects like the M4. However, that does not exclude other projects that may be appropriate and that have business cases ready to go.	Yn amlwg, roedd yr amserlen ar gyfer y Bil newydd yn galonogol iawn. Yn wir, fe'i cyhoeddwyd yr wythnos diwethaf ac mae'r amserlen yn golygu y dylai fod ar y llyfr statud yn sicr, gobeithio, yn ystod y flwyddyn galendr hon ac, os nad felly, yn gynnar yn ystod y flwyddyn galendr nesaf. Felly, bydd gennym ein dewis llawn o bwerau deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r gallu i fenthycyca yn gynnar yn hanfodol er mwyn sicrhau bod llinell benthycyca ar waith ar gyfer prosiectau fel yr M4. Fodd bynnag, nid yw hynny'n eithrio prosiectau eraill a allai fod yn briodol ac y mae ganddynt achosion busnes yn barod i'w cyflwyno.
	<b>Sector Preifat</b>	<b>Private Sector</b>
14:07	<b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<i>10. Sut y mae'r Gweinidog yn ceisio cynyddu cyfranogiad y sector preifat mewn cronfeydd strwythurol newydd a rhaglenni cysylltiedig? OAQ(4)0386(FIN)</i>	<i>10. How is the Minister seeking to increase the involvement of the private sector in new structural funds and related programmes? OAQ(4)0386(FIN)</i>
14:08	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	I am committed to ensuring that businesses across Wales continue to benefit from vital EU investments, including through multi-million pound EU schemes such as business start-up and the north Wales local investment fund, and from the procurement opportunities of EU projects.	Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod busnesau ledled Cymru yn parhau i elwa ar fuddsoddiadau hanfodol gan yr UE, gan gynnwys drwy gynlluniau gwerth miliynau o bunnoedd gan yr UE megis cynlluniau dechrau busnes, a'r gronfa fuddsoddi leol yng ngogledd Cymru, ac o'r cyfleoedd caffael sy'n gysylltiedig â phrosiectau'r UE.
14:08	<b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Thank you very much for that, Minister. I think that most people will understand that co-operation with the private sector is the key to getting the most out of this latest round of structural funds. During the last round, some 1,906 businesses, employing some 5,000 people across north Wales, benefited from this funding. To me—and I hope this is the case for other Members in the Chamber—that shows that membership of the EU is an integral part of the economy of north Wales. What assessment have you made, Minister, of the potential impact on the economy of north Wales of these new structural funds?	Diolch yn fawr iawn am hynny, Weinidog. Credaf y bydd y rhan fwyaf o bobl yn deall bod cydweithredu â'r sector preifat yn allweddol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cylch diweddaraf hwn o'r cronfeydd strwythurol. Yn ystod y cylch diwethaf, bu'r cyllid hwn o fudd i tua 1,906 o fusnesau, sy'n cyflogi tua 5,000 o bobl ledled gogledd Cymru. I mi—a gobeithio bod yr un peth yn wir ar gyfer Aelodau eraill yn y Siambr—mae hynny'n dangos bod aelodaeth o'r UE yn rhan annatod o economi gogledd Cymru. Pa asesiad a wnaethoch, Weinidog, o effaith bosibl y cronfeydd strwythurol newydd hyn ar economi gogledd Cymru?
14:08	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	First, I wholeheartedly agree with Ann Jones that it is going to be about co-operation with the private sector. I met with some representatives last week at a business breakfast to look at the next round of programmes. In terms of north Wales, I look forward to meeting businesses at the St Asaph business forum on Friday. I know that that will help to inform the way forward.	Yn gyntaf, cytunaf yn llwyr ag Ann Jones o ran pwysigrwydd cydweithredu â'r sector preifat. Cyfarfûm â rhai cynrychiolwyr yr wythnos diwethaf mewn brecwast busnes i ystyried y cylch nesaf o raglenni. O ran gogledd Cymru, edrychaf ymlaen at gyfarfod â busnesau yn fforwm busnes Llanelwy ddydd Gwener. Gwn y bydd hynny'n helpu i lywio'r ffordd ymlaen.

14:09	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Minister, a look at the list of approved projects for the current round of structural funds shows one private sector-led project valued at £112,000, 22 third sector-led projects valued in total at £66 million and 63 public sector-led projects valued in total at £651 million. As we are eligible for yet another round of funding, this might suggest that the current distribution of responsibilities is not working as effectively as it might. Will you be looking at a different balance for the next round of funding to see whether increased private and third sector leadership might produce consistently better results for Wales?</p>	<p>Weinidog, drwy edrych ar y rhestr o brosiectau a gymeradwywyd ar gyfer y cylch presennol o gronfeydd strwythurol, gwelir bod un prosiect a arweinir gan y sector preifat yn werth £112,000, bod 22 o brosiectau a arweinir gan y trydydd sector yn werth cyfanswm o £66 miliwn a bod 63 o brosiectau a arweinir gan y sector cyhoeddus yn werth cyfanswm o £651 miliwn. Gan ein bod yn gymwys ar gyfer cylch ariannu arall eto, gallai hyn awgrymu nad yw'r dosbarthiad cyfrifoldebau presennol yn gweithio mor effeithiol ag y gallai. A ystyriwch gydbwysedd gwahanol ar gyfer y cylch ariannu nesaf er mwyn gweld pa un a allai arweinyddiaeth gynyddol o'r sector preifat a'r trydydd sector arwain at ganlyniadau cyson well i Gymru?</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:10	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>If you look at independent business surveys that have been carried out over this round, you will see that 30% of businesses reported that performance in their workplace would have been worse off without European regional development fund support. I think that that speaks for itself. Also, 35% to 40% of businesses surveyed reported that EU funds had a positive effect on turnover, profitability and productivity, so that stands us in good stead for the next round.</p>	<p>Os edrychwch ar arolygon busnes annibynnol a gynhaliwyd yn ystod y cylch hwn, fe welwch fod 30% o'r busnesau yn nodi y byddai perfformiad yn eu gweithle wedi bod yn waeth heb gymorth cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop. Credaf fod hynny'n siarad drosto'i hun. Hefyd, nododd 35% i 40% o'r busnesau a arolygwyd fod arian yr UE wedi cael effaith gadarnhaol ar drosiant, proffidoldeb a chynhyrchiant, felly mae hynny'n golygu ein bod mewn sefyllfa dda o ran y cylch nesaf.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:10	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Weinidog, rwy'n falch iawn eich bod wedi datgan bod llawer iawn mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod y sector preifat yn cael mynediad at y cronfeydd strwythurol, ac, yn wir, at gronfeydd Ewropeaidd eraill. Pa ystyriaeth ydych chi wedi ei roi i'r galwad gan Leanne Wood yng nghynhadledd y gwanwyn Plaid Cymru y dylid sefydlu corff oddi allan i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y sector preifat yn ymwneud fwyfwy â chyllid Ewropeaidd?</p>	<p>Minister, I am very pleased that you have stated that there is a great deal more work to be done in order to ensure that the private sector gains access to the structural funds and, in fact, to other European funds. What consideration have you given to the call by Leanne Wood in the Plaid Cymru spring conference that a separate body outwith Welsh Government should be established to ensure that the private sector is increasingly involved in European funding?</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:11	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>The private sector is fully engaged in our programme monitoring committee and I have already mentioned the important event that I had last week with business about how they see the way forward in terms of structural funds, engaging fully in project development.</p>	<p>Caiff y sector preifat ei gynnwys yn llawn yn ein pwyllgor monitro rhaglenni ac rwyf eisoes wedi sôn am y digwyddiad pwysig a gefais yr wythnos diwethaf gyda busnesau ynghylch eu barn hwy am y ffordd ymlaen o ran cronfeydd strwythurol, gan ymgysylltu'n llawn yn y broses o ddatblygu prosiectau.</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Of course, they very much welcome the economic prioritisation framework that is being developed by Grahame Guilford. Clearly, it is engagement with business that is key to the next round of structural funds.</p>	<p>Wrth gwrs, maent yn croesawu'r fframwaith blaenoriaethu economaidd sy'n cael ei ddatblygu gan Grahame Guilford yn fawr. Yn amlwg, mae ymgysylltu â busnesau yn allweddol i'r cylch nesaf o gronfeydd strwythurol.</p>		
	<b>Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth</b>	<b>Economy, Science and Transport</b>		
14:11	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>11. A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllid untro ychwanegol i bortffolio yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth? OAQ(4)0385(FIN)</p>	<p>11. Does the Minister have any plans to allocate additional one-off funding to the Economy, Science and Transport portfolio? OAQ(4)0385(FIN)</p>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 14:11 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I continuously monitor, together with the relevant Minister, opportunities and pressures across all portfolio budgets to ensure that we effectively manage the resources available to us and maximise the benefits to Wales.
- Gyda'r Gweinidog perthnasol, rwy'n monitro cyfleoedd a phwysau yn barhaus ar draws cyllidebau pob portffolio er mwyn sicrhau ein bod yn rheoli'r adnoddau sydd ar gael inni yn effeithiol ac yn sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i Gymru.
- 14:11 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am most grateful to the Minister for her answer. As the United Kingdom Government is creating confidence for entrepreneurs to seek opportunities to expand their businesses, I have received an increasing number of enquiries on support offered by the Welsh Government, particularly with regard to accessing foreign markets. Will you discuss with the Minister for Economy, Science and Transport the funding of a review into specifically funding Welsh business exports?
- Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hateb. Gan fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ennyn hyder i entrepreneuriaid chwilio am gyfleoedd i ehangu eu busnesau, rwyf wedi derbyn nifer gynyddol o ymholiadau am y cymorth a gynigir gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig o ran ymuno â marchnadoedd tramor. A wnech drafod gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth pa un a ellid ariannu adolygiad i'r posibilrwydd o ddarparu cyllid penodol i allforion busnes o Gymru?
- 14:12 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am certainly prepared to raise this with the Minister for Economy, Science and Transport. I particularly welcome the good news in terms of exports and the good profile that we have in Wales.
- Yn sicr, rwy'n fwy na pharod i drafod hyn gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Croesawaf yn fawr y newyddion da o ran allforion a'r proffil da sydd gennym yng Nghymru.
- 14:12 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Onid yw'n drysu'r craffu ar gyllidebau adrannau a chyllidebau Gweinidogion os ydym yn chwilio am enghreifftiau o gyllid untro ychwanegol? Onid yw'n hen bryd inni gael cyfundrefn llawer mwy tryloyw dros y blynyddoedd o gyllidebu yn cyd-fynd â pholisi?
- Does it not confuse the scrutiny of the budgets of particular departments and particular Ministers if we seek examples of additional one-off funding? Is it not about time that we had a far more transparent regime over a period of years of budgeting corresponding with policy?
- 14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I agree entirely with Dafydd Elis-Thomas on that point.
- Cytunaf yn llwyr â Dafydd Elis-Thomas ar y pwynt hwnnw.
- 14:13 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. Not many do. [Laughter.]
- Diolch, Weinidog. Nid oes llawer yn gwneud. [Chwerthin.]
- 14:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 12 was grouped and answered earlier. I call on Andrew R.T. Davies to ask question 13.
- Cafodd cwestiwn 12 ei grwpio a'i ateb yn gynharach. Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ofyn cwestiwn 13.

## Gweithgarwch Caffael Cyhoeddus

## Public Procurement Activity

- 14:13 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*
13. *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch caffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0384(FIN)*
13. *Will the Minister provide an update on the Welsh Government's public procurement activity in South Wales Central? OAQ(4)0384(FIN)*

14:13 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

All local authorities, health trusts, higher education and further education bodies within the region have adopted our Welsh procurement policy and signed up to use the national procurement service for a common repetitive spend.

Mae pob awdurdod lleol, ymddiriedolaeth iechyd, corff addysg uwch ac addysg bellach yn y rhanbarth wedi mabwysiadu ein polisi caffael i Gymru ac wedi cytuno i ddefnyddio'r gwasanaeth caffael cenedlaethol ar gyfer gwariant ailadroddus cyffredin.

14:13 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. I have been engaged with you and your department on the framework that was put in place in 2009, I believe. That was a three-year framework around public procurement and, because it has been changed, it has been rolled forward by a number of years. When do you think that the new framework will be in place? Companies that were excluded from the original framework in 2009 have been unable, as I understand it, to get on the list of bidders and are therefore excluded from the potential to acquire public sector contracts.

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwyf wedi bod yn ymwneud â chi a'ch adran ar y fframwaith a roddwyd ar waith yn 2009, credaf. Roedd hwnnw'n fframwaith tair blynedd yn seiliedig ar gaffael cyhoeddus a, chan ei fod wedi cael ei newid, fe'i dygwyd ymlaen sawl blwyddyn. Pryd y credwch y bydd y fframwaith newydd yn weithredol? Nid yw cwmnïau na chynhwyswyd yn y fframwaith gwreiddiol yn 2009, fel y deallaf, wedi gallu cael eu cynnwys ar y rhestr o gynigwyr ac felly nid oes modd iddynt roi cynnig ar gaffael contractau sector cyhoeddus.

14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Certainly, I hope that you would agree, Andrew R.T. Davies, that I have engaged with you on issues, and that I do that, across the Chamber, when there is any question of a lack of transparency and openness in terms of access to framework contracts.

Yn sicr, gobeithio y byddech yn cytuno, Andrew R.T. Davies, fy mod wedi ymgysylltu â chi ar faterion, ac yn gwneud hynny, ar draws y Siambr, pan fo unrhyw achos o ddiffyg tryloywder a bod yn agored o ran mynediad at fframwaith contractau.

## Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol

## Structural Funds Programmes

14:14 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*14. A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd ar baratodau ar gyfer y rhaglenni cronfeydd strwythurol newydd i Gymru? OAQ(4)0382(FIN)*

*14. Will the Minister provide a progress update on preparations for the new structural funds programmes for Wales? OAQ(4)0382(FIN)*

14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

The new European structural fund programmes are currently being considered by the European Commission and the Welsh European Funding Office, which are actively engaging with Welsh organisations on future project proposals.

Mae rhaglenni newydd y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Comisiwn Ewropeaidd a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, sydd wrthi'n ymgysylltu â sefydliadau yng Nghymru ar gynigion prosiect ar gyfer y dyfodol.

14:14 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, my constituency of Pontypridd is one that has benefitted substantially from structural funding. In fact, we have around 6,000 jobs that are directly associated with that sort of funding. Is the Minister satisfied that the Brussels office of the Welsh Government is sufficiently co-ordinated in terms of the various agencies—local government, higher education and the Welsh Government—in ensuring that we are maximising the benefit that we get out of structural funding?

Weinidog, mae fy etholaeth i, sef Pontypridd, wedi elwa'n sylweddol ar gyllid strwythurol. Yn wir, mae gennym tua 6,000 o swyddi sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r math hwnnw o gyllid. A yw'r Gweinidog yn fodlon bod swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel yn ddigon cyd-gysylltiedig o ran yr amrywiol asiantaethau—llywodraeth leol, addysg uwch a Llywodraeth Cymru—o ran sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf posibl o gyllid strwythurol?

14:15 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

This is the purpose of meetings that I am now holding with all sectoral representation, including Welsh Government officials, not only on my visits to Brussels, to Wales House, but in follow-up sessions with ministerial colleagues.

Dyna ddiiben y cyfarfodydd rwy'n eu cynnal yn awr gyda chynrychiolwyr o'r holl sectorau, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, nid yn unig yn ystod fy ymweliadau â Brwsel, i Dŷ Cymru, ond mewn sesiynau dilynol gyda chyd-weinidogion.

## Dyraniad yn y Gyllideb

## Budget Allocation

14:15 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*15. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o ran y dyraniad yn y gyllideb i'r portffolio hwnnw? OAQ(4)0379(FIN)*

*15. What discussions has the Minister had with the Minister for Economy, Science and Transport regarding the budget allocation to that portfolio? OAQ(4)0379(FIN)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I have regular meetings with the Minister for Economy, Science and Transport.

Rwy'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you, Minister. I welcome the recent announcement that small business rate relief is to be extended for another year. However, it is also true that the rate relief scheme in Wales is not as generous as those in other parts of the United Kingdom. What consideration was given, when setting the budget allocation, to extending small business rate relief to higher value properties in Wales, Minister?

Diolch, Weinidog. Croesawaf y cyhoeddiad diweddar fod y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn cael ei ymestyn am flyddyn arall. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir nad yw'r cynllun rhyddhad ardrethi yng Nghymru mor hael â'r cynlluniau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Pa ystyriaeth a roddwyd, wrth bennu'r dyraniad yn y gyllideb, i ehangu'r rhyddhad ardrethi i fusnesau bach i eiddo gwerth uwch yng Nghymru, Weinidog?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Of course, we have extended small business rate relief, as you say, Mohammad Asghar, in line with UK Government policy direction and, indeed, consequentials. We look forward to the outcome of Professor Brian Morgan's consideration of our business rates policy as we move to devolution of non-domestic rates next year.

Wrth gwrs, rydym wedi ymestyn y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, fel y dywedwch, Mohammad Asghar, yn unol â chyfeiriad polisi Llywodraeth y DU ac, yn wir, symiau canlyniadol. Edrychwn ymlaen at ganlyniad ystyriaeth yr Athro Brian Morgan o'n polisi ardrethi busnes wrth inni symud tuag at ddatganoli trethi annomestig y flyddyn nesaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

## Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

## Questions to the Minister for Local Government and Government Business

### Prosesau Llywodraeth Leol

### Workings of Local Government

14:16 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*1. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau i ddarparu gwell dealltwriaeth o brosesau llywodraeth leol? OAQ(4)0404(LG)*

*1. Will the Minister outline her plans to provide a greater understanding of the workings of local government? OAQ(4)0404(LG)*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I continually promote open and transparent procedures, including the broadcasting of council meetings and public engagement in scrutiny. Also, as part of the campaign to improve diversity among candidates, I will be working to encourage greater public understanding of and participation in local government.

Rwy'n hyrwyddo gweithdrefnau agored a thryloyw yn barhaus, gan gynnwys darlledu cyfarfodydd y cyngor ac ennyn diddordeb y cyhoedd yn y broses graffu. Hefyd, fel rhan o'r ymgyrch i wella amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr, byddaf yn gweithio i annog gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o lywodraeth leol a chyfranogiad ynddi.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:17 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. I am glad that you mentioned greater diversity of candidates. Last week, we saw the publication of a report citing the problems of attracting a greater diversity of candidates to stand for local government. I fully agree with you that we have a lot more to do. Will you join me in congratulating the innovative county council of Monmouthshire, which is trying to address this problem and has recently run a competition among schoolchildren to 'Run MCC For A Day', which aims to promote the important role of local government and better engage young people? Perhaps we could bring forward a challenge to run the National Assembly for a day.
- Diolch, Weinidog. Rwy'n falch eich bod wedi sôn am fwy o amrywiaeth o ymgeiswyr. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd adroddiad yn nodi'r problemau sy'n gysylltiedig â denu mwy o amrywiaeth o ymgeiswyr i sefyll ar gyfer llywodraeth leol. Cytunaf yn llwyr â chi fod gennym lawer mwy i'w wneud. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch cyngor sir arloesol Sir Fynwy, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon ac sydd yn ddiweddar wedi rhedeg cystadleuaeth ymhlith plant ysgol i 'Redeg CSF am Ddiwrnod', sydd â'r nod o hyrwyddo rôl bwysig llywodraeth leol ac ymgysylltu'n well â phobl ifanc? Efallai y gallem gyflwyno her i redeg y Cynulliad Cenedlaethol am ddiwrnod.
- 14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I certainly encourage all methods used to encourage diversity. Councillor Sara Jones from Monmouth council was one of the councillors who spoke at the launch of the diversity report.
- Ie, yn sicr, cefnogaf yr holl ddulliau a ddefnyddir i annog amrywiaeth. Roedd y Cynghorydd Sara Jones o Gyngor Sir Fynwy yn un o'r cynghorwyr a siaradodd yn lansiad yr adroddiad amrywiaeth.
- 14:18 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have heard of cuts in local government, but asking the children to take over seems to be taking it a step too far. Minister, do you agree that one of the keys to developing understanding of local government is for members of the public to see what their councillors are doing in meetings, as they can see what we are doing here in our meetings? Can you therefore provide an update on how the £1.25 million given by the Welsh Government in January last year has been used to help local authorities to broadcast council meetings as a way of promoting both public scrutiny and the work of local councillors?
- Rwyf wedi clywed am doriadau mewn llywodraeth leol, ond mae'n ymddangos bod gofyn i'r plant gymryd yr awenau yn un cam yn ormod. Weinidog, a gytunwch mai un o'r ffactorau sy'n allweddol i ddatblygu dealltwriaeth o lywodraeth leol yw bod aelodau o'r cyhoedd yn gweld beth mae eu cynghorwyr yn ei wneud mewn cyfarfodydd, gan y gallant weld yr hyn rydym ni yn ei wneud yma yn ein cyfarfodydd? Felly, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'r £1.25 miliwn a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr y llynedd wedi cael ei ddefnyddio i helpu awdurdodau lleol i ddarlledu cyfarfodydd cynghorau fel ffordd o hyrwyddo dulliau craffu cyhoeddus a gwaith cynghorwyr lleol?
- 14:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes; I have repeatedly placed on record my support for transparency in local government. I think that it is really important that we have that greater transparency if we want to encourage diversity. It is really important that the public is aware of what is going on and understands how decisions are made. I think that that is why broadcasting of council meetings is so important. In relation to the funding of £1.25 million that the Welsh Government provided, over half of local authorities are now broadcasting their proceedings. You will be aware that each local authority was awarded £40,000, and I have recently given my agreement for any unspent funding allocated to local authorities to be carried over to the next financial year.
- Gallaf, rwyf wedi cofnodi fy nghefnogaeth i dryloywder mewn llywodraeth leol dro ar ôl tro. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cael mwy o dryloywder os ydym am annog amrywiaeth. Mae'n wirioneddol bwysig bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ac yn deall sut y gwneir penderfyniadau. Credaf mai dyna pam y mae mor bwysig bod cyfarfodydd cynghorau yn cael eu darlledu. O ran y £1.25 miliwn a ddarparodd Llywodraeth Cymru, mae dros hanner yr awdurdodau lleol bellach yn darlledu eu trafodion. Byddwch yn ymwybodol fod pob awdurdod lleol wedi cael £40,000, ac yn ddiweddar, rhoddais ganiatâd i unrhyw arian nas gwariwyd a ddyrennir i awdurdodau lleol gael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- 14:19 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae dealltwriaeth o brosesau yn bwysig iawn ym maes cynllunio ac mae'r trafferthion sydd wedi bod yn y gorffennol o ran gweithredu polisi cynllunio yn Ynys Môn yn hysbys iawn. Y pryder, yn aml iawn, yw bod diffyg eglurder a diffyg cysondeb. A ydy'r Gweinidog yn cytuno mai'r hyn sydd angen ei sicrhau yw bod rheolau cynllunio yn cael eu gweithredu ac yn cael eu gweld yn cael eu gweithredu mewn ffordd gwbl dryloyw a chwbl gyson? Pa gamau allwch chi eu cymryd i sicrhau bod hynny yn digwydd?
- An understanding of processes is very important in the area of planning, and it is well known that there have been problems in the past in terms of implementing planning policies in Anglesey. The concern, very often, is that there is a lack of clarity and a lack of consistency. Does the Minister agree that what needs to be ensured is that planning rules are implemented and are seen to be implemented in an entirely transparent and an entirely consistent way? What steps can you take to ensure that that happens?

14:19	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I think that that is a very important point. I know that my colleague, Carl Sargeant, the Minister for Housing and Regeneration, who is bringing forward the planning Bill, of course, is doing all that he can to ensure that that is the case.</p>	<p>Credaf fod hwnnw'n bwynt pwysig iawn. Gwn fod fy nghyd-Weinidog, Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio, sy'n cyflwyno'r Bil cynllunio, wrth gwrs, yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod hynny'n digwydd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:20	<p><b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, the local authority in Wrexham has been involved in discussions with the ambulance trust and the fire service for some eight or nine years regarding the provision of a new facility in Wrexham. Are you able to update local people, because there appears to be a lack of transparency with regard to progress in the scheme?</p>	<p>Weinidog, mae'r awdurdod lleol yn Wrecsam wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlans a'r gwasanaeth tân ers tua wyth neu naw mlynedd ynghylch darparu cyfleuster newydd yn Wrecsam. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl leol, oherwydd mae'n ymddangos bod diffyg tryloywder o ran datblygiad y cynllun?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:20	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am not aware of a lack of progress in the scheme at all. My understanding is that the business case is being finalised now between North Wales Fire and Rescue Service and the Welsh Ambulance Services NHS Trust.</p>	<p>Nid wyf yn ymwybodol o ddiffyg datblygiad yn y cynllun o gwbl. Caf ar ddeall bod yr achos busnes wrthi'n cael ei gwblhau rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Llywodraeth Leol yng Ngorllewin Cymru</b>		<b>Local Government in West Wales</b>	
14:20	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0392(LG)</i></p>	<p><i>2. Will the Minister make a statement on her priorities for local government in west Wales? OAQ(4)0392(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:20	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>My priority, set out in our programme for government, is to support the delivery of effective and efficient public services to meet the needs of people in Wales.</p>	<p>Fy mlaenoriaeth i, a nodir yn ein rhaglen lywodraethu, yw cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon er mwyn diwallu anghenion pobl yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:20	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>As you will no doubt be aware, Minister, Pembrokeshire County Council recently voted to increase council tax by 3.4% for 2014-15, and yet, if Pembrokeshire returned to the old Dyfed model, which, of course, is one of the proposals of the Williams commission, I am given to understand that there could be as much as a 26% increase for council tax payers in the future. Given the circumstances, what steps will the Welsh Government take to consider the importance of protecting local identity and democratic accountability through the Williams commission process, and what consideration will the Government give to the financial implications of any proposed mergers?</p>	<p>Mae'n siŵr y gwyddoch, Weinidog, i Gyngor Sir Penfro bleidleisio'n ddiweddar i gynyddu'r dreth gyngor 3.4% ar gyfer 2014-15, ac eto, pe byddai Sir Benfro yn dychwelyd i hen fodel Dyfed, sef un o gynigion comisiwn Williams wrth gwrs, caf ar ddeall y gallai fod cymaint â 26% o gynydd i dalwyr y dreth gyngor yn y dyfodol. O ystyried yr amgylchiadau, pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ystyried pwysigrwydd gwarchod hunaniaeth leol ac atebolrwydd democrataidd drwy broses comisiwn Williams, a pha ystyriaeth a rydd y Llywodraeth i oblygiadau ariannol unrhyw broses uno arfaethedig?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:21	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>It is obviously very early days in our consideration of the commission's report, but clearly the issues that you raise around council tax levels and finance is something that will have to be taken into consideration.</p>	<p>Mae'n amlwg mai megis dechrau y mae ein gwaith o ystyried adroddiad y comisiwn, ond yn amlwg mae'r materion a godwch ynghylch lefelau'r dreth gyngor a chyllid yn rhywbeth y bydd yn rhaid eu hystyried.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:21	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I now call on the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.	Galwaf yn awr ar lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:21	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, at the moment we face a situation in south-west Wales where the chief fire officer has resigned, the chief executive and the chair of Hywel Dda Local Health Board have resigned, the chief executive of Carmarthenshire County Council is under suspension, and Bryn Parry Jones keeps rolling along. There may only be three or two wheels to his wagon, but he keeps on rolling along. [Laughter.] Do you believe, Minister, that this is a time to rationalise pay within the public sector, in terms not only of local government but of the public sector generally in Wales, rather than the inflationary agreements that we have seen over the past decade?	Weinidog, ar hyn o bryd rydym yn wynebu sefyllfa yn y de-orllewin lle mae'r prif swyddog tân wedi ymddiswyddo, mae prif weithredwr a chadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi ymddiswyddo, mae prif weithredwr Cyngor Sir Gâr wedi'i atal dros dro, ac mae Bryn Parry Jones yn dal i fynd. Efallai fod olwyn neu ddwy ar goll ar ei wagen, ond mae'n dal i fynd. [Chwerthin.] A gredwch, Weinidog, mai dyma'r amser i resymoli cyflogau o fewn y sector cyhoeddus, o ran llywodraeth leol, yn ogystal â'r sector cyhoeddus yn gyffredinol yng Nghymru, yn hytrach na'r cytundebau chwyddiannol a welsom dros y degawd diwethaf?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:22	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> You will have heard me state many times in the Chamber my views on senior salaries, talking about local government and how it is important that any decision taken on senior salary pay is transparent and that members of the public can understand it. You referred to several different public bodies, and I am sure that each one of them will have to consider very carefully as they go forward for recruitment.	Byddwch wedi fy nghlywed sawl gwaith yn y Siambr yn datgan fy marn ar gyflogau uwch-swyddogion, yn siarad am lywodraeth leol a pha mor bwysig ydyw bod unrhyw benderfyniad a wneir am gyflog uwch-swyddogion yn dryloyw ac y gall aelodau o'r cyhoedd ei ddeall. Cyfeiriasoch at nifer o gyrff cyhoeddus gwahanol, ac rwy'n siŵr y bydd pob un ohonynt yn gorfod ystyried yn ofalus iawn wrth iddynt fynd ati i recriwtio.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:23	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, I welcome your statement here this afternoon, and also the statement that you made on the 'Sunday Politics' show in terms of transparency, but does that mean that current salary agreements will be referred to the independent remuneration board as well as new agreements? Some must feel that the current agreements are inflationary, and that senior management are being paid way above what should be paid for the responsibilities that they have.	Weinidog, croesawaf eich datganiad yma y prynhawn yma, a hefyd y datganiad a wnaethoch ar y sioe 'Sunday Politics' ar dryloywder, ond a yw hynny'n golygu y caiff cytundebau cyflog presennol eu cyfeirio at y bwrdd taliadau annibynnol yn ogystal â chytundebau newydd? Rhaid bod rhai yn teimlo bod y cytundebau presennol yn chwyddiannol, a bod yr uwch reolwyr yn cael eu talu llawer mwy na'r hyn y dylid ei dalu iddynt am y cyfrifoldebau sydd ganddynt.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:23	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> No. The new guidelines are for new posts.	Na. Mae'r canllawiau newydd ar gyfer swyddi newydd.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Caethwasiaeth Fodern</b>		<b>Modern Slavery</b>	
14:23	<b>Sandy Mewies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern? OAQ(4)0396(LG)</i>	<i>3. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's work to raise awareness of modern slavery? OAQ(4)0396(LG)</i>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yng Nghymru? OAQ(4)0394(LG)</i>	<i>5. Will the Minister provide an update on the action she is taking to tackle modern day slavery in Wales? OAQ(4)0394(LG)</i>	
14:23	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Presiding Officer, I understand that you have given your permission for questions 3 and 5 to be grouped.	Lywydd, deallaf eich bod wedi rhoi eich caniatâd i gwestiynau 3 a 5 gael eu grwpio.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

Over the past two months we have run a national TV and poster campaign and held a conference to raise awareness and the profile of modern slavery. I also hosted an awareness-raising event at Tŷ Hywel earlier this month for Assembly Members and stakeholders, centred on the play 'SOLD'.

Dros y ddau fis diwethaf, rydym wedi cynnal ymgyrch teledu a phoster genedlaethol ac wedi cynnal cynhadledd i godi proffil ac ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern. Hefyd, cynhaliais ddigwyddiad codi ymwybyddiaeth yn Nhŷ Hywel yn gynharach y mis hwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid, a ganolbwyntiodd ar y ddrama 'SOLD'.

14:24 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that. It is important that people recognise that slavery is taking place. The efforts that the Welsh Government has been making to raise awareness are to be welcomed. I would be remiss if I did not mention the efforts made by Joyce Watson, the Member here who has also worked very hard. It is only by raising awareness that this crime can be stamped out. Minister, we know that there are victims of this crime here, now, in Wales. I therefore ask for an assurance that every effort has been made to help them and to bring those criminals who do enslave them to justice?

Diolch ichi am hynny. Mae'n bwysig bod pobl yn cydnabod bod caethwasiaeth yn bodoli. Croesewir yr ymdrechion a wnaed gan Lywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth. Byddwn yn esgeulus pe na bawn yn sôn am yr ymdrechion a wnaed gan Joyce Watson, yr Aelod yma sydd hefyd wedi gweithio'n galed iawn. Dim ond trwy godi ymwybyddiaeth y gellir dileu'r drosedd hon. Weinidog, gwyddom fod pobl wedi dioddef y drosedd hon yma, yn awr, yng Nghymru. Felly, gofynnaf am sicrwydd y gwnaed pob ymdrech i'w helpu ac i ddwyn y troseddwr hynny sy'n eu caethiwo o flaen eu gwell.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely, yes. My message to victims is that we will find them and we will help them to get their lives back together by supporting them. My message to the criminals who have enslaved them is that we will find them, too, and we will make sure that they will be brought to justice. You mentioned Joyce Watson's work. Joyce has done some fantastic work in this area, and I am determined to do all we can to make Wales hostile to slavery.

Do wir. Fy neges i ddiodefwyr yw y byddwn yn dod o hyd iddynt ac yn eu rhoi ar ben ffordd unwaith eto drwy eu cefnogi. Fy neges i'r troseddwr sydd wedi eu caethiwo yw y byddwn yn dod o hyd iddynt hwythau, hefyd, ac yn sicrhau y byddant yn cael eu dwyn o flaen eu gwell. Soniasoch am waith Joyce Watson. Mae Joyce wedi gwneud gwaith gwych yn y maes hwn, ac rwy'n benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i ddileu caethwasiaeth yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:25 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you will want to congratulate the UK Government on its modern-day slavery Bill and the work that it is doing to combat slavery. There is no doubt of the Welsh Government's commitment as well on this matter. Will you join me in congratulating those organisations in the third sector that are doing their best to combat modern-day slavery, including the International Justice Mission? What consideration have you given to working with organisations like the International Justice Mission, particularly through the Wales for Africa programme, given its presence in Uganda?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn awyddus i longyfarch Llywodraeth y DU ar ei Bil caethwasiaeth fodern a'r gwaith y mae'n ei wneud i fynd i'r afael â chaethwasiaeth. Nid oes amheuaeth ychwaith ynglŷn â ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r mater hwn. A wneuch chi ymuno â mi i longyfarch y sefydliadau hynny yn y trydydd sector sy'n gwneud eu gorau i fynd i'r afael â chaethwasiaeth yn yr oes fodern, gan gynnwys y Genhadaeth Cyfiawnder Rhyngwladol? Pa ystyriaeth a roddwyd gennych i weithio gyda sefydliadau fel y Genhadaeth Cyfiawnder Rhyngwladol, yn enwedig drwy raglen Cymru o Blaid Affrica, o ystyried ei phresenoldeb yn Uganda?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We will certainly consider working with the third sector in making Wales hostile to slavery. We cannot do it on our own. Nobody can do it on their own. It is really important that we have that multi-agency approach, and certainly my anti-human-trafficking, or anti-slavery, co-ordinator, Steve Chapman, is working very closely with not just law enforcement agencies, but all agencies as we go forward.

Byddwn yn sicr yn ystyried gweithio gyda'r trydydd sector er mwyn dileu caethwasiaeth yng Nghymru. Ni allwn wneud hynny ar ein pen ein hunain. Ni all neb wneud hynny ar ei ben ei hun. Mae'n bwysig iawn bod gennym y dull aml-asiantaeth hwnnw, ac yn sicr mae fy nghydgysylltydd atal masnachu pobl, neu atal cathwasiaeth, Steve Chapman, yn gweithio'n agos iawn nid yn unig gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, ond yr holl asiantaethau wrth inni weithredu ar hyn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

You referred to the UK Government's modern slavery Bill. I am very pleased that that Bill is being brought forward. I think it will bring other countries in the UK up to the standards that we have in Wales, because I do think that we are leading the way in this area.

Cyfeiriasoch at Fil caethwasiaeth fodern Llywodraeth y DU. Rwy'n falch iawn bod y Bil yn cael ei gyflwyno. Credaf y bydd yn helpu gwledydd eraill yn y DU i gyrraedd y safonau sydd gennym yng Nghymru, oherwydd credaf ein bod yn arwain y blaen yn y maes hwn.

- 14:26 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you mentioned the modern slavery Bill, but do you share my concern that this might prove to be a bit of a missed opportunity because it is narrowly focused on prosecution, not prevention? Do you agree with the Council of Europe group of trafficking experts which suggests that the scope of the Gangmasters Licensing Authority should be further extended to include hospitality and construction, to prevent modern-day slavery?
- Weinidog, gwnaethoch sôn am y Bil caethwasiaeth fodern, ond a ydych yn rhannu fy mhryder y gallai hyn fod yn gyfle a gollwyd am ei fod yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar erlyn, nid ar atal? A gytunwch â grŵp o arbenigwyr masnachu Cyngor Ewrop sy'n awgrymu y dylid ymestyn cwmipas yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri ymhellach i gynnwys lletygarwch ac adeiladu, er mwyn atal caethwasiaeth fodern?
- 14:26 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- What is really important is that my officials work very closely with the Home Office to make any concerns that we feel are there well known to them. You will be aware that there is an interdepartmental ministerial group—I did attend one in October, and when I cannot go, the anti-slavery co-ordinator goes. I am going to the next one, which the Home Secretary is chairing, so if there are any concerns around that area, we can bring them forward.
- Yr hyn sy'n bwysig iawn yw bod fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda'r Swyddfa Gartref er mwyn rhoi gwybod iddi am unrhyw bryderon sydd gennym. Byddwch yn ymwybodol o'r grŵp gweinidogol rhyngadrannol—euthum i un cyfarfod ym mis Hydref, a phan na allaf i fynd, mae'r cydgysylltydd atal caethwasiaeth yn mynd. Byddaf yn mynd i'r un nesaf, a gadeirir gan yr Ysgrifennydd Cartref, felly os oes unrhyw bryderon ynghylch y maes hwnnw, gallwn eu codi.
- 14:27 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Modern slavery takes place in many forms, particularly among casual labour. A trial is scheduled for later this year where the accused is charged with holding a man captive and enslaving him for more than a decade on a farm near Newport. Clearly, there is cross-party support on tackling these practices. Will you outline discussions with the UK Government on devising a United Kingdom-wide strategy to address this issue?
- Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, yn enwedig ymhlith gweithwyr achlysurol. Mae treial wedi'i drefnu yn ddiweddarach eleni lle mae'r cyhuddedig wedi'i gyhuddo o gadw dyn yn gaeth am dros ddegawd ar fferm ger Casnewydd. Yn amlwg, ceir cefnogaeth drawsbleidiol i fynd i'r afael â'r arferion hyn. A wnewch chi amlinellu trafodaethau â Llywodraeth y DU ar lunio strategaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan i fynd i'r afael â'r broblem hon?
- 14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- This is something that is being taken forward with the Bill that the UK Government is bringing forward. The case you refer to is very well known and it is an extremely horrific crime that took place. In some ways, it has again raised the issue of slavery, because people do not think it is going on, but, as Sandy Mewies said, it is going on in our towns, communities and cities. In fact, it is estimated now that there are 21 million people across the world held in slavery, and it is the world's fastest-growing criminal industry.
- Mae hyn yn rhywbeth yr ymdrinnir ag ef yn y Bil a gyflwynir gan Lywodraeth y DU. Mae'r achos rydych yn cyfeirio ato yn un adnabyddus iawn ac mae'n drosedd hynod o arswydus. Mewn rhai ffyrdd, mae wedi dwyn sylw at gaethwasiaeth unwaith eto, oherwydd nid yw pobl yn credu ei bod yn digwydd, ond, fel y dywedodd Sandy Mewies, mae'n digwydd yn ein trefi, ein cymunedau a'n dinasoedd. Yn wir, amcangyfrifir bellach fod 21 miliwn o bobl ledled y byd yn cael eu cadw'n gaeth, a hwn yw'r diwydiant troseddol sy'n tyfu gyflymaf yn y byd.
- 14:28 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, do you agree that, in tackling human trafficking, it is necessary to engage not only at an international level, but at a European level, and that, at the European level, the organisations and institutions of the European Union and its member countries are a vital part in actually tackling human trafficking, which is one of the benefits and advantages of our membership of the European Union?
- Weinidog, a gytunwch, wrth fynd i'r afael â masnachu pobl, fod angen ymgysyllu nid yn unig ar lefel ryngwladol, ond ar lefel Ewropeaidd, ac ar y lefel Ewropeaidd honno, fod sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd a'i aelod-wledydd yn rhan allweddol o'r gwaith o fynd i'r afael â masnachu pobl, sef un o fuddiannau a manteision ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd?

14:28 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Absolutely, and you will have heard me say in an earlier answer that we cannot do it on our own—we are reliant on our partners and on multi-agency working. Our law enforcement agencies work in close co-operation across borders, including with our European counterparts, and I think that this joined-up way of working can only bring benefit in preventing people being brought into Wales, and the UK more widely, for the purposes of slavery.

Yn hollol, a byddwch wedi fy nghlywed yn dweud mewn ateb cynharach na allwn wneud hynny ar ein pen ein hunain—rydym yn dibynnu ar ein partneriaid ac ar waith aml-asiantaethol. Mae ein hasiantaethau gorfod i'r gyfraith yn gweithio mewn cydweithrediad agos ar draws ffiniau, gan gynnwys gyda'n cymheiriaid yn Ewrop, a chredaf y gall y ffordd gydgysylltiedig hon o weithio fod o fudd o ran atal pobl rhag cael eu dwyn i mewn i Gymru, a'r DU yn ehangach, at ddibenion caethwasiaeth.

14:29 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, while I welcome the modern slavery Bill, do you not agree with me that it would have served its purpose better if it had not been presented mostly as a policing Bill, having ignored, to all intents and purposes, the human rights element, and the support for victims that we have put in place in Wales? Ultimately, it is the case that, if you do not look after the victims, you will not have any prosecutions. So, when you go to the round table that you talked about earlier, would you place an emphasis on the fact that the UK Government needs to learn from Wales and put some elements of that in its Bill?

Weinidog, er fy mod yn croesawu'r Bil caethwasiaeth fodern, oni chytunwch â mi y byddai wedi ateb ei ddiben yn well pe na bai wedi'i gyflwyno'n bennaf fel Bil plismona, ar ôl anwybyddu, i bob pwrpas, yr elfen hawliau dynol, a'r cymorth i ddiodefwrwr a roddwyd ar waith gennym yng Nghymru? Yn y pen draw, mae'n wir, os na fyddwch yn gofalu am y diodefwrwr, ni fydd gennych unrhyw dystion, ac felly ni fydd gennych unrhyw erlyniadau. Felly, pan ewch i'r cyfarfod bord gron y cyfeiriasoch ato yn gynharach, a fydddech cystal â phwysleisio'r ffaith bod angen i Lywodraeth y DU ddysgu gan Gymru a chynnwys rhai o'r elfennau hynny yn ei Bil?

14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, absolutely; I have already done that. I was asked to give evidence to committee in London but, unfortunately, I am giving evidence to committee here on the same day. So, I have sent a paper making that point, and certainly advising it of what we are doing here in Wales, of which I think it is already well aware.

Byddwn, wrth gwrs; rwyf eisoes wedi gwneud hynny. Gofynnwyd imi roi tystiolaeth i'r pwyllgor yn Llundain, ond, yn anffodus, byddaf yn rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor hwn yn un diwrnod. Felly, rwyf wedi anfon papur yn gwneud y pwynt hwnnw, ac yn sicr yn sôn wrtho am yr hyn yr ydym yn ei wneud yma yng Nghymru, y credaf ei fod eisoes yn ymwybodol ohono.

## Y Dreth Gyngor

## Council Tax

14:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd yn y dreth gyngor yng Nghymru ar gyfer 2014/15? OAQ(4)0393(LG)*

*4. Will the Minister make a statement on council tax increases in Wales for 2014/15? OAQ(4)0393(LG)*

14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The setting of council tax is a matter for each council and police and crime commissioner. Each local authority is accountable to its own electorate for its decision, recognising the need to maintain vital services while limiting the financial burden on residents.

Mater i bob cyngor a chomisiynydd yr heddlu a throseddau yw pennu'r dreth gyngor. Mae pob awdurdod lleol yn atebol i'w etholwyr ei hun am ei benderfyniad, gan gydnabod yr angen i gynnal gwasanaethau hanfodol tra'n cyfyngu ar y baich ariannol ar drigolion.

14:30 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. You indicated last October that you would only consider capping council tax if local authorities increased bills by more than 5%. Since then, every local authority in Wales has announced rises of between 3% and 5%. In England, any increases above 2% have to be approved by community referendum. Sadly, this protection is not available in Wales. What action will the Minister take to protect Welsh council tax payers from these punitive increases here?

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Dywedasochn fy Hydref diwethaf y bydddech yn ystyried capio'r dreth gyngor pe bai awdurdodau lleol yn cynyddu biliau mwy na 5%. Ers hynny, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi cyhoeddi cynnydd o rhwng 3% a 5%. Yn Lloegr, rhaid i unrhyw gynnydd uwchlaw 2% gael ei gymeradwyo drwy referendwm cymunedol. Yn anffodus, nid yw'r diogelwch hwn ar gael yng Nghymru. Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i ddiogelu talwyr y dreth gyngor yng Nghymru rhag cynnydd llym o'r fath?

14:31	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, I certainly will not be following the UK Government and bringing in expensive referenda. I do not think that you ever heard me say the figure of 5%. What I said was that I would use my capping powers if any local authority provided an excessive council tax increase.</p>	<p>Wel, yn sicr ni fyddaf yn dilyn Llywodraeth y DU a chyflwyno refferenda drud. Ni chredaf eich bod erioed wedi fy nghlywed yn dweud y ffigur 5%. Yr hyn a ddywedais oedd y byddwn yn defnyddio fy mhwerau capio pe bai unrhyw awdurdod lleol yn cynnyddu'r dreth gyngor yn ormodol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:31	<p><b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, mae nifer o bobl yn dweud, wrth gwrs, ei bod yn bwysig bod pobl yn talu'r trethi hyn er mwyn bod adnoddau lleol yn cael eu hariannu. Ond, a ydych chi, fel Gweinidog, wedi gwneud unrhyw asesiad o werth am arian trethi gwahanol awdurdodau lleol? Er enghraifft, yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, mae problemau wedi bod gyda gwerthuso swyddi, ac mewn ardaloedd eraill mae problemau gyda thaliadau i uwch-swyddogion. A ydych chi credu bod rhai cynghorau yn gallu cyfiawnhau'r trethi uchel o ystyried rhai o'u gweithredoedd ar lawr gwlad?</p>	<p>Minister, many people say, of course, that it is important that people pay these taxes so that local resources are funded. However, have you, as Minister, made any assessment of the value for money of the taxes of different local authorities? For example, in the Bridgend area, there have been problems with job evaluations, and in other areas there are problems with payments to senior officers. Do you think that some councils can justify the high taxes in view of some of their actions on the ground?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:32	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I have not undertaken the piece of work to which you refer. I have said before that it is up to local authorities to set their own levels of council tax. They are directly accountable to their local electorate for these decisions. I think that they should have the freedom to do that, and I think that it is one of the most accountable things that a local authority does.</p>	<p>Nid wyf wedi ymgymryd â'r darn o waith y cyfeiriwch ato. Rwyf wedi dweud o'r blaen mai mater i awdurdodau lleol yw pennu eu lefelau treth gyngor eu hunain. Maent yn uniongyrchol atebol i'w hetholwyr lleol am y penderfyniadau hyn. Credaf y dylent gael y rhyddid i wneud hynny, a chredaf mai hynny yw un o'r pethau mwyaf atebol y mae awdurdod lleol yn ei wneud.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:32	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Question 5 was grouped with question 3 and answered earlier.</p>	<p>Cyflwynwyd cwestiwn 5 gyda chwestiwn 3 ac fe'i hatebwyd yn gynharach.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Dyletswyddau Swyddog Canlyniadau</b>		<b>Returning Officer Duties</b>	
14:32	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>6. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â phrif weithredwyr awdurdodau lleol yn ymgymryd â dyletswyddau Swyddog Canlyniadau yn ystod etholiadau? OAQ(4)0406(LG)</i></p>	<p><i>6. What discussions has the Minister had with the UK Government regarding local authority chief executives undertaking Returning Officer duties during elections? OAQ(4)0406(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:32	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The appointment of returning officers is a matter for each local authority. The UK Government is responsible for the appointment of the regional returning officer for Wales for the forthcoming European elections.</p>	<p>Mater i bob awdurdod lleol yw penodi swyddogion canlyniadau. Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am benodi swyddog canlyniadau rhanbarthol Cymru ar gyfer yr etholiadau Ewropeaidd sydd i ddod.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:33	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, rwy'n gobeithio y byddech yn cytuno mai rhan annatod o waith prif weithredwr unrhyw awdurdod lleol yw bod yn swyddog canlyniadau, ac na ddylai fod tâl ychwanegol am y swyddogaeth honno. Fodd bynnag, yng nghyd-destun yr etholiadau Ewropeaidd rydych wedi cyfeirio atynt, a ydych chi sylweddoli bod fy etholwyr i yn sir Gaerfyrddin yn methu â deall sut y gall prif weithredwr sydd wedi atal o'i waith, ac nad yw i fod i gael unrhyw gysylltiad â gweithlu sir Gaerfyrddin, weithredu fel swyddog canlyniadau. A wnech chi ymyrryd yn y mater hwn, Weinidog?</p>	<p>Minister, I hope that you would agree that an integral part of the role of the chief executive of any local authority is to be a returning officer, and that there should be no additional payment for that duty. However, in the context of the European elections to which you have referred, do you realise that my constituents in Carmarthenshire cannot understand how a chief executive who has been suspended from his job, and who should not have any kind of contact with the workforce of Carmarthenshire, can act as returning officer. Will you intervene in this matter, Minister?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I heard the word 'suspended' in my translation. My understanding is that the chief executive is not suspended. He remains chief executive of the authority and head of paid service. I have raised concerns, not just from Assembly Members, but also from members of the public, on this issue with Baroness Randerson from the Wales Office, whom I met with on Monday of this week, and in writing to Greg Clark, the Minister of State in the Cabinet Office. However, the Assembly has no powers in relation to the elections to the European Parliament; they are the responsibility of the UK Cabinet Office.
- Clywais y gair 'atal' yn fy nghyfieithiad. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, nid yw'r prif weithredwr wedi cael ei atal. Mae'n parhau i fod yn brif weithredwr yr awdurdod ac yn bennaeth gwasanaeth cyflogedig. Rwyf wedi codi pryderon, nid yn unig gan Aelodau Cynulliad, ond hefyd gan aelodau o'r cyhoedd, ar y mater hwn gyda'r Farwnes Randerson o Swyddfa Cymru, y cyfarfûm â hi ddydd Llun, ac yn ysgrifenedig i Greg Clark, y Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet. Fodd bynnag, nid oes gan y Cynulliad unrhyw bwerau mewn perthynas â'r etholiadau i Senedd Ewropl cyfrifoldeb Swyddfa Gabinet y DU ydynt.
- 14:34 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Rhodri Glyn Thomas AM has made a really relevant point here today. [Interruption.] Apparently, the amount paid to a returning officer can be around £20,000, as has actually been paid, in addition to the very high, inflated salaries that some of our chief executives are on. The payment is also around the numbers of seats that are contested, yet, in Wales, we know that there are hundreds of uncontested community council and county council seats. Clearly, this is an issue now of where money is going, and people are double-jobbing. If you are a chief executive, that is your role—the returning officer should be part and parcel of that role, or that of another officer within the authority. Minister, having noticed now that this is an issue, will you look into it, and provide some reassurance for our taxpayers that, once again, they are not being ripped off under Welsh Labour?
- Gwnaeth Rhodri Glyn Thomas AC bwynt perthnasol iawn yma heddiw. [Torri ar draws.] Mae'n debyg y gall y swm a delir i swyddog canlyniadau fod oddeutu £20,000, sef y swm a dalwyd mewn gwirionedd, yn ychwanegol at y cyflogau uchel iawn y mae rhai o'n prif weithredwyr yn eu cael. Mae'r taliad hefyd yn ymwneud â nifer y seddi yr ymgeisir amdanynt, ac eto, yng Nghymru, gwyddom fod cannoedd o seddi cyngor cymuned a chyngor sir diymgeisydd. Yn amlwg, y broblem bellach yw ble mae'r arian yn mynd, ac mae pobl yn gwneud dwy swydd ar yr un pryd. Os ydych yn brif weithredwr, dyna yw eich rôl—dylai'r swyddog canlyniadau fod yn rhan annatod o'r rôl honno, neu o rôl swyddog arall o fewn yr awdurdod. Weinidog, ar ôl sylwi nawr fod hyn yn broblem, a wnewch chi ymchwilio iddi, a rhoi rhywfaint o sicrwydd i'n trethdalwyr, unwaith eto, nad ydynt yn cael eu twyllo gan Lafur Cymru?
- 14:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I do not think that it is an issue for Welsh Labour. County councils are permitted to pay a fee to their returning officer for running their elections. You will be aware that we do not have competence over local elections in this place.
- Ni chredaf ei bod yn broblem i Lafur Cymru. Mae hawl gan gynghorau sir i dalu ffi i'w swyddog canlyniadau am gynnal eu hetholiadau. Byddwch yn ymwybodol nad oes gennym gymhwysedd dros etholiadau lleol yn y lle hwn.
- Presiding Officer, I have just been handed a note to say that a press release has just gone out from Carmarthenshire County Council, which relates to my previous answer to Rhodri Glyn Thomas. The leader of the council states that, by mutual agreement, the chief executive, Mark James, will no longer undertake his duties as chief executive from now until police inquiries concerning the two Wales Audit Office public interest reports have been concluded. I have just been given that piece of information.
- Ddirprwy Lywydd, rwyf newydd gael nodyn yn dweud bod Cyngor Sir Caerfyrddin newydd gyhoeddi datganiad i'r wasg yn ymwneud â'm hateb blaenorol i Rhodri Glyn Thomas. Dywed arweinydd y cyngor, drwy gydgytundeb, na fydd y prif weithredwr, Mark James, yn cyflawni ei ddyletswyddau fel prif weithredwr mwyach hyd nes y bydd ymchwiliadau'r heddlu yn ymwneud â dau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru er budd y cyhoedd wedi dod i ben. Rwyf newydd gael y wybodaeth honno.
- 14:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Thank you for that information. I call on William Powell.
- Diolch am y wybodaeth honno. Galwaf ar William Powell.
- 14:36 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I am very grateful to Rhodri Glyn Thomas for having raised this issue. I am also very grateful to you, Minister, for your response to him, and for that recent update from Carmarthenshire County Council, from Kevin Madge, whose judgment I value in this matter.
- Rwy'n ddiolchgar iawn i Rhodri Glyn Thomas am godi'r mater hwn. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn ichi, Weinidog, am eich ymateb iddo, ac am y wybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Sir Caerfyrddin, gan Kevin Madge, yr wyf yn gwerthfawrogi ei farn ar y mater hwn.

Before the last UK general election, the Electoral Commission held a performance review of returning officers. It found that, in one in five cases, in England and Wales, there was evidence that those returning officers were falling short of the required standards in terms of integrity and public awareness. In that context, Minister, and given that there are also currently no guidelines as to the allocation of time that should be dedicated to the carrying out of this role, is it a matter of concern for you that chief executives who are in charge of local authorities in Wales—which is, of course, a very important devolved function—should be doing this in such an unregulated way? Are you committed to engaging in dialogue with the Electoral Commission on this matter?

Cyn etholiad cyffredinol diwethaf y DU, cynhaliodd y Comisiwn Etholiadol adolygiad o berfformiad swyddogion canlyniadau. Canfu, mewn un o bob pum achos, yng Nghymru a Lloegr, fod tystiolaeth i ddangos nad oedd y swyddogion canlyniadau hynny yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran uniondeb ac ymwybyddiaeth y cyhoedd. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, ac o ystyried hefyd nad oes unrhyw ganllawiau ar hyn o bryd o ran faint o amser y dylid ei neilltuo i gyflawni'r rôl hon, a yw'n peri pryder ichi bod prif weithredwyr sy'n gyfrifol am awdurdodau lleol yng Nghymru—sydd, wrth gwrs, yn swyddogaeth bwysig iawn—yn gwneud hyn mewn ffordd nad yw wedi'i rheoleiddio? A ydych yn ymrwymedig i gymryd rhan mewn deialog gyda'r Comisiwn Etholiadol ar y mater hwn?

14:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that that was the dedicated time for you. Finish your question, please.

Credaf fod eich amser ar ben. A fydech cystal â dod â'ch cwestiwn i ben.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a matter for each county council to decide on who is their county's returning officer. Obviously, it is normally the chief executive, although it does not necessarily have to be so. That is something that they need to take into consideration when they are making that decision.

Mater i bob cyngor sir yw penderfynu pwy yw swyddog canlyniadau ei sir. Yn amlwg, y prif weithredwr yw'r unigolyn hwnnw fel arfer, ond nid o reidrydd. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen iddynt ei ystyried wrth wneud y penderfyniad hwnnw.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Ceisiadau Gwirfoddol am Uno Awdurdodau Lleol

## Voluntary Requests for Local Authority Merges

14:37 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. Pa geisiadau gwirfoddol am uno awdurdodau lleol y mae'r Gweinidog wedi eu cael yn dilyn adroddiad Comisiwn Williams? OAQ(4)0403(LG)*

*7. What voluntary requests for local authority mergers has the Minister received following the report of the Williams Commission? OAQ(4)0403(LG)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. No such requests have been received by the Welsh Government.

Diolch. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw geisiadau o'r fath.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:37 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn gyntaf, rwy'n deall, yn dilyn sylwadau'r Prif Weinidog ar y mater hwn, bod y Blaid Lafur yn cyfarfod erbyn diwedd y mis hwn i benderfynu ar ei safbwynt. A allwch chi gadarnhau, felly, bod disgwyl i'r Llywodraeth gael polisi ar argymhellion Williams erbyn y mis nesaf, ac a fyddwch yn dod â datganiad i'r lle hwn i esbonio'r polisi hwnnw? Yn ychwanegol at yr ateb rydych newydd ei roi, gan nad oes ceisiadau gwirfoddol wedi eu gwneud, a gan bod Williams wedi gofyn am y broses honno—rhywbeth nad oes sôn amdano yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth—beth ydych yn disgwyl i ddigwydd o ran uno awdurdodau, o hyn tan ddiwedd y Cynulliad hwn?

First, I understand, following the First Minister's comments on this issue, that the Labour Party will meet by the end of this month to decide on its position. Can you confirm, therefore, that we can expect the Government to have a policy on the Williams recommendations by next month, and that you will bring a statement to this place to explain that policy? In addition to the answer that you have just given, as no voluntary requests have been made, and as Williams asked for that process—something not mentioned in the Government's legislative programme—what do you expect to happen in terms of authority mergers between now and the end of this Assembly?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:38	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>While I said that we have had none to date, I do expect some voluntary merger requests to come forward. The First Minister has made it very clear that it was for the political parties to have discussions; I know that he has met with leaders here. We have not heard Plaid Cymru's position—it would be good to hear Plaid Cymru's position. The First Minister is obviously heading this piece of work, he will be taking this forward, and I am sure that he will come forward with a statement in due course.</p>	<p>Er imi ddweud nad ydym wedi cael unrhyw geisiadau hyd yma, disgwyliaf i rai ceisiadau uno gwirfoddol gael eu cyflwyno. Nododd y Prif Weinidog yn glir iawn mai mater i'r pleidiau gwleidyddol oedd cynnal trafodaethau; gwn ei fod wedi cyfarfod ag arweinwyr yma. Nid ydym wedi clywed safbwynt Plaid Cymru—byddai'n dda clywed safbwynt Plaid Cymru. Mae'r Prif Weinidog yn amlwg yn arwain y gwaith hwn, bydd yn bwrw ymlaen ag ef, ac rwy'n siŵr y bydd yn gwneud datganiad maes o law.</p>
14:38	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I call the opposition spokesperson, Mark Isherwood.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Mark Isherwood.</p>
14:39	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>When, earlier this month, I pointed out that it would be illegal for local authorities to merge with risk of financial deficit, and that voluntary mergers would not be an option under the Williams commission unless the Welsh Government agreed to buy out any deficits resulting, you said that you would be looking at those issues. How, therefore, in looking at those issues, will you consider the evidence from the Auditor General for Wales to the Communities, Equality and Local Government Committee that local government is not an agent of central Government, and that it has to show to its local electorate that, should it wish to collaborate or merge, there has been a proper cost benefit analysis, and that that is the right way to go?</p>	<p>Pan ddywedais yn gynharach y mis hwn y byddai'n anghyfreithlon i awdurdodau lleol uno pe bai risg o ddiffyg ariannol, ac na fyddai uno gwirfoddol yn bosibl o dan gomisiwn Williams oni bai bod Llywodraeth Cymru yn cytuno i dalu unrhyw ddiffygion a fyddai'n deillio o hynny, dywedasoch y byddech yn ystyried y materion hynny. Sut, felly, wrth ystyried y materion hynny, y byddwch yn ystyried y dystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol nad yw llywodraeth leol yn un o asiantau Llywodraeth ganolog, a bod yn rhaid iddi ddangos i'w hetholwyr lleol, os yw'n dymuno cydweithio neu uno, bod dadansoddiad priodol o gost a budd wedi'i gynnal, ac mai dyna'r ffordd gywir ymlaen?</p>
14:39	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>This is an ongoing piece of work. Even voluntary mergers would need legislation, and, obviously, this is a piece of work that we are doing at the present time. We will certainly listen to the auditor general—I meet with him regularly—and, as we take this piece of work forward, we will do that.</p>	<p>Mae hwn yn waith parhaus. Byddai angen deddfwriaeth hyd yn oed ar gyfer uno gwirfoddol, ac, yn amlwg, mae hwn yn ddarn o waith yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd. Byddwn yn sicr yn gwrandao ar yr archwilydd cyffredinol—rwy'n cyfarfod ag ef yn rheolaidd—ac, wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, byddwn yn gwneud hynny.</p>
14:39	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Again, when I questioned you earlier this month on this matter, you indicated that the First Minister had agreed to accept the cost evaluation from the Welsh Local Government Association, after it had challenged some of the assumptions and costs that the Williams commission had reported. That report is now being commissioned, I believe, from an independent outsider, overseen by two persons within the WLGA. Will the Welsh Government therefore give full consideration to the findings of that report, even if it challenges the cost assumptions within the Williams commission? Can you provide assurance that you will defer any decisions until those costings have been fully evaluated?</p>	<p>Unwaith eto, pan ofynnais wrthyhych yn gynharach y mis hwn am y mater hwn, dywedasoch fod y Prif Weinidog wedi cytuno i dderbyn gwerthusiad o gostau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar ôl iddi herio rhai o'r rhagdybiaethau a'r costau a nodwyd gan gomisiwn Williams. Mae'r adroddiad hwnnw bellach yn cael ei gomisiynu, fe gredaf, gan unigolyn allanol annibynnol, dan oruchwyliaeth dau unigolyn o CLILC. A wnaiff Llywodraeth Cymru felly ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwnnw yn llawn, hyd yn oed os yw'n herio rhagdybiaethau cost comisiwn Williams? A allwch roi sicrwydd y byddwch yn gohirio unrhyw benderfyniadau hyd nes y caiff y costau hynny eu gwerthuso'n llawn?</p>
14:40	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>We certainly do need to understand the full cost implications. We will have a look at the piece of work around finance that the Welsh Local Government Association has undertaken. I understand that it is having a further piece of work done now.</p>	<p>Mae angen inni yn sicr ddeall y goblygiadau cost llawn. Byddwn yn ystyried y gwaith hwn ar gyllid a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Deallaf ei fod bellach yn gwneud rhagor o waith.</p>

14:40	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.	Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:40	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, in relation to your answer to Simon Thomas that you expect voluntary merger requests to come forward, could you provide details of what discussions you have had that have led you to come to that conclusion? Can you indicate where you expect those voluntary merger requests to come from?	Weinidog, o ran eich ateb i Simon Thomas eich bod yn disgwyl i geisiadau uno gwirfoddol gael eu cyflwyno, a allech roi manylion am y trafodaethau yr ydych wedi eu cael sydd wedi arwain at y casgliad hwnnw? A allwch nodi pwy rydych yn disgwyl iddynt gyflwyno'r ceisiadau uno gwirfoddol hynny?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:41	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> 'No' is the answer to the latter part. I have been having discussions with local government leaders over the past month and before that. There are discussions around possible voluntary mergers, but we have not had any specific requests.	'Na allaf' yw'r ateb i ran olaf y cwestiwn hwnnw. Bùm yn trafod ag arweinwyr llywodraeth leol dros y mis diwethaf a chyn hynny. Mae'r trafodaethau wedi ymwneud â cheisiadau uno gwirfoddol posibl, ond nid ydym wedi cael unrhyw geisiadau penodol.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:41	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> When this Assembly legislated on the way councils are managed, there were quite extensive consultation requirements attached, particularly when going for an elected mayor et cetera. What consultation requirements would you attach to any requests for a voluntary merger? What hoops would you expect a council to jump through before such a request could be acceded to by the Welsh Government?	Pan ddeddfodd y Cynulliad hwn ar y ffordd y caiff cynghorau eu rheoli, roedd gofynion ymgynghori eithaf helaeth ynghlwm wrth hynny, yn enwedig wrth sefyll am rôl maer etholedig ac ati. Pa ofynion ymgynghori y byddech yn eu pennu ar gyfer unrhyw geisiadau uno gwirfoddol? Beth y byddech yn disgwyl i gyngor ei wneud er mwyn i gais o'r fath gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:41	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> This is something that we are looking at at the present time. I am certainly very supportive of consultation about any issue in relation to mergers.	Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Rwy'n sicr o blaid ymgynghori ar unrhyw fater yn ymwneud ag uno.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Setliad Llywodraeth Leol</b>	<b>Local Government Settlement</b>	
14:42	<b>Ann Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>8. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y setliad llywodraeth leol? OAQ(4)0402(LG)</i>	<i>8. Will the Minister provide an update on the local government settlement? OAQ(4)0402(LG)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:42	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The local government settlement for 2014-15 was approved by the Assembly on 14 January 2014 and provided authorities with the funding details needed to set their budgets for the next financial year.	Cymeradwywyd y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2014-15 gan y Cynulliad ar 14 Ionawr 2014, a rhoddodd y manylion ariannu yr oedd eu hangen ar awdurdodau i bennu eu cyllidebau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:42

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for that, Minister. Many local authorities are looking at ways to outsource some of their assets. Denbighshire has outsourced the assets of the Sun Centre, the Nova and the bowling centre to a company called Clwyd Leisure in an arm's-length arrangement. What guidance will your department offer councils going down that route? Denbighshire has found itself, through a lack of governance, taking back an asset that is no longer worthy to be opened, which leaves the town of Rhyl without any tourist attraction or facilities for young people to access during school holidays. More importantly, it will have a damaging effect on the tourist trade along the north Wales coast.

I am also concerned that a number of staff who were transferred out to the outsource company no longer have any jobs whatsoever, but with no prospect of a proper redundancy. Will you look at that within your department, to ensure that local authorities are not able to outsource without proper governance arrangements?

Diolch yn fawr iawn am hynny, Weinidog. Mae llawer o awdurdodau lleol yn ystyried ffyrdd o roi'r gwaith o reoli rhai o'u hasedau i gwmnïau allanol. Mae Sir Ddinbych wedi rhoi'r gwaith o reoli asedau'r Heulfan, Canolfan Nova a'r ganolfan fowlio i gwmni Hamdden Clwyd mewn trefniant hyd braich. Pa ganllawiau y bydd eich adran yn eu rhoi i gynghorau sy'n dilyn y trywydd hwnnw? Mae Sir Ddinbych wedi wynebu sefyllfa, oherwydd diffyg llywodraethu, lle bu'n rhaid iddi ddatgomiynu ased nad yw'n deilwng o gael ei agor mwyach, sy'n golygu nad oes unrhyw atyniad i dwristiaid yn nhref y Rhyl mwyach na chyfleusterau i bobl ifanc eu defnyddio yn ystod gwyliau'r ysgol. Yn bwysicach, bydd yn cael effaith andwyol ar y fasnach dwristiaeth ar hyd arfordir y gogledd.

Pryderaf hefyd nad oes gan nifer o staff a drosglwyddwyd i'r cwmni allanol unrhyw swyddi o gwbl mwyach, ond heb unrhyw obaith o ddiswyddiad priodol. A wnewch chi ystyried hynny yn eich adran, er mwyn sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn gallu rhoi gwaith i gwmnïau allanol heb drefniadau llywodraethu priodol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sadly, it is inevitable that there are going to impacts on staff and services in local authorities. We will continue to work closely with local authorities to mitigate the impacts where possible. However, it is for local authorities to manage their own reductions and they have to take account of their own local circumstances. Over the past three years, local government in Wales has been funded much better than local government in England. We made a conscious decision to do that so that it could put in place transformational change to try to avoid as much as possible the situations you describe. I have been clear with authorities that they must not blanket-cut their non-statutory services. They have a duty to promote social, economic and environmental wellbeing in their communities.

Yn anffodus, mae'n anochel y bydd hynny'n effeithio ar staff a gwasanaethau mewn awdurdodau lleol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i liniaru'r effeithiau lle y bo'n bosibl. Fodd bynnag, mater i awdurdodau lleol yw rheoli eu gostyngiadau eu hunain a rhaid iddynt ystyried eu hamgylchiadau lleol eu hunain. Dros y tair blynedd diwethaf, mae llywodraeth leol yng Nghymru wedi cael ei hariannu mewn ffordd lawer gwell na llywodraeth leol yn Lloegr. Gwnaethom benderfyniad penodol i wneud hynny er mwyn iddi allu rhoi newid gweddnewidiol ar waith i geisio osgoi'r sefyllfaoedd a ddisgrifiwyd gennych cymaint â phosibl. Rwyf wedi dweud yn glir wrth awdurdodau na ddylent wneud toriadau cyffredinol i bob un o'u gwasanaethau anstatudol. Mae ganddynt ddyletswydd i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn eu cymunedau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, there used to be a process before 2012 where the distribution sub-group brought its final report to the finance sub-group and a separate report from the expenditure sub-group was then also submitted to identify spending pressures. That has ceased. There does not seem to be any mechanism to assess those local authority spending pressures. Why was that reporting process abandoned, given that the WLGA lobbied hard to keep that in place?

Weinidog, arferai fod proses ar waith cyn 2012 lle roedd yr is-grŵp dosbarthu yn cyflwyno ei adroddiad terfynol i'r is-grŵp cyllid a lle roedd adroddiad ar wahân gan yr is-grŵp gwariant wedyn yn cael ei gyflwyno hefyd er mwyn nodi pwysau ar wariant. Nid ymddengys fod unrhyw broses ar waith i asesu'r pwysau hyn ar wariant awdurdodau lleol. Beth oedd y rheswm dros roi'r gorau i'r broses adrodd honno, o gofio bod CLILC wedi llobio'n galed i'w chadw ar waith?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I reintroduced it when I became Minister a year ago.

Ailgyflwynais y broses honno pan ddeuthum yn Weinidog flyddyn yn ôl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

**Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Pa arbedion yn y pwysau cyllidol ar gyllidebau llywodraeth leol y mae'r Gweinidog yn eu rhagweld pan fydd Bil cynllunio rhagorol ei chyd-Weinidog yn dod yn Ddeddf, gan sicrhau arbedion sylweddol hefyd i fusnesau a dinasyddion yng Nghymru?

What savings given the financial pressures on local authority budgets does the Minister anticipate when the excellent planning Bill that her fellow Minister is bringing forward becomes an Act, ensuring significant savings for businesses and citizens in Wales?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:45	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I think that is a piece of work that my colleague the Minister for Housing and Regeneration and I, and certainly our officials, are working on together. However, I cannot give you an exact figure at the present time.</p>	<p>Credaf fod hynny'n rhywbeth y mae fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Tai ac Adfywio, a minnau, ac yn sicr ein swyddogion, yn gweithio arno gyda'n gilydd. Fodd bynnag, ni allaf roi union ffigur ichi ar hyn o bryd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Cryfhau Cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol</b></p>		<p><b>Strengthening Collaboration between Local Authorities</b></p>	
14:45	<p><b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>9. Pa gynnydd sy'n cael ei wneud i gryfhau cydweithio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ(4)0399(LG)</p>	<p>9. What progress is being made to strengthen collaboration between local authorities in Wales? OAQ(4)0399(LG)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:45	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We have been supporting public service partners to collaborate through the public service reform programme. Significant achievements have been made, for example, the national procurement service and increasing integration of care to better support the frail and elderly.</p>	<p>Rydym wedi bod yn cefnogi partneriaid gwasanaeth cyhoeddus i gydweithio drwy'r rhaglen diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaed cyflawniadau sylweddol, er enghraifft, y gwasanaeth caffael cenedlaethol ac integreiddio gofal yn fwy er mwyn cefnogi pobl fregus ac oedrannus yn well.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:45	<p><b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for your reply, Minister. Earlier this year, the Minister for Economy, Science and Transport outlined her intentions regarding transport funding for local authorities and her intention to publish a new national transport plan by March 2015. Transport funding used to be allocated to consortia, such as the South East Wales Transport Alliance, to plan those transport projects on a collaborative regional basis. Do you agree that transport funding and planning needs to go back to this model on a more formal basis? What discussions have you had with local authorities to ensure their full engagement as we move forward with the city regions model?</p>	<p>Diolch am eich ateb, Weinidog. Yn gynharach eleni, amlinellodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei bwriadau o ran ariannu trafniadaeth ar gyfer awdurdodau lleol a'i bwriad i gyhoeddi cynllun trafniadaeth cenedlaethol newydd erbyn mis Mawrth 2015. Arferai cyllid ar gyfer trafniadaeth gael ei ddyrannu i gonsortia, megis Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, er mwyn cynllunio'r prosiectau trafniadaeth hynny ar sail gydweithredol ranbarthol. A gytunwch fod angen dychwelyd at y model hwn ar sail fwy ffurfiol wrth ariannu a chynllunio trafniadaeth? Pa drafodaethau a gawsoch gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn wrth inni fwrw ymlaen gyda'r model dinas-ranbarthau?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:46	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I know that all local authorities are fully involved with the city region models. I met with the north Wales leaders and discussed city regions with them, along with Dr Elizabeth Haywood, only recently. Clearly, I have discussions with the Minister for Economy, Science and Transport also.</p>	<p>Gwn fod pob awdurdod lleol yn chwarae rhan lawn yn y modelau dinas-ranbarthau. Cyfarfûm ag arweinwyr y gogledd er mwyn trafod dinas-ranbarthau â hwy, ynghyd â Dr Elizabeth Haywood, yn ddiweddar. Yn amlwg, rwyf hefyd yn cael trafodaethau gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:46	<p><b>Mohammad Asghar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, last September it was reported that a group of 10 councils in south-east Wales and mid Wales were poised to begin the phased implementation of a shared legal service, based on formal collaboration and the establishment of centres of excellence. What is the Minister doing to encourage such innovative plans to strengthen collaboration and deliver efficiency savings in Wales?</p>	<p>Weinidog, fis Medi diwethaf, dywedwyd bod grŵp o 10 cyngor yn y de-ddwyrain a'r canolbarth yn barod i roi gwasanaeth cyfreithiol a rennir ar waith yn raddol, yn seiliedig ar gydweithredu ffurfiol a sefydlu canolfannau rhagoriaeth. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i annog cynlluniau arloesol o'r fath i atgyfnerthu trefniadau cydweithredu a sicrhau arbedion effeithlonrwydd yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:47 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

One of the things that my predecessor did was to introduce the regional collaboration fund and that is something that I have taken forward. I am considering bids at the moment and letters will be going out to the relevant local authorities later this month. We also have the new intermediate care fund, which is for one year and which will also encourage collaboration.

Un o'r pethau a wnaeth fy rhagflaenydd oedd cyflwyno'r gronfa gydweithredu ranbarthol ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi ei ddatblygu. Rwy'n ystyried ceisiadau ar hyn o bryd a chaiff llythyrau eu hanfon i'r awdurdodau lleol perthnasol yn ddiweddarach y mis hwn. Mae gennym hefyd y gronfa gofal canolraddol newydd, sydd ar waith am fwyddyn ac a fydd hefyd yn annog cydweithredu.

14:47 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, collaboration brings many benefits, but the big challenge is accountability and, particularly, the public's ability to understand who is responsible for which decisions and how it holds them to account for that. There is a range of different collaborative models from consortia to directly appointed boards and more informal arrangements across Wales. How will you ensure that there are comparable arrangements for governance and scrutiny purposes across Wales and across all policy areas?

Weinidog, mae cydweithredu'n cynnig llawer o fuddiannau, ond yr her fawr yw atebolrwydd ac, yn benodol, allu'r cyhoedd i ddeall pwy sy'n gyfrifol am ba benderfyniadau a sut y cânt eu dwyn i gyfrif am hynny. Ceir amrywiaeth o fodelau cydweithredol gwahanol o gonsortia i fyrddau a benodwyd yn uniongyrchol a threfniadau mwy anffurfiol ledled Cymru. Sut y byddwch yn sicrhau bod trefniadau cyffelyb ar waith at ddibenion llywodraethu a chraffu ledled Cymru ac ym mhob maes polisi?

14:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It is really important that we do have the best governance and scrutiny policies in place. I think that we do have those checks in place. As we take forward the commission's recommendations, that is even more important as we look at different footprints, if you like, of how those decisions are taken.

Mae'n bwysig iawn bod gennym y polisiau llywodraethu a chraffu gorau ar waith. Credaf fod gennym y gwiriadau hynny ar waith. Wrth inni fwrw ymlaen ag argymhellion y comisiwn, mae hynny'n bwysicach fyth wrth inni ystyried olion traed gwahanol, os mynnwch, o ran sut y caiff y penderfyniadau hynny eu gwneud.

## Lefelau'r Dreth Gyngor yn y Gogledd

## Council Tax Levels in North Wales

14:48 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau'r dreth gyngor yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0395(LG)*

*10. Will the Minister make a statement on council tax levels in north Wales? OAQ(4)0395(LG)*

14:48 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The setting of council tax is a matter for each council and police and crime commissioner. There is a range of increases across the north Wales region, reflecting local decisions.

Mater i bob cyngor a chomisiynydd yr heddlu a throseddau yw pennu'r dreth gyngor. Gwelwyd cynnydd amrywiol yn rhanbarth y gogledd, sy'n adlewyrchu penderfyniadau lleol.

14:48 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that answer, Minister. You will be aware that Members on this side of the Chamber are extremely disappointed that there is not a council tax freeze in north Wales and elsewhere in the country. We very much regret that council tax bills have risen by 150% under Labour-led administrations in this Assembly. One of the big challenges that local authorities appear to face is that there is £85 million-worth of uncollected council tax in the last financial year. What work are you doing, as a Government, to incentivise local authorities to improve on their collection rates in order that council tax can be kept down in the future and so that people do not have inflation-busting increases?

Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod Aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr yn siomedig iawn nad yw'r dreth gyngor wedi cael ei rhewi yn y gogledd ac mewn rhannau eraill o'r wlad. Mae'n drueni mawr bod biliau treth gyngor wedi codi 150% dan weinyddiaethau a arweinir gan y blaid Lafur yn y Cynulliad hwn. Un o'r prif heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol yn ôl pob golwg yw'r ffaith na chasglwyd gwerth £85 miliwn o dreth gyngor yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Pa waith rydych yn ei wneud fel Llywodraeth i annog awdurdodau lleol i wella eu cyfraddau casglu er mwyn sicrhau y gellir cadw'r dreth gyngor mor isel â phosibl yn y dyfodol ac felly nad yw pobl yn wynebu cynnydd sy'n fwy na chwyddiant?

14:49	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>I think that the Assembly Member is right to focus on levels. Average council tax bills are far lower in Wales than across the border in England. Welsh authorities can choose to freeze council tax if they wish, and if budgetary pressures allow, but I think that we all accept that they have had a very challenging financial settlement due to the significant cuts that the Welsh Government has received from the UK Government. You raise an important point about uncollected council tax, and we are doing all that we can to work with local authorities to ensure that those council taxes are collected, to enable them to be on a much more stable footing.</p>	<p>Credaf fod yr Aelod Cynulliad yn iawn i ganolbwyntio ar lefelau. Mae biliau treth gyngor cyfartalog yn llawer is yng Nghymru na thros y ffin yn Lloegr. Gall awdurdodau yng Nghymru ddewis rhewi'r dreth gyngor os byddant yn dymuno gwneud hynny, ac os bydd pwysau cyllidebol yn caniatáu hynny, ond credaf fod pob un ohonon yn derbyn eu bod wedi wynebu setliad ariannol heriol iawn oherwydd y toriadau sylweddol a wnaed i gyllideb Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU. Rydych yn codi pwynt pwysig am dreth gyngor heb ei chasglu, ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y trethi cyngor hynny'n cael eu casglu, er mwyn rhoi sylfaen llawer mwy cadarn iddynt.</p>
14:50	<b>Llyr Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Plaid Cymru has said that where council tax is increased, local authorities should be transparent about how that revenue is being spent. Do you think that there might be any potential to review how tax increases are being portrayed publicly, because there are examples of good practice around that should be shared more widely?</p>	<p>Mae Plaid Cymru wedi dweud, lle y caiff y dreth gyngor ei chynyddu, y dylai awdurdodau lleol fod yn dryloyw o ran sut y caiff y refeniw hwnnw ei wario. A gredwch y gellid adolygu'r ffordd y caiff cynnydd mewn treth ei bortredu'n gyhoeddus, oherwydd mae enghreifftiau o arfer da y dylid eu rhannu'n ehangach?</p>
14:50	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Absolutely; sharing good practice is something that I am continually going on about. It is important for people to understand why they have had that council tax bill drop on their doorstep and what they are getting for their money. One thing that I have been very pleased with is the way that some local authorities have engaged with the public as they have made these very difficult budget decisions. I have asked for a piece of work to be done to see, again, where the good practice was in engaging with the public, prior to setting the council tax, and what can be learned for next year.</p>	<p>Yn sicr; mae rhannu arfer da yn rhywbeth yr wyf yn sôn amdano'n barhaus. Mae'n bwysig bod pobl yn deall pam eu bod wedi cael y bil treth gyngor hwnnw a'r hyn y maent yn ei gael am eu harian. Un peth yr wyf wedi bod yn falch iawn ohono yw'r ffordd y mae rhai awdurdodau lleol wedi cynnwys y cyhoedd wrth iddynt wneud y penderfyniadau cyllidebol anodd iawn hyn. Rwyf wedi gofyn iddynt wneud rhagor o waith er mwyn nodi, unwaith eto, enghreifftiau o arfer da wrth gynnwys y cyhoedd, cyn pennu'r dreth gyngor, a'r hyn y gellir ei ddysgu ar gyfer y flwyddyn nesaf.</p>
	<b>Lluoedd Arfog</b>	<b>Armed Forces</b>
14:51	<b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>11. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo aelodau o'r lluoedd arfog? OAQ(4)0401(LG)</p>	<p>11. How is the Welsh Government supporting members of the armed forces? OAQ(4)0401(LG)</p>
14:51	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>The Welsh Government published a revised package of support for the armed forces community in June 2013.</p>	<p>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth diwygiedig i gymuned y lluoedd arfog ym mis Mehefin 2013.</p>
14:51	<b>Gwyn R. Price</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Thank you for that answer. Minister, it is important that members of the armed forces realise the high regard we hold them in. With that in mind, will you join me in congratulating the organisers of a recent march through Risca of the 203 (Welsh) Field Hospital?</p>	<p>Diolch am yr ateb hwnnw. Weinidog, mae'n bwysig bod aelodau'r lluoedd arfog yn sylweddoli'r parch mawr sydd gennym tuag atynt. O gofio hynny, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch trefnwyr gorymdaith ddiweddar drwy Ysbyty Maes (Cymreig) 203 Rhisga?</p>

14:51	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, absolutely, and, of course, we show our support to the armed forces, and we all share that view. You referred to the 203 (Welsh) Field Hospital, and they are key partners of Caerphilly County Borough Council's armed forces community covenant. I am fully aware that they were deployed to Afghanistan. We are very thankful for the wonderful job that they have done on our behalf. I know that there was also an event in the Senedd on 12 March, which, unfortunately, I was unable to attend. However, I pay tribute to their commitment and fully support their work.</p>	<p>Gwnaf, yn sicr, ac, wrth gwrs, rydym yn dangos ein cefnogaeth i'r lluoedd arfog, ac rydym i gyd yn rhannu'r farn honno. Cyfeiriasoch at Ysbyty Maes (Cymreig) 203, ac maent yn bartneriaid allweddol yng nghyfamod cymunedol lluoedd arfog Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Rwy'n gwbl ymwybodol eu bod wedi cael eu hanfon i Afghanistan. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gwaith gwych y maent wedi ei wneud ar ein rhan. Gwn fod digwyddiad hefyd wedi ei gynnal yn y Senedd ar 12 Mawrth, ond nid oeddwn yn gallu bod yn bresennol yn anffodus. Fodd bynnag, talaf deyrnged i'w hymroddiad a chefnogaf eu gwaith yn llawn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:52	<p><b>Byron Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, your predecessor, Carl Sargeant, committed to introduce an all-Wales veterans card in this Chamber in November 2013. He committed to ensure,</p> <p>'ex-service personnel...should either be prioritised or get access to these services.... That is something that we will be presenting in the near future.'</p> <p>Can you update the Chamber on that commitment and on a timescale for delivery please?</p>	<p>Weinidog, ymrwymodd eich rhagflaenydd, Carl Sargeant, i gyflwyno cerdyn cyn-filwyr Cymru gyfan yn y Siambr hon ym mis Tachwedd 2013. Ymrwymodd i sicrhau</p> <p>y dylai cyn-filwyr naill ai gael blaenoriaeth neu allu gael gafael ar y gwasanaethau hyn. Mae hynny'n rhywbeth y dyfodol agos.</p> <p>A fydddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am yr ymrwymiad hwnnw ac amserlen ar gyfer ei gyflawni?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:52	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Certainly. I updated the Chamber on 5 November that I have a veterans ID card task and finish group. It is undertaking further work for me. I plan to have a pilot scheme. The group is presenting its findings to my next armed forces expert group. I am not quite sure of the date, but that is in the very near future. It is certainly something that I am committed to also.</p>	<p>Wrth gwrs. Dywedais wrth y Siambr ar 5 Tachwedd fod gennyf grŵp gorchwyl a gorffen cerdyn adnabod cyn-filwyr ar waith. Mae'r grŵp hwnnw'n gwneud rhagor o waith ar yr rhan. Bwriadaf gynnal cynllun peilot. Bydd y grŵp yn cyflwyno ei ganfyddiadau i'm grŵp arbenigol nesaf ar y lluoedd arfog. Nid wyf yn hollol siŵr o'r dyddiad, ond bydd yn y dyfodol agos iawn. Mae'n sicr yn rhywbeth yr wyf wedi ymrwmo iddo hefyd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:53	<p><b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I still pride myself on being the only Welsh politician to actually visit the field hospital in Camp Bastion in Afghanistan. To what extent does the Welsh Government's package of support for armed service personnel also cater for the needs of army reservists, volunteers and their families, who so ably assist in that hospital? I have to place on record that that hospital is, indeed, a really awesome place to visit. You can feel quite humble when you are there.</p>	<p>Rwy'n parhau i ymfalchïo yn y ffaith mai fi yw'r unig wleidydd o Gymru i ymweld â'r ysbyty maes yng Ngwersyll Bastion yn Afghanistan. I ba raddau y mae pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer aelodau'r lluoedd arfog hefyd yn diwallu anghenion milwyr wrth gefn, gwirfoddolwyr a'u teuluoedd, sy'n cynorthwyo'r ysbyty hwnnw mor fedrus? Rhaid imi ddweud bod yr ysbyty hwnnw'n lle gwirioneddol wych i ymweld ag ef. Mae'n gwneud ichi deimlo'n eithaf gostyngedig pan fyddwch yno.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:53	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am sure, and well done on visiting there.</p> <p>We need to look at ensuring that all members of the veterans family receive the necessary support and services that they need. That is something that I am certainly committed to.</p>	<p>Rwy'n siŵr, a da iawn chi am ymweld ag ef.</p> <p>Mae angen inni geisio sicrhau bod pob aelod o deulu cyn-filwr yn cael y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn sicr yn ymrwymedig iddo.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

**Amrywiaeth Llywodraeth Leol**

**Diversity of Local Government**

- 14:54 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella amrywiaeth llywodraeth leol? OAQ(4)0400(LG) 12. Will the Minister make a statement on what measures the Welsh Government is taking to improve the diversity of local government? OAQ(4)0400(LG)
- 14:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 This Assembly held a full debate on the report of my expert group on local government diversity last Tuesday, in which I outlined the action that the Welsh Government will take in preparing for the next local government elections. Cynhaliodd y Cynulliad hwn ddatlawn ar adroddiad fy ngrŵp arbenigol ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol ddydd Mawrth diwethaf, lle amlinellais y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i baratoi ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol nesaf.
- 14:54 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 I welcome that debate. Croesawaf y ddatl honno.  
 Even though one in four Welsh councillors are women, women hold around only 19% of cabinet posts, and just one Welsh council after tomorrow will be led by a woman. Er bod un o bob pedwar cynghorydd yng Nghymru yn fenywod, dim ond 19% o swyddi cabinet a ddelir gan fenywod, a dim ond un cyngor yng Nghymru ar ôl yforydd yn cael ei arwain gan fenyw.  
 Krook and O'Brien, who did research in 2011, showed that increasing the number of women as legislators increases the number of women in senior positions. Do you agree that having more women in senior positions will lead to a broader perspective and better decision making? Dangosodd Krook ac O'Brien, a wnaeth ymchwil yn 2011, fod cynyddu nifer y menywod sy'n deddfu yn cynyddu nifer y menywod mewn swyddi uwch. A gytunwch y bydd cael mwy o ferched mewn swyddi uwch yn arwain at safbwyntiau ehangach a phenderfyniadau gwell?
- 14:54 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 Yes, absolutely, and I share your concerns about the lack of diversity in local government and the particular paucity of women in senior positions. I know that the Presiding Officer shares this concern and has done some excellent work with Chwarae Teg to promote women in public life. I also think that having a more diverse council chamber will lead to better decision making. If you think about it, women are more likely than men to be the users of council services. Cytunaf, yn sicr, a rhannaf eich pryderon am y diffyg amrywiaeth mewn llywodraeth leol a'r prinder penodol o fenywod mewn swyddi uwch. Gwn fod y Llywydd yn rhannu'r pryder hwn a'i fod wedi gwneud gwaith rhagorol gyda Chwarae Teg i hyrwyddo menywod mewn bywyd cyhoeddus. Credaf hefyd y bydd cael siambr cyngor fwy amrywiol yn arwain at benderfyniadau gwell. Os meddylwch am y peth, mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddefnyddio gwasanaethau cyngor.
- 14:55 **Suzu Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 Minister, I was very pleased that you took my point in last week's debate that women might be disproportionately denied an opportunity to stand for election because they form a high percentage of the public sector workforce, which, in Wales, is itself a high percentage of the workforce. That is due to the current disqualification rules. I appreciate that the Constitutional and Legislative Affairs Committee might be looking at this as well, but I am sure that the Government is likely to want to do some work on this. Are you in a position to say, at this stage, what that work might be? Weinidog, roeddwn yn falch iawn eich bod wedi derbyn fy mhwynt yn y ddatl yr wythnos diwethaf fod menywod o bosibl yn cael eu hatal yn anghymesur rhag sefyll mewn etholiad am eu bod yn cyfrif am ganran uchel o'r gweithlu sector cyhoeddus, sydd, yng Nghymru, ei hun yn ganran uchel o'r gweithlu. Mae hynny o ganlyniad i'r rheolau anghymwysio cyfredol. Sylweddolaf y gallai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fod yn ystyried hyn hefyd, ond rwy'n siŵr bod y Llywodraeth yn debygol o fod eisiau gwneud rhywfaint o waith ar hyn. A ydych mewn sefyllfa i ddweud, ar hyn o bryd, beth y gallai'r gwaith hwnnw fod?
- 14:55 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 No. This was something that you raised with me last week and I did commit to having a look at it, but I cannot update the Chamber at the present time. Nac ydw. Roedd hyn yn rhywbeth y gwnaethoch ei godi gyda mi yr wythnos diwethaf ac ymrwymais i'w ystyried, ond ni allaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr ar hyn o bryd.

## Cyllido Llywodraeth Leol yng Nghymru

## Local Government Funding in Wales

14:56	<b>Llyr Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> 13. <i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol cyllido lywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0407(LG)</i>	13. <i>Will the Minister make a statement on the future of local government funding in Wales? OAQ(4)0407(LG)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:56	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I have published the final settlement for local government for 2014-15. This went through the Assembly on 14 January.	Rwyf wedi cyhoeddi'r setliad terfynol i lywodraeth leol ar gyfer 2014-15. Cyflwynwyd hwn gerborn y Cynulliad ar 14 Ionawr.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:56	<b>Llyr Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> In an earlier answer, you mentioned work that is ongoing on engagement around the setting of local council tax. We are seeing, of course, the required statutory consultation taking place with communities and households, but the standard of engagement beyond that varies quite considerably. Therefore, what are your views on moving towards a more formal system of participatory budgeting for deciding how local government funding is spent?	Mewn ateb cynharach, soniasoch am y gwaith sy'n mynd rhagddo ar ymgysylltu mewn perthynas â phennu'r dreth gyngor yn lleol. Rydym yn gweld, wrth gwrs, yr ymgynghori statudol gofynnol â chymunedau a chartrefi, ond mae safon yr ymgysylltu y tu hwnt i hynny'n amrywio'n sylweddol. Felly, beth yw eich barn ar symud tuag at system fwy ffurfiol o gyllidebu cyfranogol er mwyn penderfynu sut y caiff arian llywodraeth leol ei wario?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:56	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> You are quite right; my view is that it has been very varied across the 22 local authorities. There are some really good examples of best practice. I mentioned that I have asked for a piece of work to be undertaken so that I can look at how the 22 local authorities have undertaken that consultation and engagement, to see what can be learned and whether we can have some sort of best practice sharing before the next budget.	Rydych yn llygad eich lle; mae wedi amrywio'n sylweddol ar draws y 22 awdurdod lleol yn fy marn i. Ceir rhai enghreifftiau da iawn o arfer gorau. Soniais fy mod wedi gofyn am ragor o waith er mwyn imi allu ystyried sut mae'r 22 awdurdod lleol wedi ymgymryd â'r ymgynghori a'r ymgysylltu hwnnw, er mwyn gweld beth y gellir ei ddysgu a pha un a allwn rannu rhywfaint o arfer gorau cyn y gyllideb nesaf.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:57	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Do you agree with Labour's UK shadow Minister for communities on community council tax referenda?	A ydych yn cytuno â Gweinidog cymunedau yr wrthblaid yn Llywodraeth Lafur y DU ynghylch referenda treth gyngor cymunedol?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:57	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> No.	Nac ydw.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Comisiwn Williams</b>	<b>The Williams Commission</b>	
14:57	<b>Lynne Neagle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> 14. <i>Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglyn â gweithredu argymhellion Comisiwn Williams? OAQ(4)0408(LG)</i>	14. <i>What discussions has the Minister had regarding the implementation of the recommendations of the Williams Commission? OAQ(4)0408(LG)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:57	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> A considerable amount of work by the Welsh Government has taken place since the publication of the Williams commission report, with a view to implementing its recommendations.	Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru ers cyhoeddi adroddiad comisiwn Williams er mwyn gweithredu ei argymhellion.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:57

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you know, one of the concerns that we saw echoed very widely following the publication of the report was the significant disparity between the estimated costs of reorganisation as set out by the commission and the estimates published by the Welsh Local Government Association and others. Do you agree, Minister, that moving forward from here, it is essential that we have an accurate picture of the true costs of proceeding with this process, and can you update Members today on progress in relation to the cost-benefit analysis that I understand the Welsh Government is undertaking?

Weinidog, fel y gwyddoch, un o'r pryderon a ategwyd yn eang iawn yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad oedd y gwahaniaeth sylweddol rhwng y costau ad-drefnu amcangyfrifedig a nodwyd gan y comisiwn a'r amcangyfrifon a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill. A gytunwch, Weinidog, wrth fwrw ymlaen â hyn, ei bod yn hanfodol bod gennym ddarlun cywir o gostau gwirioneddol y broses hon, ac a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau heddiw am gynnydd y gwaith o ddadansoddi cost a budd y deallaf fod Llywodraeth Cymru yn ei wneud?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can, today, share with the Assembly that, since the publication of the Williams commission report, the First Minister has established a ministerial task and finish group, which he will chair, with the express purpose of taking forward the Williams commission recommendations. The first meeting will take place in the very near future. You make a very good point in saying that understanding the financial impact of proposals is vital, particularly in times of financial constraint. As part of our consideration of the commission's report and recommendations, it is very important that we have a clear understanding of the full costs of our options and what the benefits would be. The Welsh Government will present robust regulatory impact assessments for any legislative proposals that we bring forward.

Gallaf, heddiw, rannu â'r Cynulliad, ers cyhoeddi adroddiad comisiwn Williams, fod y Prif Weinidog wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol, y bydd yn ei gadeirio, gyda'r nod penodol o fwrw ymlaen ag argymhellion comisiwn Williams. Cynhelir y cyfarfod cyntaf yn y dyfodol agos iawn. Rydych yn gwneud pwynt da iawn wrth ddweud bod deall effaith ariannol y cynigion yn hanfodol, yn enwedig mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol. Wrth ystyried adroddiad ac argymhellion y comisiwn, mae'n bwysig iawn bod gennym ddealltwriaeth glir o gostau llawn ein hopsiynau a'r buddiannau. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno asesiadau cadarn o effaith rheoleiddiol ar gyfer unrhyw gynigion deddfwriaethol a gyflwynir gennym.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am pleased to hear that considerable work has been undertaken by the Welsh Government in connection with the Williams report. You mentioned the task and finish group that the First Minister is chairing; will you put the terms of reference for that task and finish group out so that people can see and scrutinise them? Are you in a position to confirm that the task and finish group will be looking specifically at local government reorganisation and the amalgamation of some of the authorities, or is this something that will have to go beyond the next Assembly elections?

Weinidog, rwy'n falch o glywed bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag adroddiad Williams. Soniasoch am y grŵp gorchwyl a gorffen y mae'r Prif Weinidog yn ei gadeirio; a fyddwch yn cyhoeddi cylch gorchwyl y grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw er mwyn i bobl allu ei weld a chraffu arno? A ydych mewn sefyllfa i gadarnhau y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn ystyried yn benodol ad-drefnu llywodraeth leol ac uno rhai o'r awdurdodau, neu a yw hyn yn rhywbeth y bydd yn rhaid iddo fynd y tu hwnt i etholiadau nesaf y Cynulliad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is a matter for the First Minister, in relation to the task and finish group. I have just said that he will be chairing that group. Obviously, we will have to look at all of the proposals from Williams. Williams does not actually propose the reorganisation of local government, he proposes mergers.

Mater i'r Prif Weinidog yw hynny, o ran y grŵp gorchwyl a gorffen. Rwyf newydd ddweud y bydd yn cadeirio'r grŵp hwnnw. Yn amlwg, bydd yn rhaid inni ystyried holl gynigion Williams. Nid yw Williams mewn gwirionedd yn cynnig ad-drefnu llywodraeth leol, mae'n cynnig uno.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:00.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:00.*

## Gwasanaethau Llywodraeth Leol

## Local Government Services

15:00

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*15. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith polisiau Llywodraeth y DU ar wasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0398(LG)*

*15. What assessment has the Minister made of the impact UK Government policies will have on local government services in Wales? OAQ(4)0398(LG)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:00	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We consider closely the impact UK Government policies have on Wales, including those that impact on local government services.</p>	<p>Rydym yn ystyried yn ofalus effaith polisiâu Llywodraeth y DU ar Gymru, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar wasanaethau llywodraeth leol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:00	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, gwnaeth Llywodraeth San Steffan gyfaddawd y llynedd i beidio â chynnwys y lluoedd arfog yn y dreth ystafell wely. Er hyn, roedd fetholwyr yn flin iawn i ddeall taw dim ond pan fo'r milwr ar 'active duty' y mae'r eithriad hwn yn weithredol a phan fo'r milwr yn ôl yn y barics nid yw'r eithriad hwn yn weithredol ac mae'n rhaid talu'r dreth ystafell wely ar y cartref teuluol yn llawn. Mae f'etholwyr yn teimlo bod Llywodraeth San Steffan wedi eu gadael hwy i lawr, ac wedi'u camarwain, hyd yn oed, y llynedd. A wnewch chi godi'r mater hwn gyda Llywodraeth San Steffan pan fyddwch chi'n cwrdd â Gweinidogion nesaf?</p>	<p>Minister, the Westminster Government made a compromise last year not to include the armed forces in the bedroom tax. Despite this, constituents of mine were very angry to learn that it is only when soldiers are on active duty that this exemption applies and when soldiers are back in barracks the exemption no longer applies and the bedroom tax on the family home has to be paid in full. My constituents feel that the Westminster Government has let them down, and mislead them, even, last year. Will you raise this issue with the Westminster Government when you next meet with Ministers?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:00	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Yes, I will be very happy to do that.</p>	<p>Byddaf yn fwy na pharod i wneud hynny.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:00	<p><b>Cwestiwn Brys: Amseroedd Ymateb Ambiwylansys</b></p> <p><b>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The Presiding Officer has accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Kirsty Williams to ask the urgent question.</p>	<p><b>Urgent Question: Ambulance Response Times</b></p> <p>Mae'r Llywydd wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Kirsty Williams i ofyn y cwestiwn brys.</p>	<p><b>Y</b> Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:01	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffigurau ambiwlans a gyhoeddwyd heddiw sy'n dangos mai dim ond 52.8% o ymatebion brys i alwadau Categori A (bygythiad difrifol i fywyd) a gyrhaeddodd y safle o fewn wyth munud yng Nghymru y mis diwethaf?</i> EAQ(4)0419(HSS)</p>	<p><i>Will the Minister make a statement on today's ambulance figures which show just 52.8% of emergency responses to Category A (immediately life-threatening) calls arrived at the scene within 8 minutes in Wales last month?</i> EAQ(4)0419(HSS)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:01	<p><b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i></p> <p>Ambulance response times in February were disappointing but substantially affected by sustained extreme weather conditions experienced across Wales during that month.</p>	<p>Roedd amseroedd ymateb ambiwlansys ym mis Chwefror yn siomedig, ond cawsant eu heffeithio'n sylweddol gan y tywydd eithafol parhaus a welwyd ledled Cymru yn ystod y mis hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:01	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, your programme for government promised that you would take forward the ambulance improvement programme to ensure a swift response to life-threatening, category A, calls. Yet today's figures are the worst that we have seen since December 2010. In Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Torfaen, Merthyr, Caerphilly, Flintshire and Monmouthshire less than 50% of those calls were responded to within eight minutes. Minister, why has the Welsh Government not been able to deliver the ambulance service that Wales needs and deserves?</p>	<p>Weinidog, yn eich rhaglen lywodraethu gwnaethoch addo byddech yn bwrw ymlaen â'r rhaglen i wella'r gwasanaeth ambiwlans er mwyn sicrhau ymateb cyflym i alwadau categori A (bygythiad difrifol i fywyd). Eto, y ffigurau a gyhoeddwyd heddiw yw'r rhai gwaethaf ers mis Rhagfyr 2010. Yn Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Torfaen, Merthyr, Caerffili, Sir y Fflint a Sir Fynwy ymatebwyd i lai na 50% o'r galwadau hynny o fewn wyth munud. Weinidog, pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu darparu'r gwasanaeth ambiwlans sydd ei angen ar Gymru ac mae'n ei haeddu?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

15:02

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Across this winter ambulance response times in Wales have been better than they were in parallel months last year until February. I think that shows that improvement is being achieved within the Welsh ambulance service and we have plans to take that improvement further. I wrote to all Assembly Members on 13 February at the height of the worst weather explaining to them that I was passing information to the Welsh ambulance service emphasising the need for it to act safely during the worst weather conditions for very many years. That is what it did and I am afraid that some of that is reflected in the figures that we have today, but it ill behoves us sitting here in the comfort of the National Assembly not to take account of the circumstances that people delivering that service faced during February and to understand the impact that had on their ability to deliver a service.

Y gaeaf hwn, mae amseroedd ymateb ambiwlansys yng Nghymru wedi bod yn well nag yr oeddent yn ystod yr un misoedd y llynedd tan fis Chwefror. Credaf fod hyn yn dangos gwelliant o fewn gwasanaeth ambiwlans Cymru ac mae gennym gynlluniau i wneud gwelliannau pellach. Ysgrifennais at bob Aelod Cynulliad ar 13 Chwefror pan roedd y tywydd ar ei waethaf yn egluro fy mod yn trosglwyddo gwybodaeth i wasanaeth ambiwlans Cymru yn pwysleisio'r angen iddo weithredu'n ddiogel yn ystod y tywydd gwaethaf a gafwyd ers nifer fawr o flynyddoedd. Dyna'r hyn a wnaeth ac mae arnaf ofn bod hynny, i ryw raddau, yn cael ei adlewyrchu yn y ffigurau sydd gennym heddiw. Fodd bynnag, nid yw'n briodol inni eistedd yma yng nghysur y Cynulliad Cenedlaethol heb ystyried yr amgylchiadau a wynebwyd gan y bobl sy'n darparu'r gwasanaeth hwnnw yn ystod mis Chwefror na deall yr effaith a gafodd hynny ar eu gallu i ddarparu gwasanaeth.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:03

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, let us get real about this. The circumstances that the ambulance crews face are as a direct result of the pressures in A&E departments, which your Government has caused as a result of record-breaking cuts. The reality is that there was a 5% reduction in the number of category A calls between January and February, and yet still the performance got worse even though the weather was worse in January. It is appalling, Minister, that you have not gotten to grips with the state of the Welsh ambulance service or the unscheduled care problems within our health system. What we need to see is less talk and more action to put these things right. This is why our party has been calling for many months now for an urgent review of all care in Welsh hospitals in order that these systemic problems can be put right. Will you concede that it is now time to reflect on your position of refusing to undertake such a review and to commission one urgently?

Weinidog, gadewch inni fod yn realistig am hyn. Mae'r amgylchiadau y mae'r criwiau ambiwlans yn eu hwynebu yn deillio'n uniongyrchol o'r pwysau mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, y mae eich Llywodraeth wedi'u hachosi o ganlyniad i'r toriadau mwyaf erioed. Y realiti yw bod gostyngiad o 5% wedi bod yn nifer y galwadau categori A rhwng mis Ionawr a mis Chwefror, ac eto gwelwyd perfformiad gwaeth er bod y tywydd yn waeth ym mis Ionawr. Mae'n warthus, Weinidog, nad ydych wedi mynd i'r afael â chyflwr y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru na'r problemau o ran gofal heb ei drefnu yn ein system iechyd. Yr hyn sydd ei angen yw llai o siarad a mwy o weithredu er mwyn unioni'r pethau hyn. Dyma pam bod ein plaid wedi bod yn galw, ers misoedd lawer bellach, am adolygiad brys o'r holl ofal a roddir mewn ysbytai yng Nghymru er mwyn datrys y problemau systemig hyn. A wnewch chi dderbyn ei bod bellach yn bryd ichi ystyried eich penderfyniad i wrthod cynnal adolygiad o'r fath a chomisiynu un ar frys?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:04

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

How the Member believes that the sort of action he has called for would have made any difference to the extreme weather conditions in February, the wettest on record, with winds of over 100 miles per hour and bridges and roads closed and impassable, I do not know. Over the weekend of 13 February I, in conjunction with the director general of the national health service and the chair and chief executive of the Welsh ambulance trust, thought very seriously about suspending targets altogether in the Welsh ambulance trust because of the advice we were receiving from the police about the conditions that ambulance drivers were facing in attempting to respond to calls within eight minutes in parts of Wales. We chose not to do so. However, not to recognise those circumstances and to instead make some cynical link to the claims that the opposition party has made about the state of the health service in Wales simply does not stand up to examination.

Sut gall yr Aelod gredu y byddai'r math o gamau gweithredu y mae wedi galw amdanynt wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'r amodau tywydd eithafol ym mis Chwefror, y mis gwlypaf ar gofnod, gyda gwyntoedd o dros 100 milltir yr awr a phontydd a ffyrdd ar gau ac yn amhosibl eu tramwyo, ni wn. Dros benwythnos 13 Chwefror fe wnes i, ar y cyd â chyfarwyddwr cyffredinol y gwasanaeth iechyd gwladol a chadeirydd a phrif weithredwr ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru, feddwl o ddifrif am atal targedau yn gyfan gwbl yn ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru oherwydd y cyngor yr oeddem yn ei dderbyn gan yr heddlu am yr amodau yr oedd gyrwyr ambiwlans yn eu hwynebu wrth geisio ymateb i alwadau o fewn wyth munud mewn rhannau o Gymru. Dewiswyd peidio â gwneud hynny. Fodd bynnag, ni all methiant i gydnabod yr amgylchiadau hynny ac, yn hytrach, wneud rhyw gysylltiad sinigaid â'r honiadau y mae'r gwrthblaid wedi'u gwneud ynghylch cyflwr y gwasanaeth iechyd yng Nghymru wrthsefyll archwiliad.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:05

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, rwy'n derbyn bod y tywydd yn gallu amharu ar ein gwasanaethau argyfwng, ond mae'r ystadegau rydych wedi eu rhyddhau heddiw yn dangos yn glir bod llai o alwadau ym mis Chwefror o'i gymharu â mis Ionawr, ac eto roedd perfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn waeth ym mis Chwefror nag ym mis Ionawr. Roedd tywydd gwael drwy mis Ionawr eleni, ac roedd tywydd gwael ym mis Chwefror hefyd. Felly, rwy'n ei ffeindio yn anodd i ddeall pam fod y tywydd ym mis Chwefror yn benodol yn cael yr effaith ddramatig hon ar berfformiad y gwasanaeth ambiwlans. Ymhellach at hynny, rydym yn gweld bod penderfyniadau yn cael eu cymryd gan y gwasanaethau iechyd yn awr i ganoli gwasanaethau argyfwng a chanoli gwasanaethau 'cardiac' o bosibl yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Sut y gallwch chi roi hyder i ni fel Aelodau Cynulliad, ac i boblogaeth mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan hyn, y bydd adnoddau ychwanegol ar gael i'r gwasanaeth ambiwlans, nid yn unig i wella ei berfformiad yn awr ond hefyd er mwyn cwrdd â'r galw ychwanegol a fydd ar y gwasanaeth yn y dyfodol, beth bynnag fydd y tywydd?

Minister, I accept that the weather can have an impact on our emergency services, but the statistics that you have released today demonstrate clearly that there were fewer calls in February as compared to January, and yet the performance of the ambulance service was worse in February than in January. We saw bad weather throughout the month of January this year, and there was also bad weather in February. So, I find it difficult to understand why the weather in February specifically had this dramatic impact on the performance of the ambulance service. Further to that, we see that decisions are being taken by the health service now to centralise emergency services and to perhaps centralise cardiac services in the Hywel Dda Local Health Board area. How can you give us as Assembly Members, and the population of the areas that are affected by these changes, confidence that additional resources will be available to the ambulance service, not only to improve its performance now but also to meet the additional demands that will be placed upon the service in the future, whatever the weather?

15:06

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'r Aelod wedi gwneud pwyntiau pwysig. Un peth rwyf yn gallu ei ddweud yw, pan fo'r tywydd yn wael ym mis Ionawr ac mae'n cadw i fod felly ym mis Chwefror, mae'r effaith ar y gwasanaeth ambiwlans yn cario ymlaen.

The Member has made important points. One thing that I can say is that, when the weather is bad in January and it continues through to February, the impact on the ambulance service accumulates.

It is a cumulative effect that the ambulance service faces.

Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn wynebu effaith gronnol.

Rydym yn buddsoddi yn y gwasanaeth ambiwlans. Mae newydd recriwtio pobl newydd. Mae lan yn awr at y nifer o staff sydd gyda'r gwasanaeth yn yr 'establishment', fel maent yn ei alw. Rwyf yn awyddus, ac rwyf wedi siarad â chadeirydd y gwasanaeth ambiwlans am hyn, i ganolbwyntio gydag ef ar y ffaith fy mod eisiau i'r gwasanaeth recriwtio pobl. Rwyf eisiau i'r gwasanaeth ddefnyddio'r arian sydd gyda fe i helpu i wella'r gwasanaeth. Heddiw, fel mae'r Aelod yn gwybod, rwyf wedi cyhoeddi cynllun newydd i ganolbwyntio gyda'r gwasanaeth ambiwlans ar y pethau sydd yn gwneud gwahaniaeth i'r cleifion. Un peth rwyf wedi ei ddysgu oddi wrth yr Athro McClelland a'r adroddiad a gyhoeddodd hi ym mis Ebrill y llynedd yw nad yw'r targed wyth munud yn gwneud dim byd i helpu o ran canlyniadau clinigol y cleifion.

We are investing in the ambulance service. It has just recruited new personnel. It is now up to the number of staff that the service has in the 'establishment', as it calls it. I am eager, and I have spoken to the chair of the ambulance service about this, to focus with him on the fact I want the service to recruit people. I want the service to use the funding that it has to help to improve the service. Today, as the Member knows, I have announced a new scheme to focus with the ambulance service on the things that will make a difference to the patient. One thing that I have learned from Professor McClelland and the report that she published last April is that the eight-minute target does nothing to assist with the clinical outcomes for the patient.

15:08

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I think that you highlighted some interesting points in that last sentence, because the eight-minute response time for my area of Neath Port Talbot is 51.2%, which is below the Welsh average. However, the 10-minute response time is above 63%, which is above the Welsh average, so there is clearly a disparity. I welcome the announcement of the additional measures today. However, it is of deep concern to me and my constituents that we have that figure, and I note you mentioned the storms and the bad weather, and the report also mentions that. However, do you have any evidence that we are seeing improvements at this moment in time in my particular area?

Weinidog, credaf ichi amlygu rhai pwyntiau diddorol yn y frawddeg olaf honno, gan fod yr amser ymateb wyth munud ar gyfer fy ardal i, sef Castell-nedd Port Talbot, yn 51.2%, sy'n is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r amser ymateb o 10 munud yn uwch na 63%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, felly mae'n amlwg bod gwahaniaeth. Croesawaf y mesurau ychwanegol sy'n cael eu cyhoeddi heddiw. Fodd bynnag, mae'n destun pryder mawr imi a'm hetholwyr bod gennym y ffigur hwnnw, a nodaf ichi sôn am y stormydd a'r tywydd drwg, ac mae'r adroddiad hefyd yn crybwyll hynny. Fodd bynnag, a oes gennych unrhyw dystiolaeth bod gwelliannau yn cael eu gweld ar hyn o bryd yn fy ardal i?

15:08

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am happy to agree with what David Rees said pertaining to the fact that, even in February, with all the difficulties, as you move up the minute response times so things improve, and improve significantly. Just as the impact in February is a cumulative one from the bad weather in January moving into February, so, as we have moved out of that period and into March, the performance of the Welsh ambulance service has improved. I am pleased to tell him that in his area, for example, the ambulance responses time at the eight-minute level was in excess of 70% during the whole of Sunday this week, Monday this week, and again this morning.

Rwy'n hapus i gytuno â'r hyn a ddywedodd David Rees o ran y ffaith, hyd yn oed ym mis Chwefror, gyda'r holl anawsterau, wrth ichi symud i fyny'r amseroedd ymateb fesul munud mae pethau'n gwella, ac yn gwella'n sylweddol. Yn union fel y mae'r effaith ym mis Chwefror yn un gronol gyda'r tywydd gwael ym mis Ionawr yn symud i mewn i fis Chwefror, felly hefyd, fel yr ydym wedi symud o'r cyfnod hwnnw i mewn i fis Mawrth, mae perfformiad gwasanaeth ambiwlans Cymru wedi gwella. Rwy'n falch o ddweud wrtho, yn ei ardal ef, er enghraifft, fod amseroedd ymateb ambiwlansys ar lefel wyth munud yn uwch na 70% drwy'r dydd ddydd Sul yr wythnos hon, ddydd Llun yr wythnos hon, ac unwaith eto y bore yma.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:09

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will know that for potential patients in Blaenau Gwent, Torfaen and Monmouthshire, ambulance response times have consistently not met the target, and not just during this mild winter. Despite the wonderful and consistent work of your staff, is the problem not partially in the A&E department, which you have yet to satisfy? You mentioned your new measures. Could you assure us that there will be sufficient IT to comprehend and report them?

Weinidog, gwyddoch, ar gyfer cleifion posibl ym Mlaenau Gwent, Torfaen a Sir Fynwy, nad yw amseroedd ymateb ambiwlans wedi cyrraedd y targed yn gyson, ac nid dim ond yn ystod y gaeaf mwyn hwn. Er gwaethaf y gwaith ardderchog a chyson a wneir gan eich staff, onid yw'n broblem sy'n ymwneud yn rhannol ag adrannau damweiniau ac achosion brys, nad ydych wedi mynd i'r afael â hi eto? Soniasoch am eich mesurau newydd. A allech ein sicrhau y bydd digon o TG i'w deall ac adrodd arnynt?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:09

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank William Graham for that important point and for the recognition that he made of the work that staff in the ambulance service carry out day in, day out. Of course, their work is affected by ambulance handover times at A&E departments. If ambulances are unable to transfer patients into A&E departments, then their ability to get back on the road and to answer further calls is compromised. Performance across the Welsh NHS is patchy in that regard. In Cwm Taf Local Health Board, where ambulance response times are not what we would like them to be, the LHB's ability to take those patients into A&E departments is the best in Wales, meaning that the combined time that a patient has to wait for treatment is at the better end. However, in Cardiff, where there have been particular issues to do with the remodelling of the A&E department over this winter, handover times have not been satisfactory. Where that occurs, he is right to point to the effect that that has on the ambulance service.

Diolch i William Graham am y pwynt pwysig hwnnw ac am gydnabod y gwaith y mae staff y gwasanaeth ambiwlans yn ei wneud ddydd ar ôl dydd. Wrth gwrs, caiff eu gwaith ei effeithio gan amseroedd trosglwyddo ambiwlansys mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Os nad yw ambiwlansys yn gallu trosglwyddo cleifion i adrannau damweiniau ac achosion brys, yna ni allant fynd yn ôl ar y ffordd ac ateb galwadau pellach. Mae perfformiad ar draws y GIG yng Nghymru yn anghyson yn hynny o beth. Ym Mwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, lle nad yw amseroedd ymateb ambiwlansys cystal â'r hyn yr byddem yn ei ddymuno, mae gallu'r BILL i dderbyn y cleifion hynny i adrannau damweiniau ac achosion brys yn well nag yn unrhyw le arall yng Nghymru, sy'n golygu bod cyfanswm yr amser y mae'n rhaid i glaf aros am driniaeth ymhlith y gorau. Fodd bynnag, yng Nghaerdydd, lle bu problemau penodol yn ymwneud ag ailfodelu'r adran damweiniau ac achosion brys dros y gaeaf, nid yw amseroedd trosglwyddo wedi bod yn foddhaol. Lle mae hynny'n digwydd, mae'n iawn i dynnu sylw at yr effaith a gaiff hynny ar y gwasanaeth ambiwlans.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:11

**Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Minister, last week, all of the health boards that make up the south Wales programme decided to go ahead with the hospital changes, which will see the withdrawal of consultant-led A&E and maternity services, among others, from the Royal Glamorgan Hospital. One of the points that was made very strongly by the thousands of people who responded to that consultation was around the difficulties in travelling to services further afield, particularly in emergency circumstances. With poor public transport links and low car ownership, people have very real fears that they might not reach hospital in time and, in the worst-case scenario, they or their loved ones could die. In Rhondda Cynon Taf, only 41% of ambulances arrive at the scene within eight minutes. The Valleys are the worst. Minister, the weather in the Valleys has not been the worst in recent times, so, frankly, your argument there does not really stack up. You accept the principle that speedy responses are essential in life-saving circumstances, so will you now look again at the decision to remove these services from the Royal Glamorgan Hospital in the light of this information on ambulances out today, so that people will at least have some confidence in the health system?

Weinidog, yr wythnos ddiwethaf, penderfynodd pob un o'r byrddau iechyd yn rhaglen de Cymru i fwrw ymlaen â'r newidiadau i ysbytai, a fydd yn gweld gwasanaethau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau mamolaeth o dan arweiniad ymgynghorwyr, ymhlith eraill, yn dod i ben yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Un o'r pwyntiau a wnaethpwyd yn gryf iawn gan y miloedd o bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwnnw oedd yr anawsterau o ran teithio i wasanaethau ymhellach i ffwrdd, yn enwedig mewn amgylchiadau brys. Gyda chysylltiadau cludiant cyhoeddus gwael a'r nifer fach o bobl sy'n berchen ar geir, mae gan bobl ofnau gwirioneddol na fyddant o bosibl yn cyrraedd yr ysbyty mewn pryd ac, yn y sefyllfa waethaf, y gallant hwy neu eu hanwyliaid farw. Yn Rhondda Cynon Taf, dim ond 41% o ambiwlansys sy'n cyrraedd y lleoliad o fewn wyth munud. Y Cymoedd yw'r gwaethaf. Weinidog, mae'r Cymoedd wedi profi tywydd gwaeth nag a welwyd yn ddiweddar, felly, nid yw eich dadl yn dal dŵr mewn gwirionedd. Rydych yn derbyn yr egwyddor bod ymatebion cyflym yn hanfodol mewn amgylchiadau lle gellir achub bywydau, felly a wnewch chi yn awr edrych eto ar y penderfyniad i gael gwared ar y gwasanaethau hyn o Ysbyty Brenhinol Morgannwg yng ngoleuni'r wybodaeth hon am ambiwlansys a gyhoeddwyd heddiw, fel y bydd gan bobl o leiaf ryw faint o hyder yn y system iechyd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:12

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, I would not be able to look again at a decision that has not been mine to make in the first instance. It is a decision, as the Member said and well knows, that has been reached by the health boards themselves. She is right to say that transport issues were prominent in the discussion around the south Wales plan. The concerns that people have about accessing health services because of transport issues are absolutely legitimate and need to be taken into account. I am very grateful to my colleague, the Minister for transport, for the assistance that she has been offering my department so that we can work together to improve some of those access things. We hope to be able to say something specific on that before too long.

Wrth gwrs, ni allwn edrych eto ar benderfyniad nad oeddwn yn gyfrifol am ei wneud yn y lle cyntaf. Mae'n benderfyniad, fel y dywed ac y gwyr yr Aelod, sydd wedi'i wneud gan y byrddau iechyd eu hunain. Mae hi'n iawn i ddweud bod materion trafnidiaeth yn amlwg yn y drafodaeth ynghylch cynllun de Cymru. Mae'r pryderon sydd gan bobl am gael mynediad i wasanaethau iechyd oherwydd materion trafnidiaeth yn gwbl ddilys ac mae angen iddynt gael eu hystyried. Rwy'n ddiolchgar iawn i'm cyd-Aelod, y Gweinidog dros drafnidiaeth, am y cymorth y mae hi wedi bod yn cynnig i'm hadran fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i wella rhai o'r materion hynny sy'n ymwneud â mynediad. Rydym yn gobeithio y gallwn ddweud rhywbeth penodol ar hynny yn fuan.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:13

**Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I know that, when I meet the ambulance service to discuss response times in Torfaen, one of the things that it has emphasised to me is that more ambulances are getting to more calls more quickly, but that there is a problem with the number of calls going up all the time, as well as the acuity of those calls. May I ask what analysis you have undertaken of the results in February and whether they can help us with any of the answers in terms of the difficulties that we had in that month?

Weinidog, gwn, pan fyddaf yn cwrdd â'r gwasanaeth ambiwlans i drafod amseroedd ymateb yn Nhorfaen, mai un o'r pethau sydd wedi'i bwysleisio yw bod mwy o ambiwlansys yn cyrraedd mwy o alwadau yn gyflymach, ond bod problem gyda nifer y galwadau yn cynyddu drwy'r amser, yn ogystal â chrafter y galwadau hynny. A gaf ofyn sut yr ydych wedi mynd ati i ddadansoddi'r canlyniadau yn mis Chwefror a ph'un a allant ein helpu gydag unrhyw un o'r atebion o ran yr anawsterau a gawsom y mis hwnnw?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 15:13 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Lynne Neagle for that question. Category A calls to the ambulance service this February were the highest for any February since categorisation has been carried out on that basis. While numbers do go up and down, the volume of calls that come to the ambulance service certainly makes a difference to its ability to reach that target. We have rehearsed it here a number of times before; it is quite possible for the ambulance service to reach more calls within eight minutes than ever before and for its performance against an eight-minute target in percentage terms still to go down. So, volumes of calls really do matter and the ambulance service faces a challenge in meeting the escalating demands for its services from the Welsh public.
- Diolch i Lynne Neagle am y cwestiwn hwnnw. Cafwyd y nifer fwyaf erioed o alwadau categori A i'r gwasanaeth ambiwlans ym mis Chwefror, o gymharu ag unrhyw fis Chwefror arall ers i'r broses gategoreiddio gael ei chynnal ar y sail honno. Er bod y niferoedd yn codi ac yn disgyn, mae nifer y galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn sicr yn gwneud gwahaniaeth o ran ei allu i gyrraedd y targed hwnnw. Rydym wedi'i drafod yma nifer o weithiau o'r blaen; mae'n eithaf posibl i'r gwasanaeth ambiwlans gyrraedd mwy o alwadau o fewn wyth munud nag erioed o'r blaen a'i berfformiad yn erbyn targed wyth munud ostwng o hysod o ran canran. Felly, mae nifer y galwadau a geir yn wirioneddol bwysig ac mae'r gwasanaeth ambiwlans yn wynebu her o ran bodloni'r galw cynyddol am ei wasanaethau gan y cyhoedd yng Nghymru.
- 15:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Only very quick questions now, please. I call on Nick Ramsay.
- Dim ond cwestiynau cyflym iawn yn awr, os gwelwch yn dda. Galwaf ar Nick Ramsay.
- 15:14 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the 52.8% category A average is bad enough, but, if you look at the breakdown of the figures, my own constituency area, Monmouthshire, is lagging a full 17% behind the Government's target and is 4.2% lower than the national average. From what you have said today, it strikes me that you are not really facing up to the fact that there is a serious problem here. This is not just about the weather. You said earlier that this is cumulative. What are you going to do to make sure that the ambulance service really is responsive and that it is not knocked by changes in the weather, which you have mentioned already? There is an underlying problem—it is not just the weather—and that has to be dealt with as well.
- Weinidog, mae'r ganran gyfartalog o 52.8% ar gyfer galwadau categori A yn ddigon gwael, ond, os edrychwch ar y dadansoddiad o'r ffigurau, mae'r ganran yn ardal fy etholaeth i, Sir Fynwy, 17% cyfan yn is na tharged y Llywodraeth a 4.2% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. O'r hyn yr ydych wedi'i ddweud heddiw, ymddengys imi nad ydych yn derbyn y ffaith bod yna broblem ddifrifol yma. Nid oes a wnelo hyn â'r tywydd yn unig. Dywedasoeh yn gynharach fod hyn yn gronol. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i sicrhau bod y gwasanaeth ambiwlans yn wirioneddol ymatebol ac na chaiff ei effeithio gan newidiadau yn y tywydd, yr ydych wedi'u crybwyll eisoes? Mae hon yn broblem sylfaenol—nid yw a wnelo â'r tywydd yn unig—a rhaid mynd i'r afael â hynny hefyd.
- 15:15 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- There is a series of issues that need to be addressed in the ambulance service. We have rehearsed them many times in the Chamber. Members will be aware that some major changes will come into force on 1 April, when we change the way in which ambulance services are commissioned in Wales and the relationship between local health boards and the ambulance service. We are doing many things in terms of recruitment and upskilling of the paramedic workforce so that they are able to attend and deal with more people at-scene. Changes are being agreed with the relevant trade unions on the working practices of our ambulance service so that those people who work in it are recognised fully as emergency medicine practitioners and so that they themselves match up to that status.
- Mae cyfres o faterion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn y gwasanaeth ambiwlans. Rydym wedi'u trafod sawl gwaith yn y Siambr. Gŵyr yr Aelodau y bydd rhai newidiadau mawr yn dod i rym ar 1 Ebrill, pan fyddwn yn newid y ffordd y caiff gwasanaethau ambiwlans eu comisiynu yng Nghymru a'r gydberthynas rhwng byrddau iechyd lleol a'r gwasanaeth ambiwlans. Rydym yn gwneud llawer o bethau o safbwynt recriwtio ac uwchsgilio'r gweithlu parafeddygon fel y gallant bod yn bresennol a delio â mwy o bobl mewn lleoliad. Mae newidiadau'n cael eu cytuno â'r undebau llafur perthnasol ar arferion gwaith ein gwasanaeth ambiwlans fel bod y bobl hynny sy'n gweithio ynddo yn cael eu cydnabod yn llawn fel ymarferwyr meddygaeth frys a'u bod yn llawn haeddu'r statws hwnnw.

15:16

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one of the most depressing things about this urgent question is that, if we look back, certainly over the time that I have been in the Chamber, we will see that this is probably the issue about which the most urgent questions have been tabled. It is probably the issue on which the most questions to you and your predecessors have been asked. It is a simple question. When is the Welsh Government going to get on top of this issue? I am tired of constituents coming to me and telling me that they are exasperated with the service they are getting and that their loved ones are suffering because of it. It is a simple question. When are we as Assembly Members going to be able to confirm to our constituents that the Welsh Government can actually deliver on its own targets for the Welsh ambulance service here in Wales?

Weinidog, un o'r pethau mwyaf digalon am y cwestiwn brys hwn, os edrychwn yn ôl, yn sicr yn ystod yr amser yr wyf wedi bod yn y Siambr, yw mai ar y mater hwn fwy na thebyg y cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r cwestiynau brys. Mae'n debyg mai ar y mater hwn y gofynnwyd y rhan fwyaf o gwestiynau i chi a'ch rhagflaenwyr. Mae'n gwestiwn syml. Pryd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r mater hwn? Rwyf yn blino gweld etholwyr yn dod ataf ac yn dweud wrthyf eu bod wedi'u cythruddo gyda'r gwasanaeth y maent yn ei gael a bod eu hanwyliaid yn dioddef oherwydd hynny. Mae'n gwestiwn syml. Pryd y gallwn ni fel Aelodau'r Cynulliad ddweud wrth ein hetholwyr bod Llywodraeth Cymru yn gallu cyflawni yn erbyn ei thargedau ei hun ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans yma yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:17

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I expect significant improvements in the Welsh ambulance service's performance as we emerge from the difficulties of February. More significantly, however, I intend to place the Welsh ambulance service on a basis where the things we measure its performance against are those things that make a difference to patients, and the one thing we can be absolutely clear about is that a blunt eight-minute target, which has its root in 1974—40 years ago—given all the differences between then and now, simply does not measure what makes a difference to clinical outcomes for patients. When we are all able to agree that we ought to measure the Welsh ambulance service against the things that really make a difference to clinical outcomes and patient experience, both it and we will be in a better position.

Rwy'n disgwyl gwelliannau sylweddol ym mherfformiad gwasanaeth ambiwlans Cymru wrth i ni ddod drwy'r anawsterau a gafwyd ym mis Chwefror. Yn fwy arwyddocaol, fodd bynnag, rwy'n bwriadu gosod gwasanaeth ambiwlans Cymru ar sail lle mae'r pethau yr ydym yn mesur ei berfformiad yn eu herbyn yw'r pethau hynny sy'n gwneud gwahaniaeth i gleifion, a'r un peth y gallwn fod yn gwbl glir yn ei gyloch yw nad yw targed wyth munud plaen, sydd â'i wreiddiau yn 1974—40 o flynyddoedd yn ôl—o ystyried yr holl wahaniaethau ers hynny, yn mesur yr hyn sy'n gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau clinigol ar gyfer cleifion. Pan fyddwn i gyd yn gallu cytuno y dylem fesur gwasanaeth ambiwlans Cymru yn erbyn y pethau sydd wir yn gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau clinigol a phrofiad y claf, byddwn ni a'r gwasanaeth mewn sefyllfa well.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:18

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:18

**Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad**

**Questions to the Assembly Commission**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No questions have been tabled to the Assembly Commission, so we will move straight to the next item.

Nid oes cwestiynau wedi'u cyflwyno i Gomisiwn y Cynulliad, felly symudwn yn syth at yr eitem nesaf.

15:18

**Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Ewrop**

**Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Europe**

**Y** Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Mick Antoniw to move the motion.

Galwaf ar Mick Antoniw i gynnis y cynnig.

Cynnig NNDM5464 Mick Antoniw, Dafydd Elis-Thomas

Motion NNDM5464 Mick Antoniw, Dafydd Elis-Thomas

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn ymrwymo i chwarae ei ran lawn mewn materion Ewropeaidd; ac yn benodol:

Commits to playing its full part in European affairs; and in particular:

a) yn cydnabod y gwerth i Gymru ac i'r UE yn sgîl ymgysylltu cadarnhaol Cymru yn Ewrop;

b) yn defnyddio sgiliau, profiad ac arloesedd y Llywodraeth a phobl Cymru i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, ffyniant economaidd a llywodraethu democrataidd ledled Ewrop.

a) recognises the value both to Wales and to the EU of positive Welsh engagement in Europe;

b) utilises the skills, experience and innovation of the Government and people of Wales to promote social justice, economic prosperity and democratic governance across Europe.

15:18

## **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

I am grateful for the opportunity to lead this important debate on Wales and its place within the European Union. We have, of course, debated our relationship with Europe through the United Kingdom as the member state as well as in our own right as Wales through our devolved responsibilities. The purpose of this debate is to take the discussion one step further and look at the broader relationship we have with Europe, European countries and their institutions and, indeed, our future in Europe. Of course, Wales will always be geographically part of Europe, but that alone is insufficient. We have to be part of the very fabric and future of Europe, and that requires us to examine the very nature of the European Union, why it came into existence and its purpose in the twenty-first century.

Wales has many reasons to want to remain part of the EU, such as jobs, infrastructure investment, social fund projects and international partnerships. Others will undoubtedly set out some of the statistics on jobs and investment across Wales. For the people I represent in Pontypridd and the Taf Ely area, the economic reasons are clear. In Rhondda Cynon Taf there are thousands of jobs dependent on our membership of Europe. In the past two years, 1,025 job opportunities have been created and major multi-million-pound funding has supported projects such as the Pontypridd lido, town-centre regeneration, the Church Village bypass and many others. For Wales, as a new democracy and as part of the UK but with our own values and aspirations, it is difficult to imagine a future outside Europe. For many of the new young Welsh generation, a future outside Europe is inconceivable. Opinion polls put around 56% of 18 to 24-year-olds in favour of membership of the EU with only 23% against.

Indeed, why would we want to be outside the largest trading bloc in the world, with a population of over 500 million in 29 countries, representing 25% of the world's gross domestic product, compared with 22% in the USA and 10% in China? Europe is the world's banking and finance centre and where some of the world's largest corporations are based; 61 of the largest corporations are based in Europe compared with 50 in the USA. Aside from the hardcore commercial reasons, Europe is about culture, partnership and the exchange of ideas. It is about the closer collaboration of countries, institutions and individuals in developing research and innovation.

Cynigiad y cynnig.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i arwain y ddaidl bwysig hon ar Gymru a'i lle yn yr Undeb Ewropeaidd. Wrth gwrs, rydym wedi trafod ein perthynas ag Ewrop drwy'r Deyrnas Unedig fel yr aelod wladwriaeth yn ogystal â'n perthynas yn ein rhinwedd ein hunain fel Cymru drwy ein cyfrifoldebau datganoledig. Diben y ddaidl hon yw mynd â'r drafodaeth gam ymhellach ac edrych ar y berthynas ehangach rhyngom ni ac Ewrop, gwledydd Ewropeaidd a'u sefydliadau ac, yn wir, ein dyfodol yn Ewrop. Wrth gwrs, bydd Cymru bob amser yn rhan o Ewrop yn ddaearyddol, ond nid yw hynny'n ddigon ar ei ben ei hun. Rhaid inni fod yn rhan annatod o wead a dyfodol Ewrop, ac mae hynny'n gofyn inni ystyried union natur yr Undeb Ewropeaidd, pam y daeth i fodolaeth a'i bwrpas yn yr unfed ganrif ar hugain.

Mae gan Gymru lawer o resymau dros ddymuno aros yn rhan o'r UE, megis swyddi, buddsoddi mewn seilwaith, prosiectau'r gronfa gymdeithasol a phartneriaethau rhyngwladol. Bydd eraill, yn ddi-os, yn nodi rhai o'r ystadegau ynglŷn â swyddi a buddsoddiad ledled Cymru. I'r bobl yr wyf yn eu cynrychioli ym Mhontypridd ac ardal Taf Elái, mae'r rhesymau economaidd yn amlwg. Yn Rhondda Cynon Taf mae miloedd o swyddi yn dibynnu ar ein haelodaeth o Ewrop. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, crëwyd 1,025 o gyfleoedd swyddi ac mae cyllid gwerth miliynau o bunnoedd wedi cefnogi prosiectau fel pwll nofio Pontypridd, adfywio canol trefi, ffordd osgoi Pentre'r Eglwys a llawer o brosiectau eraill. I Gymru, fel democratiaeth newydd, ac fel rhan o'r DU ond gyda'n gwerthoedd a'n huchelgeisiau ein hunain, mae'n anodd dychmygu dyfodol y tu allan i Ewrop. I lawer o'r to ifanc newydd o Gymru, mae dyfodol y tu allan i Ewrop y tu hwnt i'w hamgyffred. Yn ôl arolygon barn, mae tua 56% o bobl 18 i 24 oed o blaid aelodaeth o'r UE a dim ond 23% yn erbyn.

Yn wir, pam y byddem am fod y tu allan i'r ardal fasnachu fwyaf yn y byd, gyda phoblogaeth o dros 500 miliwn mewn 29 o wledydd, sy'n cyfateb i 25% o gynnyrch mewnwladol crynswth y byd, o gymharu â 22% yn yr Unol Daleithiau a 10% yn Tsieina? Ewrop yw canolfan bancio a chyllid y byd ac mae'n gartref i rai o gorfforaethau mwyaf y byd; mae 61 o'r corfforaethau mwyaf wedi'u lleoli yn Ewrop o gymharu â 50 yn UDA. Ar wahân i'r rhesymau masnachol creiddiol, mae Ewrop yn ymwneud â diwylliant, partneriaeth a chyfnawid syniadau. Mae'n ymwneud â chydweithredu agosach rhwng gwledydd, sefydliadau ac unigolion er mwyn datblygu ymchwil ac arloesedd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As part of my work representing Wales on the EU Committee of the Regions, I have been impressed with the level of innovation in Europe in the field of education, renewable energy and economic regeneration. So many of the initiatives that we endorse, such as the youth guarantee, city regions and environmental protections, are all the product of EU initiatives developed by towns, cities and regions in Europe without the impediment of artificial national barriers.

As part of the European market the social chapter has put living standards and quality of life at the core of economic progress. That is not to say that there are no major challenges, because there are. There is a major ideological conundrum that is taxing EU policy makers and the European Court. There is the conflict between the rights of companies in the open European market versus the rights of workers. There is also the issue of the rights of companies to compete versus the social policy rights of member states. In my view, the balance has tilted too far towards European corporations and a new balance needs to be restored.

However, this socioeconomic battle continues and will be won or lost irrespective of whether we are in or out of the EU. However, it is only if we are in the EU that we can add our voice to demands to strengthen the social chapter and social justice throughout Europe.

Important though these are, there is a greater and more fundamental reason yet. To understand this, we have to go back to the events that led to the very creation of the EU. It is also timely to use this debate to do this because we commemorate and remember later this year, the hundredth anniversary of the start of the first world war—a war triggered by the assassination of Archduke Franz Ferdinand in Austria-Hungary that led to a cataclysmic spiral of events setting one nation against the other as individual national alliances and agendas, culminating in what we now describe as the great war. This was a horrific war that resulted in the death and maiming of tens of millions, a redrawing of national boundaries that settled nothing and contributed years later to the election of Adolf Hitler in Germany, the growth of fascism and the second world war, ultimately culminating in an ideological division between state capitalism in the Soviet Union and eastern Europe and the economies of western Europe, predominantly along a social democratic model.

The challenge at that time was how to rebuild the European economies and society on a model that would avoid the divisive pitfalls of the past. In the forefront was how to avoid war and how to live in peace and partnership with one another.

Walter Schwimmer, the former secretary general of the Council of Europe, and one of the world's most famous diplomats and politicians, in his book 'The European Dream' described the creation of a vision for a new European Union grounded in the concepts of peace, social justice and prosperity. He said,

Fel rhan o'm gwaith yn cynrychioli Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau yr UE, mae lefel yr arloesi yn Ewrop ym maes addysg, ynni adnewyddadwy ac adfywio economaidd wedi creu argraff arnaf. Mae llawer o'r mentrau yr ydym yn eu cymeradwyo, megis gwarant ieuencid, dinas-ranbarthau a mesurau i ddiogelu'r amgylchedd i gyd yn ffrwyth mentrau yr UE a ddatblygwyd gan drefi, dinasoedd a rhanbarthau yn Ewrop heb rwystrau cenedlaethol artiffisial i'w hatal.

Fel rhan o'r farchnad Ewropeaidd mae'r bennod gymdeithasol wedi rhoi safonau byw ac ansawdd bywyd wrth wraidd cynnydd economaidd. Nid yw hynny'n golygu nad oes unrhyw heriau mawr, oherwydd mae heriau. Ceir penbleth ideolegol mawr sy'n herio'r rhai sy'n llunio polisi'r Undeb Ewropeaidd a'r Llys Ewropeaidd. Mae gwrthdaro rhwng hawliau cwmnïau yn y farchnad Ewropeaidd agored â hawliau gweithwyr. Cyfyd mater hawliau cwmnïau i gystadlu yn erbyn hawliau polisi cymdeithasol aelod-wladwriaethau hefyd. Yn fy marn i, mae'r cydbwysedd wedi mynd yn rhy bell o blaid corfforaethau Ewropeaidd ac mae angen cael cydbwysedd newydd.

Fodd bynnag, mae'r frwydr economaidd-gymdeithasol hon yn parhau a bydd yn cael ei hennill neu ei cholli ni waeth a ydym yn aelod o'r UE ai peidio. Fodd bynnag, dim ond os ydym yn aelod o'r UE y gallwn ychwanegu ein llais at y galwadau i gryfhau'r bennod gymdeithasol a chyfiawnder gymdeithasol ledled Ewrop.

Er mor bwysig yw'r rhain, ceir rheswm pwysicach a mwy sylfaenol eto. Er mwyn deall hyn, rhaid inni fynd yn ôl at y digwyddiadau a arweiniodd at greu'r UE. Mae hefyd yn amserol defnyddio'r ddadl hon i wneud hyn am ein bod yn coffáu ac yn cofio canmlwyddiant dechrau'r rhyfel byd cyntaf yn ddiweddarach eleni—rhyfel a ysgogwyd gan lofruddiaeth yr Archddug Franz Ferdinand yn Awstria-Hwngari a arweiniodd at gyfres drychinebus o ddigwyddiadau gan yrru gwledydd benben â'i gilydd fel cynghreiriau ac agendâu cenedlaethol unigol, gan arwain at yr hyn yr ydym bellach yn ei alw y rhyfel mawr. Bu'n rhyfel erchyll a arweiniodd at golli ac anafu degau o filiynau o bobl, ail-lunio ffiniau cenedlaethol na ddatryswyd dim ac a gyfrannodd at ethol Adolf Hitler yn yr Almaen flynyddoedd yn ddiweddarach, twf ffasgiaeth a'r ail ryfel byd, gan ddiweddu yn y pen draw mewn rhaniad ideolegol rhwng cyfalafiaeth y wladwriaeth yn yr Undeb Sofietaidd a dwyrain Ewrop ac economïau gorllewin Ewrop, a oedd yn arddel model democrataidd gymdeithasol yn bennaf.

Yr her ar y pryd oedd sut i ailadeiladu economïau a chymdeithas Ewrop ar fodel a fyddai'n osgoi peryglon ymrannol y gorffennol. Ar flaen meddyliau pobl roedd sut i osgoi rhyfel a sut i fyw mewn heddwch a phartneriaeth gyda'i gilydd.

Yn ei lyfr 'The European Dream', gwnaeth Walter Schwimmer, cyn-ysgrifennydd cyffredinol Cyngor Ewrop, ac un o ddiplomyddion a gwleidyddion enwocaf y byd ddisgrifio creu gwledigaeth i Undeb Ewropeaidd newydd wedi'i seilio ar gysyniadau heddwch, cyfiawnder cymdeithasol a ffyniant. Dywedodd,

'after a prolonged period of conflict unleashed by various totalitarian regimes, the peoples at the centre of Europe can again look to a new vision—a vision rooted in shared values and consolidated by ever-closer co-operation.'

Often in the heat of political, economic and technological change, the vision can be lost. Sometimes the failures of Europe can take on more significance than the vision. It is therefore important to recognise the great successes of Europe in building partnership and transforming economies and societies and creating new frameworks of democratic governance and accountability.

Let us not forget, for example, that, not very long ago, at the core of Europe were fascist regimes in Spain, Portugal and Greece. The transition of these countries, socially and economically, has been remarkable, and could not have occurred without the embrace of the EU. Much of eastern Europe was under the control of the Soviet Union until 1989, until its break-up. The transformation of their centralised and undemocratic economies and social systems into modern democracies could not have occurred without the framework of the EU. There is clearly a long way still to go and, sometimes, democratic structures do not always create the results that one would hope for, such as with the growth of far-right parties, but it is the governance of democratic standards that the EU framework ensures that limits the growth and impact of ultranationalist isolationism.

In recent months, Members will have seen developments in Ukraine that have shaken European complacency. A popular movement against corruption and gangster capitalism was triggered by the refusal of the Ukrainian Government to sign an EU trade agreement. The mass protest demanding closer contact with the EU has to be understood in the context of the aspirations of many Ukrainians and, in particular, as is typical in so much of Wales and Europe today, a whole new generation of young people not held back by the prejudices of the past, but looking forward to a future in a world without artificial and petty nationalistic barriers. The real reason why President Yanukovich would never sign the EU trade agreement and why President Putin was insistent that he did not sign it is that it would threaten the intense, centralised and oligarchic corruption that is institutionalised around the leaderships of Russia, Ukraine and Belarus. It was around these issues that the country exploded, with the geopolitical consequences that we are now witnessing.

The threat of Russian tanks invading a European country brings back many harsh reminders of past lessons that led to the creation of the EU, namely a common European security, based on principles of a common solidarity, democratic governance, tolerance and social justice. In the light of Russia's attack on the integrity of a sovereign state in Europe, the EU also provides a framework that avoids the automatic rush to war, through collective action focused on economic sanctions and financial isolation.

ar ôl cyfnod hir o wrthdaro a achoswyd gan wahanol gyfundrefnau totalitaraidd, gall y bobl yng nghanol Ewrop unwaith eto edrych ymlaen at weledigaeth newydd—gwledigaeth wedi'i gwreiddio mewn gwerthoedd a rennir ac wedi'i chryfhau gan gydweithio cynyddol agosach.

Yn aml, ym mwrllwm newid gwleidyddol, economaidd a technolegol, gellir colli'r weledigaeth. Weithiau gall methiannau Ewrop ymddangos yn bwysicach na'r weledigaeth. Felly, mae'n bwysig cydnabod llwyddiannau mawr Ewrop o ran adeiladu partneriaeth a thrawsnewid economïau a chymdeithasau a chreu fframweithiau newydd o drefn lywodraethu ddemocrataidd ac atebolrwydd.

Ni ddylem anghofio, er enghraifft, dim ond ychydig amser yn ôl, fod llywodraethau ffasgaid wrth wraidd Ewrop, yn Sbaen, Portiwgal a Gwlad Groeg. Mae'r ffordd y mae'r gwledydd hyn wedi cael eu trawsnewid, yn gymdeithasol ac yn economaidd, wedi bod yn rhyfeddol, ac ni allai fod wedi digwydd heb gefnogaeth yr UE. Bu llawer o ddwyrain Ewrop o dan reolaeth yr Undeb Sofietaidd tan 1989, hyd nes ei chwalu. Ni allai eu heconomïau na systemau cymdeithasol canolog ac annemocrataidd fod wedi cael eu trawsnewid yn ddemocratiaethau modern heb fframwaith yr UE. Mae'n amlwg bod tipyn o ffordd i fynd o hyd ac, weithiau, nid yw strwythurau democrataidd bob amser yn arwain at y canlyniadau y byddai rhywun yn gobeithio eu gweld, megis yn achos twf pleidiau asgell dde, ond drwy'r drefn lywodraethu yn ôl safonau democrataidd y mae fframwaith yr UE yn ei sicrhau cyfyngir ar dwf ac effaith ymynysiaeth genedlaetholaidd eithafol.

Yn ystod y misoedd diwethaf, bydd yr Aelodau wedi gweld datblygiadau yn Wcrain sydd wedi rhoi ysgytwad i hunanfodddhad Ewropeiaid. Ysgogwyd mudiad poblogaidd yn erbyn llygredd a chyfalafiaeth y gangsteriaid gan benderfyniad Llywodraeth Wcrain i beidio â llofnodi cytundeb masnach â'r UE. Rhaid i'r gwrthdystiad mawr a oedd yn mynnu cyswllt agosach â'r UE gael ei ddeall yng nghyd-destun dyheadau llawer o bobl Wcrain ac, yn arbennig, fel sy'n nodweddiadol mewn cymaint o Gymru ac Ewrop heddiw, do newydd o bobl ifanc nad ydynt wedi'u llesteirio gan ragfarnau'r gorffennol, ond sy'n edrych ymlaen at ddyfodol mewn byd heb rwystrau cenedlaetholgar artiffisial di-bwys. Y gwir reswm pam na fyddai'r Arlywydd Yanukovich byth yn llofnodi'r cytundeb masnach â'r UE a pham roedd yr Arlywydd Putin yn mynnu nad oedd yn ei lofnodi yw y byddai'n fgythyriad i lygredd dwys, canolog ac oligarchaidd cyfundrefnol sy'n rhan o arweinyddiaethau Rwsia, Wcráin a Belarws. Oherwydd y materion hyn y bu cythrwfl yn y wlad, gyda'r canlyniadau geowleidyddol yr ydym bellach yn eu gweld.

Mae'r bygythiad y bydd tanciau Rwsia yn gormesu gwlad Ewropeaidd yn dwyn i gof lawer o wersi anodd y gorffennol a arweiniodd at greu'r UE, sef diogelwch Ewropeaidd cyffredin, yn seiliedig ar egwyddorion undod cyffredin, llywodraethu democrataidd, goddefgarwch a chyfiawnder cymdeithasol. Yng ngoleuni ymosodiad Rwsia ar gyfanrwydd gwladwriaeth sofran yn Ewrop, mae'r UE hefyd yn darparu fframwaith sy'n osgoi rhuthr difeddwl tuag at ryfel, drwy gamau ar y cyd sy'n canolbwyntio ar sancsiynau economaidd ac ynysu ariannol.

Much is wrong with the EU and needs changing, but what we must not do is take our sights off the greater vision of which Wales must always be part. Václav Havel, the former Czech President, someone who, in fact, lived through the Russian invasion of Czechoslovakia in 1968 and experienced political persecution in his own right, summed up that vision:

'Without dreaming of a better Europe we shall never build a better Europe.'

I would add to that that unless we are part of Europe, we can never change Europe. In Wales, we should embrace the European vision, not for our own sake, but for the sake of the new generation of young Welsh men and women, a generation of people who look outwards and see themselves not just as citizens of Wales or the United Kingdom, but as citizens of Europe and the world. Our job as politicians and elected representatives is to work to equip them to live in that world and their job is to make that world a better place for the next generation.

Mae llawer o'i le ar yr UE ac mae llawer y mae angen ei newid, ond yr hyn na ddylem ei wneud yw anghofio'r weledigaeth ehangach y mae'n rhaid i Gymru bob amser fod yn rhan ohoni. Crisialwyd y weledigaeth honno gan Václav Havel, cyn-Arlywydd y Weriniaeth Tsiec, rhywun a oedd wedi byw drwy oresgyniad Rwsia o Tsiecoslofacia yn 1968 mewn gwirionedd, ac a oedd wedi cael ei erlid yn wleidyddol yn ei rinwedd ei hun, fel a ganlyn:

'Heb freuddwydio am well Ewrop ni fyddwn byth yn creu gwell Ewrop.'

Hoffwn ychwanegu at hynny, oni bai ein bod yn rhan o Ewrop, ni allwn byth newid Ewrop. Yng Nghymru, dylem groesawu'r weledigaeth Ewropeaidd, nid er ein mwyn ni, ond er mwyn y genhedlaeth newydd o Gymry ifanc, cenhedlaeth o bobl sy'n edrych tuag allan ac yn eu hystyried eu hunain nid yn unig yn ddinasyddion Cymru neu'r Deyrnas Unedig, ond yn ddinasyddion Ewrop a'r byd. Ein gwaith ni fel gwleidyddion a chynrychiolwyr etholedig yw mynd ati i'w galluogi i fyw yn y byd hwnnw a'u gwaith hwythau yw gwneud y byd hwnnw'n lle gwell i'r genhedlaeth nesaf.

15:28

### **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful to have the opportunity to contribute to this debate. I want, at the beginning, to acknowledge that there are benefits to our membership of the European Union. However, I want to qualify that; I am not blindly loyal, nor do I share, perhaps, some of the rose-tinted visions of our relationship with the EU. We on this side of the Chamber recognise that many Members in the Chamber and a great deal of people across Wales have not had the opportunity to express their view on the current role of the EU. Subsequently, I think that public disillusionment with the EU is perhaps at an all-time high, and people do feel that it is heading in a direction that they never signed up to.

I am, therefore, proud that the Conservatives are committed to offering the people of Wales a referendum—the only party, I believe, in the Chamber to do so. The Welsh Conservative support renegotiations for a new settlement in Europe, focused on competitiveness, fairness, respect for national democracies and allowing powers to flow back to member states.

Rwy'n ddiolchgar iawn o gael cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Ar y dechrau, rwyf am gydnabod bod manteision i'n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, hoffwn oleddfu hynny; nid wyf yn ffyddlon ddall, ac efallai nad wyf yn cyd-fynd â rhai o'r gweledigaethau anfeirniadol o'n perthynas â'r UE. Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cydnabod nad yw llawer o Aelodau yn y Siambr na llawer iawn o bobl ledled Cymru wedi cael cyfle i fynegi eu barn ar rôl bresennol yr UE. Gan hynny, credaf fod dadrithiad y cyhoedd gyda'r UE o bosibl ar ei lefel uchaf erioed, a bod pobl yn teimlo ei fod yn mynd i gyfeiriad nad ydynt byth wedi cydsynio ag ef.

Felly, rwy'n falch bod y Ceidwadwyr wedi ymrwmo i gynnig refferendwm i bobl Cymru—yr unig blaid, fe gredaf, yn y Siambr i wneud hynny. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi ailnegodi setliad newydd yn Ewrop, sy'n canolbwyntio ar gystadleurwydd, tegwch, parch tuag at ddemocratiaethau cenedlaethol ac sy'n caniatáu i bwerau gael eu dychwelyd i aelod-wladwriaethau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

To set this debate into context, the 2012 year to date value of UK trade in goods exported to EU member states, excluding November 2012, was £125.5 billion. Germany remains the UK's largest EU export partner country, accounting for some 25% of our total EU export trade. Recent Welsh figures also look positive, with an increase in exports both to EU countries and to non-EU countries, up some £636 million and £852 million respectively. Exports to the EU accounted for 44.3% of Welsh exports, compared with 48.3% for the sum of the UK countries and English regions. This is the obvious effect, I would suggest, of working closer with UK Trade and Investment. There is no doubt that being within the single market is a tremendous benefit and we would never suggest leaving the market—hence the need to renegotiate. We need to repatriate some of our sovereign powers that, over time, have slipped over the channel, but protect our mutually beneficial trade agreements.

Er mwyn rhoi'r ddadl hon yn ei chyd-destun, roedd masnach y DU mewn nwyddau a allforiwyd i aelod-wladwriaethau'r UE yn ystod y flwyddyn 2012 hyd yma, heb gynnwys mis Tachwedd 2012 yn werth £125.5 biliwn. Yr Almaen yw gwlad bartner allforio fwyaf y DU yn yr UE o hyd, sy'n cyfrif am tua 25% o gyfanswm ein masnach allforio i'r UE. Mae ffigurau diweddar Cymru hefyd yn edrych yn gadarnhaol, gyda chynnydd mewn allforion i wledydd yr UE ac i wledydd nad ydynt yn yr UE fel ei gilydd, tua £636 miliwn a £852 miliwn yn y drefn honno. Roedd allforion i'r UE yn cyfrif am 44.3% o allforion o Gymru, o'i gymharu â 48.3% ar gyfer cyfanswm gwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr. Dyma'r effaith amlwg, ddywedwn i, sy'n deillio o weithio'n agosach gyda Masnach a Buddsoddi y DU. Nid oes amheuaeth nad yw bod yn y farchnad sengl o fudd aruthrol ac ni fyddem byth yn awgrymu gadael y farchnad—a dyna'r rheswm pam bod angen ailnegodi. Mae angen inni ddychwelyd rhai o'n pwerau sofran sydd, dros amser, wedi llithro dros Fôr Udd, ond diogelu ein cytundebau masnach sydd o fudd i bawb.

15:30 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking an intervention. You said that you wanted to renegotiate, but that you would never leave. Are you, therefore, in agreement with David Cameron, who basically says that if he cannot get what he wants, he is going to leave?

Diolch ichi am dderbyn ymyriad. Dywedasoch eich bod yn awyddus i ailnegodi, ond na fydech chi byth yn gadael. A ydych chi, felly, yn cytuno â David Cameron, sydd yn y bôn yn dweud os na all gael yr hyn y mae am ei gael, y bydd yn gadael?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:30 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are going to have a referendum on it, so we will let the people decide; it is quite simple.

Cawn refferendwm yn ei gylch, felly byddwn yn gadael i'r bobl benderfynu; mae'n eithaf syml.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

There is one part of this motion I do, however, question, which is the reference to utilising the skills, experience and innovation of the Government here in Wales. This is a Government that has continually, I believe, squandered European structural funds, and, in terms of innovation, this is limited to the public sector-only approach. That aside, I do believe that the people of Wales have a lot to offer, particularly in the private sector. As a Welsh person, I worked for the Commission within eastern European countries, working on pre-accession training and evaluation, concentrating on tackling institutional corruption, and training the next generation of police officers in combating organised crime. Romania, Bulgaria, the Republic of Moldova, the former Yugoslavia and countries within it, and indeed Ukraine, were challenging, but in many of these countries, such as Macedonia and Montenegro, there was a certain resonance with Wales in terms of the size of population and the scale of challenges. I have to admit to seeing a glint in the eye of young people who see accession to the EU as the only way forward, offering a true solid future for their countries.

Mae un rhan o'r cynnig hwn y mae gennyf amheuo yn ei chylch, fodd bynnag, sef y cyfeiriad at ddefnyddio sgiliau, profiad ac arloesedd y Llywodraeth yma yng Nghymru. Mae hon yn Llywodraeth sydd wedi parhau i wastraffu cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, yn fy marn i, ac, o ran arloesi, mae hyn wedi ei gyfyngu i'r sector cyhoeddus yn unig. Wedi dweud hynny, credaf fod gan bobl Cymru gryn dipyn i'w gynnig, yn enwedig yn y sector preifat. Fel Cymro, gweithiais i'r Comisiwn yng ngwledydd dwyrain Ewrop, gan gydweithio ar hyfforddiant a gwerthuso cyn ymuno, a chanolbwyntio ar fynd i'r afael â llygredd sefydliadol, a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o swyddogion yr heddlu i frwydro yn erbyn troseddu cyfundrefnol. Roedd Romania, Bwlgaria, Gweriniaeth Moldofa, yr hen Iwgoslafia a'r gwledydd oddi mewn iddi, ac yn wir Wcrain, yn heriol, ond mewn llawer o'r gwledydd hyn, megis Macedonia a Montenegro, roedd rhyw adlais o Gymru o ran maint y boblogaeth a maint yr heriau. Rhaid imi gyfaddef i weld llygad y bobl ifanc yn pefrio, pobl ifanc sy'n credu mai ymuno â'r UE yw'r unig ffordd ymlaen, gan gynnig dyfodol gwirioneddol gadarn i'w gwledydd.

EU countries look to the United Kingdom for support, guidance and a true partnership, and we have a grate deal to offer. We are much admired as a nation by countries seeking accession. I will, sadly, abstain on the motion because I cannot put my name to a motion that recommends that this failing Government in Wales has any competence to support our European partners, given the state of some of our public services here in Wales and the historic failure to implement funding successfully. I commend the intention, however, of the motion and I support the meaning behind it. I support the Conservative call for a negotiation and renewed democratic mandate for this country, but I cannot commend this Government here in Wales. Thank you.

Mae gwledydd yr UE yn edrych i'r Deyrnas Unedig am gymorth, arweiniad a phartneriaeth wirioneddol, ac mae gennym gryn dipyn i'w gynnig. Rydym ni fel gwlad yn cael ein hedmygu'n fawr gan wledydd sy'n ceisio ymuno. Byddaf, yn anffodus, yn ymatal ar y cynnig oherwydd ni allaf gefnogi cynnig sy'n argymhell bod gan y Llywodraeth hon yng Nghymru sy'n methu unrhyw gymhwysedd i gefnogi ein partneriaid Ewropeaidd, o ystyried cyflwr rhai o'n gwasanaethau cyhoeddus yma yng Nghymru a methiant hanesyddol i ddefnyddio cyllid yn llwyddiannus. Cymeradwyaf fwriad y cynnig, fodd bynnag, a chefnogaf ei ystyr. Cefnogaf alwad y Ceidwadwyr i negodi a mandad democrataidd newydd i'r wlad hon, ond ni allaf gymeradwyo'r Llywodraeth hon yma yng Nghymru. Diolch.

15:32

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am delighted to speak in this debate. I want to emphasise a slightly a different point, which is that one of the main benefits to Wales of positive Welsh engagement in the EU is attracting migrants to Wales from other European countries and affording the opportunity of European travel, trade and experience to Wales, its people and its companies. Dr Heaven Crawley of the Centre for Migration Policy Research at Swansea University has produced a number of research papers on this topic, which can be accessed, if you want to read the base research data, at [www.wmp.org.uk](http://www.wmp.org.uk). I propose to read the 10 key points from that research, which are absolutely fascinating, as you will see.

Around 22,300 migrants from central and eastern Europe joined the Welsh labour market between May 2004 and March 2008. Over half of those are living in Carmarthenshire, Cardiff, Newport and Wrexham. Although there is a widespread belief that migration leads to higher unemployment and lower wages, there is little or no evidence to support this assertion. On the contrary, recent high levels of inward migration have, on balance, been a significant advantage for the UK and the Welsh economy. There is evidence that migration overall represents a sizeable economic boost for Wales. Migrant workers in Wales experience some problems in relation to unscrupulous employers, lack of English and Welsh language skills, and, in some case, ill-adjusted services, but, by and large, they report themselves as being very happy to settle and live in Wales.

Although there has been an international migration to Wales for centuries, there has only been a net inflow of international migrants to Wales since 1994. That is when the eight central and eastern European A8 countries, as they are called, joined the EU, and their citizens acquired the right to work in the UK. However, this has actually decreased since 2008, in the recession, but we have no figures for how many people have left, although we know that a substantial number have. If you look at the work of the Centre for Migration Policy Research, it proposes a set of measures to find out how many people have actually left, having come here in the first place. So, that is not indigenous Welsh people leaving—that is migrants who came and then left again. The largest group of people who were born outside the UK who are living in Wales is from Poland; I did not know that, I have to say, but there we are, that is one of the pieces of research that is fascinating.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae'n bleser gennyf siarad yn y ddadl hon. Hoffwn bwysleisio pwynt ychydig yn wahanol, sef mai un o brif fanteision ymgysylltu cadarnhaol Cymru yn yr UE i Gymru yw bod hynny'n denu mewnfudwyr i Gymru o wledydd Ewropeaidd eraill ac yn rhoi cyfleoedd teithio, masnachu a phrofiadau Ewropeaidd i Gymru, ei phobl a'i chwmnïau. Mae Dr Heaven Crawley o'r Ganolfan Ymchwil i Bolisi Mewnfudo ym Mhrifysgol Abertawe wedi paratoi nifer o bapurau ymchwil ar y pwnc hwn, a gellir eu darllen, os dymunwch weld y data ymchwil sylfaenol, yn [www.wmp.org.uk](http://www.wmp.org.uk). Bwriadaf ddarllen y 10 pwynt allweddol o'r gwaith ymchwil hwnnw, sy'n hynod ddiddorol, fel y gwelwch.

Ymunodd tua 22,300 o ymfudwyr o ganol a dwyrain Ewrop â'r farchnad lafur yng Nghymru rhwng mis Mai 2004 a mis Mawrth 2008. Mae dros hanner ohonynt yn byw yn Sir Gaerfyrddin, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam. Er bod cred gyffredinol bod ymfudo yn arwain at fwy o ddiweithdra a chyflogau is, nid oes fawr ddim tystiolaeth, os o gwbl, i gefnogi'r honiad hwn. I'r gwrthwyneb, mae lefelau uchel diweddar o ymfudo wedi bod yn fantais sylweddol i economi'r DU ac economi Cymru ar y cyfan. Ceir tystiolaeth bod ymfudo wedi bod yn hwb economaidd mawr i Gymru yn gyffredinol. Mae gweithwyr mudol yng Nghymru yn profi rhai problemau mewn perthynas â chyflogwyr diegwyddor, diffyg sgiliau iaith Gymraeg a Saesneg, ac, mewn rhai achosion, gwasanaethau nad ydynt wedi'u haddasu'n briodol, ond, ar y cyfan, maent yn dweud eu bod yn hapus iawn i ymgartrefu a byw yng Nghymru.

Er bod ymfudo rhyngwladol i Gymru ers canrifoedd, dim ond ers 1994 y gwelwyd mewnlif net o ymfudwyr rhyngwladol i Gymru. Dyna pryd yr ymunodd wyth gwlad A8 canolbarth a dwyrain Ewrop, fel y'u gelwir, â'r UE, ac y cafodd eu dinasyddion yr hawl i weithio yn y DU. Fodd bynnag, mae hyn wedi gostwng mewn gwirionedd ers 2008, yn ystod y dirwasgiad, ond nid oes gennym ffigurau ynghylch faint o bobl sydd wedi gadael, er y gwyddom fod nifer sylweddol ohonynt wedi gadael. Os edrychwch ar waith y Ganolfan Ymchwil i Bolisi Mewnfudo, mae'n cynnig cyfres o fesurau i ganfod faint o bobl sydd wedi gadael mewn gwirionedd, ar ôl dod yma yn y lle cyntaf. Felly, nid pobl frodorol Cymru sy'n gadael—ond ymfudwyr a ddaeth ac yna adael eto. O Wlad Pwyl y mae'r grŵp mwyaf o bobl a anwyd y tu allan i'r DU sy'n byw yng Nghymru yn dod; nid oeddwn yn gwybod hynny, rhaid imi ddweud, ond dyna ni, dyna un o'r darnau o ymchwil sy'n ddiddorol.

The A8 migrants coming to the UK after 2004 have made a net fiscal contribution to the UK, with no negative impact on the UK welfare system. Overall, there are no negative effects on the Welsh labour market. There is considerable political and policy debate about the number of migrants that are expected from what are called the A2 countries—the Romanian and Bulgarian countries—and the scale and the impact of that is yet to be predicted.

However, the research points to the fact that those countries suffer the same problems as we have—of ageing populations and few of what they call breeder populations, which I always think is a very interesting concept. We are not expecting enormous numbers of ageing-population people to migrate anywhere, because they do not. As Mick has pointed out, it is the young, who are outward looking and innovative, who tend to migrate, and they tend to be economically active. They bring their children and families, who enhance the local schools, which would otherwise be closing. Indeed, as we all know, Wales has an ageing population without that migration, and many of those people are the lifeblood of some of the rural schools that we are all so fond of and want to keep open.

Those are the 10 key points that I wanted to highlight. In conclusion, I think that the EU has to be seen as a way of ensuring that Wales looks outward, and not inward, and that it does not embrace an isolationist policy that seeks to keep itself to itself, but instead that it becomes a full, democratic player on the international stage, for social justice, for culture, for democratic accountability, for trade, and for a truly international people.

15:37

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad Biography](#)

Croesawaf yn fawr y ddadl hon ar y budd sy'n dod i Gymru o fod yn rhan o'r Gymuned Ewropeaidd. Gosododd Mick Antoniwr y darlun mawr ar ein cyfer o ran sefydlogrwydd, ac o ran y pwysigrwydd o fod mewn cysylltiad â'r gwledydd bychain a'r rhanbarthau eraill yn Ewrop, a'r modd y mae Cymru'n manteisio o hynny.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi hefyd bod y Gymuned Ewropeaidd yn gwerthfawrogi'r cyfraniad sydd gan Gymru i'w wneud i'r Gymuned Ewropeaidd. Rydym yn pwysleisio, o reidrwydd, y ffaith bod Cymru'n manteisio'n helaeth o'i haelodaeth o'r Gymuned Ewropeaidd. Ar gyfartaledd, mae mantais o £40 y pen i bob person yng Nghymru oherwydd yr aelodaeth o'r Gymuned Ewropeaidd. Mae cymunedau yng Nghymru sydd wedi manteisio'n helaeth o fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae sectorau sy'n dibynnu i raddau fwy neu lai ar fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd—y sector amaethyddol a chefn gwlad, er enghraifft, lle mae'r Undeb Ewropeaidd yn rhoi llawer iawn mwy o bwyslais nag y mae'r glymblaid a'r Trysorlys yn San Steffan ar gynnal cymunedau gwledig, lle mae'r boblogaeth yn isel ac, oherwydd hynny, mae gwasgfa economaidd. Mae'r Gymuned Ewropeaidd yn cydnabod bod yn rhaid gweithredu'n uniongyrchol er mwyn cynnal y cymunedau hynny. Byddai'n dda iawn clywed y glymblaid yn San Steffan yn cydnabod yr angen hwnnw i'r cymunedau gwledig ni yng Nghymru.

Mae ymfudwyr yr A8 sydd wedi dod i'r DU ar ôl 2004 wedi gwneud cyfraniad ariannol net i'r DU, heb unrhyw effaith negyddol ar system les y DU. Ar y cyfan, nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y farchnad lafur yng Nghymru. Mae cryn ddadlau gwleidyddol a pholisi ynglŷn â nifer yr ymfudwyr a ddisgwylir o'r hyn a elwir yn wledydd yr A2—Rwmania a Bwlgaria—ac nid yw graddfa nac effaith hynny wedi'u rhagweld eto.

Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn awgrymu bod y gwledydd hynny yn dioddef yr un problemau ag sydd gennym ni—poblogaethau sy'n heneiddio ac ychydig o'r hyn y maent yn ei alw'n boblogaethau magu, sydd bob amser yn gysyniad diddorol iawn yn fy marn i. Nid ydym yn disgwyl i nifer enfawr o bobl o'r boblogaeth sy'n heneiddio symud unrhyw le, am nad ydynt yn gwneud hynny. Fel y dywedodd Mick, pobl ifanc, sy'n edrych tuag allan ac sy'n arloesol, sy'n tueddu i ymfudo, ac maent yn tueddu i fod yn economaidd weithgar. Maent yn dod â'u plant a'u teuluoedd, sy'n ychwanegu at yr ysgolion lleol, a fyddai efallai yn cael eu cau. Yn wir, fel y gwyddom oll, mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio heb ymfudo o'r fath, ac mae llawer o'r bobl hynny yn enaid byw rhai o'r ysgolion gwledig yr ydym i gyd mor hoff ohonynt ac yn awyddus i'w cadw ar agor.

Dyna'r 10 pwynt allweddol yr oeddwn am dynnu sylw atynt. I gloi, credaf fod yn rhaid i'r UE gael ei ystyried yn fordd o sicrhau bod Cymru yn edrych tuag allan, ac nid i mewn, ac nad yw'n derbyn polisi o ymynysu sydd â'r nod o encilio, ond yn hytrach na hynny mae'n wlad ddemocrataidd lawn ar y llwyfan rhyngwladol, dros gyfiawnder cymdeithasol, dros ddiwylliant, dros atebolrwydd democrataidd, dros fasnach, a thros bobl wirioneddol ryngwladol.

I very much welcome this debate on the benefits for Wales of being part of the European Community. Mick Antoniwr set out the big picture for us in terms of stability, and on the importance of being in touch with small countries and other regions in Europe, and the way in which Wales is taking advantage of that.

However, it is also important to note that the European Community appreciates the contribution that Wales has to make to the European Community. We emphasise, necessarily, the fact that Wales benefits very much from its membership of the European Community. On average, every person in Wales is £40 per head better off because of that membership of the European Community. There are communities in Wales that have benefited greatly from membership of the European Union.

There are sectors that are dependent to a lesser or greater extent on being part of the European Union—the rural and agricultural sector, for example, where the European Union puts much greater emphasis than the coalition and the Treasury in Westminster on supporting rural communities, where the population is low and, as a result, there is economic pressure. The European Community recognises that direct action must be taken to support those communities. It would be very good to hear the coalition in Westminster acknowledging that need for our rural communities in Wales.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

O ran ein sefyllfa ni yn ddiwydiannol, y farchnad Ewropeaidd yw'r farchnad fwyaf i fusnesau o Gymru o ran allforio. Pe baem ni y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd, byddai'n rhaid ailnegodi'r cytundebau hynny i gyd, a byddai hynny'n gosod ein diwydiannau ni yng Nghymru sy'n allforio o dan fantais fawr. Felly, ar bob lefel, mae ein haelodaeth o'r Gymuned Ewropeaidd yn fanteisiol i Gymru.

Er ein bod ni'n manteisio, yr ydym yn cyfrannu hefyd. Yn ystod y dadleuon ynglŷn â'r gyllideb Ewropeaidd, cefais gyfarfod am dri chwarter awr gyda Chomisiynydd Lewandowski, a oedd yn gyfrifol am y gyllideb. Roedd hi'n ddiddorol iawn ei glywed yn dweud wrthyf fwy nag unwaith ei bod yn hollbwysig bod llais Cymru'n cael ei glywed yn y trafodaethau hyn. Gan fod synau negyddol yn dod oddi wrth David Cameron a'r glymblaid yn Llundain, roedd Lewandowski yn gwbl glir bod llais Cymru'n eithriadol o bwysig.

Roedd hi'n dda o beth, ac fe'i gwerthfawrogwyd yn fawr yn Ewrop, fod Carwyn Jones, fel Prif Weinidog Cymru, a Jane Hutt, fel y Gweinidog Cyllid, Alun Davies, fel y Gweinidog amgylchedd, ac eraill, wedi pwysleisio pa more bwysig oedd hi i Gymru fod yn rhan o'r Gymuned Ewropeaidd.

Fe wnaif i ildio i Nick Ramsay.

In terms of our industrial situation, the European market is the largest market for Welsh businesses in terms of exports. If we were outwith the European Community, we would have to renegotiate those agreements in their entirety, and that would place industries in Wales that export under a great disadvantage. So, on every level, our membership of the European Community is beneficial to Wales.

Even though we benefit, we also contribute. During the discussions on the European budget, I had a meeting for three quarters of an hour with Commissioner Lewandowski, who was responsible for the budget. It was fascinating to hear him telling me more than once that it is crucial that the Welsh voice is heard in these discussions. Due to the negative sounds coming from David Cameron and the coalition in London, Lewandowski was very clear that the Welsh voice is crucially important.

It was beneficial and appreciated very much in Europe that Carwyn Jones, the First Minister of Wales, Jane Hutt, as the Minister for Finance, Alun Davies, as the Minister for agriculture, and others had emphasised how important it was for Wales to be part of the European Community.

I give way to Nick Ramsay.

15:40 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for giving way. Surely the noises coming from David Cameron and the UK coalition Government are about Britain getting the best possible deal from our membership of the European Union. How can you say that that is negative?

Diolch am ildio. Onid yr hyn y mae David Cameron a Llywodraeth glymblaid y DU yn ei ddweud yw bod Prydain yn cael y fargen orau bosibl o'n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Sut y gallwch chi ddweud bod hynny'n negyddol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:40 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)

It is negative because David Cameron is running scared of UKIP and Nigel Farage. He is reacting to the increase in support for UKIP. We have to recognise that people are perfectly entitled to vote for any political party, even if we disagree fundamentally with the policies and the views of those political parties. What is unacceptable is the Prime Minister of United Kingdom running scared of a political party that has struck a chord with a large percentage of the electorate of the United Kingdom. We expect more from politicians. Fortunately, in Wales, we get more from politicians than we get from the Prime Minister of the United Kingdom.

Mae'n negyddol am fod ofn UKIP Nigel Farage ar David Cameron. Mae'n adweithio i'r gefnogaeth gynyddol i UKIP. Rhaid inni gydnabod bod gan bobl berffaith hawl i bleidleisio i unrhyw blaid wleidyddol, hyd yn oed os anghytunwn yn llwyr â pholisïau a barn y pleidiau gwleidyddol hynny. Yr hyn sy'n annerbyniol yw'r ffaith bod plaid wleidyddol sydd wedi taro tant â chanran uchel o etholwyr y Deyrnas Unedig wedi codi ofn ar Brif Weinidog y Deyrnas Unedig. Rydym yn disgwyl mwy gan wleidyddion. Yn ffodus, yng Nghymru, cawn fwy gan wleidyddion na'r hyn a gawn gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae'n bwysig ein bod yn dadlau'r gwir achosion sy'n ymwneud ag aelodaeth Cymru o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n eithriadol o bwysig ein bod yn cael dadl gadarnhaol. Fel y dywedodd Leanne Wood yng nghynhadledd Plaid Cymru yn ddiweddar, mae'n eithriadol o bwysig ein bod yn cael dadl gadarnhaol a bod y gwerthoedd hynny sy'n ymwneud â Chymru yn cael eu hadlewyrchu yn y dadleuon hynny, a'n bod yn ymwybodol mai ein lle ni yw bod yng nghanol y Gymuned Ewropeaidd gyda gwledydd bychain eraill Ewrop sy'n debyg i Gymru, a'r rhanbarthau eraill sy'n rhannu ein diddordebau ni.

It is important that we do argue and put the truth forward in terms of the issues that are important for Wales's membership of the EU. It is crucially important that we have a positive debate. As Leanne Wood said at the Plaid Cymru conference recently, it is crucially important that we have a positive debate and that those values in relation to Wales are reflected in those discussions, and that we are aware that our place is to be at the heart of the European Community along with the other small nations of Europe that are similar to Wales, and the other regions that share our interests.

I agree absolutely with Rhodri Glyn Thomas that we need to face down those politicians who have simplistic arguments about the apparent attractions of leaving Europe, when they are not explaining that if we leave Europe we leave the jobs and prosperity that Europe poses for Wales.

First and foremost, however, the biggest achievement of the European Union has been to produce the longest period of peace among the main European nations in modern history. We have to reflect on the fact that, were it not for the European Union, we could now be slipping into war over Ukraine. The first world war certainly started on a lesser pretext. Therefore, jaw-jaw is very much better than war-war.

The fact that Germany imports most of its gas from Russia and that, by 2030, the EU is projected to be importing over three quarters of its gas—most of it likely to be Russian gas—is a good reason why we need to keep talking with our European partners, including Russia, rather than sabre-rattling.

The Schuman declaration stated in 1950:

'The contribution which an organized and living Europe can bring to civilization is indispensable to the maintenance of peaceful relations.'

That is well before we could envisage the advent of the internet and the global climate challenge that force us all to see the world as one.

This motion acknowledges the importance that Wales can play in Europe, promoting democratic governance across Europe but also using trade diplomacy to deliver peace and prosperity for all of our peoples. Not least we have to continue to talk to, and trade with Russia, because 40% of all Russia's trade is with the EU. So, the trade sanctions that the EU can impose will obviously have some influence on Russia's future behaviour. Equally, from our perspective, Russia is the EU's third biggest trading partner. We do four times more trade with Russia than we do with China.

The facile arguments that we would be better off out of Europe are really condemning the UK to worklessness and a future with little hope, and to junking the Jobs Growth Wales initiatives that get young people into apprenticeships and then into work.

The interdependency and co-operation that exists across the 28 European countries encompasses hundreds of projects, all funded through European money, are to be seen in my constituency as well as across Europe.

Nick Ramsay talks about backing David Cameron's reconstituted idea of Europe. I cannot agree with David Cameron's opposition to the Robin Hood tax and the regulation of bankers' bonuses, which I think would have produced a much more just solution for the peoples of Europe than the current position of the UK Government.

Cytunaf yn llwyr â Rhodri Glyn Thomas fod angen inni herio'r gwleidyddion hynny sy'n cynnig dadleuon gorsymyl ynglŷn ag atyniadau ymddangosiadol gadael Ewrop, pan nad ydynt yn egluro, os byddwn yn gadael Ewrop, ein bod yn gadael y swyddi a'r ffyniant y mae Ewrop yn eu creu i Gymru.

Yn bennaf oll, fodd bynnag, cyflawniad mwyaf yr Undeb Ewropeaidd fu sicrhau'r cyfnod hwyaf o heddwch ymhlith prif wledydd Ewrop yn yr oes fodern. Rhaid inni fyfyrto ar y ffaith, oni bai am yr Undeb Ewropeaidd, y gallem yn awr fod yn wynebu rhyfel dros Wcraïn. Yn sicr, dechreuodd y rhyfel byd cyntaf ar sail wannach. Felly, mae trafod yn llawer gwell na rhyfela.

Mae'r ffaith bod yr Almaen yn mewnfario'r rhan fwyaf o'i nwy o Rwsia ac, erbyn 2030, y rhagwelir y bydd yr UE yn mewnfario dros dri chwarter ei nwy—y rhan fwyaf o Rwsia yn ôl pob tebyg—yn rheswm da pam mae angen inni barhau i siarad â'n partneriaid Ewropeaidd, gan gynnwys Rwsia, yn hytrach na chwythu bygythion.

Dywedodd datganiad Schuman yn 1950:

Mae'r cyfraniad y gall Ewrop drefnus a byw ei gynnyg i wareiddiad yn anhepgor er mwyn cynnal cydberthnasau heddychlon.

Dywedwyd hynny ymhell cyn inni allu rhagweld dyfodiad y rhyngrywd a her yr hinsawdd fyd-eang sy'n ein gorfodi i wled y byd yn un.

Mae'r cynnig hwn yn cydnabod y rhan bwysig y gall Cymru ei chwarae yn Ewrop, drwy hyrwyddo llywodraethu democrataidd ledled Ewrop ond hefyd drwy ddefnyddio diplomyddiaeth fasnach i sicrhau heddwch a ffyniant i'n holl bobloedd. Yn bennaf, rhaid inni barhau i siarad â Rwsia, a masnachu â hi, am fod 40% o holl fasnach Rwsia â'r UE. Felly, bydd y sancsiynau masnach y gall yr UE eu gosod yn amlwg yn cael rhywfaint o ddylanwad ar ymddygiad Rwsia yn y dyfodol. Yn yr un modd, o'n safbwynt ni, Rwsia yw trydydd partner masnachu mwyaf yr UE. Mae ein masnach â Rwsia bedair gwaith yn fwy na'n masnach â Tsieina.

Mae'r dadleuon arwynebol y byddem yn well ein byd y tu allan i Ewrop yn wir yn condemnio'r DU i ddiweithdra a dyfodol heb fawr o obaith, ac i gael gwared ar fentrau Twf Swyddi Cymru sy'n cynnig prentisiaethau ac yna waith i bobl ifanc.

Mae'r gyd-ddibyniaeth a'r cydweithio a welir ymhlith y 28 o wledydd Ewropeaidd yn cwmpasu cannoedd o brosiectau, pob un a ariennir drwy arian Ewropeaidd, ac maent i'w gweld yn fy etholaeth i, a ledled Ewrop hefyd.

Mae Nick Ramsay yn sôn am gefnogi syniad David Cameron o Ewrop wedi'i hailgyfansoddi. Ni allaf gytuno â gwrthwynebiad David Cameron i dreth Robin Hood a rheoleiddio taliadau bonws bancwyr, a fyddai wedi cynnig ateb llawer mwy cyfiawn i bobloedd Ewrop, yn fy marn i, na sefyllfa bresennol Llywodraeth y DU.

Today I visited the school of engineering at Cardiff University, which is absolutely packed with advanced research and development equipment, supporting small and medium-sized businesses in Wales to refine their products and productivity. The university, over the last five years, has secured no less than £50 million-worth of funding for over 150 projects, including cutting-edge life science research to tackle illnesses like Parkinson's disease. This is really the sort of project that we can see is beneficial to all of us, and particularly to Wales. Cardiff University is part of the European Turbine Network, which has over 100 members from 19 European countries. What could be more important than developing environmentally sound gas turbine technology and understanding how we develop carbon capture and storage—particularly for those who might worry about Europe's reliance on imported gas into the future?

UK universities are now the most successful in Europe when bidding for funding for higher education. Would it not be something if that could be replicated across other European funding streams available here in Wales? For example, the community foodie scheme in Bridgend, a collaboration between Bridgend, Torfaen, the Vale of Glamorgan and Communities First, has converted an abandoned patch of land into a hay meadow, community orchard and community nursery with community gardens. That is the sort of Europe I want to live in.

15:47

## William Powell [Bywgraffiad Biography](#)

I am extremely grateful to Mick Antoniw and, indeed, to Lord Dafydd Elis-Thomas for tabling this important debate today, and I am delighted to add my name to its supporters. I do so as a proud Welsh European, and as a member since 1991 of the all-party European Movement, founded by Sir Winston Churchill back in 1948 to foster Great Britain's future within Europe. In more recent years, Lord Kinnock, Lord Wigley and Kenneth Clarke, among others, have played a key role in that movement. Currently, Charles Kennedy, my former party leader, serves as its president.

In recent months I have been working along with colleagues across this Chamber to establish a cross-party group on Europe, which is co-sponsored by Lord Elis-Thomas, David Rees and William Graham. Earlier this month, we held our inaugural meeting, which was addressed by Mick Antoniw, with an update on events in Ukraine, and we are looking forward to developing a full programme of activities in the weeks and months to come.

Heddiw, ymwelais â'r ysgol beirianeg ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n llawn offer ymchwil a datblygu uwch, sy'n helpu busnesau bach a chanolig yng Nghymru i fireinio eu cynnyrch a'u cynhyrchiant. Mae'r brifysgol, dros y pum mlynedd diwethaf, wedi sicrhau dim llai na £50 miliwn o gyllid ar gyfer dros 150 o brosiectau, gan gynnwys ymchwil flaengar ym maes gwyddorau bywyd er mwyn mynd i'r afael ag afiechydon fel clefyd Parkinson. Dyna'r math o brosiect y gallwn weld ei fod yn fanteisiol i bob un ohonom, ac yn arbennig i Gymru. Mae Prifysgol Caerdydd yn rhan o Rwydwaith Tyrbinau Ewropeidd, sydd â thros 100 o aelodau o 19 o wledydd Ewropeidd. Beth allai fod yn bwysicach na datblygu technoleg amgylcheddol gadarn ym maes tyrbinau a deall sut rydym yn datblygu prosesau dal a storio carbon—yn enwedig i'r rhai sy'n poeni o bosibl am ddibyniaeth Ewrop ar nwy wedi'i fewnforio yn y dyfodol?

Prifysgolion y DU yw'r mwyaf llwyddiannus yn Ewrop erbyn hyn o ran gwneud cais am gyllid addysg uwch. Oni fyddai'n beth braf pe gellid efelychu hynny mewn ffrydiau cyllid Ewropeidd eraill sydd ar gael yma yng Nghymru? Er enghraifft, mae'r cynllun bwyd cymunedol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sef cydweithrediad rhwng Pen-y-bont ar Ogwr, Tor-faen, Bro Morgannwg a Chymunedau yn Gyntaf, wedi troi darn o dir segur yn ddôl wair, yn berllan gymunedol ac yn blanhigfa gymunedol ynghyd â gerddi cymunedol. Dyna'r math o Ewrop yr hoffwn fyw ynddi

Rwy'n hynod ddiolchgar i Mick Antoniw ac, yn wir, i'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas am gyflwyno'r ddatlwl bwysig hon heddiw, ac rwy'n falch iawn o ychwanegu fy enw at y rhai sy'n ei chefnogi. Gwnaf hynny fel un sy'n falch o fod yn ddinesydd Ewropeidd o Gymro, ac fel aelod ers 1991 o'r Mudiad Ewropeidd hollbleidiol, a sefydlwyd gan Syr Winston Churchill yn ôl yn 1948 i feithrin dyfodol Prydain Fawr yn Ewrop. Yn ystod y blynyddoedd mwy diweddar, mae'r Arglwydd Kinnock, yr Arglwydd Wigley a Kenneth Clarke, ymhlith eraill, wedi chwarae rhan allweddol yn y mudiad hwnnw. Ar hyn o bryd, Charles Kennedy, cyn-arweinydd fy mhlaidd, yw'r llywydd.

Yn ystod y misoedd diwethaf rwyf wedi bod yn gweithio gyda chyd-Aelodau yn y Siambri i sefydlu grŵp trawsbleidiol ar Ewrop, sy'n cael ei gyd-noddi gan yr Arglwydd Elis-Thomas, David Rees a William Graham. Yn gynharach y mis hwn, cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf, a gafodd ei annerch gan Mick Antoniw, a roddodd y diweddaraf ar ddigwyddiadau yn Wcrain, ac rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu rhaglen lawn o weithgareddau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

However, if truth be told, the positive case for Europe has all too often gone unheard in this country. The two largest political parties at Westminster have indeed been running scared of UKIP, threatening to cut EU budgets or to offer mysterious future referenda on unknown and destabilising terms. Just this morning on the 'Today' programme, my former party leader, Charles Kennedy, admitted that in previous European elections he had failed to convince the campaigns department of his own party to take the fight to the Eurosceptics, and rather had been persuaded to confine campaigning to health, education or, indeed, more classic issues of pavement politics—all well beyond the remit of the European Union. This time, however, I share Charles Kennedy's delight that the Liberal Democrats are adopting the most positive approach to Europe since the days of Jo Grimond, and indeed I am proud to be a member of the party of 'in'. I look forward this evening to the first debate between the Deputy Prime Minister, Nick Clegg, and Mr Farage on these topics, and I see that as potentially an important part of the fightback.

Let us not forget that Europe is worth around £3 billion to our farming communities. In Wales, it is the case, according to comments recently by the Country Land and Business Association Ltd, that many farms absolutely rely on EU subsidy for up to 80% of their income.

To me, the union is about far more than money. It symbolises some of the very best aspects of humanity. It is about us working together for common goals, as has been eloquently outlined by previous speakers here today. I am certainly not claiming that the European Union is perfect—in fact, I have yet to meet anybody who would make such a claim. What it always has been is a work in progress, which is the envy of the world in terms of cradling democracies, particularly for those countries emerging from fascist dictatorship; we think of countries such as Spain, Portugal and Greece, emerging from the rule of the colonels.

All the events in recent weeks in eastern Europe remind us that we should not take for granted the comfort of standing in judgment upon the institutions of the European Union. As Margaret Thatcher once said, Europe is a product of history. We need to look well below the surface to see the fractures that the union has worked to mend, particularly in this anniversary year of the start of that terrible European civil war, sometimes quite wrongly known as the great war.

In short, it is in our best interests to stay within the European Union—economically, culturally and politically. We back reform and the further democratisation of the Union and the strengthening of the key role of the European Parliament. As a nation, we need, however, to grow up and have an intelligent discussion about how we can make that European Union better and stronger. To contemplate leaving the union at this time would not bring about some sort of national epiphany, but rather a profound national disaster.

Fodd bynnag, a dweud y gwir, yn rhy aml, mae'r achos cadarnhaol dros Ewrop heb ei glywed yn y wlad hon. Mae UKIP wedi codi ofn ar y ddwy blaid wleidyddol fwyaf yn San Steffan, sydd wedi bygwth torri cyllidebau'r UE neu wedi cynnig refferenda dirgel yn y dyfodol ar delerau anhysbys a fydd yn peri ansefydlogrwydd. Dim ond y bore yma ar y rhaglen 'Today', cyfaddefodd cyn-arweinydd fy mhlaid, Charles Kennedy, iddo fethu ag argyhoeddi adran ymgyrchoedd ei blaid ei hun i herio'r Ewrosgetiaid mewn etholiadau Ewropeaidd blaenorol, ac, yn lle hynny, iddo gael ei ddarbwyllio i gyfyngu ymgyrchu i iechyd, addysg neu, yn wir, faterion mwy clasurol gwleidyddiaeth y stryd—sydd oll ymhell o fod yn rhan o gylch gwaith yr Undeb Ewropeaidd. Y tro hwn, fodd bynnag, rhannaf lawenydd Charles Kennedy bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn mabwysiadu'r ymagwedd fwyaf cadarnhaol tuag at Ewrop ers dyddiau Jo Grimond, ac yn wir rwy'n falch o fod yn aelod o'r blaid dros aros yn yr Undeb. Edrychaf ymlaen at y ddadl gyntaf heno rhwng y Dirprwy Brif Weinidog, Nick Clegg, a Mr Farage ar y pynciau hyn, ac ystyriaif fod hynny'n rhan bwysig o bosibl o'r ymgais i adennill tir.

Gadewch inni beidio ag anghofio bod Ewrop yn werth tua £3 biliwn i'n cymunedau ffermio. Yng Nghymru, yn ôl sylwadau yn ddiweddar gan Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cyf, mae llawer o ffermydd yn gwbl ddbynnod ar gymhorthdal yr UE am hyd at 80% o'u hincwm.

I mi, mae'r undeb yn ymwneud â llawer mwy nag arian. Mae'n symbol o rai o'r agweddau gorau ar ddynoliaeth. Mae'n ymwneud â gweithio gyda'n gilydd i gyflawni nodau cyffredin, fel y'i hamlinellwyd yn huawdl gan siaradwyr blaenorol yma heddiw. Yn sicr, nid wyf yn honni bod yr Undeb Ewropeaidd yn berffaith—a dweud y gwir, nid wyf erioed wedi cwrdd â neb a fyddai'n honni hynny. Yr hyn y mae wedi bod o'r dechrau yw gwaith sydd eto i'w gwblhau, sy'n destun eiddgedd y byd o ran democratiaethau newydd, yn enwedig y gwledydd hynny sy'n dianc rhag cysgod unbennaeth ffsgaidd; rydym yn meddwl am wledydd fel Sbaen, Portiwgal a Gwlad Groeg, sy'n dianc rhag rheol y cynroliaid.

Mae'r holl bethau sydd wedi digwydd yn yr wythnosau diwethaf yn nwyrain Ewrop yn ein hatgoffa na ddylem gymryd yn ganiataol y cysur o feirniadu sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Fel y dywedodd Margaret Thatcher unwaith, ffrwyth hanes yw Ewrop. Mae angen inni edrych ymhell o dan yr wyneb i weld y rhwygiadau y mae'r undeb wedi mynd ati i'w hunioni, yn enwedig yn ystod y canmlwyddiant hwn ers dechrau'r rhyfel cartref Ewropeaidd ofnadwy, weithiau a elwir y rhyfel mawr, a hynny'n gwbl gyfeiliornus.

Yn gryno, mae'n fuddiol inni aros yn yr Undeb Ewropeaidd—yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn wleidyddol. Rydym yn cefnogi diwygio a democrateiddio'r Undeb ymhellach a chryfhau rôl allweddol Senedd Ewrop. Fodd bynnag, fel gwlad, mae angen inni aeddfedu a chael trafodaeth ddeallus ynglŷn â sut y gallwn wneud yr Undeb Ewropeaidd yn well ac yn gryfach. Ni fyddai ystyried gadael yr undeb ar hyn o bryd yn arwain at ryw fath o epiffani cenedlaethol. Yn hytrach na hynny, byddai'n drychineb cenedlaethol mawr.

Yma yn y Siambr, rydym yn ymwybodol o hanes y manteision i Gymru o fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Rydym wedi hen arfer â chlywed y dadleuon hynny, ond rhaid eu hailadrodd oherwydd agosatrydd yr etholiad Ewropeaidd a'r ffaith ein bod yn cael ein hatgoffa'n gyson gan y cyfryngau o'r rhai sy'n erbyn Ewrop.

Statistics show that, since 2000, Wales has received over £4 billion for projects promoting business, developing skills, research and innovation, creating jobs and helping people into work, establishing new and improved transport and digital communication links, all helping support Wales's transition into a vibrant twenty-first century nation.

Thanks to the hard work of our Welsh MEPs, and I will specifically highlight the work done by Labour's Derek Vaughan, we will receive another £2.1 billion in development funding between now and 2020. In 2007-13, the funding programme helped create 7,000 new enterprises and 22,000 jobs, and helped over 150,000 people gain skills and qualifications through successful partnership working and collaboration. That would not have been achieved without support from the European Union.

Furthermore, as Byron Davies has already highlighted, the European single market is our biggest trading partner, sustaining over 150,000 jobs and supporting over 600 companies in Wales that export manufactured goods to their EU partners—including Tata Steel in my constituency, as I was pleased to see the Chancellor recognise this week. Overall, Welsh citizens get much more, economically, out of the EU than we put into it. We are a net beneficiary of about £200 million a year. No-one can tell me that, if we withdrew from the EU, the UK Government would give us that equivalent—especially this UK Government.

An example of the benefits of these moneys for local economies and the role that they can play supporting future generations can be seen at Swansea University's new second campus being built on Fabian Way. It is part funded by £60 million from the European Investment Bank and will help promote innovation and regeneration, provide students with state-of-the-art facilities and studying opportunities, and attract researchers from across the world to lead on research here in Wales. I can add to that projects in my area, such as Harbour Way and Tata Steel, which are investing because we are part of the European Union.

However, this debate allows us the time to look forward and consider the future benefits of EU membership for Wales. I will focus on just one aspect, which Jenny Rathbone has touched on, which is the research side of things.

Here in the Chamber, we are aware of the history of the benefits to Wales of being part of the European Union. We have become used to hearing those arguments, but they must be repeated because of the proximity of the European elections and the fact that we are constantly reminded by the media of those who are against Europe.

Dengys ystadegau fod Cymru, ers 2000, wedi cael dros £4 biliwn ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo busnesau, yn datblygu sgiliau, ymchwil ac arloesedd, yn creu swyddi ac yn helpu pobl i gael gwaith, yn sefydlu trafnidiaeth newydd a gwelw a chysylltiadau cyfathrebu digidol, sydd oll yn helpu i droi Cymru yn wlad fywiog yn yr unfed ganrif ar hugain.

Diolch i waith caled ASEau Cymru, a thynnaf sylw yn benodol y gwaith a wnaed gan Derek Vaughan dros Lafur, byddwn yn derbyn £2.1 biliwn arall o arian datblygu rhwng nawr a 2020. Yn 2007-13, helpodd y rhaglen ariannu i greu 7,000 o fusnesau newydd a 22,000 o swyddi, gan helpu dros 150,000 o bobl i ennill sgiliau a chymwysterau drwy weithio mewn partneriaeth a chydweithio'n llwyddiannus. Ni fyddai hynny wedi cael ei gyflawni heb gymorth yr Undeb Ewropeaidd.

At hynny, fel y nododd Byron Davies eisoes, y farchnad sengl Ewropeaidd yw ein partner masnachu mwyaf, sy'n cynnal dros 150,000 o swyddi ac yn cefnogi dros 600 o gwmnïau yng Nghymru sy'n allforio nwyddau a weithgynhyrchir i'w partneriaid yn yr UE—gan gynnwys Tata Steel yn fy etholaeth i, fel y cydnabu'r Canghellor yr wythnos hon, yr wyf falch o nodi. At ei gilydd, mae dinasyddion Cymru yn cael llawer mwy o fudd, yn economaidd, o'r UE nag yr ydym yn ei roi iddo. Rydym yn cael tua £200 miliwn net y flwyddyn. Ni all neb ddweud wrthyf, os ydym yn gadael yr UE, y byddai Llywodraeth y DU yn rhoi'r swm cyfatebol inni—yn enwedig y Llywodraeth hon.

Gellir gweld un enghraifft o fanteision yr arian hwn i economïau lleol a'r rôl y gall ei chwarae yn y broses o gefnogi cenedlaethau'r dyfodol yn ail gampws newydd Prifysgol Abertawe sy'n cael ei adeiladu ar Ffordd Fabian. Fe'i hariennir yn rhannol drwy swm o £60 miliwn gan Fanc Buddsoddi Ewrop a bydd yn helpu i hyrwyddo arloesedd ac adfywio, yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf i fyfyrwyr a chyfleoedd astudio, ac yn denu ymchwilwyr o bob rhan o'r byd i arwain gwaith ymchwil yma yng Nghymru. Gallaf ychwanegu at hyn brosiectau yn fy ardal, megis Ffordd yr Harbwr a Tata Steel, sy'n buddsoddi am ein bod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

Fodd bynnag, mae'r ddadl hon yn rhoi amser inni edrych ymlaen ac ystyried manteision aelodaeth yr UE i Gymru yn y dyfodol. Canolbwyntiaf ar un agwedd yn unig, a cyfeiriodd Jenny Rathbone at hyn, sef ymchwil.

The potential is perhaps best focused on the utilisation of science, engineering, manufacturing, research and development, in the STEM areas that we have all highlighted as an important aspect in our progress. Together they can drive economic growth in Wales. The moneys received in Cardiff University have already been highlighted, but we have received double that across Wales through the FP7 programmes. The outcomes of that research can lead to further investment and the creation of businesses in Wales.

We have the potential to lead the world in research, breaking new ground, particularly in areas of life sciences and environment protection. With Welsh professors and students participating in world leading schemes, such as the Hadron collider project in CERN, we need to support our universities to continue to enhance their international excellence status in research outputs, strengthening the quality and quantity of our research base and providing an innovative, world-leading sector for the future, supported by European funding.

We can then focus on three key areas to attract inward investment and open Wales up to business: enhancing and promoting our research and development potential, up-skilling our workforce for these jobs for the future and driving forward this agenda as part of Europe, not outside of Europe. The Horizon 2020 programme can help us towards that goal. It has an estimated budget of €79 billion in total, with €24.6 billion for research in areas of science and engineering.

Our universities are building strong partnerships with European colleagues. In fact Swansea University has just completed an agreement with Université Joseph Fourier, Grenoble, for greater collaboration in research.

We cannot forget the social, cultural and moral aspects of EU membership. We must promote membership in order to establish our young people in Wales as European and global citizens, learning from each other and working collaboratively on issues that affect Wales, but also on issues that cross national boundaries, allowing us to develop our links and foster understanding at a basic, but nonetheless vital, level. Mick Antoniw opened with the concept of how membership had changed the way in which we address peace across Europe. It is important that we have that relationship, to prevent conflict and to move us forward to a peaceful and sustainable future.

Efallai mai ar y defnydd o wyddoniaeth, peirianeg, gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu, ym meysydd STEM yr ydym i gyd wedi'u hamlygu fel agwedd bwysig ar ein cynnydd, y dylem ganolbwyntio fwyaf er mwyn cyflawni'r potensial. Gyda'i gilydd gallant sbarduno twf economaidd yng Nghymru. Mae'r arian a gafodd Brifysgol Caerdydd eisoes wedi cael ei nodi, ond rydym wedi cael dwbl y swm hwnnw ledled Cymru drwy raglenni FP7. Gall canlyniadau'r gwaith ymchwil hwnnw arwain at fuddsoddiad pellach a chreu busnesau yng Nghymru.

Mae gennym y potensial i arwain y byd o ran ymchwil, gan dorri tir newydd, yn enwedig ym maes gwyddorau bywyd a diogelu'r amgylchedd. Gydag athrawon a myfyrwyr o Gymru yn cymryd rhan mewn cynlluniau sy'n arwain y byd, megis prosiect Peiriant Gwrthdaro Hadron yn CERN, mae angen inni helpu ein prifysgolion i barhau i wella eu statws rhyngwladol am ragoriaeth mewn gwaith ymchwil, gan gryfhau ansawdd a maint ein sylfaen ymchwil a darparu sector arloesol, sy'n arwain y byd ar gyfer y dyfodol, a gefnogir gan gyllid Ewropeaidd.

Yna gallwn ganolbwyntio ar dri maes allweddol i ddenu mewnfuddsoddiad a gwneud Cymru yn agored i fusnes: gwella a hyrwyddo ein potensial o ran ymchwil a datblygu, gwella sgiliau ein gweithlu ar gyfer y swyddi hyn yn y dyfodol a hyrwyddo'r agenda hon fel rhan o Ewrop, nid y tu allan i Ewrop. Gall rhaglen Horizon 2020 ein helpu tuag at y nod hwnnw. Mae ganddi gyllideb amcangyfrifedig o €79 biliwn i gyd, gyda €24.6 biliwn ar gyfer gwaith ymchwil ym meysydd gwyddoniaeth a pheirianeg.

Mae ein prifysgolion yn creu partneriaethau cadarn â phrifysgolion eraill yn Ewrop. Yn wir, mae Prifysgol Abertawe newydd lunio cytundeb ag Université Joseph Fourier, Grenoble, ar gyfer mwy o gydweithio ym maes ymchwil.

Ni allwn anghofio'r agweddau cymdeithasol, diwylliannol a moesol ar aelodaeth o'r UE. Rhaid inni hyrwyddo aelodaeth er mwyn meithrin ein pobl ifanc yng Nghymru i fod yn ddinasyddion Ewropeaidd a byd-eang, gan ddysgu oddi wrth ei gilydd a gweithio ar y cyd ar faterion sy'n effeithio ar Gymru, ond hefyd ar faterion sy'n croesi ffiniau cenedlaethol, gan ein galluogi i ddatblygu ein cysylltiadau a meithrin dealltwriaeth ar lefel sylfaenol ond eto i gyd un hanfodol. Agorodd Mick Antoniw drwy gyfeirio at y ffordd y mae aelodaeth wedi newid y ffordd rydym yn mynd i'r afael â heddwch ledled Ewrop. Mae'n bwysig bod gennym y berthynas honno, er mwyn atal gwrthdaro a'n symud at ddyfodol heddychlon a chynaliadwy.

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, am grateful to Mick Antoniw and Dafydd Elis-Thomas for bringing this important debate forward. Having listened to many of the sentiments expressed in previous speeches, I agree with many of them. However, I get the feeling that the UK Government's position on this is not overwhelmingly accepted by this Chamber. I cannot quite understand why it is that we have talk about the UK Government running scared, but that we do not have the same talk about people running scared when they do not want to have this debate. People outside this Chamber—whether we like it or not—do have concerns. Many younger people have grown up with the European Union and accept that the European Union is a part of their day to day lives, but to simply deny that people have concerns and issues does not help to move this debate forward in any way.

There is no doubt in my mind that there have been significant benefits for the UK from being part of the EU. Certain areas, such as the environment and certainly agriculture, are best dealt with on a supranational basis. It is difficult to imagine international negotiations on farming, for instance, being done on a lower level than the European Union. If we want to have impact and influence in the world, then we have to be part of those blocs. The United States and the European Union are where discussions on farming, the environment and other issues such as trade will happen in the future.

That is not to say that there have not been major problems. We all know well the problems that the common agricultural policy has posed for farms in Wales and across the UK. These are just some of the issues that need to be dealt with, and not swept under the carpet.

I would part company with some of the more zealous Euro fans who do not seem to think that there is huge scope for improvement in the openness and transparency of the EU. I heard William Powell say that he thinks that there is scope for improving the European Parliament, for instance. I hope that that does happen. We need to look at our country's relationship with Europe and, no, not press the nuclear button of saying that we do not want anything to do with it and that we want to withdraw. However, we need to punch with the weight that we have, and we should have, from our role within the European Union since we joined in the early 1970s. That is why I welcome—maybe I am in a minority in this Chamber—the Prime Minister's resolve to get a better deal. At the end of this process, we will be giving people the say, but that will be after a process during which we will have been able to try to get a better deal from Europe.

Rwyf innau hefyd yn ddiolchgar i Mick Antoniw a Dafydd Elis-Thomas am gyflwyno'r ddadl bwysig hon. Ar ôl gwranddo ar lawer o'r safbwyntiau a fynegwyd mewn areithiau blaenorol, cytunaf â llawer ohonynt. Fodd bynnag, caf y teimlad nad yw safbwynt Llywodraeth y DU ar y mater hwn yn cael cefnogaeth gan y mwyafrif llethol yn y Siambr hon. Ni allaf ddeall pam rydym yn sôn bod Llywodraeth y DU yn llawn ofn, ond nad ydym sôn ar yr un pryd bod pobl yn llawn ofn pan nad ydynt am gael y ddadl hon. Mae gan bobl y tu allan i'r Siambr hon bryderon—pa un a ydym yn hoffi hynny ai peidio. Mae llawer o bobl iau wedi tyfu i fyny gyda'r Undeb Ewropeaidd ac yn derbyn bod yr Undeb Ewropeaidd yn rhan o'u bywydau o ddydd i ddydd, ond nid yw gwadu bod gan bobl bryderon yn helpu i symud y ddadl hon ymlaen mewn unrhyw ffordd.

Nid oes unrhyw amheuaeth gennyf na fu manteision sylweddol i'r DU o ganlyniad i fod yn rhan o'r UE. Mewn rhai meysydd, megis yr amgylchedd ac yn sicr amaethyddiaeth, y ffordd orau o ymdrin â hwy yw ar sail oruwchgenedlaethol. Mae'n anodd dychmygu trafodaethau rhyngwladol ar ffermio, er enghraifft, yn cael eu cynnal ar lefel is na'r Undeb Ewropeaidd. Os ydym am gael effaith a dylanwad yn y byd, yna rhaid inni fod yn rhan o'r blociau hynny. Yn yr Unol Daleithiau a'r Undeb Ewropeaidd y bydd y trafodaethau ar ffermio, yr amgylchedd a materion eraill megis masnach yn digwydd yn y dyfodol.

Nid yw hynny'n golygu na fu problemau mawr. Rydym i gyd yn gyfarwydd iawn â'r problemau y mae'r polisi amaethyddol cyffredin wedi eu hachosi i ffermydd yng Nghymru a ledled y DU. Dim ond rhai o'r materion y mae angen ymdrin â hwy, yn hytrach na'u hanwybyddu, yw'r rhain.

Ni fyddaf yn cyd-weld â rhai o'r cefnogwyr mwy selog dros Ewrop yr ymddengys nad ydynt yn credu bod cryn gyfle i wneud yr UE yn fwy agored a thryloyw. Clywais William Powell yn dweud ei fod yn credu bod lle i wella Senedd Ewrop, er enghraifft. Gobeithio y bydd hynny'n digwydd. Mae angen inni edrych ar berthynas ein gwlad ag Ewrop a, na, nid gwasgu'r botwm niwclear a dweud nad ydym am fod yn rhan ohoni o gwbl a'n bod am dynnu'n ôl. Fodd bynnag, mae angen inni ddefnyddio yr holl ddylanwad sydd gennym, ac a ddylai fod gennym, yn sgil ein rôl yn yr Undeb Ewropeaidd ers inni ymuno ar ddechrau'r 1970au. Dyna pam y croesawaf—efallai fy mod mewn lleiafrif yn y Siambr hon—benderfyniad y Prif Weinidog i gael bargaen well. Ar ddiwedd y broses hon, byddwn yn rhoi cyfle i bobl leisio barn, ond bydd hynny'n digwydd ar ôl proses lle y byddwn wedi gallu ceisio cael gwell bargaen gan Ewrop.

16:00

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnech chi dderbyn ymyriad?

16:00

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You may intervene in one moment, Rhodri.

Efallai y cewch ymyrryd mewn eiliad, Rhodri.

Clearly, at the moment, aspects of the public are unhappy, and I think that some politicians' contributions on this, saying that there is not a problem, have not helped that.

Yn amlwg, ar hyn o bryd, mae elfennau o'r cyhoedd yn anffodlon, a chredaf nad yw cyfraniadau rhai gwleidyddion ar hyn, gan ddweud nad oes problem, wedi helpu o ran hynny.

16:00 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that we all agree that the European Union could be improved. Obviously, every political institution could be improved. However, the question here is whether you approach this debate from a positive point of view or a negative point of view, and the problem that we have with the approach of David Cameron, because he feels under pressure from UKIP and Nigel Farage, is that he is approaching it from a negative point of view.

Credaf ein bod i gyd yn cytuno y gallai'r Undeb Ewropeaidd gael ei wella. Yn amlwg, gallai pob sefydliad gwleidyddol gael ei wella. Fodd bynnag, y cwestiwn sy'n codi yw a ydych ym cymryd rhan yn y ddadl hon o safbwynt cadarnhaol neu o safbwynt negyddol, a'r broblem sy'n codi o'r hyn y mae David Cameron yn ei wneud, oherwydd ei fod yn teimlo o dan bwysau gan UKIP a Nigel Farage, yw bod ganddo safbwynt negyddol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:00 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not think that giving people the option of a referendum, after a process of renegotiation, is a negative approach. Once again, we come back to the same problem. A lot of the things that you say, Rhodri Glyn, make sense—I agree with a lot of it and you know that—however, occasionally, you come up with these sorts of random, bizarre comments, saying that it is negative to give the people their say. That is what democracy is all about; that is the point of us being there. There is nothing negative about the approach being taken by the UK Government.

Ni chredaf fod rhoi dewis o refferendwm i bobl, ar ôl proses ailnegodi, yn negyddol. Unwaith eto, down yn ôl at yr un broblem. Mae llawer o'r pethau a ddywedwyd gennych, Rhodri Glyn, yn gwneud synnwyr—cytunaf â llawer ohono a gwyddoch hynny—fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, gwnewch sylwadau diamcan rhyfedd o'r fath, gan ddweud ei bod yn beth negyddol rhoi cyfle i bobl ddweud eu dweud. Dyna hanfod democratiaeth, dyna pam rydym yma. Nid oes unrhyw beth negyddol ynghylch dull gweithredu Llywodraeth y DU.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The EU will change, it has to change and we should not be fearful of that change. Some Members may want it to stay the same as it is forever, but that will not happen. Britain can be in the driving seat, and Wales can be in the driving seat of this process, if we have a little bit of the courage of our convictions, a little bit of vision and set out where we want to go.

Bydd yr UE yn newid, rhaid iddo newid ac ni ddylem ofni'r newid hwnnw. Efallai y bydd rhai Aelodau am iddo aros yr un fath am byth, ond ni fydd hynny'n digwydd. Gallai Prydain gymryd yr awenau, a gallai Cymru gymryd yr awenau o ran y broses hon, pe baem yn ddigon dewr, pe baem yn dangos ychydig o weledigaeth ac yn nodi i ble rydym am fynd.

However, it is not just about the vision that Mick Antoniw outlined at the start of this debate. It is also about making sure that those institutions practically work. I will leave you with a quote that I was reading earlier:

Fodd bynnag, nid oes wnelo hyn â'r weledigaeth a amlinellwyd gan Mick Antoniw ar ddechrau'r ddadl hon yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod y sefydliadau hynny'n gweithio'n ymarferol. Gorfennaf drwy ddyfynnu rhywbeth yr oeddwn yn ei darllen yn gynharach:

'the European Economic Community...was never devised to suit us, and our experience...of it has made it more difficult for us to deal with our economic and industrial problems... For all these reasons, British withdrawal...is the right policy for Britain—to be completed well within the lifetime of the parliament.'

Ni chafodd y Gymuned Economaidd Ewropeaidd ...erioed ei llunio i fod yn addas i ni, ac mae ein profiad ... ohoni wedi ei gwneud yn fwy anodd inni ymdrin â'n problemau economaidd a diwydiannol ... Am yr holl resymau hyn, tynnu'n ôl... yw'r polisi cywir i Brydain—i'w gwblhau ymhell cyn diwedd oes y senedd.

Those are not my words and they not the words of David Cameron; they are the words of the 1983 Labour Party manifesto, 'The New Hope for Britain'. Some hope that was. Thank goodness that some parties have moderated with time.

Nid fy ngeiriau i yw'r rhain na geiriau David Cameron; geiriau ym manifesto 1983 y Blaid Lafur, 'The New Hope for Britain' ydynt. Dim gobaith felly. Diolch byth bod rhai pleidiau wedi cymedroli gyda threigl amser.

16:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister for Finance, Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I very much welcome this debate as it recognises the significant benefit of Welsh engagement with the European Union, both in terms of our economy and our ability, in conjunction with the EU, to contribute to the progressive economic and social agenda across Europe. Elements of that have been expressed today in this debate.

It has always been the Welsh Government's view that the EU is essential to the future success of both Wales and the wider UK—again, recognised by speakers today. In delivering the Welsh Government's commitment to the creation of sustainable jobs, enhancing skills, boosting growth and protecting our environment, our programme for government is very much in accord with Europe 2020. Therefore, we work proactively with the UK Government and the EU institutions to do all that we can to eradicate structural barriers to growth to help to ensure that Wales, the UK and Europe realise their goals for the benefit of our citizens and communities.

Effective engagement with the European Union is vital for Wales. I welcome the Constitutional and Legislative Affairs Committee report, published earlier this month, on Wales's role in the EU decision-making process. It is helpful for us to consider the impacts that we are making. I am pleased at the generally positive views expressed in this report on the way that the Welsh Government pursues Welsh interests in the European Union. I am gratified that the report also acknowledges the pivotal role of the joint ministerial committee on Europe in enabling devolved administrations and the UK Government to exchange views on EU matters, to maintain a co-ordinated approach, as appropriate.

Over the last few years, the EU has faced major challenges, but the European economy is beginning to move in the right direction again. That shift is reflected in Wales where the indicators are positive for further balanced economic growth in 2014.

Youth unemployment is one of the greatest issues facing the European Union. We will be contributing to one of the vital economic and social challenges in Europe by holding a Wales forum on Europe in the autumn on tackling youth unemployment, and that is as a result of the initiative of Mick Antoniw, one of the members of the Committee of Regions. That forum will consider initiatives being implemented here in Wales, such as Jobs Growth Wales. However, as Rhodri Glyn Thomas has identified, we also need to look at and share best practice, contribute and learn from our European partners.

Croesawaf y ddadl hon yn fawr iawn gan ei bod yn cydnabod y fantais sylweddol a ddaw yn sgil ymgysylltu Cymru â'r Undeb Ewropeaidd, o ran ein heconomi a'n gallu, ar y cyd â'r UE, i gyfrannu at yr agenda economaidd a chymdeithasol flaengar ledled Ewrop. Mynegwyd elfennau o hynny heddiw yn y ddadl hon.

Mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi bod o'r farn bod yr UE yn hanfodol i lwyddiant Cymru a'r DU yn fwy cyffredinol yn y dyfodol—rhywbeth, unwaith eto, a gydnabuwyd gan siaradwyr heddiw. Wrth gyflwyno ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu swyddi cynaliadwy, gwella sgiliau, hybu twf a diogelu ein hamgylchedd, mae ein rhaglen lywodraethu yn gyson iawn ag Ewrop 2020. Felly, rydym yn gweithio'n rhagweithiol gyda Llywodraeth y DU a sefydliadau'r UE i wneud popeth o fewn ein gallu i ddileu rhwystrau strwythurol i dwf er mwyn helpu i sicrhau bod Cymru, y DU ac Ewrop yn gwireddu eu nodau er budd ein dinasyddion a'n cymunedau.

Mae ymgysylltu effeithiol â'r Undeb Ewropeaidd yn hanfodol i Gymru. Croesawaf adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn, ar rôl Cymru ym mhroses gwneud penderfyniadau'r UE. Mae'n beth buddiol ein bod yn ystyried yr effaith a gawn. Rwy'n falch o weld y safbwyntiau cadarnhaol ar y cyfan a fynegwyd yn yr adroddiad hwn ynglŷn â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo buddiannau Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd. Pleser yw imi nodi bod yr adroddiad hefyd yn cydnabod rôl ganolog y pwyllgor gweinidogol ar y cyd ar Ewrop o ran galluogi gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU i gyfnewid barn ar faterion yr UE, er mwyn gweithredu mewn ffordd gydgyssylltiedig, fel y bo'n briodol.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r UE wedi wynebu heriau mawr, ond mae'r economi Ewropeaidd yn dechrau symud i'r cyfeiriad iawn unwaith eto. Adlewyrchir y newid hwnnw yng Nghymru lle mae'r dangosyddion yn gadarnhaol ar gyfer twf economaidd cytbwys pellach yn 2014.

Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yn un o'r problemau mwyaf a wyneba'r Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn cyfrannu at un o'r heriau economaidd a chymdeithasol allweddol yn Ewrop drwy gynnal fforwm ar Ewrop i Gymru yn yr hydref ar fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc, ac mae hynny o ganlyniad i waith Mick Antoniw, un o aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau. Bydd y fforwm hwnnw'n ystyried mentrau sy'n cael eu rhoi ar waith yma yng Nghymru, megis Twf Swyddi Cymru. Fodd bynnag, fel y nododd Rhodri Glyn Thomas, mae angen hefyd inni edrych ar arfer gorau a'i rannu, gan gyfrannu a dysgu oddi wrth ein partneriaid Ewropeaidd.

While the general signs of economic improvement augur well, we must maintain a clear focus on the delivery of growth and jobs and continue to make the best use of the enormous benefits that the single market—the world's largest market in GDP terms and our largest single trading partner, as has been acknowledged here today—has brought to Wales and Welsh businesses since its inception in 1992. This is made clear when we remember that 150,000 jobs in Wales depend on our access to the single market and the distinct benefits this provides in facilitating trade and investment. We are delighted that just fewer than 500 firms from other member states are based in Wales, providing over 59,000 jobs.

In addition to this, Wales has also benefited from the investment of EU funds. As has been said today, through the 2007-13 rounds of the structural funds, £1.9 billion of EU funds has been committed to 287 projects, representing £3.7 billion of total project investment. It is the impact that is important. It helps our businesses, communities and environment to thrive, and helps people—our most valuable asset—into work and training. These achievements will increase as these projects continue to deliver for Wales and as the new structural funds programme gets under way.

We must not forget the significant benefits of EU funds invested through the common agricultural policy, providing £260 million a year in single farm payments to more than 16,000 farm businesses in Wales. While there are also significant opportunities for business through other EU funding programmes, such as Horizon 2020, the research and innovation fund will be worth €79 billion across the EU. We are now gearing up for that, and we have discussed and debated that this afternoon. I mentioned in questions to me earlier today the importance of aligning that with our structural funds programme.

Last September, I met the vice-president of the European Investment Bank, Jonathan Taylor, making the case for investment in Wales. Jonathan is visiting Wales next week and will explore the potential for investment in both public and private infrastructure here in Wales, continuing with the investment that it has already made. This is very much aligned to the work that Rhodri Glyn Thomas has been undertaking on this in his role on the Committee of the Regions. Members from across the Assembly are playing their part in this respect.

The Welsh Government is fully committed to playing a positive and active role within the EU, but the benefits of EU membership are not solely—as has been said this afternoon—about Wales's economy and economic future. Perhaps the most important thing to remember is that war between EU countries is now considered unthinkable, thanks to the unity that has been built up between us over a period of more than 50 years.

On 21 March 2014, last week, the leaders of the EU member states signed an association agreement with the Ukrainian Government, which European Council President Herman Van Rompuy described as recognising,

Er bod yr arwyddion cyffredinol o welliant economaidd yn argoeli'n dda, rhaid inni gadw ffofws clir ar dwf a swyddi a pharhau i wneud y defnydd gorau o fanteision enfawr y farchnad sengl—y farchnad fwyaf yn y byd o ran CMC o'r partner masnachu unigol mwyaf, fel y cydnabuwyd yma heddiw i Gymru a busnesau Cymru ers ei sefydlu yn 1992. Mae hyn yn cael ei wneud yn glir pan gofiwn fod 150,000 o swyddi yng Nghymru yn dibynnu ar ein mynediad i'r farchnad sengl a'r manteision penodol a gynigia hyn o ran hwyluso masnach a buddsoddi. Rydym wrth ein bodd bod ychydig o dan 500 o gwmnïau o aelod-wladwriaethau eraill wedi eu lleoli yng Nghymru, gan ddarparu dros 59,000 o swyddi.

Yn ogystal â hyn, mae Cymru hefyd wedi elwa ar fuddsoddiadau o gronfeydd yr UE. Fel y dywedwyd heddiw, drwy gylchoedd 2007-13 y cronfeydd strwythurol, neilltuwyd £1.9 biliwn o arian yr UE i 287 o brosiectau, sef buddsoddiad mewn prosiectau gwerth £3.7 biliwn i gyd. Yr effaith sy'n bwysig. Mae'n helpu ein busnesau, ein cymunedau a'r amgylchedd i ffynnu, ac mae'n helpu pobl—ein hased mwyaf gwerthfawr—i gael gwaith a hyfforddiant. Bydd y cyflawniadau hyn yn cynyddu wrth i'r prosiectau hyn barhau i gyflawni dros Gymru ac wrth i'r rhaglen newydd o gronfeydd strwythurol ddechrau.

Rhaid inni beidio ag anghofio manteision sylweddol cronfeydd yr UE a fuddsoddiwyd drwy'r polisi amaethyddol cyffredin, gan ddarparu £260 miliwn y flwyddyn mewn taliadau fferm sengl i fwy na 16,000 o fusnesau fferm yng Nghymru. Er bod cyfleoedd sylweddol hefyd i fusnesau drwy raglenni ariannu eraill yr UE, fel Horizon 2020, bydd y gronfa ymchwil ac arloesi yn werth €7.9 biliwn ledled yr UE. Rydym bellach yn paratoi ar gyfer hynny, ac rydym wedi trafod hynny y prynhawn yma. Soniais yn y cwestiynau imi yn gynharach heddiw am bwysigrwydd cysoni hynny â'n rhaglen cronfeydd strwythurol.

Fis Medi diwethaf, cyfarfûm ag is-lywydd Banc Buddsoddi Ewrop, Jonathan Taylor, er mwyn dadlau dros fuddsoddi yng Nghymru. Mae Jonathan yn ymweld â Chymru yr wythnos nesaf a bydd yn ystyried y potensial i fuddsoddi mewn seilwaith cyhoeddus a phreifat yma yng Nghymru, gan barhau â'r buddsoddiad a wnaed eisoes. Mae hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â'r gwaith y mae Rhodri Glyn Thomas wedi bod yn ei wneud ar hyn yn ei rôl fel aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau. Mae Aelodau o bob rhan o'r Cynulliad yn chwarae eu rhan yn hyn o beth.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymroddedig i chwarae rôl gadarnhaol a gweithredol yn yr UE, ond—fel y dywedwyd yr prynhawn yma—mae manteision aelodaeth yr UE yn ymwneud â phethau amgen nag economi Cymru a'r dyfodol economaidd yn unig. Efallai mai'r peth pwysicaf i'w gofio yw bod rhyfela rhwng gwledydd yr UE yn cael ei ystyried yn rhywbeth na ellir mo'i ddychmygu bellach, diolch i'r undod sydd wedi cael ei feithrin rhyngom dros gyfnod o fwy na 50 mlynedd.

Ar 21 Mawrth, 2014, yr wythnos diwethaf, llofnododd arweinwyr aelod-wladwriaethau'r UE gytundeb cymdeithasiad â Llywodraeth Wcrain, y dywedwyd gan Arlywydd y Cyngor Ewropeaidd Herman Van Rompuy ei fod yn cydnabod,

'the aspirations of the people of Ukraine to live in a country governed by...democracy and the rule of law'.

The acting Ukraine Prime Minister Yatsenyuk described the signing of this agreement as a historic day, adding that Ukraine wants to be a part of the big European family. I have written to the Foreign Office Minister, David Lidington, fully backing his department's emphasis on supporting Ukraine during the current emergency. Of course, that was the focus of the European Council last week.

Ultimately, the European Union is not just about institutions and programmes, important as they are; it is about people working together. As Europeans, we all have a more powerful voice on world issues through the EU. Our continued membership and active participation in the development and implementation of EU-level policies and programmes are vital as they contribute significantly to the achievement of the goals we set out in our programme for government.

I am sure that we would all recognise, as the Welsh Government believes, that now is the time to focus on what really matters to the people, and the answer, of course, is a strong economy. That means investing in our infrastructure, tackling poverty and creating jobs for a highly skilled workforce—serious work that will require serious, long-term commitment. I believe that this National Assembly will contribute to this and support the Welsh Government in its endeavours.

Despite the confused criticism and misleading rhetoric that we are so often exposed to in Europe, I can think of no better partner than the European Union in helping us meet these great, long-term challenges. They are great long-term challenges that we will take forward, recognising that it will be about reform, change and development, and your scrutiny will help this. However, as William Powell said, we are proud to be Welsh Europeans. It is good to hear that we have a cross-party group now to make the positive case for Europe. I think that should be the message from today. This partnership is vital to Wales and to the 500 million people whom acting Prime Minister Yatsenyuk described so memorably as, 'the big European family'.

dyheadau pobl Wcráin i fyw mewn gwlad a lywodraethir drwy...ddemocratiaeth a rheol y gyfraith.

Dywedodd y Prif Weinidog Yatsenyuk, Prif Weinidog Dros Dro Wcrain, fod llofnodi'r cytundeb hwn yn ddiwrnod hanesyddol, gan ychwanegu bod Wcrain am fod yn rhan o deulu mawr Ewrop. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn y Swyddfa Dramor, David Lidington, i roi cefnogaeth lawn i bwyslais ei adran ar gynorthwyo Wcrain yn ystod yr argyfwng presennol. Wrth gwrs, dyna oedd ffocws y Cyngor Ewropeaidd yr wythnos diwethaf.

Yn y pen draw, mae'r Undeb Ewropeaidd yn golygu mwy na sefydliadau a rhaglenni, er cyn bwysiced; mae'n ymwneud â phobl sy'n gweithio gyda'i gilydd. Fel Ewropeaid, mae gennym oll lais mwy pwerus ar faterion y byd drwy'r UE. Mae ein haelodaeth barhaus a'n cyfranogiad gweithredol yn y broses o ddatblygu a gweithredu polisiau a rhaglenni ar lefel yr UE yn hanfodol gan eu bod yn cyfrannu cryn dipyn tuag at gyflawni'r nodau a amlinellwyd gennym yn ein rhaglen lywodraethu.

Rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cydnabod, fel y cred Llywodraeth Cymru, mai dyma'r amser i ganolbwyntio ar yr hyn sydd wir yn bwysig i bobl, a'r ateb, wrth gwrs, yw economi gref. Mae hynny'n golygu buddsoddi yn ein seilwaith, mynd i'r afael â thlodi a chreu swyddi ar gyfer gweithlu hyfedr—gwaith difrifol a fydd yn gofyn am ymrwymiad difrifol, hirdymor. Credaf y bydd y Cynulliad Cenedlaethol hwn yn cyfrannu at hyn ac yn cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymdrechion.

Er gwaethaf y feirniadaeth ddryslyd a'r rhethreg gamarweiniol a glywn mor aml yn Ewrop, ni allaf feddwl am bartner gwell na'r Undeb Ewropeaidd i'n helpu i ateb yr heriau hirdymor mawr hyn. Heriau hirdymor mawr ydynt, a byddwn yn mynd ati i'w hateb, gan gydnabod y bydd angen diwygio, newid a datblygu, a bydd eich gwaith craffu o gymorth yn hyn o beth. Fodd bynnag, fel y dywedodd William Powell, rydym yn falch o fod Ewropeaid Cymreig. Mae'n braf clywed bod gennym grŵp trawsbleidiol bellach i ddadlau'n gadarnhaol dros Ewrop. Credaf mai dyna'r neges a ddylai gael ei lledaenu heddiw. Mae'r bartneriaeth hon yn hanfodol i Gymru ac i'r 500 miliwn o bobl a ddisgrifiwyd mor gofiadwy gan y Prif Weinidog Dros Dro Yatsenyuk fel 'teulu mawr Ewrop'.

16:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Dafydd Elis-Thomas to reply to the debate.

Galwaf ar Dafydd Elis-Thomas i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr i'r Dirprwy Lywydd am y cyfle i ymateb i'r ddatl hon. Mae dwy set o bedair baner yn cyhwan o gwmpas ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw hynny'n ddamweiniol. Mae un yn cario logo'r lle hwn, sef arwydd o'n democratiaeth gynyddol. Mae'r llall yn ddraig goch sy'n eicon Tuduraidd, ond sydd hefyd yn faner genedlaethol Cymru. Yna, mae baner y Deyrnas Unedig ac yna y mae baner yr Undeb Ewropeaidd. Gadewch i mi ei gwneud hi'n hollol glir, os oes angen i mi wneud hynny unwaith eto, fy mod i'n hollol gyfforddus gyda'r pedair baner hynny yn cyhwan ar yr un lefel, a gyda fy aelodaeth a'm gweithgaredd yn yr undebau a'r cyfansoddiadau y mae'r baneri hynny'n eu hyrwyddo. Nid yw hynny'n golygu nad ydym am newid, gwella a datblygu'r berthynas rhwng y pedair baner hynny, ond rwy'n meddwl efallai mai dyna'r dôn bositif sy'n dod allan o'r drafodaeth heddiw.

Rwy'n ddiolchgar i Mick, wrth agor, am bwysleisio ei brofiad ei hun. Onid ydyw'n beth gwych bod gennym ddinesydd o Gymru sydd o dras gysylltiol ag Wcráin sy'n gallu mynd i Wcráin, ymuno a dangos cefnogaeth pobl Cymru i ddemocratiaeth yn Wcráin a dod yn ôl yma i ddatl yn y Cynulliad Cenedlaethol a chyflwyno'r achos, ac yn yr un modd gyda'i aelodaeth o Bwyllgor y Rhanbarthau? Rhaid inni gofio ei fod ef a Rhodri Glyn Thomas yn ein cynrychioli'n uniongyrchol yn un o sefydliadau pwysicaf yr Undeb Ewropeaidd, sy'n arwydd o bwysigrwydd sybsidiaredd wrth galon yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r barnau y mae'r ddau ohonynt wedi bod yn eu hyrwyddo a —nid wyf yn enwi swyddogion, ond mae pawb ohonoch yn gwybod pwy ydyw—gwaith y cynrychiolydd sydd gennym o Gomisiwn y Cynulliad yn yr Undeb Ewropeaidd—mi wnaf ei enwi: Gregg Jones—wedi bod yn arbennig iawn drosom i gyd fel pwyllgorau ac, wrth gwrs, dros y rhai sy'n gweithio ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

Roedd Julie'n sôn am ddyfodiad y Pwyliaid. Roedd yr Esgob Regan, pan oedd yn esgob Wrecsam, yn dweud wrthyf, 'Mae'r Pwyliaid wedi achub fy offerennau i yn Wrecsam, oherwydd maen nhw'n llawn'.

Roedd Byron Davies yn sôn am y prosesau. Nid oes gennyf fawr o hyder yn y prosesau refferendwm hyn o ail ddatlau achos rwy'n cofio gymaint ohonynt. Eto, mae'n gyfnod y Grawys a gwnaf fy nghyffes: gwnes i gamgymeriad difrifol yn 1975 a chefais fy nghamarwain gan y Blaid Lafur a'r undebau llafur i bleidleisio yn erbyn aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Roedd Dafydd Wigley yn iawn bryd hynny ac mae e'n iawn, weithiau, o hyd.

Felly, mae'n bwysig iawn, rwy'n meddwl, ein bod yn trafod yn agored, fel sydd wedi cael ei ddweud yma heddiw, ac yn bositif beth yw'r cwestiynau sy'n codi. Rwy'n edrych ymlaen, William, at y drafodaeth heno rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a rhyw blaid wleidyddol arall nad wyf yn cofio'i henw. Diolch hefyd i Jenny Rathbone am ei phwyslais yn arbennig ar yr ochr ddeddfwriaethol a'r berthynas fasnachol. Diolch i David Rees am ei ddatganiad clir iawn o blaid y diwydiannau trymion a'r diwydiannau sgiliau yng Nghymru sydd mor ddibynnol ar yr Undeb Ewropeaidd.

I thank the Deputy Presiding Officer for the opportunity to respond to this debate. There are two sets of four flags flying above the estate of the National Assembly for Wales. That is no accident. One displays the logo of this place, which is a symbol of our growing democracy. The other is the red dragon, which is a Tudor icon, but it is also the national flag of Wales. Then, there is the flag of the United Kingdom and then the flag of the European Union. Let me make it entirely clear, if I need to make it clear once again, that I am entirely comfortable with those four flags flying at the same level, and with my membership and my activity within the various unions and constitutions that those banners signify. That does not mean that we do not wish to change, improve and develop the relationship between those four flags, but I think that that is the positive tone that is emerging from today's debate.

I am grateful to Mick, in opening, for emphasising his own experience. Is it not a wonderful thing that we have a Welsh citizen from a Ukrainian background who can go to Ukraine, join in and show the support of the people of Wales for democracy in Ukraine and who can then return here to a debate in the National Assembly and make the case, and likewise with his membership of the Committee of the Regions? We must bear in mind that he and Rhodri Glyn Thomas represent us directly in one of the most important institutions of the European Union, which signifies the importance of subsidiarity at the heart of the European Union. The opinions that they both promote and—I do not name officials, but you all know who I am talking about—the work of the representative of the Assembly Commission in the European Union—I will name him: Gregg Jones—have been excellent on behalf of us all as committees and, of course, for those who work on the Committee of the Regions.

Julie mentioned the migration of the Poles. Bishop Regan, when he was Bishop of Wrexham, was telling me, 'The Poles have saved my mass in Wrexham, because they are full'.

Byron Davies mentioned the processes. I have little faith in these referendum processes of renegotiation because I remember so many of them. Again, it is the period of Lent and I will make a confession: I made a serious mistake in 1975 and I was misled by the Labour Party and the trade unions to vote against membership of the European Union. Dafydd Wigley was right at that point and he is right on occasion still.

Therefore, it is very important, I think, that we discuss openly, as has been said here today, and in a positive manner what are the questions that arise. I look forward, William, to the debate this evening between the Liberal Democrats and some other political party that I cannot recall its name. I also thank Jenny Rathbone for her emphasis in particular on the legislative side and the commercial relationship. Thanks to David Rees for his very clear statement in favour of the heavy industries and the skills industries in Wales that are so dependent on the European Union.

Rwyf am gloi gyda dyfyniad sy'n agos iawn at fy nghalon gan Ernest Gellner, sydd wedi ysgrifennu mwy am genedlaetholdeb hyd yn oed na fi. Yn ei lyfr mawr, 'Nations and Nationalism', mae'n dweud hyn:

'nations, like states, are a contingency, and not a universal necessity.'

Gyfeillion, i mi, mae'r Undeb Ewropeaidd yn hanfodol. Mae'n bwysicach i mi hyd yn oed na fy nghenedligrwydd Gymreig ac fy aelodaeth o'r Deyrnas Unedig, oherwydd yr Undeb Ewropeaidd fydd yn gwarantu dyfodol fy mhlant, a phlant fy mhlant.

I want to conclude with a quotation that is very close to my heart from Ernest Gellner, who has written more about nationalism than even I have. In his great book, 'Nations and Nationalism', he says this:

Fel gwladwriaethau, nid oes unrhyw sicrwydd yn perthyn i genhedloedd, ac nid ydynt yn anghenraid i bawb.

Colleagues, for me, the European Union is a necessity. It is more important to me even than my Welsh nationality and my membership of the United Kingdom, because the European Union guarantees the future of my children and my children's children.

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nac oes. Derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*The motion was agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Before I move to the next item, a Member who participated in that debate—in fact, was called first after the motion was proposed—left the Chamber without informing me for half of the Minister's speech and half of the wind-up speech. I regard this as a great discourtesy and such action has consequences in terms of how you are treated by the Presiding Officer and me.

Cyn imi symud at yr eitem nesaf, gadawodd Aelod a gymerodd ran yn y ddadl honno—yn wir, yr aelod cyntaf ar ôl i'r cynnig gael ei gynnegi—y Siambwr heb roi gwybod imi am hanner araith y Gweinidog a hanner yr araith i gloi. Credaf fod hynny'n anghwrteisi mawr ac mae i weithred o'r fath oblygiadau o ran sut rydych yn cael eich trin gan y Llywydd a minnau.

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Dreth Gyngor

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 4 a 6 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 3, 5 a 7 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 4, bydd gwelliant 5 yn cael ei ddad-ddethol.*

## Welsh Conservatives Debate: Council Tax

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 4 and 6 in the name of Elin Jones, and amendments 3, 5 and 7 in the name of Aled Roberts. If amendment 4 is agreed, amendment 5 will be deselected.*

16:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Mark Isherwood i gynnegi y cynnig.

I call on Mark Isherwood to move the motion.

Cynnig NDM5477 Paul Davies

Motion NDM5477 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol yn Lloegr i rewi'r dreth gyngor am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

1. Notes that the UK Government has made support available to local authorities in England to freeze council tax for a fourth successive year.

2. Yn nodi ymhellach bod Llywodraeth yr Alban wedi sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol yn yr Alban i rewi'r dreth gyngor ar gyfer 2014/15; a bod rhewi o'r fath wedi bod ar waith ers 2008/09.

2. Further notes that the Scottish Government has made support available to local authorities in Scotland to freeze council tax for 2014/15; and that such a freeze has been in place since 2008/09.

3. Yn credu bod rheidrwydd moesol ar awdurdodau lleol i wario arian cyhoeddus gyda gofal a doethineb; sicrhau bod cyfraddau'r dreth gyngor mor isel â phosibl i drigolion.

3. Believes local authorities have a moral imperative to spend public money with care and prudence; ensuring council tax rates are as low as possible for residents.

4. Yn gresynu at benderfyniad Llywodraeth Cymru i wrthod gweithredu cynllun tebyg i un Lloegr, sy'n creu trothwy refferendwm o 2% o ran cynnydd y dreth gyngor.

5. Yn gresynu ymhellach at y cynnydd cyfartalog o 4.2% yn y dreth gyngor o ran awdurdodau lleol Cymru ar gyfer 2014/15, a bod biliau'r dreth gyngor wedi cynyddu dros 150% yng Nghymru ers 1997/98, ac yn credu bod cynnydd andwyol o'r fath wedi rhoi pwysau diangen ar aelwydydd sydd dan bwysau.

4. Regrets the refusal of the Welsh Government to implement a similar scheme to that of England, which creates a council tax rise referendum threshold of 2%.

5. Further regrets the average council tax increase of 4.2% for local authorities in Wales for 2014/15, and that council tax bills have increased by over 150% in Wales since 1997/98, and believes that such crippling rises have placed undue pressure on hard-pressed households.

16:16

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

Between 1997-98 and 2013-14, council tax in Wales has increased by 148%. The figures published today show that that figure now stands at 158%. In England, by 2014-15, council tax had increased by 113%. In Scotland, again for the same period, the average band D council tax increased by less than 47%.

The figures for 2014-15 have seen the gulf between Wales and the other mainland nations increase. The Conservative-led UK coalition Government has made funding available for a fourth year to local authorities to freeze their council tax. If English councils accept the funding, an extra 1% is added to their budget. Sixty per cent of English councils—251 councils—are freezing or even reducing their council tax bills. Although not every authority in England believes this is the best way forward and has decided to freeze council tax for this year—yes, this does include some Conservative-led authorities—the council tax community referendum threshold in the Localism Act 2011, brought in by this UK Government, protects hard-working and hard-pressed taxpayers irrespective of which council area they live in.

However, Welsh Labour Ministers have refused to use the delegated powers they have under the Localism Act 2011 to give communities in Wales more say over matters that affect them, such as council tax, denying the people of Wales the voice, choice and control available to people in England. In England, local authorities are limited to a council tax increase of 2%, above which they have to hold a referendum detailing plans for what the council will spend the increased revenue on. The Welsh Government must answer why it is still denying this part of the Localism Act 2011 to people in Wales, so that they could decide on how their council tax is spent and what it is spent on. After all, surely we should trust the people who choose to put us here and can always choose to take us away. All the people of Wales have had from this Minister is a notional 5% cap on council tax increases, which is 150% higher than the threshold that would trigger a 'people's referendum' in England. This threshold is something that Welsh taxpayers will look at with envy.

Cynigiau y cynnig.

Rhwng 1997-98 a 2013-14, mae'r dreth gyngor yng Nghymru wedi cynyddu 148%. Mae'r ffigurau a gyhoeddwyd heddiw yn dangos mai 158% yw'r ffigur hwnnw erbyn hyn. Yn Lloegr, erbyn 2014-15, roedd y dreth gyngor wedi cynyddu 113%. Yn yr Alban, unwaith eto ar gyfer yr un cyfnod, cynyddodd y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D lai na 47%.

Mae'r ffigurau ar gyfer 2014-15 wedi gweld y bwch rhwng Cymru a gwledydd eraill y tir mawr yn mynd yn fwy. Mae Llywodraeth glymblaid y DU a arweinir gan y Ceidwadwyr wedi darparu cyllid am y bedwaredd flwyddyn yn olynol er mwyn i awdurdodau lleol rewi eu treth gyngor. Os yw cynghorau yn Lloegr yn derbyn y cyllid, ychwanegir 1% arall at eu cyllideb. Mae 60% o gynghorau yn Lloegr—251 o gynghorau—yn rhewi neu hyd yn oed yn lleihau eu biliau treth gyngor. Er nad yw pob awdurdod yn Lloegr yn credu mai dyma'r ffordd orau ymlaen ac maent wedi penderfynu peidio â rhewi'r dreth gyngor eleni—ydy, mae hyn yn cynnwys rhai awdurdodau a arweinir gan y Ceidwadwyr—mae'r trothwy ar gyfer cynnal refferendwm cymunedol ar y dreth gyngor yn Neddf Lleoliaeth 2011, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, yn diogelu trethdalwyr sy'n gweithio'n galed ac sydd o dan bwysau waeth ym mha ardal cyngor y maent yn byw.

Fodd bynnag, mae Gweinidogion Llafur Cymru wedi gwrthod defnyddio'r pwerau dirprwyedig sydd ganddynt o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 i roi mwy o lais i gymunedau yng Nghymru dros faterion sy'n effeithio arnynt, megis y dreth gyngor, gan amddifadu pobl Cymru o'r cyfle i leisio barn, y dewis a'r rheolaeth sydd ar gael i bobl yn Lloegr. Yn Lloegr, mae awdurdodau lleol yn cael eu cyfyngu i gynnydd o 2% yn y dreth gyngor, ac uwchlaw hynny, rhaid iddynt gynnal refferendwm yn manylu ar yr hyn y bydd y cyngor yn gwario'r refeniw cynyddol arno. Rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio pam mae'n dal i amddifadu pobl yng Nghymru o'r rhan hon o Ddeddf Lleoliaeth 2011, fel y gallent benderfynu ar y ffordd y bydd eu treth gyngor yn cael ei wario a'r hyn y mae'n cael ei wario arno. Wedi'r cyfan, oni ddylem ymddiried yn y bobl sy'n dewis ein hethol yma ac a all bob amser ddewis fel arall. Y cyfan y mae pobl Cymru wedi ei gael gan y Gweinidog hwn yw cap tybiannol o 5% ar gynnydd yn y dreth gyngor sydd 150% yn uwch na'r trothwy a fyddai'n sbarduno 'refferendwm y bobl' yn Lloegr. Mae'r trothwy hwn yn rhywbeth y bydd trethdalwyr Cymru yn edrych arno gydag eiddgedd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

No council in England is increasing its council tax by more than 1.99%, because no authority thought it fair to ask their council taxpayers to pay more. In London, all 33 boroughs are freezing or decreasing their council tax for 2014-15. Seventeen of these boroughs—over half—are Labour-controlled. Across England, the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy has confirmed that the rise across English local authorities will average just 0.6%, compared with 4.2% in Wales, and 0.9% with all precepts in England included. Welsh taxpayers have not been afforded this same protection and respect. The average local authority increase for band D council tax this year for Wales will be a staggering 4.2%, and still 4.1% with all precepts included. In Scotland, the average council tax for band D has been frozen at £1,149 since 2007-08.

Nid oes yr un cyngor yn Lloegr yn cynyddu ei dreth gyngor fwy na 1.99%, am nad oedd yr awdurdod yn credu ei bod yn deg gofyn i drethdalwyr y cyngor dalu mwy na hynny. Yn Llundain, mae pob un o'r 33 o fwrdeistrefi yn rhewi neu'n lleihau eu treth gyngor ar gyfer 2014-15. Mae 17% o'r bwrdeistrefi hyn—dros eu hanner o dan reolaeth Llafur. Ledled Lloegr, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wedi cadarnhau mai dim ond cynnydd o 0.6% ar gyfartaledd fydd y cynnydd ymhlith awdurdodau lleol yn Lloegr o'i gymharu â 4.2% yng Nghymru, a 0.9% ar ôl cynnwys pob praesept yn Lloegr. Nid yw trethdalwyr Cymru wedi cael eu diogel na'u parchu yn yr un ffordd. Bydd band D treth gyngor awdurdodau lleol yn cynyddu 4.2% yng Nghymru eleni ar gyfartaledd, sy'n gynnydd syfrdanol, a chynnydd o 4.1% o hyd ar ôl cynnwys pob praesept. Yn yr Alban, mae'r dreth gyngor ar gyfer band D wedi cael ei rhewi ar lefel o £ 1,149 ar gyfartaledd ers 2007-08.

I wish to draw the Chamber's attention to an interesting figure. Since the Conservative-led UK coalition Government came to power in 2010-11, council tax has increased in England, on average, by £30, or just 2%. In Wales, since this Labour administration came to power in 2011-12, council tax has increased by £114, or 9.7%. I think a number of my colleagues will talk about the impact that a council tax referendum threshold might have in their own constituencies. Take Swansea, Ceredigion and Conwy, for instance. Council tax for their residents will be increasing by between 4.5% and 5%. [Interruption.] Deputy Presiding Officer, I do not know whether somebody wishes to intervene, but they appear to be speaking from a sedentary position.

Hoffwn dynnu sylw'r Siambr ar ffigur diddorol. Ers i Lywodraeth glymblaid y DU a arweinir gan y Ceidwadwyr ddod i rym yn 2010-11, mae'r dreth gyngor wedi cynyddu £30, ar gyfartaledd, yn Lloegr neu dim ond 2%. Yng Nghymru, ers i'r weinyddiaeth Lafur ddod i rym yn 2011-12, mae'r dreth gyngor wedi cynyddu o £114, neu 9.7%. Credaf y bydd nifer o'm Cyd-aelodau yn sôn am yr effaith y gallai refferendwm trothwy treth cyngor yn eu hetholaethau eu hunain fod wedi ei chael. Os edrychwch ar Abertawe, Ceredigion a Chonwy, er enghraifft, bydd y dreth gyngor i'w trigolion yn cynyddu rhwng 4.5% a 5%. [Torri ar draws.] Ddirprwy Lywydd, ni wn a oes rhywun yn dymuno ymyrryd, ond ymddengys ei fod yn siarad tra ei fod ar ei eistedd.

16:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. My advice is always to ignore people who are rude enough to make or to attempt to make a contribution from a sedentary position. No-one seems to want to intervene.

Trefn. Fy nghyngor bob amser yw y dylid anwybyddu pobl sy'n ddigon anghwrtais i wneud neu i geisio gwneud cyfraniad tra eu bod ar eu heistedd. Ymddengys nad oes neb am ymyrryd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:21 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. For Conwy, this will mean an average band D increase of over £50. In Bridgend, the First Minister's constituency, council tax will increase by 4.9%, meaning an average increase of almost £70, an increase in a single year of more than double the average increase in England over the last four years.

Diolch. O ran Conwy, bydd hyn yn golygu cynnydd cyfartalog o fwy na £50 ym mand D. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, etholaeth y Prif Weinidog bydd y dreth gyngor yn cynyddu 4.9%, sy'n golygu cynnydd o bron £70 ar gyfartaledd, sef cynnydd mewn blwyddyn benodol o fwy na dwbl y cynnydd cyfartalog yn Lloegr dros y pedair blynedd diwethaf.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

When questioned earlier, the Minister for local government told me that she agreed with Labour's UK shadow Minister for communities over council tax referenda.

Pan gafodd ei holi'n gynharach, dywedodd y Gweinidog llywodraeth leol wrthyf iddi gytuno â Gweinidog cymunedau Llafur yr wrthblaid ar lefel y DU ynghylch refferenda ar y dreth gyngor.

16:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*  
I said 'no'.

Dywedais 'na'.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Oh, you said 'no'. Well, that is interesting. I am sorry. I put that down to my hearing loss. I apologise. We now have it confirmed and I am sure that Members heard earlier that the Minister in Cardiff disagrees with her colleague in London.

To quote Hilary Benn, last week he indicated to the 'Local Government Chronicle' that Labour would keep council tax referenda, and said:

'I am not proposing to change the referendum arrangements'.

I wonder whether he looked to Wales and saw that Labour is increasing council tax by more than double the rate of inflation here, or whether he saw that Welsh Labour is increasing council tax by more than four times the increase in England. I also wonder whether he looked at Wales and saw that Welsh taxpayers are spending more of their salary on council tax than either their English or Scottish counterparts. As a percentage of average earnings in each home nation, council tax in Wales is already above the Scotland and Great Britain levels for 2013-14. In 2014-15, it will also overtake the levels in England. In fact, according to the latest figures from the Office for National Statistics for 2013-14, people spent 3.67% of their average earnings on council tax in Scotland, compared to 4.37% in Wales. In England, this figure was 4.45%—slightly higher. However, this year, with the 4.1% increase in Wales, the freeze in Scotland, and the 0.9% rise in England, these figures have changed. Welsh taxpayers will now be spending 4.52% of their average income on council tax, while, for taxpayers in England, it will be at the lower level of 4.47%. I think that this is, possibly, historically unprecedented. These income figures are, of course, based on 2013-14, because they will not be updated again until March 2015. However, they are a useful forecast, especially as Wales still has the weakest economy in the UK in terms of goods and services produced and, of course, average incomes.

A community referendum threshold would undoubtedly be beneficial to the Welsh taxpayer. Who knows, they may even vote for an increase, but it is giving the people a voice. The Minister for local government has previously said to me that she is monitoring how council taxes are being set and that she will use her capping powers if they are unreasonable. Is it reasonable, Minister, that people in Wales will be spending more of their money on council tax than those in England or Scotland because you have refused to introduce a lower threshold? Minister, you have repeatedly made statements that, while council tax in Wales is increasing, it is not as high as in England. I wish to comment on a number of points on that basis.

O, dywedasoch 'na'. Wel, mae hynny'n ddiddorol. Mae'n ddrwg gennyf. Rhaid mai fy nghlyw gwan sy'n gyfrifol am hynny. Ymddiheuraf. Mae wedi ei gadarnhau bellach ac rwy'n siŵr i Aelodau glywed yn gynharach fod y Gweinidog yng Nghaerdydd yn anghytuno â'i chyd-Aelod yn Llundain.

Os caf ddyfynnu Hilary Benn, yr wythnos diwethaf awgrymodd i'r 'Local Government Chronicle' y byddai Llafur yn cadw referenda ar y dreth gyngor, a dywedodd:

Nid wyf yn bwriadu newid y trefniadau i gynnal referenda

Tybed a edrychodd ar Gymru a gweld bod Llafur yn cynyddu'r dreth gyngor fwy na dwbl y gyfradd chwyddiant yma, neu a welodd fod Llafur Cymru yn cynyddu'r dreth gyngor dros bedair gwaith cymaint â'r cynnydd yn Lloegr. Tybed hefyd a edrychodd ar Gymru a gweld bod trethdalwyr Cymru yn gwario mwy o'u cyflog ar y dreth gyngor na'u cymheiriaid yn Lloegr neu yn yr Alban. Fel canran o enillion cyfartalog ym mhob un o wledydd y DU, mae'r dreth gyngor yng Nghymru eisoes yn uwch na lefelau'r Alban a Phrydain Fawr ar gyfer 2013-14. Yn 2014-15, bydd hefyd yn mynd yn uwch na lefelau yn Lloegr. Yn wir, yn ôl y ffigurau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2013-14, gwariodd pobl 3.67% o'u henillion cyfartalog ar y dreth gyngor yn yr Alban, o gymharu â 4.37% yng Nghymru. Yn Lloegr, 4.45% oedd ffigur hwn—ychydig yn uwch. Fodd bynnag, eleni, gyda'r cynnydd o 4.1% yng Nghymru, y penderfyniad i rewi'r dreth gyngor yn yr Alban, a'r cynnydd o 0.9% yn Lloegr, mae'r ffigurau hyn wedi newid. Bydd trethdalwyr Cymru bellach yn gwario 4.52% o'u hincwm cyfartalog ar y dreth gyngor, ond i drethdalwyr yn Lloegr, bydd ar y lefel is o 4.47%. Credaf fod hyn, o bosibl, yn ddigynsail yn hanesyddol. Wrth gwrs, mae'r ffigurau incwm hyn yn seiliedig ar ffigurau 2013-14, gan na chânt eu diweddarau eto tan fis Mawrth 2015. Fodd bynnag, maent yn rhagolwg defnyddiol, yn enwedig gan mai Cymru sydd â'r economi wannaf yn y DU o ran nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir ac, wrth gwrs, incwm cyfartalog.

Byddai trothwy referendwm cymunedol yn sicr o fudd i drethdalwyr Cymru. Pwy a wŷr, efallai y byddant hyd yn oed yn pleidleisio dros gynnydd, ond mae'n rhoi llais i'r bobl. Dywedodd y Gweinidog llywodraeth leol wrthyf o'r blaen ei bod yn monitro sut mae trethi cyngor yn cael eu gosod ac y bydd yn defnyddio ei phwerau capio os ydynt yn afresymol. A yw'n rhesymol, Weinidog, y bydd pobl yng Nghymru yn gwario mwy o'u harian ar y dreth gyngor na phobl yn Lloegr neu'r Alban am eich bod wedi gwrthod cyflwyno trothwy is? Weinidog, rydych wedi datgan dro ar ôl tro, er bod y dreth gyngor yng Nghymru yn cynyddu, nad yw gyfuwch â'r dreth gyngor yn Lloegr. Hoffwn wneud sylwadau ar nifer o bwyntiau ar y sail honno.

First, to comment on the Labour years, when the UK Labour Government came into power in 1997-98, the difference in council tax between Wales and England was £193, or 39%. The next year, 1998-99, the gap was 35.6%. It was 32.5% the next year. I think you can see the trend. With Labour in power in both London and Cardiff, the gap was down to 27.7% by 2010. Let us contrast that with the situation now. The UK Government has given you funding before for a council tax freeze, but, between 2010-11 and 2014-15, the gap between Wales and England has fallen from 27.7% to 15%. In fact, you have almost halved it again. Let us be clear. Welsh taxpayers are now paying more of their income on their council tax than people in England or Scotland, so your repeated point of 'It's higher in England' simply no longer washes. You are doing to Wales exactly what you did in England—squeezing taxpayers more and more and blaming it on other people.

As Welsh Conservatives, we believe in localism and co-production. Last August, the Wales Council for Voluntary Action, WCVA, said that the

'Welsh Government currently lacks a clear and future looking vision or narrative for why it works with the third sector.'

With the real-terms decreasing budget for local government and the services it provides, we urge the Welsh Government to start recognising service users and service providers as equal partners, designing, planning and delivering services with them.

There are isolated examples of co-production across Wales but, sadly, it is not Wales-wide, it is not well understood and it is certainly not well embedded in most council areas. With budgets as they are, I urge you to turn the rhetoric about increasing co-production into reality in order to deliver truly sustainable social, economic and community regeneration. At December's Cardiff co-production conference, Western Australia's mental health commissioner talked about how Australia has embraced co-production and local area co-ordination. He said that we have to decide whether we are adding on a programme or reforming the system. Well, we have had 15 years of Government programmes; it is about time we reformed the system by giving power to the people who employ us. Co-Production Wales told me that co-production is not just a nice add-on but a new way of operating for the Government as well as for public service professionals and citizens—people—themselves, with explicit links between health, environment, housing, education and communities and early action to prevent crisis.

The WCVA report on citizen-directed support for vulnerable groups states:

Yn gyntaf, gan droi at y blynyddoedd Lafur, pan ddaeth Llywodraeth Lafur y DU i rym yn 1997-98, y gwahaniaeth yn y dreth gyngor rhwng Cymru a Lloegr oedd £193, neu 39%. Y flwyddyn nesaf, 1998-99, cafwyd bwlch o 35.6%. Cafwyd bwlch o 32.5% y flwyddyn nesaf. Credaf y gallwch weld y duedd. Gyda Llafur mewn grym yn Llundain ac yng Nghaerdydd, roedd y bwlch wedi lleihau i 27.7% erbyn 2010. Gadewch inni gyferbynnu hynny â'r sefyllfa erbyn hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi arian ichi o'r blaen i rew'r dreth gyngor, ond, rhwng 2010-11 a 2014-15, mae'r bwlch rhwng Cymru a Lloegr wedi gostwng o 27.7% i 15%. Yn wir, rydych wedi ei haneru eto bron. Gadewch inni fod yn glir. Mae trethdalwyr Cymru bellach yn talu mwy o'u hincwm ar eu treth gyngor na phobl yn Lloegr neu'r Alban, felly nid yw'r pwynt yr ydych yn ei wneud dro ar ôl tro, 'Mae'n uwch yn Lloegr' yn berthnasol mwyach. Rydych yn ymddwyn tuag at Gymru yn yr union ffordd ag a wnaethoch yn Lloegr—gwasgu fwyfwy ar drethdalwyr a beio pobl eraill.

Fel y Ceidwadwyr Cymreig, credwn mewn lleoliaeth a chydgyngyrchu. Fis Awst diwethaf, dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru,

Ar hyn o bryd, nid oes gan Lywodraeth Cymru weledigaeth na naratif clir sy'n edrych i'r dyfodol ynglŷn â pham mae'n gweithio gyda'r trydydd sector.

Yng ngoleuni'r gyllideb is mewn termau real ar gyfer llywodraeth leol a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddechrau cydnabod defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau felartneriaid cydradd, a dylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd â hwy.

Ceir enghreifftiau yma a thraw o gydgyngyrchu ledled Cymru, ond, yn anffodus, nid drwy Gymru gyfan, nid yw wedi ei ddeall yn dda ac yn sicr nid yw wedi ei ymgorffori'n dda yn y rhan fwyaf o ardaloedd cyngor. Gyda chyllidebau fel y maent, hoffwn eich annog i droi'r rhethreg ynghylch mwy o gydgyngyrchu yn realiti er mwyn cyflawni adfywiad cymdeithasol, economaidd a chymunedol gwirioneddol gynaliadwy. Yn y gynhadledd ar gydgyngyrchu yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr, soniodd comisiynydd iechyd meddwl Gorllewin Awstralia am y ffordd y mae Awstralia wedi croesawu cydgyngyrchu a chyd-drefnu ar lefel ardal leol. Dywedodd fod yn rhaid inni benderfynu a ydym yn ychwanegu at raglen neu'n diwygio'r system. Wel, rydym wedi cael 15 mlynedd o raglenni'r Llywodraeth; mae'n hen bryd inni ddiwygio'r system drwy roi pŵer i'r bobl sy'n ein cyflogi. Dywedodd Cydgyngyrchu Cymru wrthyf nad rhywbeth bach braf ychwanegol yw cydgyngyrchu ond ffordd newydd o weithredu i'r Llywodraeth a hefyd i weithwyr proffesiynol gwasanaethau cyhoeddus a dinasyddion—y bobl—eu hunain, gyda chysylltiadau clir rhwng iechyd, yr amgylchedd, tai, addysg a chymunedau a gweithredu'n gynnar er mwyn atal argyfwng.

Mae adroddiad Cymdeithas Gweithredu Gwirfoddoli Cymru ar gymorth a gyfeirir gan ddinasyddion ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn nodi:

'There is scope for health boards and local authorities to work much more imaginatively with us all to develop better services that are closer to people, more responsive to needs, and add value by drawing on community resources.'

Mae lle i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol weithio'n llawer mwy dychmygus gyda ni i gyd i ddatblygu gwasanaethau gwell sy'n agosach i bobl, yn fwy ymatebol i anghenion, ac sy'n ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio adnoddau cymunedol.

Real partnership means respect. It means listening. It means sharing expertise and recognising that you do not have all the answers. I move the motion accordingly.

Mae partneriaeth wirioneddol yn golygu parch. Mae'n golygu gwrando. Mae'n golygu rhannu arbenigedd a chydabod nad oes gennych yr atebion i gyd. Cynigïaf y cynnig yn unol â hynny.

16:27

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y saith gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 4, caiff gwelliant 5 ei ddad-ddethol. Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnig gwelliannau 1, 2, 4 a 6 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I have selected the seven amendments to the motion. If amendment 4 is agreed, amendment 5 will be deselected. I call on Rhodri Glyn Thomas to move amendments 1, 2, 4 and 6 tabled in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn nodi'r sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu llywodraeth leol a'r tebygolrwydd o bwysau parhaol ar gyllidebau awdurdodau lleol.*

*Notes the difficult financial situation facing local government and the likelihood of sustained pressures on local authority budgets.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn cydnabod swyddogaeth y dreth gyngor o ran darparu ffrwd refeniw i gynnal swyddi a gwasanaethau lleol ac yn credu bod lefelau'r dreth gyngor yn fater i awdurdodau lleol unigol fel rhan o'u proses cyllideb.*

*Acknowledges the role of council tax in providing a revenue stream to sustain local services and jobs and believes council tax levels are a matter for individual local authorities as part of their budget process.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 4 and replace with:*

*Yn croesawu'r camau sydd wedi cael eu cymryd i ddiogelu'r cartrefi tlatafyng Nghymru rhag toriadau Llywodraeth y DU i gymorth y dreth gyngor.*

*Welcomes the action taken to protect the poorest households in Wales from UK Government cuts to council tax support.*

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Amendment 6—Elin Jones*

*Dileu pwynt 5.*

*Delete point 5.*

16:28

## **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigïaf welliannau 1, 2, 4 a 6.

I move amendments 1, 2, 4 and 6.

Mae'n bleser gennyf gael cyflwyno'r gwelliannau hyn yn enw Elin Jones. A gaf, yn y lle cyntaf, gydymdeimlo'n fawr iawn â phwy bynnag sydd yn ymateb i'r ddatl hon ar ran y blaidd Geidwadol? Mae ganddynt dair munud a hanner i ymateb i'r ddatl. Nid wyf yn credu—. Wel, mae'n bosibl bod hynny'n fwiadol ac nad oes ganddynt lawer o atebion i'r ddatl hon a'u bod yn osgoi ymateb i'r hyn sydd gan y pleidiau eraill yn y lle hwn i'w ddweud ar y mater hwn. A gaf ddweud, yn y lle cyntaf, fod egwyddorion sylfaenol y mae'n rhaid eu cydnabod os ydym yn mynd i werthfawrogi datganoli mewn gwirionedd? Rydym yn ymwybodol iawn o'r penderfyniadau y mae'n rhaid eu cymryd ar y lefel hon —ar lefel Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd Cymru. Rydym yn ymwybodol o'r penderfyniadau y mae'n rhaid i'r Senedd yn San Steffan eu cymryd. Mae rhai pleidiau'n fwy ymwybodol o hynny nag eraill ac yn ein hatgoffa'n fynych o hynny. Yr ydym newydd glywed am y math o benderfyniadau y mae'n rhaid eu cymryd ar lefel Ewropeaidd. Mae penderfyniadau y mae'n rhaid i gynghorau Cymru gymryd drostynt eu hunain, ac mae aelodau'r awdurdodau lleol hynny'n atebol i'w hetholwyr am y penderfyniadau hynny. Pa hawl sydd gennym yn y lle hwn i ddweud wrth awdurdodau ledled Cymru beth yw eu blaenoriaethau neu sut y dylent wario eu harian? Maent yn atebol i'w hetholwyr, fel yr ydym ni'n atebol i'n hetholwyr. Os ydym yn sôn am leoliaeth a chaniatáu i bobl benderfynu, yna caniatewch i awdurdodau lleol yng Nghymru benderfynu ar eu blaenoriaethau. Gadewch i'r cynghorwyr hynny fod yn atebol i'w hetholwyr. Nhw sydd i benderfynu. Gwnaf ildio i Nick Ramsay.

It is a pleasure to present these amendments in the name of Elin Jones. May I, in the first instance, sympathise with whoever is responding to this debate on behalf of the Conservative party? They have three and a half minutes to respond to the debate. I do not believe—. Well, it is possible that that is intentional and that they do not have many answers to this debate and are avoiding responding to what the other parties in this place have to say on this matter. May I say, in the first instance, that there are fundamental principles that we have to acknowledge if we are to appreciate devolution in its entirety? We are very aware of the decisions that have to be made at this level—the level of the National Assembly for Wales and the Parliament of Wales. We are aware of the decisions that the Parliament in Westminster has to take. Some parties are more aware of that than others and remind us of it frequently. We have just heard about the kinds of decisions that have to be made at a European level. There are decisions that the councils of Wales have to make for themselves, and the members of those local authorities are accountable to their constituents for those decisions. What right do we have in this place to tell authorities across Wales what their priorities are or how they should spend their money? They are accountable to their constituents, just as we are accountable to ours. If we are talking about localism and allowing people to decide, then allow local authorities in Wales to decide their priorities. Let the councillors be accountable to their constituents. They are the ones to decide. I will give way to Nick Ramsay.

16:29 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Rhodri Glyn. I hear exactly what you say about local accountability and we on these benches, more than any party, agree with that. However, local authorities are left with no choice but to increase council tax if they are getting less money because of cuts from the Welsh Government here.

Diolch ichi, Rhodri Glyn. Deallaf yn union yr hyn yr ydych yn ei ddweud am atebolrwydd lleol ac rydym ni ar y meinciau hyn, yn fwy nag unrhyw blaidd, yn cytuno â hynny. Fodd bynnag, nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw ddewis ond cynyddu'r dreth gyngor os ydynt yn cael llai o arian oherwydd toriadau gan Lywodraeth Cymru yma.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:30 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that that was said with a touch of irony, surely, Nick. The cuts come from the coalition Government in Westminster. They come to the budget here and then they go to the budgets of local authorities in Wales. Those cuts are set by the coalition Government in Westminster and you have to acknowledge that. However, the important thing is that all of us have to respond to that. The Welsh Government here has to respond to those cuts—

Credaf ichi ddweud hynny gyda mymryn o eironi, Nick mae'n rhaid. Gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan y daw'r toriadau. Cânt eu gwneud i'r gyllideb yma ac yna cânt eu gwneud i gyllidebau awdurdodau lleol yng Nghymru. Y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan sydd wedi pennu'r toriadau hyn a rhaid ichi gydnabod hynny. Fodd bynnag, y peth pwysig yw bod yn rhaid i bob un ohonom ymateb i hynny. Yma rhaid i Lywodraeth Cymru ymateb i'r toriadau hynny—

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Darren Millar a gododd—*

*Darren Millar rose—*

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just a minute, Darren. The Welsh Government here has to respond to those cuts and set its priorities, and local government has to respond to those cuts and set its priorities. Allow those people to take responsibilities and to be accountable to the people who elect them.

Un funud, Darren. Rhaid i Lywodraeth Cymru yma ymateb i'r toriadau hynny a phennu ei blaenoriaethau, a rhaid i lywodraeth leol ymateb i'r toriadau hynny a phennu ei blaenoriaethau. Rhowch gyfle i'r bobl hynny ymgymryd â chyfrifoldebau a bod yn atebol i'r bobl sy'n eu hethol.

16:31

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for taking the intervention. Do you accept that the cuts to local authority finances in England have actually been larger than they have been in Wales, and yet those local authorities have still managed to deliver services of a high quality to the public and freeze council tax? Why can there not be incentives from the Welsh Government to support council tax freezes in Wales in spite of the reductions that are being passed on to them?

Diolch ichi am dderbyn yr ymyriad. A ydych yn derbyn bod y toriadau i gyllid awdurdodau lleol yn Lloegr wedi bod yn fwy na'r toriadau yng Nghymru, ac eto mae'r awdurdodau lleol hynny wedi llwyddo o hyd i ddarparu gwasanaethau o safon uchel i'r cyhoedd a rhewi'r dreth gyngor? Pam na ellir cael cymhellion gan Lywodraeth Cymru i gefnogi rhewi'r dreth gyngor yng Nghymru er gwaethaf y gostyngiadau sy'n cael eu trosglwyddo iddynt?

16:31

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

You have to accept, Darren, that there have been severe cuts to services in England. Allow local authorities in England to take their responsibilities and to be accountable. This is a matter of democracy. Who takes the decision? Who is accountable for that decision?

Rhaid ichi dderbyn, Darren, fod toriadau llym i wasanaethau yn Lloegr wedi cael eu gwneud. Rhowch gyfle i awdurdodau lleol yn Lloegr ymgymryd â'u cyfrifoldebau a bod yn atebol. Mater o ddemocratiaeth ydyw. Pwy sy'n gwneud y penderfyniad? Pwy sy'n atebol am y penderfyniad hwnnw?

Mae'n ddiddorol iawn bod y Blaid Geidwadol hefyd yn dweud ei bod yn trio diogelu buddiannau pobl Cymru gyda'r dadleuon hyn ynglŷn â threth gyngor. Onid yw'n ddiddorol pa ddsbarth o'r gymdeithas mae'n diogelu eu buddiannau? Nid yw'n diogelu buddiannau'r bobl fwyaf bregus—y bobl dlotaf yn ein cymdeithas. Fe wnaeth ddatganoli'r cytundeb am fuddiannau'r dreth gyngor, gyda 10% o ostyngiad yn y gyllideb ar gyfer y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas—y bobl dlotaf. Mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru wedi gorfod ymateb i'r toriad hwnnw, ac wedi gorfod cyfrif hynny i mewn i'w cyllideb.

It is very interesting that the Conservative Party also says that it is trying to safeguard the interests of the people of Wales with these arguments about council tax. Is it not interesting which class of society it is safeguarding the interests of? It is not safeguarding the interests of the most vulnerable people—the poorest people in society. It devolved the agreement for benefits in relation to council tax, with a 10% decrease in the budget for the most vulnerable people in our society—the poorest people. The Welsh Government and local government in Wales have had to respond to that cut, and have had to take account of that in their budget.

A gaf i ddweud hefyd, o ran fy ngwaith i fel Aelod Cynulliad, rwy'n cael pobl yn dod i'm gweld ynglŷn â llywodraeth leol yng Nghymru—nid i gwyno am y dreth gyngor, ond am y gwasanaethau? Maent yn cwyno os ydynt yn colli'r gwasanaethau maent yn dibynnu arnynt, maent yn cwyno pan mae canolfannau ar gyfer yr henoed yn cael eu cau, ac maent yn cwyno pan mae'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon yn cael eu tynnu oddi wrthynt, neu pan mae'r costau'n mynd yn ormodol ar gyfer clybiau chwaraeon yng Nghymru. Mae'n rhaid i lywodraeth leol wneud penderfyniad wedyn ynghylch ble yn union mae'n mynd i wneud y toriadau a sut yn union mae'n mynd i ddefnyddio'r arian sydd ar gael, yn ogystal â'r referniw sydd yn dod o dreth gyngor.

May I also say that, as part of my work as an Assembly Member, I have people coming to see me in relation to local government in Wales—not to complain about council tax, but about services? They complain if they lose the services on which they depend, they complain when centres for older people close, and they complain when the opportunities to take part in sport are taken from them, or when the costs become too great for sports clubs in Wales. Local government then has to make the decision where exactly it is going to make those cuts and how exactly it is going to use the funding that is available, as well as the revenue that comes from council tax.

Felly, y neges glir y prynhawn yma yw hyn: gadewch i lywodraeth leol yng Nghymru benderfynu ar y mater hwn, a gadewch iddi fod yn atebol i'r bobl. Peidiwch ag ymyrryd o'r fan hon ar benderfyniadau y dylai lywodraeth leol yng Nghymru eu gwneud.

So, the clear message this afternoon is this: let local government in Wales decide on this matter, and let it be accountable to the people. Do not intervene from this place on decisions that local government in Wales should be making.

16:33

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 3, 5 a 7 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I call on Peter Black to move amendments 3, 5 and 7 tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:*

*Delete point 3 and replace with:*

*Yn credu er bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am bennu eu lefelau treth gyngor eu hunain, a'u bod yn atebol i'w hetholwyr am hynny, y dylent wrth wneud hynny ystyried amgylchiadau economaidd talwyr y dreth gyngor yn eu hardal.*

Gwelliant 5—Aled Roberts

Dileu pwynt 4.

Gwelliant 7—Aled Roberts

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn croesawu'r cynnig yn y Bil Tai (Cymru) i gynyddu'r dreth gyngor ar dai gwag, a oedd yn argymhelliad allweddol yn nabl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar dai gwag yn mis Chwefror 2013.*

*Believes that while local authorities are responsible for setting their own council tax levels, for which they are accountable to their electorate, in doing so they should take account of the economic circumstances of council tax payers in their area.*

Amendment 5—Aled Roberts

Delete point 4.

Amendment 7—Aled Roberts

*Add as new point at end of motion:*

*Welcomes the proposal within the Housing (Wales) Bill to increase council tax on empty homes, which was a key recommendation of the Welsh Liberal Democrat debate on empty homes in February 2013.*

16:33

## **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 3, 5 and 7.

I agree largely with what Rhodri Glyn Thomas has just said. I think that there is a clear philosophical difference between myself as a Welsh Liberal Democrat and the case that has been put forward by Mark Isherwood. He argues in favour of localism. My understanding of localism is that local councils take decisions, they are responsible for those decisions and they are accountable for those decisions to the local electorate. That responsibility is reflected in the local elections that take place there.

My view on referenda is largely on principle, but I think that the key issue—and this is my view—is that referenda should be restricted to constitutional issues. We have a representative democracy and councillors, Assembly Members and MPs are elected to represent their constituents and to take decisions based on the information that they have available and that often is not available to constituents who may well be voting in a referendum.

I understand the appeal of holding a referendum if you want to raise your council tax above 2%. There is very much a pressure being put on councils that says, 'If you go above 2%, then you have to go to the people'. Of course, the cost of that referendum alone is a big disincentive to doing so. However, clearly, there is an issue here. I think that, in terms of this whole motion, the Conservatives are trying to have their cake and eat it. They are talking about keeping council tax down and making choices, but they are also saying that they want to restore cuts in the health budget and cuts here and there within the Welsh Government budget. You cannot restore all of the cuts. You have only a limited pot of money and you have to make choices. I understand that the Welsh Government make choices, just as local councils make choices.

Cynigiad welliannau 3, 5 a 7.

Cytunaf i raddau helaeth â'r hyn y mae Rhodri Glyn Thomas newydd ei ddweud. Credaf fod gwahaniaeth athronyddol clir rhyngof i fel Democrat Rhyddfrydol yng Nghymru a'r achos a gyflwynwyd gan Mark Isherwood. Mae'n dadlau o blaid elfen leol. Fy nealltwriaeth o leoliaeth yw mai cynghorau lleol sy'n gwneud y penderfyniadau, y cynghorau sy'n gyfrifol am y penderfyniadau hynny a'r cynghorau sy'n atebol am y penderfyniadau hynny i'r etholwyr lleol. Adlewyrchir y cyfrifoldeb hwnnw yn yr etholiadau lleol sy'n cael eu cynnal yno.

Mae fy marn i ar refferenda yn ymwneud ag egwyddor yn bennaf, ond credaf mai'r hyn sy'n allweddol—a'm barn i yw hon—yw y dylai refferenda gael eu cyfyngu i faterion cyfansoddiadol. Mae gennym ddemocratiaeth gynrychioliadol ac mae cynghorwyr, Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol, yn cael eu hethol i gynrychioli eu hetholwyr a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael iddynt hwy ac nad yw yn aml ar gael i etholwyr sy'n pleidleisio mewn refferendwm yn ddigon posibl.

Deallaf apêl cynnal refferendwm os ydych am gynyddu'ch treth gyngor uwchlaw 2%. Yn sicr, mae pwysau yn cael ei roi ar gynghorau sy'n dweud, 'Os ewch dros 2%, yna rhaid ichi fynd at y bobl'. Wrth gwrs, mae cost y refferendwm ei hun yn anghymhelliad mawr i gynnal un. Fodd bynnag, yn amlwg, cyfyd problem yn hyn o beth. Credaf fod y Ceidwadwyr, o ran y cynnig hwn, yn ceisio ei chael hi'r ddwy ffordd. Maent yn sôn am beidio â chynyddu'r dreth gyngor a gwneud dewisiadau, ond maent hefyd yn dweud eu bod am unioni toriadau yn y gyllideb iechyd a thoriadau yma ac acw o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru. Ni allwch unioni pob un o'r toriadau. Dim ond hyn a hyn o arian sydd gennych a rhaid ichi wneud dewisiadau. Deallaf fod Llywodraeth Cymru yn gwneud dewisiadau, yn union fel y mae cynghorau lleol yn gwneud dewisiadau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I would disagree with one thing that Rhodri Glyn Thomas said; it is right to say that local councils are facing a very difficult situation and have to make choices, but that does not mean that they cannot make a choice to restrict council tax if they want to do so. Clearly, local councils are able to do that, but they have to make choices elsewhere in the budget to deliver on that. As a member of Swansea council, I moved or supported amendments that would have reduced the council tax increase from 5% to 3.8%, finding money from another piece of expenditure that the then administration wanted to spend, and I am sure that, in other councils, councillors have moved similar amendments about finding money either from reserves or from other pieces of expenditure. So, it is about local democracy and it is about local accountability.

Anghytunaf ag un peth a ddywedodd Rhodri Glyn Thomas; mae'n iawn dweud bod cynghorau lleol yn wynebu sefyllfa anodd iawn a bod yn rhaid iddynt wneud dewisiadau, ond nid yw hynny'n golygu na allant wneud dewis i gyfyngu ar y dreth gyngor os dymunant wneud hynny. Yn amlwg, mae cynghorau lleol yn gallu gwneud hynny, ond rhaid iddynt wneud dewisiadau mewn manau eraill yn y gyllideb er mwyn cyflawni hynny. Fel aelod o gyngor Abertawe, cynigiais neu cefnogais welliannau a fyddai wedi gostwng y cynnydd yn y dreth gyngor o 5% i 3.8%, gan ddod o hyd i arian o wariant arall yr oedd y weinyddiaeth ar y pryd am ei neilltuo, ac rwy'n siŵr, mewn cynghorau eraill, fod cynghorwyr wedi cynnig gwelliannau tebyg ynglŷn â dod o hyd i arian naill ai o gronfeydd wrth gefn neu o wariant arall. Felly, mae a wnelo hyn â democratiaeth leol ac mae a wnelo ag atebolrwydd lleol.

16:36 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In terms of clarity, I totally agree with you. If local authorities decide not to raise their council tax, that is a decision that they can take, but they should be free to take that decision, and they should not be influenced by pressure from this place.

O ran eglurder, cytunaf yn llwyr â chi. Os yw awdurdodau lleol yn penderfynu peidio â chynyddu eu treth gyngor, mae hynny'n benderfyniad y gallant ei wneud, ond dylent fod yn rhydd i wneud y penderfyniad hwnnw, ac ni ddylai pwysau o'r lle hwn ddylanwadu arnynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:36 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely, and I was just going to go on to say that the biggest problem that I faced with this motion was how to amend it so that it made sense. The amendments that we put down sought, in a way, to change the way that the motion is framed to reflect the particular philosophical outlook that local councils take responsibility for their own council tax. I happen to believe, and many Members in the Assembly happen to believe, that the lower the council tax, the better it is for local people who are struggling in very difficult times to make ends meet. I absolutely agree with that particular point that we should try to keep council tax down if we can, simply because people are struggling to pay it. Clearly, the increases that we have seen around Wales have been very high and it is going to be very difficult for people to meet those increased costs and to pay those extra bills.

Yn hollol, ac roeddwn ar fin dweud mai'r broblem fwyaf a wynebais o ran y cynnig hwn oedd sut i'w ddiwygio fel ei fod yn gwneud synnwyr. Nod y gwelliannau a gyflwynwyd gennym, mewn ffordd, oedd newid y ffordd y mae'r cynnig wedi ei lunio er mwyn adlewyrchu'r safbwynt athronyddol penodol bod cynghorau lleol yn gyfrifol am eu treth gyngor eu hunain. Rwy'n digwydd credu, ac mae llawer o Aelodau yn y Cynulliad yn digwydd credu, po isaf y dreth gyngor, gorau oll i bobl lleol sy'n cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd mewn cyfnod anodd iawn. Cytunaf yn llwyr â'r pwynt penodol hwnnw y dylem geisio rheoli lefel y dreth gyngor os gallwn, a hynny am fod pobl yn cael trafferth i'w thalu. Yn amlwg, mae'r cynnydd a welsom ledled Cymru wedi bod yn uchel iawn a bydd yn anodd iawn i bobl ymdopi â'r costau hynny a thalu'r biliau ychwanegol hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

However, in terms of the amendments that we have put down here, our amendment 3 makes that point clear, namely that we believe that councils should set the council tax, but they should also take account of economic circumstances. That is my opinion. It is not something that the Welsh Government or the National Assembly could impose on the local councils, but, certainly, I think that local councils should take account of that.

Fodd bynnag, o ran y gwelliannau a gyflwynwyd gennym yma, mae ein gwelliant 3 yn gwneud y pwynt hwnnw'n glir, sef ein bod yn credu mai cynghorau ddylai bennu'r dreth gyngor, ond y dylent hefyd ystyried amgylchiadau economaidd. Dyna fy marn i. Nid yw'n rhywbeth y gallai Llywodraeth Cymru na'r Cynulliad Cenedlaethol ei orfodi ar y cynghorau lleol, ond, yn sicr, credaf y dylai cynghorau lleol ystyried hynny.

16:37 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you share my regret that the money that the Welsh Government received to provide a council tax freeze in Wales was not passed on?

A ydych yn rhannu fy siom nad oedd yr arian a roddwyd i Lywodraeth Cymru i rewi'r dreth gyngor yng Nghymru wedi cael ei drosglwyddo i'r cynghorau lleol?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

That is devolution, Nick, to be honest. Also, the money that it received as a consequential was allocated to the health budget. Would you rather spend it on health or local government? That is the choice that has been made. You said that it should be spent on both; I am not quite clear on how you would do that, but, certainly, that money has to be spent on one of those things and the choice was taken in this budget, in response, obviously, to your spokesperson's pleas as well, that more money should go on health, because of the extra pressures on health. You cannot spend that money twice, and you cannot have your cake and eat it in that regard.

I am running out of time, so I am just going to very quickly finish. Point 4 of the motion is a particular problem, as I said, about referenda. Our last amendment, amendment 7, is in relation to council tax and empty homes. Council tax can also act as a tool in terms of tackling particular problems, and I very much welcome the work that has gone into putting that in the Housing (Wales) Bill. I think that this amendment recognises that, but the nub of this motion has to be that local councils make their own decisions, they are accountable to local electors and it is local electors who hold them to account, not this Assembly.

Dyna ddatganoli, Nick, a dweud y gwir. Hefyd, cafodd yr arian a dderbyniodd fel swm canlyniadol ei ddyrannu i'r gyllideb iechyd. Ai ar iechyd neu ar llywodraeth leol y byddech yn dewis ei wario? Dyna'r dewis sydd wedi cael ei wneud. Dywedasochoch y dylai gael ei wario ar y ddau; nid wyf yn hollol siŵr sut y byddech yn gwneud hynny, ond, yn sicr, rhaid i'r arian hwnnw gael ei wario ar un o'r pethau hynny a gwnaed y dewis yn y gyllideb hon, mewn ymateb, yn amlwg, i bledion eich llefarydd hefyd, y dylid neilltuo mwy o arian i iechyd, oherwydd y pwysau ychwanegol ar iechyd. Ni allwch wario'r arian hwnnw ddwywaith, ac ni allwch ei chael hi'r ddwy ffordd yn hynny o beth.

Mae amser yn mynd yn brin, felly byddaf yn dirwyn i ben yn gyflym iawn. Mae pwynt 4 y cynnig yn broblem arbennig, fel y dywedais, ynglŷn â refferenda. Mae ein gwelliant olaf, gwelliant 7, mewn perthynas â'r dreth gyngor a chartrefi gwag. Gall y dreth cyngor hefyd fod yn fodd i weithredu hefyd o ran mynd i'r afael â phroblemau penodol, a chroesawaf yn fawr iawn y gwaith a wnaed i gynnwys hynny yn y Bil Tai (Cymru). Credaf fod y gwelliant hwn yn cydnabod hynny, ond rhaid mai hanfod y cynnig hwn yw bod cyngorau lleol yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain, maent yn atebol i etholwyr lleol ac etholwyr lleol sy'n eu dwyn i gyfrif, nid y Cynulliad hwn.

In opening my contribution today, I am somewhat mindful that many hard-working families and pensioners across Wales will have heard the mighty thud of their council tax bill recently as it dropped through the door. For many, too, there has been the stark realisation of the huge increase facing them once again and, it must be said, of the blatant disadvantage to now living in Wales under a Welsh Labour Government. To learn that the UK Government has made support available to local authorities in England to freeze council tax for a fourth successive year is yet another painful reminder of that. The fact that the Scottish Government has made support available to local authorities in Scotland to freeze council tax for this year and that such a freeze has been in place since 2008-09 becomes eye-watering. It is not so much a council tax, more a Welsh Labour Government tax.

The Welsh Conservatives believe that local authorities have a moral imperative to spend public money with care and prudence, ensuring that council tax rates are as low as possible for residents. We also robustly reject the refusal of the Welsh Government to implement a similar scheme to that of England, creating a council-tax-rise referendum threshold of 2%, which, incidentally, is supported by the major players within UK Labour. The Welsh Conservatives regret the average council tax increase of 4.2% for this financial year, and we abhor the fact that council tax bills have increased by over 158% in Wales since 1997—since Labour came into power—believing that such crippling rises have placed severe and undue pressure on our hard-pressed households. For the new financial year, Welsh taxpayers are facing a council tax increase of double the rate of inflation. The average band D dwelling—and the many properties that are bands F and G dwellings—will see considerably more of an increase.

Wrth agor fy nghyfraniad heddiw, rwyf yn ymwybodol i ryw raddau y bydd llawer o deuluoedd sy'n gweithio'n galed a phensiynwyr ledled Cymru wedi clywed y sŵn nerthol yn ddiweddar wrth i'w bil treth gyngor lanio drwy'r drws. I lawer, hefyd, byddant yn sylweddol i'r gwirionedd brawychus eu bod yn wynebu cynnydd enfawr unwaith eto a, rhaid dweud, yr anfantais amlwg bellach os ydych yn byw yng Nghymru o dan Lywodraeth Lafur Cymru. Mae cael gwybod bod Llywodraeth y DU wedi rhoi cymorth i awdurdodau lleol yn Lloegr rewi'r dreth gyngor am y bedwaredd flwyddyn yn olynol yn eu hatgoffa'n boenus unwaith eto am hynny. Mae'r ffaith bod Llywodraeth yr Alban wedi rhoi cymorth i awdurdodau lleol yn yr Alban rewi'r dreth gyngor eleni a bod y dreth gyngor wedi cael ei rhewi ers 2008-09 yn achosi hyd yn oed mwy o boen. Nid yw'n gymaint o dreth gyngor, treth Llywodraeth Lafur Cymru ydyw.

Cred y Ceidwadwyr Cymreig fod dyletswydd foesol ar awdurdodau lleol i wario arian cyhoeddus gyda gofal a phwyll, gan sicrhau bod cyfraddau'r dreth gyngor mor isel ag y bo modd i drigolion. Rydym hefyd yn gwrthwynebu'n llwyr benderfyniad Lywodraeth Cymru i beidio â gweithredu cynllun tebyg i'r un yn Lloegr, a chreu trothwy o 2% ar gyfer refferendwm ar y dreth gyngor sydd, gyda llaw, yn cael ei gefnogi gan unigolion o bwys o fewn Plaid Lafur y DU. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn gresynu at y cynnydd o 4.2% ar gyfartaledd yn y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ac rydym yn ffeiddio at y ffaith fod biliau treth gyngor wedi cynyddu dros 158% yng Nghymru ers 1997—ers i Lafur ddod i rym—gan gredu bod cynnydd o'r fath wedi rhoi pwysau difrifol a diangen ar ein cartrefi sydd o dan bwysau. Ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd, mae trethdalwyr Cymru yn wynebu cynnydd yn y dreth gyngor sy'n ddwbl cyfradd chwyddiant. Bydd tipyn mwy o gynnydd ar gyfer cartrefi band D – a llawer o gartrefi ym mandiau F ac G hefyd.

16:41	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Janet, are you taking the intervention?	Janet, a ydych yn derbyn ymyriad?
16:41	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Yes.	Ydw.
16:41	<b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	Do you accept that one of the reasons why council tax is going up so steeply is because when it was introduced by Michael Heseltine, there was a very severe gearing effect by the fact that so much of the councils' income came from grants, and also because business rates were taken into central Government?	A ydych yn derbyn mai un o'r rhesymau pam mae'r dreth gyngor yn cynyddu cymaint yw'r ffaith, pan gafodd ei chyflwyno gan Michael Heseltine, fod effaith gerio ddirifrol iawn am fod cymaint o incwm y cynghorau yn dod o grantiau, a hefyd am fod ardrethi busnes bellach yn mynd i'r Llywodraeth yn ganolog?
16:41	<b>Janet Finch-Saunders</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	What I am aware of is that the UK Government Conservative manifesto promised a two-year freeze. It is actually now allowing a four-year freeze. That is supporting your residents.	Hyn y gwn i, addawodd maniffesto Llywodraeth Geidwadol y DU rewi'r dreth gyngor am ddwy flynedd. Mae bellach yn caniatáu ei rhewi am bedair blynedd. Mae hynny'n cefnogi eich trigolion.
	Welsh taxpayers are simply losing out. Communities in Wales are the only ones in mainland Britain to be denied the chance to benefit from a council tax freeze. Let us not forget that the UK Government gave the Welsh Government funding to offer households support with their council tax bills, but Labour has spent or wasted this money elsewhere, spending £38.9 million of this consequential on an unproven, so-called economic stimulus package. In Wales, £85 million of council tax goes unpaid. Why, Minister, are you not robustly challenging our local authorities to collect this money so that those who do pay can pay less?	Yn syml, mae trethdalwyr Cymru ar eu colled. Cymunedau yng Nghymru yw'r unig rai ar dir mawr Prydain nad ydynt yn cael cyfle i elwa ar dreth gyngor wedi'i rhewi. Gadewch inni beidio ag anghofio i Lywodraeth y DU roi cyllid i Lywodraeth Cymru helpu cartrefi gyda'u biliau treth gyngor, ond mae Llafur wedi gwario neu wedi gwastraffu'r arian hwn mewn ffyrdd eraill, gan wario £38.9 miliwn o'r swm canlyniadol hwn ar becyn ysgogi economaidd fel y'i gelwir nad yw ei werth wedi'i brofi. Yng Nghymru, mae'r cynghorau yn methu â chasglu £85 miliwn o dreth gyngor. Weinidog, pam nad ydych yn herio ein hawdurdodau lleol yn gadarn i gasglu'r arian hwn fel y gall y rhai sy'n talu dalu llai?
	At a time when we see these increases, we see numerous examples of financial waste, less-than-transparent tendering processes, poor procurement, and frequent overspends, often leading to hard-working taxpayers and pensioners coughing up the cash for poor corporate governance. There is gross inconsistency across Wales with council-held reserves. Looking at the levels of unallocated reserves in the educational system, it does beg the question as to how the Welsh Labour Government can justify these increases.	Ar adeg pan welwn gynnydd o'r fath, gwelwn nifer o enghreifftiau o wastraff ariannol, prosesau tendro nad ydynt yn dryloyw, caffael gwael, a gorwario mynych, sydd yn aml yn golygu bod trethdalwyr sy'n gweithio'n galed a phensiynwyr yn gorfod talu am lywodraethu corfforaethol gwael. Mae anghysondeb mawr ledled Cymru o ran y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y cyngor. O edrych ar lefelau'r cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu yn y gyfundrefn addysg, mae'n codi'r cwestiwn sut y gall Llywodraeth Lafur Cymru gyfiawnhau cynnydd o'r fath.
	Finance Secretary John Swinney in Scotland said that	Dywedodd Ysgrifennydd Cyllid yr Alban John Swinney
	'This is excellent news for Scottish communities and householders who, in what remains a challenging financial climate, will see the benefits of a sixth successive council tax freeze fully-funded by the Scottish Government.'	Mae hyn yn newyddion ardderchog i gymunedau a deiliaid tai yn yr Alban a fydd, yn ystod cyfnod sy'n dal i fod yn heriol yn ariannol, yn gweld manteision rhewi'r dreth gyngor am y chweched flwyddyn yn olynol a ariennir yn llawn gan Lywodraeth yr Alban.
	If it is good enough in England and good enough in Scotland, what is wrong with it being okay for our residents in Wales?	Os yw'n ddigon da yn Lloegr ac yn ddigon da yn yr Alban, pam nad yw'n iawn i drigolion Cymru?

Plaid Cymru, of course, has refused to support the Welsh Conservatives' calls for a Wales-wide council tax freeze, and your colleagues in Conwy have implemented a 5% council tax increase, where we have a higher than average rate of over 65s and pensioners.

Previously, the Welsh Labour Government has defended its appalling record in relation to council tax bills by flagging up the fact that average bills in Wales remain cheaper than in England. However, any such claims lie in tatters. In recent years, council tax bills have increased in Wales at a much faster pace than those in England and Scotland due largely to the Welsh Government denying residents much-needed funding that has definitely come over from the UK Government.

Council tax referenda would be retained by a Labour Government, as the shadow communities Secretary revealed to the 'Local Government Chronicle'. It is reported that Hilary Benn said that his party had no plans to abolish the public polls that councils must hold when they propose tax increases. He said:

'I am not proposing to change the referendum arrangements because things are very, very difficult for a lot of people'.

He also said:

'Councils are only too aware of the cost of living crisis'.

Furthermore, Mr Benn said:

'They are doing their best to keep council tax down'.

My words to you, as a Welsh Government, are: if he is saying that, why are you not saying that? Will you please support our residents in Wales?

16:44

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the most bizarre statements that I have heard in the Chamber for a long time is that we have unallocated money allocated to education. I am not quite sure how that can be true.

I will start with Tory party policy. I will take an intervention if any Member wishes to correct me at the end of the list. The Tory party wants to freeze council tax, it wants to cut public expenditure, as it is currently doing at Westminster, it wants to reduce expenditure on local government, and its want more money to be given directly to schools. The Conservatives have previously called for the money spent centrally by local councils' education departments to be cut. They call it bureaucracy. I call it home-to-school transport. I call it the educational psychologist service. I call it education other than at school, for example, providing education to children who are in hospital.

Mae Plaid Cymru, wrth gwrs, wedi gwrthod cefnogi galwadau'r Ceidwadwyr Cymreig i rewi'r dreth gyngor ledled Cymru, ac mae'ch cyd-Aelodau yng Nghonwy wedi cynyddu'r dreth gyngor 5%, lle mae cyfradd uwch na'r cyfartaledd o bobl dros 65 oed a phensiynwyr.

Cyn hyn, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi amddiffyn ei record echrydus o ran biliau treth gyngor drwy dynnu sylw at y ffaith bod biliau cyfartalog yng Nghymru yn parhau i fod yn rhatach na biliau yn Lloegr. Fodd bynnag, mae unrhyw honiadau o'r fath wedi'u chwalu. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae biliau treth gyngor wedi cynyddu yng Nghymru yn llawer cynt na'r rhai yn Lloegr a'r Alban yn bennaf am fod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod rhoi'r arian mawr ei angen i drigolion sydd yn sicr wedi cael ei roi gan Lywodraeth y DU.

Byddai Llywodraeth Lafur yn cadw refferenda ar y dreth gyngor, fel y dywedodd Ysgrifennydd cymunedau yr wrthblaid wrth y 'Local Government Chronicle'. Nodir bod Hilary Benn wedi dweud nad oedd ei blaid yn bwriadu diddymu'r pleidleisiau cyhoeddus y mae'n rhaid i gynghorau eu cynnal os bwriadant gynyddu'r dreth. Dywedodd:

Ni fwriadaf newid y trefniadau i gynnal refferenda gan fod pethau'n anodd iawn iawn i lawer o bobl.

Dywedodd hefyd:

Mae cynghorau yn ymwybodol iawn o'r argyfwng costau byw.

At hynny, dywedodd Mr Benn:

Maent yn gwneud eu gorau glas i reoli lefel y dreth gyngor.

Yr hyn yr hoffwn ei ddweud wrthyhch, fel Llywodraeth Cymru, yw: os yw ef yn dweud hynny, pam nad ydych chithau'n dweud hynny? A wnewch chi gynorthwyo ein trigolion yng Nghymru os gwelwch yn dda?

Un o'r datganiadau mwyaf rhyfedd yr wyf wedi ei glywed yn y Siambr ers amser hir yw ein bod wedi dad-ddyrannu arian a ddyrannwyd i addysg. Nid wyf yn hollol siŵr sut y gall hynny fod yn wir.

Dechreuaf drwy sôn am bolisi'r blaid Doriaidd. Derbynaf ymyriad os bydd unrhyw Aelod yn dymuno fy nghywiro ar ddiwedd y rhestr. Mae'r blaid Doriaidd am rewi'r dreth gyngor, y mae am dorri gwariant cyhoeddus, fel y mae yn ei wneud ar hyn o bryd yn San Steffan, mae am leihau gwariant ar lywodraeth leol, ac mae am i fwy o arian gael ei roi'n uniongyrchol i ysgolion. Cyn hyn mae'r Ceidwadwyr wedi galw am i'r arian a wariwyd yn ganolog gan adrannau addysg cynghorau lleol gael ei dorri. Biwrocratiaeth ydyw, meddent hwy. Cludiant o'r cartref i'r ysgol ydyw, meddwn i. Y gwasanaeth seicolegydd addysg ydyw, meddwn i. Addysg heblaw yn yr ysgol, er enghraifft, rhoi addysg i blant sydd yn yr ysbyty, ydyw, meddwn i.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

They also criticise council bureaucracy. They call it bureaucracy. I call it payroll, and I call it council tax collection. [Interruption.] I will take your intervention.

Maent hefyd yn beirniadu biwrocratiaeth cynghorau. Biwrocratiaeth ydyw, meddent hwy. Y gyflogres ydyw, meddwn i, casglu'r dreth gyngor ydyw, meddwn i. [Torri ar draws.] Derbyniaf eich ymyriad.

16:45 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Given that you think everything is working so well within local authorities and that they should stay as they are, what is your opinion now on the Williams commission? Do we go for a smaller number of local authorities or do we stay as we are?

O ystyried eich bod yn credu bod popeth yn gweithio mor dda o fewn awdurdodau lleol ac y dylent aros fel y maent, beth yw eich barn bellach ar gomisiwn Williams? A ddylem gwtogi ar nifer yr awdurdodau lleol neu barhau â'r sefyllfa fel y mae?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:45 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am bemused as to what that has to do with council tax. When Williams comes up—I have made my views on Williams known in lots of different places. I will carry on.

Rwy'n methu'n deg â deall sut mae hynny'n berthnasol i'r dreth gyngor. Pan fydd Williams yn codi—rwyf wedi mynegi fy marn ar Williams mewn llawer o wahanol leoedd. Af ymlaen.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

They also criticise council bureaucracy—legal services, personnel services and housing advice. This is what they mean by bureaucracy. Local government has made many of the easy changes that other organisations are yet to make. Payslips sent by internal mail; only one clerk in each scrutiny committee meeting to take records of proceedings and to provide advice. Some have moved to online travel expenses. Local government is under substantial pressure. I heard what Nick Ramsay said about the cuts coming in; yes, they are coming from here, but the reason they are coming from here is where we are getting our cuts from. Our cuts are coming from the Westminster Government. They are substantial cuts. Of course, you want to cut more, do you not? I will take your intervention.

Maent hefyd yn beirniadu biwrocratiaeth cynghorau— gwasanaethau cyfreithiol, gwasanaethau personél a chyngor ar dai. Dyna'r hyn a olygant wrth fiwrocratiaeth. Mae llywodraeth leol wedi gwneud llawer o'r newidiadau hawdd nad yw sefydliadau eraill wedi eu gwneud eto. Slipiau cyflog yn cael eu hanfon drwy'r post mewnol; dim ond un clerwr ym mhob cyfarfod pwyllgor craffu i gymryd cofnodion o'r trafodion ac i roi cyngor. Mae rhai wedi symud i dreuliau teithio ar-lein. Mae llywodraeth leol o dan bwysau mawr. Clywais yr hyn a ddywedodd Nick Ramsay am y toriadau sy'n cael eu gwneud; ydynt, mae cyllidebau yn cael eu torri yma, ond y rheswm pam maent yn cael eu torri yma yw bod ein cyllideb ninnau yn cael ei thorri. Mae ein cyllideb yn cael ei thorri gan Lywodraeth San Steffan. Maent yn doriadau sylweddol. Wrth gwrs, rydych am dorri mwy, onid ydych? Derbyniaf eich ymyriad.

16:46 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The cuts that the Welsh Government is receiving, Mike, are coming directly from the massive debt that was piled up by your colleagues in Westminster in 10 years of mismanagement.

Mike, mae'r toriadau i gyllideb Llywodraeth Cymru, yn deillio'n uniongyrchol o'r ddyled enfawr a gronwyd gan eich cyd-Aelodau yn San Steffan yn ystod 10 mlynedd o gamreoli.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:47 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I like the way they blame the last Labour Government. When you look at the serious problems in countries like Greece, Spain and Portugal, and you say, 'Well, it was the last Labour Government', it must have had a tremendous amount of power to cause problems for length and breadth of Europe. Maybe it was an international banking crisis.

Rwy'n hoffi'r ffordd y maent yn rhoi'r bai ar y Llywodraeth Lafur ddiwethaf. Os edrychwch ar y problemau difrifol mewn gwledydd fel Gwlad Groeg, Sbaen a Phortiwgal, a dweud, 'Wel, y Llywodraeth Lafur ddiwethaf sy'n gyfrifol, rhaid ei bod yn hynod rymus i achosi problemau drwy Ewrop benbaladr. Efallai mai argyfwng bancio rhyngwladol oedd yn gyfrifol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Local government is under financial pressure caused by the Tory and Lib Dem cuts at Westminster. You would think, now, that when local authorities are making cuts, the Tories would be there, saying things like, 'One library is going to close? Surely you should be closing more?' They should be saying, 'You are closing one day centre. Shouldn't you be closing the lot?' I have yet to see them coming along and saying that, and supporting mass closures. In fact, I have seen the opposite. I have seen Conservatives saying, 'Save our libraries', and 'Save our day centre', and 'Save our'—please insert. As councils struggle to balance their books with the pressures of personal social services and elderly care— [Interruption.]

I will take an intervention.

Mae llywodraeth leol o dan bwysau ariannol a achosir gan doriadau'r Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Byddech yn meddwl, felly, pan fydd awdurdodau lleol yn gwneud toriadau, y byddai'r Toriaid yno, yn dweud pethau fel, 'Bydd un llyfrgell yn cau? Oni ddylech gau mwy? Dylent fod yn dweud, 'Rydych yn cau un ganolfan ddydd. Oni ddylech fynd ati i gau'r cyfan? Nid wyf eto wedi eu clywed yn dweud hynny, a chefnogi cau gwasanaethau ar raddfa fawr. A dweud y gwir, y gwrthwyneb yr wyf wedi ei glywed. Rwyf wedi gweld Ceidwadwyr yn dweud, 'Achubwch ein llyfrgelloedd', ac 'Achubwch ein canolfan ddydd', ac 'Achubwch ein'—llenwch y bwlch. Wrth i gynghorau geisio mantoli'r gyllideb gyda phwysau gwasanaethau cymdeithasol personol a gofal yr henoed— [Torri ar draws.]

Derbyniaf ymyriad.

16:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is the third intervention. He is most generous.

Dyma'r trydydd ymyriad. Mae'n hael iawn.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:48 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you not see lots of Labour AMs saying 'Save our A&E' around Wales, despite your Government shutting those A&Es? I am thinking of the Member for the Rhondda, for example.

Oni welsoch lawer o ACau Llafur yn dweud 'Achubwch ein hadrannau brys' ledled Cymru, er mai eich Llywodraeth chi sy'n cau'r adrannau hynny? Rwy'n meddwl am yr Aelod dros y Rhondda, er enghraifft.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:48 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As you know, the Labour Government is not shutting anything. [Laughter.]

Fel y gwyddoch, nid yw'r Llywodraeth Lafur yn cau dim byd. [Chwerthin.]

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Personal social services and elderly care are, in my opinion at least, under greater financial pressure than hospital services. The Conservatives are opposing the closure of facilities. Councils get the majority of their funding—historically, about 80%—from the Welsh Government. That is why you have the gearing ratio that Peter Black talked about earlier on the cost of council tax. We have an opportunity to help local authorities by using things like the housing Act on second homes and on empty properties. One of the unfortunate and, probably, unintended consequences of these cuts is that we will end up with local authorities not having their local initiatives. Everything will become more homogenous.

Mae gwasanaethau cymdeithasol personol a gofal yr henoed, yn fy marn i o leiaf, o dan fwy o bwysau ariannol na gwasanaethau ysbyty. Mae'r Ceidwadwyr yn gwrthwynebu cau cyfleusterau. Mae cynghorau yn cael y rhan fwyaf o'u harian—yn hanesyddol, tua 80%—gan Lywodraeth Cymru. Dyna pam y cewch y gymhareb gerio y cyfeiriodd Peter Black ati'n gynharach ar gost y dreth gyngor. Cawn gyfle i helpu awdurdodau lleol drwy ddefnyddio pethau fel y Ddeddf dai ar ail gartrefi ac ar eiddo gwag. Un o ganlyniadau anffodus, ac anfwriadol, y toriadau hyn fwy na thebyg yw na fydd gan awdurdodau lleol fentrau lleol yn y pen draw. Bydd popeth yn mynd yn fwy homogenaidd.

Finally, I will not criticise any council for decisions that it is making in very difficult circumstances. Remember, average council taxes in Wales remain well below those in England—£230 lower than in England—and still no higher than in Scotland, despite the freeze. Just a bit of help: CIPFA stands for the Chartered Institute of Public Finance Accountancy, and tax goes unpaid by some people because they are dead.

Yn olaf, ni feirniadaf unrhyw gyngor am benderfyniadau y mae'n eu gwneud o dan amgylchiadau anodd iawn. Cofiwch, mae trethi cyngor cyfartalog yng Nghymru yn parhau i fod dipyn yn is na'r rhai yn Lloegr—£230 yn is na'r rhai yn Lloegr—ac nid ydynt yn uwch na'r rhai yn yr Alban ychwaith, er bod y dreth gyngor wedi cael ei rhewi yno. Dyma ychydig o gymorth: ystyr CIPFA yw'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, ac mae rhai pobl yn methu â thalu trethi am eu bod wedi marw.

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to take part in this important debate this afternoon. When I last spoke on the local government settlement in January, there was a significant amount of political turmoil within Powys County Council, which caused the authority, I think, to take its eye off the financial situation that it had to deal with over the following few years. I am pleased to see that Powys County Council now seems to be focused on finding the £20 million of savings it has been forced to find this coming financial year due to another dismal settlement bequeathed on it by the Welsh Government.

The continuing unprecedented cuts to local government finances have presented severe challenges to all rural local authorities in particular over the next three financial years. Those pressures are compounded by the Welsh Government's refusal to use the extra money allocated to it by the UK Government to cushion the cuts to local government funding. Powys has had the second lowest revenue support grant settlement out of all local authorities in Wales, with the lowest share of external finance from Welsh Government funds. Powys has had to find a greater share of its budget from council tax rises. It is unfortunate, but not surprising, that it has had to increase council tax in the coming financial year by 4.5%. That is one of the highest rises in Wales, and therefore in the UK, at more than two and a half times the rate of inflation.

In previous statements, the Minister has pointed towards a dampening mechanism for local authorities, without which Powys would be worse off. I wonder what residents in Powys think when they see people across the border in England, where the average council tax rise is barely 0.5% and where some authorities have cut council tax for the next financial year. I raised this issue with the Minister in January, in relation to who is ultimately responsible for the local government funding formula. At that time, she said that it was owned by local authorities themselves. Yet, when the dampening mechanism was brought to her by the sub-group, she claimed credit for that. What I want to know, and you cannot have it both ways, is: are you responsible for the funding formula or not? I suggest that you are.

As I touched on in the fire and rescue services debate yesterday, we know that delivering services in rural areas comes at a higher cost. Where budget cuts threaten the continuation of services, rural areas are disproportionately affected—

Croesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon y prynhawn yma. Pan siaradais ddiwethaf ar y setliad llywodraeth leol ym mis Ionawr, roedd cryn dipyn o gythrwfl gwleidyddol o fewn Cyngor Sir Powys, a achosodd yr awdurdod, fe gredaf, i dynnu ei lygaid oddi ar y sefyllfa ariannol y bu'n rhaid iddo ymdrin â hi dros yr ychydig flynyddoedd dilynol. Rwy'n falch o weld yr ymddengys bod Cyngor Sir Powys bellach yn canolbwyntio ar ddod o hyd i'r £20 miliwn o arbedion y mae'n rhaid iddo eu gwneud yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod oherwydd setliad gwael arall gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r toriadau hyn na welwyd eu tebyg o'r blaen ac sy'n parhau i gael eu gwneud i gyllid llywodraeth leol wedi cynnig heriau mawr i bob awdurdod lleol gwledig yn arbennig dros y tair blynedd ariannol nesaf. Mae'r pwysau hynny wedi'u dwysáu gan benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â defnyddio'r arian ychwanegol a ddyrannwyd iddi gan Lywodraeth y DU i leddfu'r toriadau i gyllid llywodraeth leol. Powys sydd wedi cael y setliad isaf ond un o ran y grant cynnal refeniw o blith holl awdurdodau lleol Cymru, gyda'r gyfran isaf o gyllid allanol o gronfeydd Llywodraeth Cymru. Mae Powys wedi gorfod dod o hyd i gyfran fwy o'i gyllideb drwy gynyddu'r dreth gyngor. Mae'n anffodus, ond nid yw'n syndod, ei bod wedi gorfod cynyddu'r dreth gyngor 4.5% yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Dyna un o'r codiadau uchaf yng Nghymru, ac felly yn y DU, sef dros ddwywaith a hanner cyfradd chwyddiant.

Mewn datganiadau blaenorol, mae'r Gweinidog wedi tynnu sylw at ddull tampio i awdurdodau lleol, a heb hwnnw byddai sefyllfa Powys yn waeth. Tybed beth mae trigolion ym Mhowys yn ei feddwl pan welant bobl dros y ffin yn Lloegr, lle mae'r dreth gyngor gyfartalog wedi codi 0.5%, os hynny, a lle mae rhai awdurdodau wedi torri'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Codais y mater hwn gyda'r Gweinidog ym mis Ionawr, o ran pwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am fformiwla ariannu llywodraeth leol. Ar y pryd, dywedodd mai'r awdurdodau lleol eu hunain oedd yn gyfrifol amdani. Eto i gyd, pan gyflwynwyd y dull tampio iddi gan yr is-grŵp, hawliodd y clod am hynny. Yr hyn yr wyf am ei wybod, ac ni allwch ei chael hi'r ddwy ffordd, yw: ai chi sy'n gyfrifol am y fformiwla ariannu ai peidio? Awgrymaf mai chi sy'n gyfrifol.

Fel y crybwyllais yn y ddadl ar wasanaethau tân ac achub ddoe, gwyddom fod darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn fwy costus. Lle mae toriadau cyllidebol yn peryglu parhad gwasanaethau, effeithir ar ardaloedd gwledig yn anghymesur—

16:52 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:52 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, Mike.

Gwnaf, Mike.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:52 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Urban areas have separate problems when they have greater poverty. Secondly, they have more people missing from the electoral register.

Mae gan ardaloedd trefol broblemau gwahanol pan fo mwy o dlodi. Yn ail, mae mwy o bobl ar goll oddi ar y gofrestr etholiadol ganddynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What you fail to understand, Mike, is that rural local authorities have a far greater cost for delivering local services. That is what you seem to miss. That fact was recently highlighted by the review of the delivery of health services across mid Wales. I believe, as do many officers working in rural local authorities, that the weighting given to dispersion within rural indicators does not adequately reflect reality. That is shown by the insufficient share of SSA settlement spending determined by these indicators.

I would like the Minister, in her response, to address these three points in my contribution. When was the last time the formula for all services was independently reviewed—was it by Swansea University and Pion Economics 14 years ago? Who is ultimately responsible for the local government funding formula? Finally, the council tax base has increased in Powys, based partly on the number of dwellings. However, it is also based on the projected national increase in council tax that local authorities will collect. Is the Welsh Government reducing its own RSG commitment by assuming local authorities across Wales will increase their council tax by a certain percentage?

Lastly, to finish, it is now time that a review is carried out of the local government funding formula and the impact it has on service delivery in rural areas. An increase in the weighting on dispersion indicators would provide proper funding to meet the true costs of delivering services in rural communities.

**Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Local authorities are having to deal with huge cuts to their budgets as a result of the UK Government's cuts to the block grant. Therefore, we have made our priorities, as a Welsh Labour Government here, by saying that we would protect spending on health and ensure that schools were protected as well. If councils are to then have their priorities, they have to look at the option of raising the council tax. They have to do that so that they can keep those services that they are statutorily bound to deliver. We can all get excited about what they are doing; I do within my own constituency. However, county councillors are accountable to their electorate, and I am sure that the electorate will judge them at the appropriate time.

Despite the rhetoric over a council tax freeze, figures show that a third of Tory-led councils in England are ignoring that UK Government policy on freezing council tax and has voted for increases. I will say that again—a third of Tory-led councils in England have ignored the council tax policy of their own Government and have voted for council tax increases.

Yr hyn yr ydych yn methu â'i ddeall, Mike, yw bod darparu gwasanaethau lleol yn llawer mwy costus i awdurdodau lleol gwledig. Dyna'r pwynt yr ydych yn ei golli, i bob golwg. Tynnwyd sylw at y ffaith honno yn ddiweddar gan yr adolygiad o ddarparu gwasanaethau iechyd yn y canolbarth. Credaf, fel y mae llawer o swyddogion sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol gwledig yn ei wneud, nad oedd y pwysoliad a roddwyd i wasgariad o fewn y dangosyddion gwledig yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol yn ddigonol. Dangosir hynny gan gyfran annigonol o wariant yr Asesiad o Wariant Safonol a bennwyd gan y dangosyddion hyn.

Hoffwn pe bai'r Gweinidog, yn ei hymateb, yn ymdrin â'r tri phwynt hyn yn fy nghyfraniad. Pryd y cafodd y fformiwla ar gyfer pob gwasanaeth ei hadolygu'n annibynnol ddiweddar—ai gan Brifysgol Abertawe a Pion Economics 14 mlynedd yn ôl oedd hynny? Pwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am fformiwla ariannu llywodraeth leol? Yn olaf, mae'r sylfaen dreth gyngor wedi cynyddu ym Mhowys, yn seiliedig yn rhannol ar nifer yr anheddau. Fodd bynnag, mae hefyd yn seiliedig ar y cynnydd cenedlaethol a ragwelir yn y dreth gyngor y bydd awdurdodau lleol yn ei chasglu. A yw Llywodraeth Cymru yn lleihau ei hymrwymiad ei hun o dan y grant cynnal refeniw gan dybio y bydd awdurdodau lleol ledled Cymru yn cynyddu eu treth gyngor o ganran benodol?

Yn olaf, i gloi, mae'n hen bryd bod adolygiad yn cael ei gynnal o fformiwla ariannu llywodraeth leol a'i heffaith ar ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Byddai cynnydd yn y pwysoliad ar ddangosyddion wasgariad yn darparu cyllid priodol i dalu am gostau gwirioneddol darparu gwasanaethau mewn cymunedau gwledig.

Mae awdurdodau lleol yn gorfod ymdopi â thoriadau enfawr i'w cyllidebau o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU yn y grant bloc. Felly, rydym wedi pennu ein blaenoriaethau, fel Llywodraeth Lafur Gymreig yma, drwy ddweud y byddem yn diogelu gwariant ar iechyd ac yn sicrhau bod ysgolion yn cael eu diogelu hefyd. Os yw cyngorau wedyn yn pennu eu blaenoriaethau hwythau, rhaid iddynt edrych ar yr opsiwn o gynyddu'r dreth gyngor. Rhaid iddynt wneud hynny er mwyn iddynt allu cadw'r gwasanaethau hynny y mae'n ofynnol iddynt eu darparu drwy statud. Gall pob un ohonom gynhyrfu am yr hyn y maent yn ei wneud; rwyf innau'n gwneud hynny o fewn fy etholaeth fy hun. Fodd bynnag, mae cyngorwyr sir yn atebol i'w hetholwyr, ac rwy'n siŵr y bydd yr etholwyr yn eu barnu ar yr adeg briodol.

Er gwaethaf y rhethreg ynglŷn â rhewi'r dreth gyngor, dengys y ffigurau fod traean o gynghorau a arweinir gan y Toriaid yn Lloegr yn anwybyddu polisi Llywodraeth y DU ar rewi'r dreth gyngor ac wedi pleidleisio o blaid cynnydd. Dywedaf hynny eto—mae un o bob tri chynghor a arweinir gan y Toriaid yn Lloegr wedi anwybyddu polisi treth gyngor ei Llywodraeth ei hun ac wedi pleidleisio dros gynyddu'r dreth gyngor.

- 16:56 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for taking an intervention, Ann. That is their choice. It is up to them and they have the option to do that. In Wales, that option is not being made available by central Government.
- Diolch ichi am dderbyn ymyriad, Ann. Dyna eu dewis hwy. Eu dewis hwy ydyw a gallant ddewis gwneud hynny. Yng Nghymru, nid yw Llywodraeth ganolog yn cynnig y dewis hwnnw.
- 16:56 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- You are right; that is their choice. I explained when we started that our choice, as the Labour Government, with a much reduced block grant from the UK Government, was to protect health and education.
- Rydych yn llygad eich lle; dyna ein dewis ni. Esboniais ar y dechrau mai ein dewis ni, fel y Llywodraeth Lafur, gyda grant bloc llawer llai gan Lywodraeth y DU, oedd diogelu iechyd ac addysg.
- Forty per cent of local authorities in England have chosen not to accept the funding available for that council tax freeze—that includes David Cameron’s own local authority.
- Mae 40 y cant o awdurdodau lleol yn Lloegr wedi dewis peidio â derbyn y cyllid sydd ar gael i rewi'r dreth gyngor—gan gynnwys awdurdod lleol David Cameron ei hun.
- Council tax in Wales has been consistently lower than in England and it remains so. Even following the council tax freeze in England since 2011-12, council tax in Wales is still 18% lower on average.
- Mae'r dreth gyngor yng Nghymru wedi bod yn gyson is nag yn Lloegr ac mae'n parhau i fod felly. Hyd yn oed ar ôl rhewi'r dreth gyngor yn Lloegr ers 2011-12, mae'r dreth gyngor yng Nghymru yn dal i fod 18% yn is ar gyfartaledd.
- 16:57 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Do you accept that, in spite of council tax bills being lower than in England, they are a greater proportion of average incomes in Wales because we have lower incomes here. What are you doing to put that right in order to reflect household incomes in Wales?
- A ydych yn derbyn, er bod biliau treth gyngor yn is nag yn Lloegr, eu bod yn cyfrif am gyfran fwy o incwm cyfartalog yng Nghymru am fod incymau yn is yma. Beth rydych yn ei wneud i unioni hynny er mwyn adlewyrchu incwm cartrefi yng Nghymru?
- 16:57 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- What we were doing was to have support for council tax. Given that the UK coalition Government abolished the council tax benefit and did not put the money in, that has left us with very little choice but to pass that over to local authorities.
- Yr hyn yr oeddem yn ei wneud oedd rhoi cymorth ar gyfer y dreth gyngor. O gofio bod Llywodraeth glymblaid y DU wedi diddymu budd-dal y dreth gyngor ac na ddarparodd yr arian, golygodd hynny nad oedd gennym fawr o ddewis ond trosglwyddo hynny i awdurdodau lleol.
- I know that you all on the opposition benches—. Last time I said that the Member for Aberconwy, Janet Finch-Saunders, had seen the light on the road to Damascus as she had rallied against council tax rises despite voting through inflation-busting rises every year that she was in the cabinet of Conwy County Borough Council. I do not think that she had realised, because in her speech today she was saying how much Conwy is putting up its council tax. So, perhaps I will try another parable—the parable of the good shepherd, for the joy over every sinner that repenteth. I will just leave that one for people to think about.
- Gwn eich bod chi i gyd ar feinciau'r gwrthbleidiau—. Y tro diwethaf imi ddweud hynny roedd yr Aelod dros Aberconwy, Janet Finch-Saunders, wedi gweld y goleuni ar y ffordd i Ddamascus wrth iddi gwyno am gynnydd yn y dreth gyngor er iddi bleidleisio dros gynnydd uwch na chwyddiant bob blwyddyn y bu yng nghabinet Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy. Ni chredaf iddi sylweddoli, oherwydd yn ei haraith heddiw roedd yn sôn am gymaint y mae Conwy wedi cynyddu ei dreth gyngor. Felly, efallai y rhoddaf gynnig ar ddameg arall—dameg y bugail da, am lawenydd am bob pechadur a edifarhao. Gadawaf hynny i bobl fyfrio arno.
- I believe that, whatever we do, we have to look at the way in which we can manage our budgets and finances on a very tight budget. That is all that we are asking councils to do across Wales. I believe that they will do that job and that we will all be judged at the ballot box, which is the correct place to be judged.
- Credaf, beth bynnag a wnawn, fod yn rhaid inni edrych ar y ffordd y gallwn reoli ein cyllidebau a'n cyllid pan fo'r gyllideb yn dynn iawn. Dyna'r cyfan yr ydym yn gofyn i gynghorau ei wneud ledled Cymru. Credaf y byddant yn gwneud hynny a chaiff pob un ohonom ein barnu yn y blwch pleidleisio, sef y lle cywir i gael ein barnu.

16:58

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is always a pleasure to follow Ann Jones's parables, particularly the parable of the good shepherd. Ann, I always listen to what you have to say, and many of the things that you say are very sensible. Occasionally, some things are not, as is the case with most people, I am sure. [Laughter.]

In your contribution, you did not seem to understand that some local authorities in England have chosen—I think that you said that it was a third of Conservative-led authorities—have chosen not to pass on a council tax freeze. They have chosen to use the money differently. The point is that they had the choice. Local authorities in Wales did not have the choice; it was denied to them by the Welsh Government. For localism to do what it says on the tin is not just about local accountability; it is also about being given the necessary funding. Consistently, we have seen local government having to bear the brunt of any changes in decisions the Welsh Government has made on funding. You take it as an easy target. It is true that we do not have tax powers in this institution, but council tax is one power that, by the back door, the Welsh Government has been able to increase over the years, and my goodness me, have you not done that?

Mae bob amser yn bleser gwranddo ar ddamhegion Ann Jones, yn enwedig dameg y bugail da. Ann, rwyf bob amser yn gwranddo ar yr hyn sydd gennych i'w ddweud, ac mae llawer o'r pethau yr ydych yn eu dweud yn synhwyrol iawn. Weithiau, nid yw rhai pethau'n synhwyrol, fel yn achos y rhan fwyaf o bobl, mae'n siŵr gennyf. [Chwerthin.]

Yn eich cyfraniad, ymddengys nad oeddech yn deall bod rhai awdurdodau lleol yn Lloegr wedi dewis—credaf ichi sôn am draean o awdurdodau a arweinir gan y Ceidwadwyr—wedi dewis peidio â rhewi'r dreth gyngor. Maent wedi dewis defnyddio'r arian mewn ffordd wahanol. Y pwynt yw iddynt gael y dewis. Ni chafodd awdurdodau lleol yng Nghymru y dewis; gwrthododd Llywodraeth Cymru roi'r dewis hwnnw iddynt. Er mwyn i leoliaeth gyrraedd y nod, nid oes a wnelo hi ag atebolrwydd lleol yn unig; mae hefyd yn ymwneud â chael y cyllid angenrheidiol. Yn rheolaidd, rydym wedi gweld llywodraeth leol yn gorfod ysgwyddo baich unrhyw newidiadau yn y penderfyniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud ynglŷn â chyllid. Mae'n darged hawdd ichi. Mae'n wir nad oes gennym bwerau treth yn y sefydliad hwn, ond mae'r dreth gyngor yn un pŵer y mae Llywodraeth Cymru yn llechwraidd wedi llwyddo i'w chynyddu dros y blynyddoedd, ac, ar fy ngwir, onid ydych wir wedi gwneud hynny?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:00

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can you tell me which of the Conservative policies, health or local government—they are the two big areas of expenditure—do you uphold? One of your colleagues gets up and says that we must spend more money on health every time, and now you have asked for more money for local government. Which is your party's policy?

A allwch ddweud wrthyf pa un o'r polisiau Ceidwadol, iechyd ynteu llywodraeth leol—dyma'r ddau faes mawr o wariant—yr ydych yn ei gefnogi? Mae un o'ch cyd-Aelodau yn codi a dweud bod yn rhaid inni wario mwy o arian ar iechyd bob amser, ac yn awr rydych wedi gofyn am fwy o arian i lywodraeth leol. Pa un yw polisi eich plaid?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:00

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You were given money for a consequential for a council tax freeze in Wales, and that did not go into putting money back into the pockets of hard-working people in Wales. That would have been our priority; it was not yours. Going back to Ann Jones's comment, go to the electorate and tell them that that is not your policy.

For all the Welsh Government's belief that it is in your hands to decide how people spend their money, I think that the public out there would have a different view, and natural justice would come into play.

Cawsoch swm canlyniadol i rewi'r dreth gyngor yng Nghymru, ac ni roddwyd yr arian hwnnw yn ôl ym mhocedi pobl sy'n gweithio'n galed yng Nghymru. Dyna'r flaenoriaeth y byddem ninnau wedi'i phennu; nid oedd yn flaenoriaeth gennych chi. Gan ddychwelyd at sylw Ann Jones, ewch at yr etholwyr a dweud wrthynt nad yw'n bolisi gennyf.

Er bod Llywodraeth Cymru yn credu mai chi sy'n penderfynu sut mae pobl yn gwario eu harian, credaf y byddai'r cyhoedd yn anghytuno, a byddai mater cyfiawnder naturiol yn codi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

On the issue about council tax being lower here than it is in England, proportionally, yes, it is. Going back to Mark Isherwood's, the fact man's, comments at the start, with all the statistics that we heard, there is no doubt at all that council tax here has been historically lower. There are reasons for that, as we heard from Darren Millar. One reason is that incomes have been lower in Wales, but my goodness me, is not the council tax amount paid here catching up pretty quickly with that in England? I have a statistic here: 78.3% was the proportion of the English level originally, when the National Assembly was established, and it is 84.2% in this financial year. The worrying thing is that it is not only catching up, but it appears to be catching up quicker. I wonder how long we will be having this discussion when even that silver lining to the cloud will not be something that we can point to and say that that is one way that people are better off here. Therefore, we need to keep a careful eye on that.

It is not the case that all local authorities in Wales have not attempted a council tax freeze. Monmouthshire, in my constituency, in 2013-14, was one of the councils that managed to make the freeze without having the money given to it. That was a very difficult decision for that authority, but it did it by reducing bureaucracy and by reducing costs. It can be done. However, it would have been so much easier for that to have been done if the appropriate money had been passed on.

There are deeper problems here, particularly with authorities in rural areas, which have ever-increasing costs and have much higher costs in delivering services than in an urban area. I previously said that I think that we need to look again at the RSG. We need to look again at the formulae that are used to give local authorities money. Rurality is not factored into that. Maybe it is no surprise that a lot of Labour authorities are in the Valleys, and not in rural areas, but I ask the Minister to look again at the issue of rurality and to look again at the amount of money that is provided to local authorities. For too long here, we have these discussions, but council tax payers find that they take the whack again and again. It is just not good enough. If lower council tax is good enough for Scotland, and good enough for England, why on earth is it not good enough for Wales? For goodness sake, get a grip, and let us help out the hard-working council tax payer.

O ran y mater bod y dreth gyngor yn is yma nag y mae yn Lloegr, ydy, fel canran. Gan ddychwelyd at sylwadau Mark Isherwood, dyn y ffeithiau, ar y dechrau, gyda'r holl ystadegau a glywsom, nid oes unrhyw amheuaeth o gwbl nad yw'r dreth gyngor yma wedi bod yn hanesyddol is. Mae rhesymau dros hynny, fel y clywsom gan Darren Millar. Un rheswm yw bod incwm wedi bod yn is yng Nghymru, ond ar fy ngwir, onid yw swm y dreth gyngor a delir yma yn prysur gyrraedd y sefyllfa yn Lloegr? Mae gennyf ystadegyn wrth law: 78.3% oedd y gyfran o'i chymharu â lefel Lloegr yn wreiddiol, pan sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae'n cynyddu i 84.2% yn y flwyddyn ariannol hon. Y peth sy'n peri pryder yw, nid yn unig bod y bwll yn cau, ond ymddengys ei fod yn cau'n gyflymach. Tybed am faint o amser y byddwn yn cael y drafodaeth hon pan na fydd hyd yn oed y fantais honno'n rhywbeth y gallwn dynnu sylw ato a dweud mai dyna un ffordd y mae pobl yn well eu byd yma. Felly, mae angen inni gadw llygad barcod ar hynny.

Nid yw'n wir nad oes yr un awdurdod lleol yng Nghymru wedi ceisio rhewi'r dreth gyngor. Sir Fynwy, yn fy etholaeth i, yn 2013-14, oedd un o'r cynghorau a lwyddodd i wneud hynny er nad oedd arian wedi cael ei roi iddo. Roedd hwnnw'n benderfyniad anodd iawn i'r awdurdod hwnnw, ond fe'i gwnaeth drwy leihau biwrocratiaeth a thrwy leihau costau. Gellir ei wneud. Fodd bynnag, byddai wedi bod dipyn yn haws pe bai'r arian priodol wedi cael ei drosglwyddo iddo.

Cyfyd problemau dyfnach yn hyn o beth, yn enwedig gydag awdurdodau mewn ardaloedd gwledig, sydd â chostau cynyddol uwch ac y mae'n llawer mwy costus iddynt ddarparu gwasanaethau nag mewn ardal drefol. Dywedais o'r blaen fy mod yn meddwl bod angen inni edrych eto ar y Grant Cynnal Refeniw. Mae angen inni edrych eto ar y fformiwlâu a ddefnyddir i roi arian i awdurdodau lleol. Nid yw natur wledig yn cael ei hystyried yn hynny. Efallai nad yw'n syndod bod llawer o awdurdodau Llafur yn y Cymoedd, ac nid mewn ardaloedd gwledig, ond gofynnaf i'r Gweinidog edrych eto ar natur wledig ac edrych eto ar y swm o arian sy'n cael ei ddarparu i awdurdodau lleol. Ers gormod o amser yma, rydym yn cael y trafodaethau hyn, ond mae talwyr y dreth gyngor yn gweld mai hwy sy'n dioddef dro ar ôl tro. Nid yw'n ddigon da. Os yw treth gyngor is yn ddigon da ai'r Alban, ac yn ddigon da i Loegr, pam ar y ddaear nad yw'n ddigon da i Gymru? Er mwyn popeth, calliwch, a gadewch inni helpu talwyr y dreth gyngor sy'n gweithio'n galed.

17:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths.

I call the Minister for Local Government and Government Business.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:03 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I am very pleased to respond to this debate and to put some facts on the record, rather than all the fiction we have heard from Members sitting to the left of me.

Rwy'n falch iawn o ymateb i'r ddatl hon a nodi rhai ffeithiau'n gyhoeddus, yn hytrach na'r holl ffwlbr y ydym wedi ei glywed gan Aelodau sy'n eistedd ar yr ochr chwith imi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am very happy to discuss the importance of financial management in local government and the role of council tax and to debate the comparisons between our approach in Wales and the approaches in England and Scotland.

Let me be clear at the outset of my response: I take my responsibility to protect council tax payers from excessive increases very seriously. I recognise that these are difficult times for households in Wales. However, the pressures on front-line service are unprecedented, as are the budgetary pressures, and it is these public services that are vital to wellbeing, communities and to the Welsh economy.

Anybody listening to Conservative contributions would be forgiven for thinking that I set council tax rates; I do not. Local authorities set their own council taxes, and, as Rhodri Glyn Thomas and Peter Black said, it is absolutely right that we have that local accountability with councillors.

As a consequence of our decisions, local government in Wales has had relative protection in recent years to prepare for the more challenging times ahead. This was recognised in a recent Wales Audit Office report. The Welsh Government's support for local government over the current spending review period has increased while the settlement in England, on a like-for-like basis, has decreased. We choose to channel as much as possible of the funding available to local government into the core settlement in order to give it the flexibility that it wants. We do not package part of the funding as a grant for freezing council tax. However, once again, contrary to what Janet Finch-Saunders thinks, Welsh local authorities, if they want to, can choose to have a council tax freeze. Therefore, it is completely incorrect to say that Welsh local authorities do not have that choice.

Members have debated the continued freeze offers in England and Scotland, but we need to consider the consequences of such initiatives. The grant offer in England provides funding equivalent to a 1% increase in council tax, which still leaves authorities with tough spending decisions and limited money to maintain the vital services on which our vulnerable people rely. It therefore comes as no surprise that the number of English authorities that have chosen not to accept the grant has increased again this year, which Ann Jones referred to in her contribution. As a consequence, 43% of English authorities have rejected the additional funding, opting to increase council tax instead. Furthermore, a one-size-fits-all limit does not support localism and local democracy or the relationship between central Government and local government. It reduces the ability of authorities to plan ahead and to set medium-term priorities.

Rwy'n fwy na pharod i drafod pwysigrwydd rheolaeth ariannol mewn llywodraeth leol a rôl y dreth gyngor ac i drafod y cymariaethau rhwng y ffordd yr ydym ni yng Nghymru yn gweithredu a'r ffordd y maent yn gweithredu yn Lloegr a'r Alban.

Gadwch imi nodi'n glir ar ddechrau fy ymateb: rwy'n cymryd fy nghyfrifoldeb i ddiogelu talwyr y dreth gyngor rhag codiadau eithafol yn wir o ddirif. Rwy'n cydnabod bod hwn yn gyfnod anodd i aelwydydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r pwysau ar y gwasanaeth rheng flaen yn rhai na welwyd eu tebyg o'r blaen, a hefyd y pwysau cyllidebol, a'r gwasanaethau cyhoeddus hyn sy'n hanfodol i les, cymunedau ac i economi Cymru.

Pe bai rhywun yn gwrandao ar gyfraniadau'r Ceidwadwyr mae'n bosibl y byddai'n tybio mai fi sy'n gosod cyfraddau'r dreth gyngor; nid wyf yn gwneud hynny. Mae awdurdodau lleol yn gosod eu treth gyngor eu hunain, ac, fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas a Peter Black, mae'n hollol iawn bod cynghorwyr yn atebol yn hynny o beth.

O ganlyniad i'n penderfyniadau, mae llywodraeth leol yng Nghymru wedi cael ei diogelu i raddau yntod y blynyddoedd diwethaf er mwyn paratoi ar gyfer yr amser mwy heriol sydd i ddod. Cydnabuwyd hyn mewn adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae cymorth Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol dros gyfnod yr adolygiad presennol o wariant wedi cynyddu tra bod y setliad yn Lloegr, ar sail tebyg wrth ei debyg, wedi gostwng. Dewiswyd sianelu cymaint â phosibl o'r arian sydd ar gael i lywodraeth leol yn y setliad creiddiol er mwyn rhoi'r hyblygrwydd iddi y mae am ei gael. Nid ydym yn pecynnu rhan o'r arian fel grant i rewi'r dreth gyngor. Fodd bynnag, unwaith eto, yn groes i'r hyn y mae Janet Finch-Saunders yn ei feddwl, gall awdurdodau lleol yng Nghymru, os dymunant, ddewis rhewi'r dreth gyngor. Felly, mae'n gwbl anghywir dweud nad yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael y dewis hwnnw.

Mae'r Aelodau wedi trafod y cynigion a roddir o hyd i rewi'r dreth gyngor yn Lloegr a'r Alban, ond mae angen inni ystyried canlyniadau mentrau o'r fath. Mae'r grant a gynigir yn Lloegr yn cynnig cyllid sy'n cyfateb i gynnydd o 1% yn y dreth gyngor, sy'n golygu o hyd bod awdurdodau yn wynebu penderfyniadau anodd ar wariant ac arian cyfyngedig i gynnal y gwasanaethau hanfodol y mae ein pobl sy'n agored i niwed yn dibynnu arnynt. Felly, nid yw'n syndod bod nifer yr awdurdodau yn Lloegr sydd wedi dewis peidio â derbyn y grant wedi cynyddu eto eleni, y cyfeiriodd Ann Jones ato yn ei chyfraniad hithau. O ganlyniad, mae 43% o awdurdodau yn Lloegr wedi gwrthod y cyllid ychwanegol, gan ddewis cynyddu'r dreth gyngor yn lle hynny. At hynny, nid yw'r un terfyn i bawb yn cefnogi lleoliaeth na democratiaeth leol na'r berthynas rhwng Llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Mae'n cyfyngu ar allu'r awdurdodau i gynllunio ymlaen llaw ac i bennu blaenoriaethau yn y tymor canolig.

In England, the referendum threshold of 2% for 2014-15 was not announced until 5 February, just three weeks before the deadline for setting police precepts and just a little over four weeks before the councils set their budgets. In Wales, I began to engage with council leaders and police and crime commissioners with the announcement of the provisional settlement in mid October, four months earlier than in England.

Choices about how to use any consequential funding that comes to Wales in recognition of UK Government decisions are matters for Welsh Ministers. It is called devolution. Such funding has been invested in measures to stimulate the economy and protect jobs. These actions complement our longer-term economic strategy and will deliver more sustainable benefits. It is far better in the current circumstances to use the consequentials to invest in growth.

In Wales, the level of council tax continues to be a matter for each local authority and PCC to determine. They must maintain vital public services while limiting the burden on hard-pressed households. These are decisions that, as we have heard, are best taken locally and for which authorities are accountable to the electorate. That is true localism. Authorities have not simply passed on their financial pressures to residents, nor have they shied away from making extremely difficult decisions on service provision.

There is inevitably a focus on the annual increases, but I believe that this masks the full picture. Despite the increases, the fact remains that average bills will still be around £190 lower than in England in 2014-15. Over the past decade, council tax levels in Wales have been consistently lower than those in Scotland and it is only recently, after years of council tax freezes in Scotland, that we have seen council tax there at levels similar to those in Wales.

Turning to the amendments, I support Plaid Cymru's amendment 1, as I have continually recognised the difficult financial situation faced by local authorities. I am happy to support amendments 2 and 3 from Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats, which recognise that setting council tax is a democratic duty of councils and PCCs, although I have reminded them of their responsibility to consider the financial burden on hard-pressed households. I also support Plaid Cymru's amendment 4, which focuses on our commitment to provide support for poorer families. The Welsh Government is providing a total of £244 million through the core settlement to support local authorities in maintaining entitlements; the UK Government abolished that. Please remember that.

Yn Lloegr, ni chyhoeddwyd y trothwy o 2% i gynnal referendwm ar gyfer 2014-15 tan 5 Chwefror, dim ond tair wythnos cyn y terfyn amser ar gyfer gosod praeseptau'r heddlu a dim ond ychydig dros bedair wythnos cyn i'r cynghorau bennu eu cyllidebau. Yng Nghymru, dechreuais ymgysylltu ag arweinwyr cynghorau a chomisiynwyr heddlu a throseddu drwy gyhoeddi'r setliad dros dro yng nghanol mis Hydref, bedwar mis yn gynharach nag yn Lloegr.

Mae dewisiadau ynghylch sut i ddefnyddio unrhyw gyllid canlyniadol a ddaw i Gymru o ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth y DU yn faterion i Weinidogion Cymru. Datganoli ydyw. Mae cyllid o'r fath wedi cael ei fuddsoddi mewn mesurau i ysgogi'r economi a diogelu swyddi. Mae'r camau hyn yn ategu ein strategaeth economaidd yn y tymor hwy a byddant yn sicrhau manteision mwy cynaliadwy. Mae'n llawer gwell o dan yr amgylchiadau presennol i ddefnyddio'r symiau canlyniadol i fuddsoddi mewn twf.

Yng Nghymru, mae lefel y dreth gyngor yn parhau i fod yn fater i bob awdurdod lleol a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu ei benderfynu. Rhaid iddynt gynnal gwasanaethau cyhoeddus hanfodol tra'n cyfyngu ar y baich ar aelwydydd sydd dan bwysau. Fel y clywsom, penderfyniadau a ddylai gael eu gwneud yn lleol yw'r rhain ac y mae awdurdodau yn atebol i'r etholwyr yn eu cylch. Dyna wir leoliaeth. Nid yw awdurdodau wedi trosglwyddo baich eu pwysau ariannol ar ysgwyddau trigolion, nac ychwaith wedi ymwrthod rhag gwneud penderfyniadau anodd iawn ar ddarpariaeth gwasanaethau.

Yn anochel, mae ffocws ar y cynnydd blynyddol, ond credaf fod hyn yn celu'r darlun llawn. Er gwaethaf y cynnydd, ers y ffaiht y bydd biliau yn dal i fod tua £190 yn is nag yn Lloegr ar gyfartaledd yn 2014-15. Dros y degawd diwethaf, mae lefelau'r dreth gyngor yng Nghymru wedi bod yn gyson is na'r rhai yn yr Alban a dim ond yn ddiweddar, ar ôl blynyddoedd o rewi'r dreth gyngor yn yr Alban, yr ydym wedi gweld y dreth gyngor yno ar lefelau tebyg i'r rhai yng Nghymru.

Gan droi at y gwelliannau, cefnogaf welliant 1 Plaid Cymru, gan fy mod bob amser wedi cydnabod y sefyllfa ariannol anodd a wynebir gan awdurdodau lleol. Rwy'n barod i gefnogi gwelliannau 2 a 3 gan Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, sy'n cydnabod mai dyletswydd ddemocrataidd cynghorau a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yw pennu'r dreth gyngor, er fy mod wedi eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i ystyried y baich ariannol ar aelwydydd sydd o dan bwysau. Cefnogaf hefyd welliant 4 Plaid Cymru, sy'n canolbwyntio ar ein hymrwymiad i ddarparu cymorth i deuluoedd tlotach. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyfanswm o £244 miliwn drwy'r setliad creiddiol i helpu awdurdodau lleol i gadw hawliau; diddymodd Llywodraeth y DU hynny. Cofiwch hynny os gwelwch yn dda.

I support amendment 5 by the Welsh Liberal Democrats to remove point 4 of the motion. As I have already mentioned, we do not support the use of the referendum scheme in England, as a blanket threshold does not take proper account of local circumstances. I also support amendment 6 by Plaid Cymru to remove point 5 of the motion, as the average council tax bill in Wales remains far lower than those across the border in England. Finally, I support amendment 7 to increase council tax on long-term empty homes, which will encourage the owners of long-term empty properties to bring them back into use through sale or rent, and I am working closely with my colleague Carl Sargeant, the Minister for Housing and Regeneration.

Therefore, in conclusion, I call on the Assembly to agree the motion as amended.

Cefnogaf welliant 5 gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru i gael gwared ar bwynt 4 y cynnig. Fel y soniais eisoes, nid ydym yn cefnogi'r defnydd o'r cynllun refferendwm yn Lloegr, gan nad yw trothwy cyffredinol yn rhoi ystyriaeth briodol i amgylchiadau lleol. Cefnogaf hefyd welliant 6 gan Blaid Cymru i gael gwared ar bwynt 5 y cynnig, gan fod biliau treth gyngor cyfartalog yng Nghymru yn parhau i fod yn llawer is na'r rhai dros y ffin yn Lloegr. Yn olaf, cefnogaf welliant 7 i gynyddu'r dreth gyngor ar dai gwag hirdymor, a fydd yn annog perchnogion eiddo gwag hirdymor i'w defnyddio unwaith eto drwy eu gwerthu neu eu gosod ar rent, ac rwy'n gweithio'n agos gyda fy nghyd-Weinidog Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio.

Felly, i gloi, galwaf ar y Cynulliad i gytuno ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

17:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Suzy Davies i ymateb i'r ddatl.

I call Suzy Davies to reply to the debate.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:09 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank everyone who has contributed today.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu heddiw.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Rwy'n gwybod bod Rhodri Glyn eisiau ymateb gennyf, felly rwy'n mynd i ddechrau gydag ef.

I know that Rhodri Glyn wants a response from me, so I will start with him.

Let us be clear: local authorities must be free to set their own council tax but they must also justify their decisions, not just in terms of party political argument, but in an actual explanation of how they have arrived at those decisions, so that people can see for themselves how difficult decisions can be. That is what local referenda can do—they force that explanation. Peter Black, it is very difficult to hold local authorities to account when decisions are made behind closed doors in cabinet offices and then whipped through the main council chamber. We heard in questions to the Minister for Local Government and Government Business that this Government—

Gadewch inni fod yn glir: rhaid i awdurdodau lleol gael y rhyddid i bennu eu treth gyngor eu hunain ond rhaid iddynt hefyd gyfiawnhau eu penderfyniadau, nid yn unig o ran dadleuon plaid wleidyddol, ond drwy esboniad gwirioneddol o'r ffordd y maent wedi gwneud y penderfyniadau hynny, fel y gall pobl weld drostynt hwy eu hunain pa mor anodd yw penderfyniadau o bosibl. Dyna'r hyn y gall refferenda lleol ei wneud—maent yn eu gorfodi i roi'r esboniad hwnnw. Peter Black, mae'n anodd iawn dwyn awdurdodau lleol i gyfrif pan fydd penderfyniadau yn cael eu gwneud y tu ôl i ddrysau caeedig mewn swyddfeydd cabinet ac yna eu chwipio drwy brif siambr y cyngor. Clywsom mewn cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth fod y Llywodraeth hon—

17:10 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking the intervention. Cabinets are required to meet in public.

Diolch ichi am dderbyn yr ymyriad. Mae'n ofynnol i Gabinetau gyfarfod yn gyhoeddus.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:10 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you know all our local authorities? Never mind, thank you for the clarification.

A ydych yn gyfarwydd â phob un o'n awdurdodau lleol? Na phoener, diolch ichi am yr eglurhad.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

We heard in questions to the Minister for Local Government and Government Business that this Government has given over £1 million to help councils communicate with their local taxpayers. It is amazing that it has managed to find that money even though it cannot give £38.9 million to those councils to help them reduce their council tax. Even so, I am yet to hear from any of my constituents that they feel better informed about how council cabinets and the Welsh Government choose to spend the money available to them. It seems to me, anyway, that council cabinets in my region are more than happy to let residents believe that they will freeze council tax in a local authority election year to get their vote, before going straight to their pay packets once they have it—that is especially in the First Minister's constituency, which has the highest council tax rise in Wales and, presumably, across the UK.

We all regret that such low value is placed on politicians and their work. It can only help address that if all executive bodies of government explain decisions clearly and encourage interest from their residents. However, they are only likely to succeed in this if they move on from the unscrutinised press release, the labyrinthine website and the opaque financial packages given to some of our senior officers.

We have heard clearly today that Wales will face rises of an average of about 4%, whereas in England, even taking into account Ann Jones's point, it is less than 1%. I, for one, have confidence in the figures that we have had from the Assembly's Research Service. That will have much to do with the UK Government's decision to allocate money to freeze council tax, and perhaps it is something to do with the fact that in England there are more Conservative, efficient councils. Of course, as Mark Isherwood said, Labour councils are choosing to use their council tax freeze money for exactly that purpose too. Certainly, those Members who wish to see Wales have greater parity with Scotland might ask themselves why they are not urging this Government to do as is done in Scotland, which is to freeze council tax. We spend a higher proportion of our average wage in Wales on council tax than they do in England and Scotland. People in Scotland can spend the money that they keep on spending in their local high streets, towards their bus fares to work, towards their children's school trips, perhaps even their school meals, even their petrol—even though that is a bit cheaper under the UK Chancellor. For some, just keeping a modest amount within the family budget would be more useful than some vague reassurance from Government that they have not had help with their council tax because the money has gone into some centralised stimulation package. It is not the school psychologists, Mike, and it is not the school transport, that is getting that money. What they do not see, what they do not know about, particularly, makes it much more difficult for them to evaluate.

Just to finish, Mark Isherwood raised co-production and how a genuinely equally balanced partnership requires mutual respect or, certainly, respect, to work. That respect extends to the council tax payers too—no taxation without explanation.

Clywsom mewn cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth fod y Llywodraeth hon wedi rhoi dros £1 filiwn i helpu cyngorau i gyfathrebu â'u trethdalwyr lleol. Mae'n anhygoel ei bod wedi llwyddo i ddod o hyd i'r arian hwnnw er na all roi £38.9 miliwn i'r cyngorau hynny i'w helpu i leihau eu treth gyngor. Er hynny, nid wyf wedi clywed eto gan unrhyw un o'm hetholwyr eu bod yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth well ynghylch sut y mae cabinetau cyngorau a Llywodraeth Cymru yn dewis gwario'r arian sydd ar gael iddynt. Ymddengys i mi, beth bynnag, fod cabinetau cyngorau yn fy rhanbarth yn fwy na pharod i adael i drigolion gredu y byddant yn rhewi'r dreth gyngor yn ystod blwyddyn etholiad awdurdod lleol er mwyn cael eu pleidlais, cyn mynd yn syth at eu cyflog eu hunain unwaith y byddant wedi ei chael— mae hynny'n arbennig o wir yn etholaeth y Prif Weinidog, sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn y dreth gyngor yng Nghymru ac, yn ôl pob tebyg, yn y DU.

Rydym i gyd yn gresynu at y ffaith y rhoddir cyn lleied o werth ar wleidyddion a'u gwaith. Ni allai ond helpu i fynd i'r afael â hynny pe bai pob corff gweithredol mewn llywodraeth yn esbonio penderfyniadau'n glir, ac yn ennyn diddordeb eu trigolion. Fodd bynnag, dim ond os symudant oddi wrth y datganiad i'r wasg nad oes neb yn cael craffu arno, y wefan ddyrys a'r pecynnau ariannol annelwig a roddir i rai o'n huwch swyddogion y maent yn debygol o lwyddo i wneud hyn.

Clywsom yn glir heddiw y bydd Cymru yn wynebu cynnydd o tua 4% ar gyfartaledd, tra yn Lloegr, hyd yn oed ar ôl ystyried pwynt Ann Jones, bydd yn llai nag 1%. Mae gennyf i, yn sicr, hyder yn y ffigurau a gawsom gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad. Bydd hynny'n ymwneud i raddau helaeth â phenderfyniad Llywodraeth y DU i ddyrannu arian i rewi'r dreth gyngor, ac efallai ei bod yn ymwneud hefyd â'r ffaith bod mwy o gynghorau Ceidwadol, effeithlon yn Lloegr. Wrth gwrs, fel y dywedodd Mark Isherwood, mae cyngorau Llafur yn dewis defnyddio eu harian ar gyfer rhewi'r dreth gyngor at yr union ddiben hwnnw hefyd. Yn sicr, efallai y dylai'r Aelodau hynny sydd am i Gymru gael mwy o gydraddoldeb â'r Alban ofyn iddynt hwy eu hunain pam nad ydynt yn annog y Llywodraeth hon i weithredu fel y gweithredir yn yr Alban, sef rhewi'r dreth gyngor. Rydym yn gwario cyfran uwch o'n cyflog cyfartalog yng Nghymru ar y dreth gyngor nag y maent yn ei wneud yn Lloegr a'r Alban. Gall pobl yn yr Alban wario'r arian y maent yn ei gadw ar wariant yn y stryd fawr leol, tuag at eu tocynnau bws i'r gwaith, tuag at deithiau ysgol eu plant, efallai hyd yn oed eu prydau ysgol, hyd yn oed eu petrol—er bod hynny ychydig yn rhatach o dan Ganghellor y DU. I rai, byddai dim ond cadw swm bach o arian yng nghyllideb y teulu yn fwy defnyddiol na rhyw sicrwydd amwys gan y Llywodraeth nad ydynt wedi cael help gyda'u treth gyngor am fod yr arian wedi cael ei wario ar ryw becyn ysgogi canolog. Nid y seicolegwyr ysgol, Mike, na chludiant ysgol, sy'n cael yr arian hwnnw. Mae'r hyn nad ydynt yn ei weld, yr hyn nad ydynt yn gwybod amdano, yn arbennig, yn ei gwneud yn llawer anos iddynt ei werthuso.

I gloi, cododd Mark Isherwood gydgynhyrchu a sut y mae partneriaeth wirioneddol gytbwys yn gofyn am barch rhwng pawb neu, yn sicr, parch, er mwyn llwyddo. Mae'r parch hwnnw yn ymestyn i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor hefyd—dim trethiant heb esboniad.

17:13

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion be agreed to. Are there any objections? There is objection. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:14.*

*The Presiding Officer took the Chair at 17:14.*

## Dadl Plaid Cymru: Tlodi ac Iechyd

## Plaid Cymru Debate: Poverty and Health

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Paul Davies, a gwelliant 4 yn enw Aled Roberts*

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Paul Davies, and amendment 4 in the name of Aled Roberts.*

17:14

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Elin Jones to move the motion.

Galwaf ar Elin Jones i gynnis y cynnig.

Cynnig NDM5478 Elin Jones

Motion NDM5478 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r cyfraddau disgwyliad oes is mewn cymunedau o amddifadedd;

1. Notes the lower life expectancy rates in deprived communities;

2. Yn cydnabod rôl deddfwriaeth, trethiant a pholisi cyhoeddus o ran hyrwyddo iechyd da a mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi ac afiechyd; a

2. Recognises the role of legislation, taxation and public policy in promoting good health and tackling the link between poverty and ill-health; and

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi ac afiechyd.

3. Calls on the Welsh Government to take action to break the link between poverty and ill-health.

17:14

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigaf y cynnig.

Plaid Cymru is proposing this motion today so that we can, for a change, debate the causes of ill health in this Chamber rather than our usual habit of debating the treatment of ill health. There is clear evidence that links level of ill health and life expectancy data with areas of economic deprivation. A man in Blaenau Gwent is likely to die, on average, four-and-a-half years earlier than a man living in Monmouthshire, even though they are neighbouring authorities. These figures are likely to mask differences within local authorities, which may well be even starker than that. The Marmot review published in 2010 found that people living in the poorest neighbourhoods in England will, on average, die seven years earlier than people living in the richest neighbourhoods. This is unlikely to be significantly different in Wales. Among men, 58% more manual workers die prematurely from coronary heart disease than non-manual workers, and the percentage is only marginally less for women.

Mae Plaid Cymru yn cynnig y cynnig hwn heddiw er mwyn inni, yn wahanol i'r arfer, drafod achosion salwch yn y Siambr hon yn hytrach na thrafod y ffordd y caiff salwch ei drin. Mae tystiolaeth glir sy'n cysylltu lefelau data ar salwch a disgwyliad oes ag ardaloedd o amddifadedd economaidd. Mae dyn ym Mlaenau Gwent yn debygol o farw, ar gyfartaledd, bedair blynedd a hanner yn gynt na dyn sy'n byw yn Sir Fynwy, er eu bod yn awdurdodau cyfagos. Mae'r ffigurau hyn yn debygol o guddio gwahaniaethau o fewn awdurdodau lleol, a all fod hyd yn oed yn fwy amlwg na hynny. Canfu adolygiad Marmot a gyhoeddwyd yn 2010 y bydd pobl sy'n byw yn y cymdogaethau tlotaf yn Lloegr, ar gyfartaledd, yn marw saith mlynedd yn gynt na phobl sy'n byw yn y cymdogaethau cyfoethocaf. Mae'n anhebygol y bydd hyn yn wahanol iawn yng Nghymru. Ymysg dynion, mae 58% yn fwy o weithwyr â llaw yn marw cyn pryd o glefyd coronaidd y galon na dynion nad ydynt yn weithwyr â llaw, a dim ond ychydig yn is yw'r ganran i fenywod.

The evidence clearly therefore supports the fact that there is a link between poor health and socioeconomic circumstances, both on an area basis and on an individual basis. What, therefore, causes that link? Much of the popular press reporting on ill health and obesity would lead us to believe that it is a matter of lifestyle choices, and that if you are economically poor and living on a housing estate in Merthyr, you are making different lifestyle choices to someone living in a detached house on Roath park, and consequently adversely impacting on your own health. The subtext to that, of course, is that it is your own fault.

The evidence does not automatically back this up. The Welsh health survey is quite revealing on lifestyle choices per socioeconomic group. In that survey in 2012, there is a clear link between smoking and economic class: 14% of managerial and professional people smoke, while 41% of people who have never worked or are long-term unemployed smoke. However, the reverse is true for those who consume too much alcohol: 47% of the managerial and professional class drink more than the recommended maximum daily alcohol intake, while only 29% of the long-term unemployed exceed this limit. Probably all 60 of us are in that managerial and professional class, and therefore 47% of us—one in two of us—drink above the recommended maximum daily alcohol intake, while only 14% of us smoke. From the Welsh health survey also, there is insignificant difference between the socioeconomic groups on physical activity: 28% of the managerial and professional class exercise five times a week, and 25% of the long-term unemployed exercise that much; 55% of the managerial and professional class are obese or overweight, and also 55% of the unemployed.

So, of the lifestyle risk factors for ill health, with the clear exception of smoking, there is a more mixed picture of correlation between socioeconomic group and poor lifestyle choices. There is therefore, obviously, something else at play in causing the link between poor health and areas of disadvantage, and that, of course, is the environmental and economic conditions that prevail for those individuals and communities.

The effects of poor-quality housing on an individual's health, and especially on the health of children, are well documented. Children persistently living in accommodation with inadequate heating and poor conditions are more than twice as likely to suffer from chest and breathing problems such as asthma and bronchitis—conditions that can last lifelong. For the elderly, excess winter deaths are three times higher for those living in the coldest quarter of housing, as compared with those living in the warmest quarter of housing. The quality of housing is therefore directly related to ill health.

Felly, mae'r dystiolaeth yn amlwg yn cefnogi'r ffaith bod cysylltiad rhwng iechyd gwael ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, ar sail ardal ac ar sail unigol. Felly, beth sy'n achosi'r cyswllt hwnnw? Byddai llawer o'r wasg boblogaidd sy'n adrodd ar salwch a gordewdra yn ein hannog i gredu mai mater o ddewisiadau ffordd o fyw ydyw, ac os ydych yn dlawd ac yn byw mewn ystad o dai ym Merthyr, eich bod yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw gwahanol i rywun sy'n byw mewn tŷ ar wahân ger parc y Rhath, ac o ganlyniad bod hyn yn cael effaith andwyol ar eich iechyd eich hun. Yr hyn a awgrymir, wrth gwrs, yw mai chi sydd ar fai.

Nid yw'r dystiolaeth yn cefnogi hyn yn awtomatig. Mae arolwg iechyd Cymru yn dweud llawer wrthym am ddewisiadau ffordd o fyw grwpiau economaidd-gymdeithasol. Yn yr arolwg hwnnw yn 2012, mae cyswllt clir rhwng ysmegu a dosbarth economaidd: mae 14% o reolwyr a gweithwyr proffesiynol yn ysmegu, tra bod 41% o bobl nad ydynt erioed wedi gweithio neu sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir yn ysmegu. Fodd bynnag, mae'r gwrthwyneb yn wir o ran y rhai sy'n yfed gormod o alcohol: mae 47% o reolwyr a gweithwyr proffesiynol yn yfed mwy o alcohol na'r terfyn dyddiol uchaf a argymhellir, ond dim ond 29% o'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir sy'n yfed mwy na'r terfyn hwn. Mae'n debyg bod pob un o'r 60 ohonom yn perthyn i'r dosbarth hwnnw o reolwyr a gweithwyr proffesiynol ac, felly, bod 47% ohonom—un o bob dau ohonom—yn yfed mwy o alcohol na'r terfyn dyddiol uchaf a argymhellir, a dim ond 14% ohonom sy'n ysmegu. Mae arolwg iechyd Cymru hefyd yn dangos nad oes fawr ddim gwahaniaeth rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol o ran gweithgarwch corfforol: mae 28% o reolwyr a gweithwyr proffesiynol yn gwneud ymarfer corff bum gwaith yr wythnos, ac mae 25% o'r rhai sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir yn gwneud yr un faint; mae 55% o'r rhai sy'n perthyn i'r dosbarth o reolwyr a gweithwyr proffesiynol yn ordew neu dros bwysau, a hefyd 55% o'r rhai sy'n ddi-waith.

Felly, o blith y ffactorau risg sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw ar gyfer salwch, ac eithrio ysmegu, ceir darlun mwy cymysg o'r gydberthynas rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol a dewisiadau ffordd o fyw gwael. Mae'n amlwg, felly, bod rhywbeth arall yn achosi'r cyswllt rhwng iechyd gwael ac ardaloedd difreintiedig, sef, wrth gwrs, yr amodau amgylcheddol ac economaidd a wynebir gan yr unigolion a'r cymunedau hynny.

Rhodddwyd cryn sylw i effaith tai o ansawdd gwael ar iechyd unigolyn, ac yn enwedig ar iechyd plant. Mae plant sy'n byw mewn llety ag amodau gwael heb ddigon o wres fwy na dwywaith yn fwy tebygol o ddiodeff problemau gyda'r frest a phroblemau anadlu fel asthma a bronchitis—cyflyrau all bara am oes. O ran yr henoed, mae cyfraddau marwolaethau ychwanegol y gaeaf deirgwaith yn uwch ar gyfer y rhai sy'n byw yn y chwarter oeraf o dai, o gymharu â'r rhai sy'n byw yn y chwarter cynhesaf o dai. Ceir cyswllt uniongyrchol felly rhwng ansawdd tai ac iechyd gwael.

Other environmental factors, such as the green spaces available in communities, are also contributory factors, as are the number of planning approvals for takeaway fast-food establishments, especially near schools. The economic poverty of individuals in dictating the choice of food that is purchased also has a detrimental effect on health. There is evidence from the Centre for Economic and Business Research that the UK's poorest cut down on fruit and vegetables to make ends meet, not as a matter of lifestyle choice, but as a matter of must.

Such environmental and economic factors also correlate with the incidence of poor mental health, not just physical health. In particular, there is a clear correlation between mental health and access to green and open spaces in our communities.

The purpose of this debate today, therefore, is to remind us all, and Welsh Government in particular, that we have instruments at our disposal to break the link between poor health and economic deprivation, and that this is not a matter for individual lifestyle choice only. Yes, we can carry on with the public health messages of 'Don't smoke', 'Drink less', 'Exercise more and eat more fruit and veg', but evidence shows us that the poorest in our society are most resistant to the public health messages on smoking, and that the richest in our society seem most resistant to messages on reducing alcohol consumption. Those public health messages, therefore, need to be more effectively targeted to particular socioeconomic groups.

However, the instruments at the disposal of Government are many and include taxation, legislation and public policy and expenditure. In the absence of taxation powers in this Assembly at this time, I will not focus on that element today, other than to say that, with appropriate powers, the taxation of sugary drinks needs to be considered here in Wales, especially in the context of childhood obesity and the growing dependence on sugar in the diet of our general population.

On legislation, I am pleased that the Welsh Government intends to bring forward a public health Bill in the next few months. The immediate piece of legislation that Plaid Cymru would like to see is one banning smoking in cars with children. The Welsh Government is being given regulation-making powers to ban such smoking, but from the First Minister's responses in First Minister's questions yesterday, it is by no means clear that the Welsh Government intends to move quickly to legislate on this. In fact, we may have another one of those situations where the Welsh Government brags about being the first to suggest it, but is the last to do it. I hope that, today, the Minister can give us a clear commitment and a timetable outlining how and when the Government intends to bring forward regulations to ban smoking in cars with children.

Mae ffactorau amgylcheddol eraill, megis y manau gwyrdd sydd ar gael mewn cymunedau, hefyd yn ffactorau cyfranogol, felly hefyd nifer y cymeradwyaethau cynllunio ar gyfer siopau bwyd brys, yn enwedig ger ysgolion. Mae tlodi economaidd unigolion o ran pennu'r math o fwyd a brynir hefyd yn cael effaith andwyol ar iechyd. Ceir tystiolaeth gan y Ganolfan Ymchwil Economaidd a Busnes bod y bobl fwyaf tlawd yn y DU yn prynu llai o ffrwythau a llysiau er mwyn cael deupen llinyn ynghyd, nid fel dewis ffordd o fyw, ond am fod yn rhaid iddynt wneud hynny.

Mae ffactorau amgylcheddol ac economaidd o'r fath hefyd yn cyberthyn â nifer yr achosion o iechyd meddwl gwael, nid iechyd corfforol yn unig. Yn benodol, ceir cyberthynas glir rhwng iechyd meddwl a'r gallu i gael gafael ar fannau gwyrdd a manau agored yn ein cymunedau.

Diben y ddadl hon heddiw, felly, yw atgoffa pob un ohonom, a Llywodraeth Cymru yn benodol, bod gennym yr adnoddau i dorri'r cyswllt rhwng iechyd gwael ac amddifadedd economaidd, a bod hyn yn fwy na mater o ddewis ffordd o fyw unigol. Yn wir, gallwn barhau â'r negeseuon iechyd cyhoeddus 'Peidiwch ag ysmegu', 'Yfwch lai', 'Gwnewch fwy o ymarfer corff a bwytwch fwy o ffrwythau a llysiau', ond dengys tystiolaeth mai'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas sydd fwyaf amharod i dderbyn negeseuon iechyd cyhoeddus ar ysmegu, ac mai'r rhai cyfoethocaf yn ein cymdeithas sydd fwyaf amharod i dderbyn negeseuon ar leihau lefelau alcohol. Felly, mae angen i'r negeseuon iechyd cyhoeddus hynny gael eu targedu'n fwy effeithiol at grwpiau economaidd-gymdeithasol penodol.

Fodd bynnag, mae llw o adnoddau ar gael i'r Llywodraeth gan gynnwys trethiant, deddfwriaeth a pholisi a gwariant cyhoeddus. Gan nad oes gan y Cynulliad hwn bwerau trethu ar hyn o bryd, nid wyf am ganolbwyntio ar yr elfen honno heddiw, heblaw am ddweud bod angen, gyda'r pwerau priodol, ystyried trethu diodydd llawn siwgr yma yng Nghymru, yn enwedig yng nghyd agustun gordewdra ymhlith plant a'r ddibyniaeth gynyddol ar siwgr yn neiet ein poblogaeth yn gyffredinol.

O ran deddfwriaeth, rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil iechyd y cyhoedd yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Y darn cyntaf o ddeddfwriaeth yr hoffai Plaid Cymru ei weld yw un sy'n gwahardd ysmegu mewn ceir gyda phlant. Caiff Llywodraeth Cymru bwerau llunio rheoliadau i wahardd ysmegu o'r fath, ond o gofio ymatebion y Prif Weinidog yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog ddoe, nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu symud yn gyflym i ddeddfu ar hyn. Yn wir, efallai y bydd gennym un o'r sefyllfaoedd hynny eto lle mae Llywodraeth Cymru yn brolio mai hi yw'r cyntaf i awgrymu rhywbeth, ond yr olaf i'w wneud. Gobeithio, heddiw, y gall y Gweinidog roi ymrwymiad clir inni ac amserlen yn nodi sut a phryd y mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno rheoliadau i wahardd ysmegu mewn ceir gyda phlant.

For children also, we need to press the Westminster Government to ban the advertising of sugary and unhealthy food and drink during children's hours of watching television and in any advertising targeted at children. Food and drink manufacturers target children with their advertising, knowing how persuasive children can be on their parents, grandparents and aunts. This has to stop. A lot of products are currently banned from being advertised to children and unhealthy food and drink should be added to that list. I believe that the Westminster Government should also be far more prescriptive with the food and drink industry on the percentage content of salt, sugar and fats in foodstuffs and how all of that is featured more prominently on food and drink labelling. I was pleased to hear the Minister for health, this morning in the Health and Social Care Committee, telling us of the representations that he is making to the Westminster Government on this.

The most important intervention of all is in general public policy and expenditure. Better housing is needed, as are more—not less—green spaces, healthier school meals, no planning approvals for fast-food outlets around schools and good pedestrian and cycling routes in town and country environments. These are all important, but public policy to take people out of poverty will be the most effective in improving our nation's public health. Therein lies another debate for another day, but economic prosperity across all communities is wholly necessary to improve our nation's health.

To conclude, all individuals—all of us—have a responsibility to make wise decisions regarding the choices that we make that affect our own personal health. However, that should not stop Government from taking action to collectively enhance the health of individuals and communities and to use all levers at its disposal to meet that end.

O ran plant hefyd, mae angen inni bwysu ar Lywodraeth San Steffan i wahardd hysbysebion bwyd a diod llawn siwgr ac afiach yn ystod yr oriau pan fydd plant yn gwyllo'r teledu ac mewn unrhyw hysbyseb a anelir at blant. Mae gweithgynhyrchwyr bwyd a diod yn targedu plant gyda'u hysbysebion, gan wybod pa mor ddarbwyllo y gallant fod gyda'u rhieni, eu neiniau a'u teidiau a'u modrybedd. Rhaid rhoi diwedd ar hyn. Mae llawer o gynhyrchion eisoes wedi'u gwahardd rhag cael eu hysbysebu i blant a dylid ychwanegu bwyd a diod afiach at y rhestr honno. Credaf y dylai Llywodraeth San Steffan hefyd fod yn llawer mwy rhagnodol gyda'r diwydiant bwyd a diod o ran y canrannau o halen, siwgr a braster a geir mewn bwydydd ac o ran dangos y canrannau hynny i gyd yn fwy amlwg ar labeli bwyd a diod. Roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog Iechyd, y bore yma yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn dweud wrthym am y sylwadau y mae'n eu gwneud i Lywodraeth San Steffan yn hyn o beth.

Yr ymyriad pwysicaf oll yn gyffredinol yw polisi a gwariant cyhoeddus. Mae angen tai gwell, ac yn yr un modd fwy—nid llai—o fannau gwyrdd, prydau ysgol iachach, dim cymeradwyaethau cynllunio ar gyfer siopau bwyd brys ger ysgolion a llwybrau cerdded a seiclo da mewn amgylcheddau trefol a gwledig. Mae'r rhain i gyd yn bwysig, ond polisi cyhoeddus i godi pobl allan o dlodi fydd yr ymyriad mwyaf effeithiol i wella iechyd cyhoeddus ein cenedl. Mae hon yn ddadl arall ar gyfer diwrnod arall, ond mae ffyniant economaidd ar draws pob cymuned yn gwbl angenrheidiol i wella iechyd ein cenedl.

I gloi, mae gan bob unigolyn—pob un ohonom—gyfrifoldeb i wneud penderfyniadau doeth ynghylch y dewisiadau a wnawn sy'n effeithio ar ein hiechyd personol ein hunain. Fodd bynnag, ni ddylai hynny atal y Llywodraeth rhag cymryd camau i wella iechyd unigolion a chymunedau ar y cyd ac i ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddi i gyrraedd y nod hwnnw.

17:23

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I have selected the four amendments to the motion. I call on Darren Millar to move amendments 1, 2 and 3, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu bod y toriadau termau real i gyllideb GIG Cymru yn peryglu gwell canlyniadau iechyd y cyhoedd, yn enwedig i'r rheini sy'n byw mewn cymunedau o amddifadedd.*

*Regrets that the real term budget cuts for the Welsh NHS pose a risk to improved public health outcomes, particularly for those in deprived communities.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella'r ffordd y mae'n cynllunio ac yn gwerthuso cynlluniau iechyd y cyhoedd er mwyn cyflawni gwell gwasanaethau a gwasanaethau mwy effeithiol ar gyfer cymunedau o amddifadedd.*

*Calls upon the Welsh Government to improve the way in which it designs and evaluates public health initiatives to deliver better and more efficient services for deprived communities.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*O gofio'r cysylltiad rhwng tlodi ac afiechyd, yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â thlodi, gan gynnwys cynyddu'r isafswm cyflog cenedlaethol a'r manteision treth i'r rheini ar incymau isel.*

*Add as new point at end of motion:*

*Given the link between poverty and ill-health, welcomes the action being taken by the UK Government to tackle poverty, including increasing the national minimum wage and tax breaks for those on low incomes.*

17:23

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 2 and 3.

I welcome the opportunity to have this debate on the topic of public health. I think that it is something that we do not visit often enough in this Chamber and I very much welcome the fact that Plaid Cymru has tabled this debate today. Our amendments seek to focus on some of the failures of the Welsh Government to address public health problems in the past, and to welcome some of the action that has been taken to alleviate poverty by the UK Government.

I will turn to amendment 1. We believe that the record-breaking cuts to the national health service, which are being imposed by Welsh Labour here in Wales, are having an impact on public health outcomes, particularly for those in deprived communities.

*Rhodri Glyn Thomas a Joyce Watson a gododd—*

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When you cut NHS budgets by record amounts—and let us not forget that we are talking, in real terms, about more than £600 million-worth of cuts to the health budget in Wales—that is clearly going to deliver less cash to be able to focus on the issue of public health outcomes. I think that it is very disappointing that, whenever we look at public health outcomes, the excuse is given that Wales is a more impoverished part of the UK and that, therefore, we should expect poorer public health outcomes. I do not accept that poverty can ever be an excuse for poorer public health outcomes, and we really do need to get to grips with these problems in future. I will take the intervention from Rhodri Glyn. I will come to you later, Joyce.

Cynigiau welliannau 1, 2 a 3.

Croesawaf y cyfle i gael y ddatl hon ar iechyd y cyhoedd. Credaf nad yw'n rhywbeth yr ydym yn ei drafod ddigon yn y Siambr hon a chroesawaf yn fawr y ffaith bod Plaid Cymru wedi cyflwyno'r ddatl hon heddiw. Nod ein gwelliannau yw ceisio canolbwyntio ar rai o fethiannau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phroblemau ym maes iechyd y cyhoedd yn y gorffennol, ac i groesawu rhai o'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i leihau tlodi.

Trof at welliant 1. Credwn fod y toriadau mwyaf erioed i'r gwasanaeth iechyd gwladol, a wneir gan Lafur Cymru yma yng Nghymru, yn cael effaith ar ganlyniadau iechyd y cyhoedd, yn enwedig i'r rhai mewn cymunedau difreintiedig.

*Rhodri Glyn Thomas and Joyce Watson rose—*

Pan fyddwch yn torri cyllidebau'r GIG i raddau nas gwelwyd erioed o'r blaen—a chofiwch ein bod yn sôn, mewn termau real, am werth mwy na £600 miliwn o doriadau i'r gyllideb iechyd yng Nghymru—sy'n amlwg yn mynd i olygu bod llai o arian ar gael i ganolbwyntio ar ganlyniadau iechyd y cyhoedd. Credaf ei bod yn siomedig iawn mai'r esgus a roddir, pryd bynnag y byddwn yn ystyried canlyniadau iechyd y cyhoedd, yw bod Cymru'n rhan fwy tlawd o'r DU ac, felly, y dylem ddisgwyl canlyniadau gwaeth o ran iechyd y cyhoedd. Ni dderbyniaf y gall tlodi fyth fod yn esgus dros ganlyniadau iechyd y cyhoedd gwaeth, ac mae gwir angen inni fynd i'r afael â'r problemau hyn yn y dyfodol. Cymeraf yr ymyriad gan Rhodri Glyn. Dof atoch chi maes o law, Joyce.

17:25

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Darren, will you accept that you also have to invest in preventative measures to ensure that people do not end up in hospital and that we do not need to spend money on treating those people? Do you accept that, if you invest in those preventative measures, as Elin Jones suggested in the introduction to this debate, you can lessen the amount of money that you need to spend on actually curing people?

Darren, a dderbyniwch fod yn rhaid ichi hefyd fuddsoddi mewn mesurau ataliol mwyn sicrhau nad yw pobl yn gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty ac nad oes angen inni wario arian ar drin y bobl hynny? A dderbyniwch, os byddwch yn buddsoddi yn y mesurau ataliol hynny, fel yr awgrymodd Elin Jones yn y cyflwyniad i'r ddatl hon, y gallwch leihau faint o arian sydd angen ichi ei wario ar wella pobl mewn gwirionedd?

17:25

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely. I do accept that and I was going to come on to some of those preventative measures a little later in my speech. I am happy to take the other intervention that was requested as well.

Gwnaf yn wir. Derbyniaf hynny, ac roeddwn yn bwriadu ymdrin â rhai o'r mesurau ataliol hynny yn nes ymlaen yn fy araith. Rwy'n barod i dderbyn yr ymyriad arall y gofynnwyd amdano hefyd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:25

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much. I launched a report last week on women in work in Ystradgynlais. One of the key findings of that report was the number of mental health problems caused by people having their benefits cut. These were real-life stories. Will you accept that that is causing a problem with people's health as well?

Diolch yn fawr iawn. Lansiais adroddiad yr wythnos diwethaf ar ferched mewn gwaith yn Ystradgynlais. Un o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad hwnnw oedd nifer y problemau iechyd meddwl y mae pobl yn eu hwynebu yn sgil torri eu budd-daliadau. Roedd y rhain yn straeon bywyd go iawn. A dderbyniwch fod hynny hefyd yn achosi problem gydag iechyd pobl?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:26

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Financial hardship, of course, has an impact on people's health, which is why it is so disappointing that there are more children living in poverty, as a result of former UK Labour Governments and this Labour Government here in Wales, than ever before. Indeed, we also have to remember that there can be lots of anguish caused for people, which can affect their mental health, as a result of the poor performance of the national health service here in Wales, with people having to wait a long time for access to treatment. I am sure that that is a point that you would accept is a problem.

Mae caledi ariannol, wrth gwrs, yn cael effaith ar iechyd, a dyna pam y mae mor siomedig bod mwy o blant nag erioed o'r blaen yn byw mewn tlodi, o ganlyniad i gyn Lywodraethau Llafur y DU a'r Lywodraeth Lafur hon yma yng Nghymru. Yn wir, rhaid inni hefyd gofio y gall pobl wynebu llawer o loes, a all effeithio ar eu hiechyd meddwl, yn sgil perfformiad gwael y gwasanaeth iechyd gwladol yma yng Nghymru, gyda phobl yn gorfod aros am amser hir i gael triniaeth. Rwy'n siŵr y byddech yn derbyn bod hynny'n broblem.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Turning to our second amendment, amendment 2, which calls upon the Welsh Government to improve the way in which it designs and evaluates public health initiatives, one of the starkest reports I have ever read in relation to the national health service here in Wales and public health was the Public Health Wales report that was published last September. It looked at a number of public health programmes and projects in Wales and determined that 10 of them were completely wasting money, and that there were no positive outcomes at all that could be taken from them. One example is the mobile cooking bus. Some £655,000 has been spent on the project every single year and it was not deemed to be having a single positive outcome in terms of the public health agenda. I think that it is therefore necessary for there to be better business planning arrangements for those sorts of interventions in future and, indeed, better opportunities to evaluate them much more quickly than has been the case, particularly with that cooking bus scheme. So, ineffective public health programmes do not help the situation in terms of public health.

Gan droi at ein hail welliant, sef gwelliant 2, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i wella'r ffordd y mae'n cynllunio ac yn gwerthuso mentrau iechyd y cyhoedd, un o'r adroddiadau mwyaf trawiadol yr wyf erioed wedi ei ddarllen mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd gwladol yma yng Nghymru ac iechyd y cyhoedd oedd adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd fis Medi diwethaf. Roedd yn ystyried nifer o raglenni a phrosiectau iechyd y cyhoedd yng Nghymru ac yn benderfynol bod 10 ohonynt yn gwastraffu arian yn llwyr, ac nad oeddent yn arwain at unrhyw ganlyniadau cadarnhaol i bobl. Un enghraifft yw'r bws coginio symudol. Gwariwyd £655,000 ar y prosiect bob blwyddyn ac nid ystyriwyd ei fod yn cael unrhyw ganlyniadau cadarnhaol o ran yr agenda iechyd y cyhoedd. Credaf, felly, fod angen trefniadau cynllunio busnes gwell ar gyfer y mathau hynny o ymyriadau yn y dyfodol ac, yn wir, gyfleoedd gwell i'w gwerthuso'n llawer cynt nag sydd wedi digwydd, yn enwedig o ran y cynllun bws coginio hwnnw. Felly, nid yw rhaglenni iechyd y cyhoedd aneffeithiol yn helpu'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd.

The important point that we make in our third amendment, amendment 3, is that, yes, there is a link between poverty and ill health, absolutely, but that the UK Government is taking some significant action to tackle this sort of poverty by measures such as taking people completely out of tax. For those on low incomes, many of them in Wales will not be paying tax at all as a result of the extension of the tax-free allowance. Some 155,000 people have been taken out of tax altogether as a result of the work of the UK Government. Indeed, the increase in the national minimum wage will help to lift people out of poverty as well.

Y pwynt pwysig yr ydym yn ei wneud yn ein trydydd gwelliant, sef gwelliant 3, yw bod cysylltiad gwirioneddol rhwng tlodi a salwch, ond bod Llywodraeth y DU yn cymryd rhai camau sylweddol i fynd i'r afael â'r math hwn o dlodi drwy fesurau megis dileu treth yn gyfan gwbl i bobl. I'r rhai ar incwm isel, ni fydd llawer ohonynt yng Nghymru yn talu treth o gwbl o ganlyniad i ymestyn y lwfans di-dreth. Mae tua 155,000 bellach yn rhydd o dreth yn gyfan gwbl o ganlyniad i waith Llywodraeth y DU. Yn wir, bydd y cynnydd yn yr isafswm cyflog cenedlaethol hefy yn helpu i godi pobl allan o dlodi.

*Julie Morgan a gododd—*

*Julie Morgan rose—*

17:28	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I note that you have risen to welcome those changes that the UK Government has introduced, but, unfortunately, I am out of time to take your intervention.</p>	<p>Sylwaf eich bod wedi codi i groesawu'r newidiadau hynny a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, ond, yn anffodus, nid oes gennyf amser i dderbyn eich ymyriad.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:28	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call Peter Black to move amendment 4, tabled in the name of Aled Roberts.</p> <p><i>Gwelliant 4—Aled Roberts</i></p> <p><i>Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</i></p> <p><i>Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r bil iechyd y cyhoedd arfaethedig, ac i egluro sut y bydd y ddeddfwriaeth hon yn mynd i'r afael â'r lefelau presennol o dlodi ac afiechyd yng Nghymru.</i></p>	<p>Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.</p> <p><i>Amendment 4—Aled Roberts</i></p> <p><i>Add as new point at end of motion:</i></p> <p><i>Calls on the Welsh Government to outline the timetable for the introduction of the proposed public health bill, and to explain how this legislation would address the current levels of poverty and ill-health in Wales.</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
17:28	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I move amendment 4.</p> <p>Listening to Elin Jones moving this motion, as a non-drinker and non-smoker, I was starting to feel quite virtuous until she pointed out that I have to exercise as well. [Laughter.] So, clearly, I am not quite there in terms of being fully fit in terms of the public health agenda.</p> <p>As I am standing in for Kirsty in this debate, I want to start by referring to what she has said in a previous debate, which is that poor services do poor people down. If you fail to crack down on poor standards in schools, it is not the well-off who suffer; they can play the system, move house or go private—they have options to decide what they need to do to get their kids the best education. It is the poorest in our society—the people Labour professes to care about—who put up with poor services. In terms of the delivery of services by this Government, in education and health, the failure of those services to deliver what is expected of them has contributed to the problems that many people face in Wales today.</p> <p>Of course, there is a very clear link between deprivation and poor health. Poor housing is part of that equation. I think that the failure to reach the Welsh housing quality standard by the target date—we now have a new date of 2020—has contributed to that. I hope that the housing Bill that is coming forward at the moment in terms of the private rented sector will make a difference. However, I think that there will need to be amendments to that Bill to make sure that, as well as registering and licensing privately rented properties, you raise the quality of those properties so that people are able to live in houses that are fit for purpose.</p>	<p>Cynigiaf welliant 4.</p> <p>Wrth wrando ar Elin Jones yn cynnig y cynnig hwn, fel rhywun nad yw'n yfed nac yn ysmegu, roeddwn yn dechrau teimlo'n eithaf da nes iddi dynnu sylw at y ffaith bod yn rhaid imi wneud ymarfer corff hefyd. [Chwerthin.] Felly, yn amlwg, nid wyf yn gwbl ffit eto o safbwynt yr agenda iechyd cyhoeddus.</p> <p>Gan fy mod yn siarad yn lle Kirsty yn y ddadl hon, hoffwn ddechrau drwy gyfeirio at yr hyn a ddywedodd mewn dadl flaenorol, sef bod gwasanaethau gwael yn gwneud cam â phobl dlawd. Os na lwyddwch i fynd i'r afael â safonau gwael mewn ysgolion, nid y bobl gefnog sy'n dioddef; gallant chwarae'r system, symud tŷ neu fynd yn breifat—mae ganddynt opsiynau i benderfynu beth sydd angen iddynt ei wneud i sicrhau bod eu plant yn cael yr addysg orau. Y bobl dlotaf yn ein cymdeithas—y bobl y mae'r blaid Lafur yn honni ei bod yn poeni amadnynt—sy'n gorfod dioddef gwasanaethau gwael. O ran y gwasanaethau a ddarperir gan y Llywodraeth hon, ym maes addysg ac iechyd, mae'r ffaith bod y gwasanaethau hynny wedi methu â chyflawni'r hyn a ddisgwylir ganddynt wedi cyfrannu at y problemau y mae llawer o bobl yn eu hwynebu yng Nghymru heddiw.</p> <p>Wrth gwrs, mae cysylltiad clir iawn rhwng amddifadedd ac iechyd gwael. Mae tai gwael yn rhan o hynny. Credaf fod y ffaith na lwyddwyd i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru erbyn y dyddiad targed—mae gennym bellach ddyddiad newydd, sef 2020—wedi cyfrannu at hynny. Gobeithio y bydd y Bil tai sy'n cael ei lunio ar hyn o bryd o ran y sector rhentu preifat yn gwneud gwahaniaeth. Fodd bynnag, credaf y bydd angen gwneud gwelliannau i'r Bil hwnnw er mwyn sicrhau, yn ogystal â chofrestru a thrwyddedu eiddo rhent preifat, y byddwch yn gwella ansawdd yr eiddo hynny fel bod pobl yn gallu byw mewn tai sy'n addas at y diben.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

Long-term unemployment can lead to poor health, as can poor education and poor diet. Of course, the health outcomes of people who are long-term unemployed and who do have poor education and a poor diet are very poor indeed. Clearly, there is room for interventions by Government to try to put all that right.

Clearly, the extent to which Government can intervene is somewhat limited, because it seems to me that you can do something about a lot of this, but, ultimately, the best way to deal with poor health and low life expectancy is to create jobs, and better living standards as a result. I know that the UK Government has done something in terms of those who are low-paid. The changes to the tax system, for example, have taken 130,000 people in Wales out of tax altogether and, as of next week, we will see a £700 tax cut for 1.1 million people in Wales since 2010. So, things are being done there. However, if you do not create jobs, you will not improve living standards and you will not take people out of poor health. That is something that I think both the Welsh Government and the UK Government need to take to heart in dealing with this.

*Julie Morgan a gododd—*

17:31 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you want to intervene, Julie?

17:31 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for giving way. I was interested in your saying that all of these people have been taken out of tax. Are they not still paying VAT? Are some of them not still subject to the bedroom tax?

17:31 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The bedroom tax is not a tax, of course. [Interruption.] No, it is not a tax. The bedroom tax is not a tax. It is a change to housing benefit and not all of those people living in social housing will be affected by it. Some people living in private sector housing will be affected by Labour's version of it, which was brought in in 2008, but I think that, ultimately, many people are not going to be paying tax. They will be paying VAT and national insurance, absolutely, but they will not be paying income tax any more if they are earning below £10,000. That is a crucial reform, which I think is very important. [Interruption.] It does not deliver all things, but it is an improvement on their particular circumstances.

The public health Bill will be important. I think that public health and the work that public health bodies do in terms of targeting services based on good, intelligent information will certainly make a difference in informing Government policy and Government expenditure.

The British Medical Association, for example, has described the public health (Wales) Bill as

'a "once in a generation" opportunity to challenge the pattern of poor health and health inequalities that has been the hallmark of life in Wales for too long.'

Gall diweithdra hirdymor arwain at iechyd gwael, fel y gall addysg a deiet gwael. Wrth gwrs, mae carlyniadau iechyd pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir ac sydd ag addysg a deiet gwael yn wael iawn yn wir. Yn amlwg, mae lle i'r Llywodraeth ymyrryd er mwyn ceisio unioni hynny.

Yn amlwg, mae i ba raddau y gall y Llywodraeth ymyrryd braidd yn gyfyngedig, oherwydd ymddengys imi y gallwch wneud rhywbeth am lawer o hyn, ond, yn y pen draw, y ffordd orau o ddelio ag iechyd gwael a disgwyliad oes isel yw drwy greu swyddi, sy'n arwain at safonau byw gwell. Gwn fod Llywodraeth y DU wedi gwneud rhywbeth o ran y rhai sydd ar gyflog isel. Mae'r newidiadau i'r system dreth, er enghraifft, wedi rhyddhau 130,000 o bobl yng Nghymru o dreth yn gyfan gwbl ac, o'r wythnos nesaf ymlaen, cyflwynir toriad treth o £700 ar gyfer 1.1 miliwn o bobl yng Nghymru ers 2010. Felly, mae pethau'n cael eu gwneud yn hynny o beth. Fodd bynnag, os na fyddwch yn creu swyddi, ni fyddwch yn gwella safonau byw ac ni fyddwch yn codi pobl allan o iechyd gwael. Credaf fod hynny'n rhywbeth y mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ei ystyried o ddirif wrth ddelio â hyn.

*Julie Morgan rose—*

Hoffech chi ymyrryd, Julie?

Diolch i'r Aelod am ildio. Mae'n ddi-ddorol eich bod yn dweud bod yr holl bobl hyn wedi cael eu rhyddhau o dreth. Onid ydynt yn parhau i dalu TAW? Onid y rhai ohonynt yn parhau i dalu'r dreth ystafell wely?

Nid treth yw'r dreth ystafell wely, wrth gwrs. [Torri ar draws.] Na, nid treth ydyw. Nid treth yw'r dreth ystafell wely. Newid i fudd-dal tai ydyw ac ni fydd yn effeithio ar bawb sy'n byw mewn tai cymdeithasol. Bydd fersiwn Llafur ohoni, a gyflwynwyd yn 2008, yn effeithio ar rai pobl sy'n byw mewn tai sector preifat, ond credaf yn y pen draw, na fydd llawer o bobl yn talu treth. Byddant yn talu TAW ac yswiriant gwladol, wrth gwrs, ond ni fyddant yn talu treth incwm mwyach os ydynt yn ennill llai na £10,000. Mae hynny'n ddiwygiad hollbwysig. [Torri ar draws.] Nid yw'n cyflawni popeth, ond mae'n welliant ar eu hamgylchiadau penodol.

Bydd y Bil iechyd y cyhoedd yn bwysig. Credaf fod iechyd y cyhoedd a'r gwaith y mae cyrff iechyd cyhoeddus yn ei wneud o ran targedu gwasanaethau yn seiliedig ar wybodaeth dda a deallus yn sicr yn gwneud gwahaniaeth wrth lywio polisi a gwariant y Llywodraeth.

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain, er enghraifft, wedi disgrifio Bil iechyd y cyhoedd (Cymru) fel

cyfle unigryw i herio'r patrwm iechyd gwael ac anghydraddoldebau iechyd a welwyd yng Nghymru ers gormod o amser.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

To an extent, it is right, but, on the other hand, that works only if you put in place other policies to follow the intelligence that public health brings to Government and to the health boards.

What I would like out of this debate is some indication from the Minister as to the timetable and the scope of the public health (Wales) Bill, so that we can understand the impact that it will have on public health in Wales and how he and his ministerial colleagues will use the work and the information that will come out of that Bill to try to better target their own policies on housing, health and education to ensure that we are delivering the best possible outcomes for people, irrespective of their circumstances. We cannot have a situation in Wales where those in deprived areas have worse services than those in better-off areas. That, I think, is the key issue in terms of addressing this problem in Wales.

Mae'n iawn, i raddau, ond, ar y llaw arall, dim ond os byddwch yn rhoi polisiau eraill ar waith i ddilyn y wybodaeth y mae iechyd y cyhoedd yn ei chynnig i'r Llywodraeth a'r byrddau iechyd y mae hynny'n gweithio.

Yr hyn yr hoffwn ei gael o'r ddadl hon yw rhyw fath o syniad gan y Gweinidog ynghylch amserlen a chwmpas Bil iechyd y cyhoedd (Cymru), fel y gallwn ddeall yr effaith y bydd yn ei chael ar iechyd y cyhoedd yng Nghymru a sut y bydd ef a'i gyd-Weinidogion yn defnyddio'r gwaith a'r wybodaeth a fydd yn deillio o'r Bil hwnnw i geisio targedu'n well eu polisiau eu hunain ar dai, iechyd ac addysg er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau. Ni allwn gael sefyllfa yng Nghymru lle mae'r rhai mewn ardaloedd diffreintiedig yn cael gwasanaethau gwaeth na'r rhai mewn ardaloedd mwy cefnog. Credaf fod hynny'n allweddol o ran mynd i'r afael â'r broblem hon yng Nghymru.

17:34

### **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the most serious and worrying aspects of the poverty problem is the growth of food poverty. It is a growing public menace and one on which I believe that Government, and, to a certain extent, wider society, is burying its head in the sand. While we are all aware of its existence, the approaches to tackling its alarming rise have been grossly inadequate, and, as somebody once famous said, something must be done. The rise of obesity is a major consequence of the rise in food poverty. It is not just a result of poor choices; it is a fact that it is cheaper to feed a family of four on chips and chicken nuggets than on four steaks or a leg of lamb or any other meats available—or non-meats, of course—and fresh vegetables or salads. It is a fact. I know, because I do the shopping every week without fail.

In a previous debate, Plaid Cymru's leader, Leanne Wood, pointed out that the number of people in Wales relying on food banks has actually tripled in this last year. It is a frightening prospect that, in 2014, we are witnessing a problem that we thought that we had seen the back of after the 1920s and 1930s and the soup runs. Indeed, within living memory, we thought that we had seen the back of it with the miners' strike 30 years ago, and I know that there are people in the Chamber, myself included, who collected food every single week, sometimes three or four days a week, to help to feed families in 1984 and 1985. Yet here we are again in Wales having to find ways of bringing people out of poverty.

Un o'r agweddau mwyaf difrifol a brawychus ar y broblem o ran tlodi yw twf tlodi bwyd. Mae'n fgythiad cynyddol i'r cyhoedd ac yn un y credaf fod y Llywodraeth, ac, i ryw raddau, y gymdeithas ehangach, yn ei hanwybyddu. Er ein bod i gyd yn ymwybodol o'r broblem, annigonol fu'r ymdrechion i fynd i'r afael â'i chynnydd brawychus, ac, fel y dywedodd rhywun enwog unwaith, rhaid gwneud rhywbeth. Mae'r cynnydd mewn cyfraddau gordewdra yn un o brif ganlyniadau'r cynnydd mewn tlodi bwyd. Mae'n ymwneud â mwy na dewisiadau gwael; mae'n wir ei bod yn rhatach i fwydo teulu o bedwar â sglodion a nygets cyw iâr na phedair stêc neu goes o gig oen neu unrhyw gigoedd eraill sydd ar gael—neu fwydydd nad ydynt yn gigoedd, wrth gwrs—a llysiau neu salad ffres. Mae hynny'n ffaith. Rwy'n gwybod hynny, gan mai fi sy'n gwneud y siopa bob wythnos yn ddi-ffael.

Mewn dadl flaenorol, tynnodd arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sylw at y ffaith bod nifer y bobl yng Nghymru sy'n dibynnu ar fanciau bwyd wedi treblu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n ffaith frawychus ein bod, yn 2014, yn gweld problem nad oeddem yn disgwyl ei gweld eto ar ôl y 1920au a'r 1930au a'r ceginau cawl. Yn wir, nid oeddem yn disgwyl ei gweld eto ar ôl streic y glowyr 30 mlynedd yn ôl, a gwn fod pobl yn y Siambr, gan gynnwys fi fy hun, a gasglodd fwyd bob wythnos, weithiau dri neu bedwar diwrnod yr wythnos, er mwyn helpu i fwydo teuluoedd yn 1984 a 1985. Ond dyma ni unwaith eto yng Nghymru yn gorfod dod o hyd i ffyrdd o godi pobl allan o dlodi.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Let us not forget that of those thousands of people in Wales who have to rely on food banks to try to stay healthy, over a third are children. Listening to the news today reporting that thousands of people have to rely on charities to have decent food on the table, you would have assumed that they were talking about a third-world country, but no, they are talking about Wales in 2014. It is pretty obvious that people go to food banks because they do not have the means to buy food that could mean a healthier diet for them and their families. Please do not stereotype food bank users as feckless scroungers, because 30% of those relying on food banks use them because of benefit delays, 18% because of low income, and 15% because of benefit changes. Add to those figures the problems of debt and unemployment, and the stark reality is that the majority of people turning to food banks are now working-age families. To the shame of politics in Wales today, only three Members of Parliament in the House of Commons today voted against the welfare cap. Shame, absolute shame. There is a close link—[interruption.] I should indeed mention that they were all in Plaid Cymru. Thanks for the prompt.

There is a close link between poverty and poor health, so what does the Welsh Government intend to do about it? We can spend impressive sums of money, as we have heard, on so-called health promotion products and we can advise people to take more exercise. We have heard about improving diets, stopping people from smoking and getting them to drink less alcohol, but, sometimes, it is difficult to make those right choices if you simply cannot afford to do so. We are bombarded with experts telling us one day, 'This is bad for you,' and the next day, 'Well, actually, it isn't so bad for you after all.' It does not take a genius to tell us that, in fact, poverty is caused by a lack of money. It also does not take a genius to tell us that unemployment, low pay and the ever-increasing cost of food all have to be tackled by Government. Telling people to change their lifestyles by frightening them just does not work. If it did, the words 'Smoking kills' on cigarette packets would have totally eliminated smoking in Wales by now, and they have not.

The Welsh Government has to create jobs at a much higher rate than at present. We need to campaign for companies to pay a living wage and strenuously oppose the zero-hour contracts that Jocelyn Davies always reminds us of. The Government needs to keep on improving childcare access to enable people, especially women, to enter the jobs market, and it should offer more radical advice to adults on their diets and, certainly, ensure stricter control over young children and their diets. If an adult wants to eat, drink and smoke themselves to death, there are some, maybe sometimes including me, who will say, 'So be it'. However, the message should be clear: it is not your right to do the same to your child. It is not your right to do that. That child is your responsibility. Give them a chance in life at the very least. You play your part and the Government should play its part in that.

Ni ddylem anghofio bod dros draean o'r bobl hynny yng Nghymru sy'n gorfod dibynnu ar fanciau bwyd i geisio aros yn iach yn blant. Wrth wrando ar y newyddion heddiw yn sôn bod yn rhaid i filoedd o bobl ddibynnu ar elusennau i roi bwyd da ar y bwrdd, byddech wedi cymryd yn ganiataol eu bod yn sôn am wlad trydydd byd, ond na, maent yn sôn am Gymru yn 2014. Mae'n eithaf amlwg bod pobl yn troi at fanciau bwyd am nad oes ganddynt yr arian i brynu bwyd a allai olygu diet iachach iddynt hwy a'u teuluoedd. Ni ddylid stereoteipio defnyddwyr banciau bwyd fel pobl ddi-glem sy'n byw ar goffrau'r wlad, gan fod 30% o'r rhai sy'n dibynnu ar fanciau bwyd yn eu defnyddio oherwydd oedi cyn talu budd-daliadau, 18% oherwydd incwm isel, a 15% oherwydd newidiadau i fudd-daliadau. Drwy ychwanegu dyled a diweithdra at y ffigurau hynny, y realiti llwm yw bod y rhan fwyaf o bobl sy'n troi at fanciau bwyd bellach yn deuluoedd o oedran gweithio. Er mawr gywilydd i wleidyddiaeth yng Nghymru heddiw, dim ond tri Aelod Seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin heddiw a bleidleisiodd yn erbyn y cap lles. Cywilydd, cywilydd llwyr. Mae cyswllt agos— [Torri ar draws.] Dylwn yn wir nodi eu bod i gyd yn aelodau o Blaid Cymru. Diolch am yr awgrym.

Mae cyswllt agos rhwng tlodi ac iechyd gwael, felly beth mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud am y peth? Gallwn wario llawer iawn o arian, fel y clywsom, ar yr hyn a elwir yn gynhyrchion hybu iechyd a gallwn gynghori pobl i wneud mwy o ymarfer corff. Clywsom am wella deiet, atal pobl rhag ysmegu a'u hannog i yfed llai o alcohol, ond, weithiau, mae'n anodd gwneud y dewisiadau cywir hynny os na allwch fforddio eu gwneud. Mae llu o arbenigwyr yn dweud wrthym un diwrnod 'Mae hyn yn wael i chi,' a'r diwrnod nesaf, 'Wel, mewn gwirionedd, nid yw mor wael â hynny ichi wedi'r cyfan.' Nid oes angen bod yn athrylith i ddeall mai prinder arian, mewn gwirionedd, sy'n achosi tlodi. Nid oes angen bod yn athrylith ychwaith i ddeall y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth fynd i'r afael â diweithdra, cyflogau isel a chost gynyddol bwyd. Nid yw dweud wrth bobl i newid eu ffordd o fyw drwy godi ofn arnynt yn gweithio. Pe bai'n gweithio, byddai'r geiriau 'Mae ysmegu'n lladd' ar becynnau sigarêts wedi cael gwared ar ysmegu yn llwyr yng Nghymru erbyn hyn, ac nid ydynt wedi gwneud hynny.

Rhaid i Lywodraeth Cymru greu swyddi ar gyfradd lawer uwch nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae angen inni annog cwmnïau i dalu cyflog byw a gwrthwynebu'n gryf y contractau dim oriau y mae Jocelyn Davies bob amser yn ein hatgoffa amdanynt. Mae angen i'r Llywodraeth barhau i wella'r gallu i gael gafael ar ofal plant er mwyn galluogi pobl, yn enwedig menywod, i weithio, a dylai gynnig cyngor mwy radical i oedolion ar eu diet ac, yn sicr, sicrhau rheolaeth lymach dros blant ifanc a'u deiet. Os yw oedolyn am fwyta, yfed ac ysmegu eu hun i farwolaeth, byddai rhai, gan gynnwys fi fy hun weithiau o bosibl, yn dweud, 'Bydded felly'. Fodd bynnag, dylai'r neges fod yn glir: nid oes hawl gennych i wneud yr un peth i'ch plentyn. Nid oes hawl gennych i wneud hynny. Eich cyfrifoldeb chi yw'r plentyn hwnnw. Rhowch gyfle iddo mewn bywyd o leiaf. Dylech chwarae eich rhan a dylai'r Llywodraeth chwarae ei rhan hithau yn hynny o beth.

In short—and I am finishing—we need to come clean and tell people in Wales who are living in food poverty, 'It's not your fault.' It is up to all politicians at all levels and, in particular, the Welsh Government, to work with the people of Wales and give them back some hope and dignity.

Thank you for allowing me some extra time, Presiding Officer.

Yn fyr—ac rwy'n dod i ben—mae angen inni fod yn onest a dweud wrth bobl yng Nghymru sy'n byw mewn tloedi bwyd, 'Nid eich bai chi ydyw.' Mater i'r holl wleidyddion ar bob lefel ac, yn benodol, Lywodraeth Cymru, yw gweithio gyda phobl Cymru a rhoi rhywfaint o obaith ac urddas unwaith eto iddynt.

Diolch ichi am ganiatáu rhywfaint o amser ychwanegol imi, Lywydd.

17:39

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In Wales, under Labour, the poverty gap has widened and social mobility has stalled since 1999 and devolution. Billions have been spent subsidising, rather than tackling, the deep-rooted causes of deprivation, dependency and worklessness. We must support people to escape poverty of aspiration and opportunity and help them to reach their full potential for a good and healthy life. One in three working-age people in Wales were workless before the credit crunch, and, although the number of working-age people not in work in Wales has fallen since the last UK general election, the official figures in Wales are still higher than in England, Scotland and the UK.

The cross-party Centre for Social Justice published the 'Signed On, Written Off' report last May. This identified Rhyl West as the UK neighbourhood with the highest dependency on out-of-work benefits, with 67% of people aged 16 to 64 on benefits, and Blaenau Gwent as the area with the highest percentage of workless households, at 31.8%. The report found that the number of people across the UK claiming out-of-work benefits had hovered above 4 million for more than 15 years.

Yng Nghymru, o dan y blaid Lafur, mae'r bwch tloedi wedi lledu ac mae symudedd cymdeithasol wedi arafu ers 1999 a datganoli. Gwariwyd biliynau o bunnoedd ar gymorthdaliadau, yn hytrach na mynd i'r afael ag achosion dwfn amddifadedd, dibyniaeth a diweithdra. Rhaid inni helpu pobl i ddianc rhag diffyg uchelgais a chyfle a'u helpu i gyrraedd eu potensial llawn i fyw bywyd da ac iach. Roedd un o bob tri o bobl o oedran gweithio yng Nghymru yn ddi-waith cyn y wasgfa greddyd, ac, er bod nifer y bobl o oedran gweithio sy'n ddi-waith yng Nghymru wedi gostwng ers etholiad cyffredinol diwethaf y DU, mae'r ffigurau swyddogol yng Nghymru yn dal yn uwch nag yn Lloegr, yr Alban a'r DU.

Cyhoeddodd Canolfan Cyfiawnder Cymdeithasol yr wrthblaid adroddiad 'Signed On, Written Off' fis Mai diwethaf. Nododd yr adroddiad hwn mai Gorllewin y Rhyl yw'r gymdogaeth sy'n dibynnu fwyaf ar fudd-daliadau diweithdra yn y DU, gyda 67% o bobl rhwng 16 a 64 oed yn cael budd-daliadau, ac mai Blaenau Gwent yw'r ardal sydd â'r ganran uchaf o gartrefi di-waith, sef 31.8%. Canfu'r adroddiad fod nifer y bobl ledled y DU sy'n cael budd-daliadau diweithdra wedi bod yn fwy na 4 miliwn ers dros 15 mlynedd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:40

**Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tloedi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you for taking the intervention. Do you then regret the fact that the UK-introduced changes to benefits so far have cost the average working-age adult in Wales £500 per annum, £600 per annum in Blaenau Gwent, and over £900 million per annum to the Welsh economy as a whole?

Diolch am gymryd yr ymyriad. A ydych felly'n gresynu at y ffaith bod y newidiadau a gyflwynwyd i fudd-daliadau yn y DU hyd yma wedi costio £500 y flwyddyn i oedolion o oedran gweithio cyfartalog yng Nghymru, £600 ym Mlaenau Gwent, a thros £900 miliwn y flwyddyn i economi Cymru yn gyffredinol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:41

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I regret the scandal that the number of workless households in Wales grew under Welsh Labour prior to the credit crunch and that child poverty in Wales is at its highest, having been rising, not since 2010, but since 2004.

As I said, the report found that the number of people across the UK claiming out-of-work benefits had hovered above 4 million for more than 15 years. The report concluded that

'the most powerful arguments for reforming welfare are not financial, but social. By focussing on income transfers rather than employment, our welfare system has made people dependent on benefits, trapping them in poverty and preventing them from achieving economic independence.'

Gresynaf at y sgandal bod nifer y cartrefi di-waith yng Nghymru wedi tyfu o dan Lafur Cymru cyn y wasgfa greddyd a bod y gyfradd tloedi plant yng Nghymru ar ei uchaf, a'i bod wedi bod yn codi, nid ers 2010, ond ers 2004.

Fel y dywedais, canfu'r adroddiad fod nifer y bobl ledled y DU sy'n cael budd-daliadau diweithdra wedi bod yn fwy na 4 miliwn ers dros 15 mlynedd. Daeth yr adroddiad i'r casgliad

Mai dadleuon cymdeithasol, nid ariannol, yw'r rhai mwyaf pwerus dros ddiwygio lles. Drwy ganolbwyntio ar drosoglyddo incwm yn hytrach na chyflogaeth, mae ein system lles wedi gwneud pobl yn ddibynnol ar fudd-daliadau, gan eu dal mewn tloedi a'u hatal rhag cyflawni annibyniaeth economaidd.'

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As the Secretary of State for Work and Pensions stated last month, people should not blame long-term benefit claimants but the politicians who created a failing system, meaning that people can be better off out of work than in it. He said that it should be about helping people to take greater control over their lives, with work seen as the route to this for all who are able.

Joseph Rowntree Foundation research found that barriers to work in the tax and benefits system increased from 2000. The objective of universal credit, therefore, is to make work pay, reducing the highest marginal deduction rate for low-earning workers and lifting the majority of children out of poverty if at least one parent works 35 hours a week at the minimum wage, or 25 hours if they are a lone parent.

I will be attending the launch in Shotton, on 7 April, of the pilot scheme in Wales. The UK Government states that the vast majority will be on universal credit by 2017. In fact, an estimated 200,000 households in Wales will be better off by £163 per month when universal credit changes have gone through.

Recognising the link between poverty and ill health, our amendment 3 welcomes the action being taken by the UK Government to tackle poverty, including increasing the national minimum wage and tax breaks for those on low incomes. In fact, the Chancellor's budget last week builds upon action to deliver a more resilient economy and provide a better future. The personal tax allowance will rise to £10,500 next year—a tax cut for more than 25 million people. This UK Government will have lifted 155,000 low earners in Wales out of income tax altogether, and over 1.2 million people in Wales will have benefited. The national minimum wage will increase by 3%, meaning that the lower-paid will enjoy the biggest cash increase in their take-home pay since 2008.

Plans to make childcare more affordable were announced. The UK Government's Work Programme is the biggest welfare to work programme that the UK has ever seen, and Work Programme providers in Wales have reported that sustainable job outcome figures are now being achieved from what is a two-year programme. With Members of Parliament voting today on plans to introduce a welfare spending cap, as we have heard, Labour leader Ed Miliband has backed a welfare cap, and Labour's shadow Secretary of State for Work and Pensions has said that Labour is committed to taking tough decisions on welfare.

As stated at December's Cardiff conference on co-producing resilient communities, it is time for change in service delivery, breaking down the barriers between people who provide services and those who use them. As stated in the Wales Council for Voluntary Action report, 'Effective Services for Vulnerable Groups—Citizen Directed Support',

Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau y mis diwethaf, ni ddylai pobl roi'r bai ar hawlwy'r budd-daliadau hirdymor ond yn hytrach ar y gwleidyddion sy'n creu system sy'n methu, sy'n golygu bod pobl sy'n ddi-waith yn gallu bod yn well eu byd na phobl sy'n gweithio. Dywedodd y dylid helpu pobl i gymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau, gyda gwaith yn cael ei ystyried fel y llwybr at hyn i bawb sy'n gallu gweithio.

Canfu ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree fod rhwystrau i weithio yn y system treth a budd-daliadau wedi cynyddu ers 2000. Nod credyd cynhwysol, felly, yw sicrhau bod gwaith yn talu, lleihau'r gyfradd ddi-dynnu ymylol uchaf ar gyfer gweithwyr ar gyflog isel a chodi'r rhan fwyaf o blant allan o dlodi os yw un rhiant o leiaf yn gweithio 35 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog, neu 25 awr os yw'n unig riant.

Byddaf yn mynd i lansiad y cynllun peilot yng Nghymru yn Shotton ar 7 Ebrill. Dywed Llywodraeth y DU y bydd y mwyafrif helaeth yn cael credyd cynhwysol erbyn 2017. Yn wir, amcangyfrifir y bydd 200,000 o gartrefi yng Nghymru £163 y mis yn well eu byd ar ôl cyflwyno newidiadau credyd cynhwysol.

Gan gydnabod y cyswllt rhwng tlodi a salwch, mae gwelliant 3 yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â thlodi, gan gynnwys cynyddu'r isafswm cyflog cenedlaethol a gostyngiadau treth i'r rhai ar incwm isel. Yn wir, mae cyllideb y Canghellor a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn adeiladu ar gamau i sicrhau economi fwy gwydn a dyfodol gwell. Bydd y lwfans treth personol yn codi i £10,500 y flwyddyn nesaf—toriad treth i fwy na 25 miliwn o bobl. Bydd Llywodraeth bresennol y DU wedi dileu treth incwm yn gyfan gwbl i 155,000 o bobl ar gyflog isel yng Nghymru, a bydd dros 1.2 miliwn o bobl yng Nghymru yn well eu byd. Bydd yr isafswm cyflog cenedlaethol yn cynyddu 3%, sy'n golygu y bydd y rhai ar gyflogau is yn gweld y cynnydd ariannol mwyaf yn eu cyflog ers 2008.

Cyhoeddwyd cynlluniau i wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy. Rhaglen Waith Llywodraeth y DU yw'r rhaglen o fudd-dal i waith fwyaf a welwyd erioed yn y DU, ac mae darparwyr y Rhaglen Waith yng Nghymru wedi nodi bod y rhaglen ddwy flynedd bellach yn cyflawni ffigurau canlyniadau swyddi cynaliadwy. Gydag Aelodau Seneddol yn pleidleisio heddiw ar gynlluniau i gyflwyno cap ar wariant lles, fel y clywsom, mae arweinydd y Blaid Lafur, Ed Miliband, wedi cefnogi cap lles, ac mae Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau yr wrthblaid wedi dweud bod Llafur yn ymrwymedig i wneud penderfyniadau anodd ar les.

Fel y nodwyd yn y gynhadledd ar greu cymunedau cryf ar y cyd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Rhagfyr, mae'n amser newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, gan leihau'r rhwystrau rhwng pobl sy'n darparu gwasanaeth a'r rhai sy'n eu defnyddio. Fel y nodwyd yn adroddiad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 'Effective Services for Vulnerable Groups—Citizen Directed Support',

'CDS begins with the person, not the service; providing voice, control and independence, through safe, sustainable and economically viable responses to support planning.... It is about people being in control of the support they need to live the life they choose.'

Let us have that revolution.

17:44

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We cannot really talk about ill health and poverty without talking about the significant impact that housing has on mental and physical wellbeing. It has been established over and over again that good housing leads to better health. The effects that poor-quality housing—that is, of course, housing that is cold, damp and unsafe—has on health is also well document. Children living in damp, mouldy homes are between one-and-a-half and three times more likely to suffer from coughing and wheezing than children in dry homes. Children who continue to live in houses that are poorly heated and damp are more than twice as likely to suffer from chest and breathing problems like asthma and bronchitis. Cold housing exacerbates existing conditions like arthritis and rheumatism, a particular problem for older people, and increases the likelihood of heart attack, stroke, pneumonia and breathing difficulties for elderly people.

Mental health also suffers when living in substandard housing, and levels of anxiety and depression increase in proportion with the number of problems with housing. Problems with poor-quality housing are distressingly common. The recent Shelter Cymru research into the private rented sector in Wales found that nearly two thirds of those living in rented accommodation had experienced problems with their home. Nearly half had had damp, and two in five had mould. In Wales, tenants are 19% more likely to have experienced damp than tenants in England.

Huge improvements can be made to the condition of housing by using simple, common-sense measures. A study in Cornwall found that the installation of central heating in damp, unheated bedrooms substantially reduced the number of school days missed by children. In Carmarthen, they are tracking the health data and cost savings to health of the WHQS work. That is 9,000 homes on a long-term study, and we should take notice of the results. In 2009, only 20% of those residents in those homes had not seen their GP in the previous three months. In 2012—[Interruption.] Yes, I will take your intervention.

17:47

## Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, I am very grateful for that. I know what a passionate advocate the Member is for decent-quality housing, and I commend her for that. Does she agree with me that it is a concern, therefore, that some people are choosing to live in holiday caravans that are not properly constructed as permanent residences, and that that could have a detrimental impact on public health?

mae cymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion yn dechrau gyda'r unigolyn, nid y gwasanaeth; gan roi llais, rheolaeth ac annibyniaeth, drwy ymatebion diogel, cynaliadwy ac economaidd hyfyw i waith cynllunio cymorth.... Mae'n ymwneud â rhoi rheolaeth i bobl dros y cymorth sydd ei angen arnynt i fyw'r bywyd y maent yn ei ddewis.'

Gadewch inni weld y chwyldro hwnnw.

Ni allwn mewn gwirionedd drafod salwch a thlodi heb sôn am yr effaith sylweddol y mae tai yn ei chael ar les meddyliol a chorfforol. Nodwyd dro ar ôl tro fod tai da yn arwain at iechyd gwell. Mae'r effeithiau y mae tai o ansawdd gwael—hynny yw, wrth gwrs, tai sy'n oer, yn llai ac yn anniogel— yn eu cael ar iechyd wedi cael cryn sylw hefyd. Mae plant sy'n byw mewn cartrefi llaith, sy'n llawn llwydni rhwng unwaith a hanner a theirgwaith yn fwy tebygol o ddirodd o beswch a gwichian na phlant sy'n byw mewn cartrefi sych. Mae plant sy'n parhau i fyw mewn tai llaith nad ydynt wedi'u gwresogi'n ddigonol fwy na dwywaith yn fwy tebygol o ddirodd o broblemau gyda'r frest a phroblemau anadlu fel asthma a bronchitis. Mae tai oer yn gwaethygu cyflyrau sy'n bodoli eisoes fel arthritis a chryd cymalau, sy'n broblem benodol i bobl hŷn, ac yn cynyddu'r tebygolrwydd o drawiad ar y galon, strôc, niwmonia ac anawsterau anadlu i bobl oedranus.

Mae byw mewn tai nad ydynt yn cyrraedd y safonau gofynnol hefyd yn cael effaith andwyol ar iechyd meddwl, ac mae lefelau pryder ac iselder yn cynyddu'n gymesur â nifer y problemau gyda thai. Mae problemau gyda thai o ansawdd gwael yn bryderus o gyffredin. Canfu ymchwil ddiweddar gan Shelter Cymru i'r sector rhentu preifat yng Nghymru fod bron ddwy ran o dair o'r rhai sy'n byw mewn llety rhent wedi cael problemau gyda'u cartref. Roedd bron hanner wedi cael problemau lleithder, a dau o bob pump wedi cael problemau llwydni. Yng Nghymru, mae thenantiaid 19% yn fwy tebygol o fod wedi cael problemau lleithder na thenantiaid yn Lloegr.

Gellir gwneud gwelliannau enfawr i gyflwr tai drwy ddefnyddio mesurau syml, synnwyr cyffredin. Canfu astudiaeth yng Nghernyw fod gosod gwres canolog mewn ystafelloedd gwely llaith, heb wres yn lleihau'n sylweddol nifer y diwrnodau ysgol a gollwyd gan blant. Yng Nghaerfyrddin, maent yn olrhain data iechyd ac arbedion cost i iechyd gwaith SATC. Mae 9,000 o gartrefi yn rhan o astudiaeth hirdymor, a dylem gymryd sylw o'r canlyniadau. Yn 2009, dim ond 20% o'r trigolion hynny yn y cartrefi hynny nad oeddent wedi gweld eu meddyg teulu yn ystod y tri mis blaenorol. Yn 2012 - [Torri ar draws.] Gwnaf, cymeraf eich ymyriad.

Diolch, rwy'n ddiolchgar iawn am hynny. Gwn fod yr Aelod yn eiriolwr brwd dros dai o ansawdd da, ac rwy'n ei chymeradwyo am hynny. A yw'n cytuno â mi ei bod yn bryder, felly, fod rhai pobl yn dewis byw mewn carafannau gwyliau nad ydynt wedi'u hadeiladu'n briodol fel preswylfeydd parhaol, ac y gallai hynny gael effaith andwyol ar iechyd y cyhoedd?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you know what? I feel very sorry for anybody who has to live in poor housing, and anybody who has to live in a caravan. Of course, I think, on the basis of some of the things that you have said, that it seems to me that it is the well-off, you told us, who are living in caravans. I do not think they are, particularly. They jet off to Spain in the winter, I think you told us.

Wyddoch chi beth? Rwy'n teimlo'n flin iawn dros unrhyw un sy'n gorfod byw mewn tai gwael, ac unrhyw un sy'n gorfod byw mewn carafan. Wrth gwrs, credaf, ar sail rhai o'r pethau a ddywedwyd gennych, mai'r rhai sy'n well eu byd yn ôl pob golwg, yn eich geiriau chi, sy'n byw mewn carafannau. Ni chredaf fod hynny'n wir, yn benodol. Dywedasoich wrthym, fe gredaf, eu bod yn hedfan i ffwrdd i Sbaen yn y gaeaf.

Only 20% of those residents had not seen a GP in the previous three months. In 2012, that figure was 39%, so there were significantly fewer people visiting their GP after having improvements to their homes. In 2009, 64% said that they had not accessed an accident and emergency department in the previous year. In 2012, that figure was 94%, so there was a huge decrease in A&E visits and emergency admissions due to fewer falls and burns, and, of course, health improvements. So, I think that we have an excellent opportunity to try to drive up living standards in Wales when the Housing (Wales) Bill, as Peter Black mentioned earlier, makes its passage through the Assembly. We have to place the health and wellbeing of people at the heart of that Bill.

Dim ond 20% o'r trigolion hynny oedd heb weld meddyg teulu yn ystod y tri mis blaenorol. Yn 2012, 39% oedd y ffigur hwnnw, felly roedd nifer sylweddol lai o bobl yn ymweld â'u meddyg teulu ar ôl gwneud gwelliannau i'w cartrefi. Yn 2009, dywedodd 64% nad oeddent wedi mynd i adran damweiniau ac achosion brys yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn 2012, 94% oedd y ffigur hwnnw, felly bu gostyngiad enfawr yn nifer yr ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys a derbyniadau brys o ganlyniad i lai o achosion o gwmpo a llosgi, ac, wrth gwrs, welliannau mewn iechyd. Felly, credaf fod gennym gyfle gwych i geisio gwella safonau byw yng Nghymru pan fydd Bil Tai (Cymru), fel y soniodd Peter Black yn gynharach, yn gwneud ei daith drwy'r Cynulliad. Mae'n rhaid i iechyd a lles pobl fod wrth wraidd y Bil hwnnw.

One of the key aims of the Bill, of course, is to reform homelessness law and to put a stronger duty on local authorities to prevent homelessness. Certainly, homelessness has a devastating effect on health, especially the health of children. Children in overcrowded homes are 10 times more likely to contract meningitis. So, homelessness is extremely bad for children, and repeated homelessness must be avoided.

Un o brif nodau'r Bil, wrth gwrs, yw diwygio cyfraith digartrefedd a gosod dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Yn sicr, mae digartrefedd yn cael effaith ddinistriol ar iechyd, yn enwedig iechyd plant. Mae plant mewn cartrefi gorllawn 10 gwaith yn fwy tebygol o gael llid yr ymennydd. Felly, mae digartrefedd yn wael iawn i blant, a rhaid osgoi digartrefedd mynych.

The Shelter study based in England that looked at homeless people and families being rehoused in the private rented sector found that all of those taking part in the study had serious problems with the conditions of those properties. We must have a very serious look at how we can ensure that tackling homelessness does not leave people stranded in poor-quality housing and then contributes to poor health for them and their children. So, to improve health in Wales, both mental and physical, we must start with the houses that people live in.

Canfu'r astudiaeth gan Shelter yn Lloegr a edrychodd ar bobl a theuluoedd digartref sy'n cael eu hailgartrefu yn y sector rhentu preifat fod gan bawb a gymerodd ran yn yr astudiaeth broblemau difrifol gydag amodau'r eiddo hynny. Rhaid inni ystyried o ddifrif sut y gallwn sicrhau nad yw mynd i'r afael â digartrefedd yn golygu bod pobl yn gorfod byw mewn tai o ansawdd gwael ac yna'n cyfrannu at iechyd gwael iddynt hwy a'u plant. Felly, er mwyn gwella iechyd meddwl ac iechyd corfforol yng Nghymru, mae'n rhaid inni ddechrau gyda'r tai y mae pobl yn byw ynddynt.

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dywedodd Elin Jones, wrth agor y drafodaeth hon, ei bod yn ffaiith i'w chrosawu ein bod, yn y ddatl hon, yn mynd i ganolbwyntio ar fesurau ataliol yng nghyd-destun iechyd ac iechyd meddwl, yn hytrach na sôn yn barhaus am drin afiechydon. Gallaf ddweud ar ran grŵp Plaid Cymru ein bod wedi cadw at hynny yn y drafodaeth hon ac wedi sôn am fesurau ataliol.

Elin Jones, in opening this discussion, said that it is a fact to be welcomed that, in this debate, we are going to concentrate on preventative measures in the context of health and mental health, rather than continually talking about treating diseases. I can say on behalf of the Plaid Cymru group that we have kept to that aim in this discussion and have talked about preventative measures.

Mae'n ffaith y mae'n rhaid i ni ei chydabod a'i derbyn yn y lle hwn nad oes modd inni gynnal gwariant ar gyllideb iechyd sy'n mynd i'r afael â'r holl driniaethau sydd eu hangen i drin afiechydon yng Nghymru. Wrth i nifer y bobl sy'n ddibynol ar y gwasanaethau hynny gynyddu, ac wrth i allu'r gwasanaeth iechyd i ddelio gydag afiechyd gynyddu, bydd y gofyn ar wariant yn cynyddu hefyd. Mae'n cynyddu ar hyn o bryd, a bydd yn cynyddu yn y dyfodol. Nid oes modd inni barhau i wario ar drin afiechydon yn unig. Rhaid inni edrych ar fesurau i atal afiechydon rhag datblygu ac atal pobl rhag dod yn ddibynol ar y gwasanaeth iechyd. Mae'r ddadl hon yn gyfle i gydnabod hynny.

Roeddwn yn cytuno'n llwyr â'r hyn a ddywedodd Joyce Watson yn gynharach ynglŷn â'r modd y mae pobl sy'n ddibynol ar y wladwriaeth les yn fwy tebygol o ddiroddaf afiechyd. Felly, mae'n drist nodi, fel y dywedodd Lindsay Whittle yn gynharach, mai dim ond tri Aelod Seneddol o Gymru a bleidleisiodd yn erbyn y cap ar daliadau'r wladwriaeth les. Ni wnaeth yr un Aelod Seneddol Llafur o Gymru bleidleisio yn erbyn y cap hwnnw. Cefnogodd pob un ohonynt y cap ar y wladwriaeth les. Felly, mae'r bobl hynny sy'n ddibynol ar y wladwriaeth les yn mynd i ddiroddaf fwyfwy o ganlyniad i'r cap hwnnw.

O ran y blaenoriaethau gwariant, buom yn trafod yn gynharach y prynhawn yma drethi cyngor. Mae gan awdurdodau lleol benderfyniadau anodd iawn i'w gwneud. Mae un o'r penderfyniadau maen nhw'n gorfod ei wneud yn ymwneud â mannau gwyrdd. A ydynt yn mynd i ddiogelu mannau gwyrdd ar gyfer gweithgareddau hamdden? A ydynt yn mynd i gefnogi cymdeithasau sy'n annog pobl i gymryd rhan mewn ymarfer corff? A ydynt yn mynd i roi cyfle i bobl ddefnyddio mannau gwyrdd ar gyfer cerdded a phob math o weithgareddau eraill a fydd yn cynnal a chryfhau eu hiechyd?

Cynhaliwyd nifer o astudiaethau, gan gynnwys astudiaeth gan Ysgol Feddygol Prifysgol Exeter. Gwnaeth 1,000 o bobl gymryd rhan yn yr astudiaeth honno, a oedd yn dangos yn glir bod y bobl hynny sy'n cael cyfle i fanteisio ar fannau gwyrdd yn llai tebygol o ddiroddaf afiechyd meddwl. Yn wir, pan oedd pobl a oedd yn diroddaf afiechyd meddwl yn cael eu symud i ardaloedd lle'r oedd cyfle iddynt fanteisio ar fannau gwyrdd, roedd eu cyflwr yn gwella. Yn yr un modd, pan oedd pobl yn cael eu hadleoli i leoliadau lle nad oedd cyfle iddynt wneud hynny, roedd eu hafiechyd meddwl yn dirywio. Yn yr Iseldiroedd, mae astudiaeth wedi'i chynnal sy'n cynnwys data ar 340,000 o bobl. Unwaith eto, dangoswyd bod yr enghreifftiau o bobl yn diroddaf afiechyd ac afiechyd meddwl yn lleihau ymysg y bobl hynny a oedd yn gallu cymryd mantais o fannau gwyrdd.

Rydym i gyd yn gwybod bod trafodaethau'n digwydd mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Maent yn digwydd yng Nghaerfyrddin ac maent yn digwydd mewn mannau eraill. Rydym yn clywed am ganolfannau hamdden yn cau ac yn clywed am ffioedd cymdeithasau chwaraeon yn cynyddu, neu'n clywed am y bygythiad y bydd eu ffioedd yn cynyddu. Rhaid inni flaenoriaethu'r mesurau ataliol hyn. Yn y pen draw, byddant yn ein galluogi i sicrhau bod iechyd ac iechyd meddwl pobl Cymru yn gwella, bod eu dibyniaeth ar y gwasanaeth iechyd yn lleihau a bod pawb yn cael eu trin yn ôl eu hangen.

It is a fact that we must recognise and accept in this place that there is no way for us to maintain spending on a health budget that gets to grips with all of the treatments that are required to treat illnesses in Wales. As the number of people who are dependent on those services increases, and as the health service's ability to deal with increasing ill health, the demand on expenditure is also going to increase. It is increasing now and it will increase in the future. We cannot continue to spend on treating diseases only. We have to look at measures to prevent diseases from developing and prevent people from becoming dependent on the health service. This debate is an opportunity to acknowledge that.

I totally agreed with what Joyce Watson said earlier in relation to the way that people who are dependent on the welfare state are more likely to suffer ill health. Therefore, it is sad to note, as Lindsay Whittle said earlier, that only three Members of Parliament from Wales voted against the cap on payments in the welfare state. No Welsh Labour Members of Parliament voted against that cap. All of them supported the cap on the welfare state. So, those people who are dependent on the welfare state are going to increasingly suffer as a result of that cap.

In terms of spending priorities, we discussed council taxes earlier this afternoon. Local authorities have very difficult decisions to make. One of the decisions that they will have to make relates to green spaces. Are they going to protect green spaces for recreational activities? Are they going to support associations that encourage people to take part in exercise? Are they going to give people the opportunity to use green spaces for walking and all sorts of other activities that will support and strengthen their health?

Several studies have been carried out, including a study by the University of Exeter's Medical School. A 1,000 people took part in that study, which showed clearly that those people who have the opportunity to take advantage of green spaces are less likely to suffer from mental illness. Indeed, when people suffering from mental illness were moved to areas where there was an opportunity for them to take advantage of green spaces, their condition improved. Similarly, when people were relocated to locations where there was no opportunity to do so, their mental ill health deteriorated. In the Netherlands, a study has been carried out that includes data on 340,000 people. Once again, it has been shown that the instances of people suffering from ill health and mental illness decreased among those people who were able to take advantage of green spaces.

We all know that discussions are taking place in local authorities across Wales. They are occurring in Carmarthen and they are occurring elsewhere. We hear about leisure centres closing and about increasing fees for sports societies, or the threat of increasing fees. We have to prioritise these preventive measures. In the end, they will enable us to ensure that the health and mental health of the people of Wales improve, that their dependence on the health service decreases and that everyone is treated according to need.

17:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Deputy Minister for Tackling Poverty, Vaughan Gething, to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi, Vaughan Gething, i siarad ar ran y Llywodraeth.

17:54

## Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi / The Deputy Minister for Tackling Poverty*

I welcome the debate today on poverty and health and confirm that the Welsh Government will support the motion. We recognise the link between poverty and ill health and have made clear the Government's commitment to tackling this issue. I will deal first with the amendments.

Croesawaf y ddadl heddiw ar dlodi ac iechyd a chadarnhaf y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r cynnig. Cydnabyddwn y cyswllt rhwng tlodi a salwch ac rydym wedi nodi'n glir ymrwymiad y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddaf yn ymdrin yn gyntaf â'r gwelliannau.

We oppose amendment 1 in the name of Paul Davies. The Government has already announced an additional £620 million for the NHS over the next three years. This represents an increase of 1% on the NHS baseline. All public spending, as we know, is being shaped by the programme of UK Government cuts.

Gwrthwynebwn welliant 1 yn enw Paul Davies. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyhoeddi £620 miliwn ychwanegol ar gyfer y GIG dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1% ar linell sylfaen y GIG. Mae'r holl wariant cyhoeddus, fel y gwyddom, yn cael ei lywio gan raglen o doriadau Llywodraeth y DU.

UK Government cuts mean that by 2015-16 the Welsh budget will be 10% lower in real terms than it was in 2010-11. Despite this, the budget for the Welsh NHS is the biggest it has ever been. This is a clear demonstration of this Government's commitment to a sustainable health service in Wales that is free at the point of need.

Mae toriadau Llywodraeth y DU yn golygu y bydd cyllideb Cymru 10% yn llai mewn termau real erbyn 2015-16 nag yr oedd yn 2010-11. Er gwaethaf hyn, pennwyd y gyllideb fwyaf a welwyd erioed ar gyfer GIG Cymru. Mae hyn yn dangos yn glir ymrwymiad y Llywodraeth hon i ddarparu gwasanaeth iechyd cynaliadwy yng Nghymru sydd am ddim i'r rhai sydd ei angen.

We will support amendment 2, tabled by Paul Davies, on the design and evaluation of public health initiatives. We already take reducing health inequalities into account when designing and evaluating public health initiatives, but we recognise that there is further work to do in having a more effective targeting of resource for our most deprived communities.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 2, a gyflwynwyd gan Paul Davies, ar gynllunio a gwerthuso mentrau iechyd y cyhoedd. Rydym eisoes yn ystyried sut i leihau anghydraddoldebau iechyd wrth gynllunio a gwerthuso mentrau iechyd y cyhoedd, ond cydnabyddwn fod rhagor o waith i'w wneud er mwyn targedu adnoddau'n fwy effeithiol at ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

We oppose amendment 3, tabled by Paul Davies. We cannot and will not give a blanket welcome to the action being taken by the UK Government on poverty. Alan Milburn, chair of the UK Government's own Social Mobility and Child Poverty Commission, has criticised the recent UK Government child poverty strategy for the absence of targets and indicators by which to measure progress. He made very clear and specific criticism over the continued failure by the UK Government to act to make work pay. That criticism of the UK Government has been reinforced by every major children's charity.

Gwrthwynebwn welliant 3, a gyflwynwyd gan Paul Davies. Ni allwn ac ni fyddwn yn croesawu'n gyffredinol y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth y DU ar dlodi. Beirniadodd Alan Milburn, cadeirydd Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant Llywodraeth y DU ei hun, strategaeth tlodi plant ddiweddar Llywodraeth y DU oherwydd diffyg targedau a dangosyddion i fesur cynnydd. Nododd feirniadaeth glir a phenodol iawn o fethiant parhaus Llywodraeth y DU i weithredu er mwyn sicrhau bod gwaith yn talu. Atgyfnerthwyd y feirniadaeth honno o Lywodraeth y DU gan bob elusen plant o bwys.

I should at this point deal with the point made by a Welsh Conservative contributor to this debate who claimed that child poverty rose under the last Labour Government. Child poverty fell across the UK by over 1 million under the last UK Labour Government. It is projected to rise by 600,000—600,000 more children across the UK will be in poverty under this Conservative-led Government. Do not take my word for that; take the word of the Child Poverty Action Group whose figures those are.

Dylwn ar yr adeg hon ddelio â'r pwynt a wnaed gan un o gyfranwyr y Ceidwadwyr Cymreig at y ddadl hon a honnodd fod y gyfradd tlodi plant wedi cynyddu o dan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf. Gostyngodd y gyfradd tlodi plant ledled y DU dros filiwn o dan Lywodraeth Lafur ddiwethaf y DU. Rhagwelir y bydd yn cynyddu 600,000—bydd 600,000 yn fwy o blant ledled y DU mewn tlodi o dan y Llywodraeth hon a arweinir gan y Ceidwadwyr. Peidiwch â chymryd fy ngair i am hynny; cymerwch air y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a ddarparodd y ffigurau hynny.

I will take the intervention.

Cymeraf yr ymyriad.

17:57

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I presume that I am the person you are referring to. I was referring to figures in Wales. Between 1999 and 2004 child poverty in Wales fell to the UK average figure, but then it started rising again, and once again became the highest level in the UK. That was after 2004.

Diolch. Tybiaf mai fi yw'r person yr ydych yn cyfeirio ato. Roeddwn yn cyfeirio at ffigurau yng Nghymru. Rhwng 1999 ac 2004, gostyngodd y gyfradd tlodi plant yng Nghymru i ffigur cyfartalog y DU, ond yna dechreuodd gynyddu eto, ac unwaith eto cyrhaeddodd y lefel uchaf yn y DU. Roedd hynny ar ôl 2004.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:57

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is true that child poverty action stalled in the mid-2000s. It is also true that child poverty is rising under this Conservative-led Government as a direct result of deliberate changes in policy. Again, do not take my word for it. Take the word of the Child Poverty Action Group, and independent children's charities that recognise the damage that the UK Government is doing to children living in poverty in Wales and across the UK.

Mae'n wir bod camau ar dlodi plant wedi arafu yng nghanol y 2000au. Mae hefyd yn wir bod y gyfradd tlodi plant yn cynyddu o dan y Llywodraeth hon a arweinir gan y Ceidwadwyr o ganlyniad uniongyrchol i newidiadau bwriadol mewn polisi. Unwaith eto, peidiwch â chymryd fy ngair i am hynny. Cymerwch air y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, ac elusennau plant annibynnol sy'n cydnabod y niwed y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud i blant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru a ledled y DU.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We will support amendment 4, tabled by Aled Roberts, on the proposed public health Bill. The Minister for Health and Social Services will outline details of that Bill in the next few weeks when he publishes a public health White Paper.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 4, a gyflwynwyd gan Aled Roberts, ar y Bil iechyd y cyhoedd arfaethedig. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu manylion y Bil hwnnw dros yr ychydig wythnosau nesaf pan fydd yn cyhoeddi'r Papur Gwyn ar iechyd y cyhoedd.

I will turn to the details of the motion. I should say that, in moving the motion, Elin Jones made a number of points on which we would agree. I would also like to recognise the points made by Jocelyn Davies about the impacts and the recognition that the quality of housing has an impact on somebody's health.

Trof at fanylion y cynnig. Dylwn ddweud bod Elin Jones, wrth gynnig y cynnig, wedi gwneud nifer o bwyntiau y byddem yn cytuno â hwy. Hoffwn hefyd gydnabod y pwyntiau a wnaed gan Jocelyn Davies am yr effeithiau a'r gydnabyddiaeth fod ansawdd tai yn cael effaith ar iechyd unigolyn.

Evidence tells us, as outlined by Elin Jones, that the expected gap in life expectancy between our most and least deprived areas is seven years for a man and six years for a woman in Wales.

Dywed tystiolaeth wrthym, fel yr amlinellwyd gan Elin Jones, mai'r bwlch disgwyliedig mewn disgwyliad oes rhwng ein hardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yw saith mlynedd i ddyn a chwe blynedd i fenyw yng Nghymru.

We also recognise that legislation has a key role to play in reducing inequalities and improving outcomes. The future generations Bill will help to ensure that our children inherit a country that is measurably better in terms of the environment, the economy and quality of life and life chances. The Bill reinforces the fundamental role that public services in Wales must play and the need to put the present and future needs of communities at the heart of decisions. That obviously includes health inequalities and tackling poverty.

Cydnabyddwn hefyd fod gan ddeddfwriaeth rôl allweddol i'w chwarae wrth leihau anghydraddoldebau a gwella canlyniadau. Bydd Bil cenedlaethau'r dyfodol yn helpu i sicrhau bod ein plant yn etifeddu gwlad sy'n sylweddol well o ran yr amgylchedd, yr economi ac ansawdd bywyd a chyfleoedd bywyd. Mae'r Bil yn atgyfnerthu'r rôl sylfaenol y mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ei chwarae a'r angen i anghenion presennol cymunedau a'u hanghenion yn y dyfodol fod wrth wraidd penderfyniadau. Mae hynny'n amlwg yn cynnwys anghydraddoldebau iechyd a threchu tlodi.

Health is part of a broader framework; it is not simply a stand-alone issue or service. Together with the public health (Wales) Bill, the future generations Bill should have a real and lasting impact on the health and wellbeing of people in Wales.

Mae iechyd yn rhan o fframwaith ehangach; nid yw'n fater neu'n wasanaeth annibynnol. Ynghyd â Bil iechyd y cyhoedd (Cymru), dylai Bil cenedlaethau'r dyfodol gael effaith wirioneddol a pharhaus ar iechyd a lles pobl yng Nghymru.

We recognise that tackling the link between poverty and ill health is a key priority of action for this Government. It is reflected in the programme for government, the tackling poverty action plan and 'Fairer Health Outcomes for All'. We have taken account of the work of leading experts, like Sir Michael Marmot, who has highlighted a number of key principles that inform the approach that we take in Wales. In particular, there is the importance of giving every child, wherever possible, the best start in life, and that is at the heart of the rationale and action taken in our Flying Start intervention programme.

We already know that diseases linked to lifestyle factors are a major problem and that continuing action to tackle the harms caused by tobacco and alcohol misuse is crucial. We also recognise that action is needed to reduce obesity and increase levels of physical activity, as recognised by Elin Jones in moving the motion. We recognise that there is a clear link between the rates of smoking, obesity and income.

Our public health campaigns, such as Change4Life, programmes such as Healthy Working Wales and the tobacco control action plan are all part of our commitment to shift attitudes to lifestyle choices and engender a greater sense of personal responsibility for our own health, as recognised by the Bevan commission and by Elin Jones in moving the motion today.

Communities First also has a role to play to support the public health agenda at a national and local level. Families First and Flying Start already play a part in delivering more effective multi-agency work to improve health outcomes. I have set out a very clear expectation that health boards and local government must have a more consistent and effective working relationship with our three anti-poverty programmes, which are Communities First, Families First and Flying Start.

One good example of this work in action is the work undertaken at present on low birth weight. We have brought together the anti-poverty champions from local government, public health directors, Communities First, Families First and Flying Start in four regional meetings across Wales.

The low birth weight priority they are addressing jointly together challenges the way that all those partners work together and requires a level of honesty about the fact that local partnerships have not existed as consistently and effectively as they should have done in the past. Smoking is probably the biggest single factor in low birth weight and it is clearly linked to poverty. That is why there is extra work going on between Communities First and health boards on smoking cessation in pregnancy.

Cydnabyddwn fod mynd i'r afael â'r cyswllt rhwng tlodi a salwch yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon. Fe'i hadlewyrchir yn y rhaglen lywodraethu, y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi a 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb'. Rydym wedi ystyried gwaith arbenigwyr blaenllaw, fel Syr Michael Marmot, a nododd nifer o egwyddorion allweddol sy'n llywio'r hyn a wnawn yng Nghymru. Yn arbennig, mae'n bwysig bod pob plentyn, lle bynnag y bo'n bosibl, yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, ac mae hynny wrth wraidd y rhesymeg a'r camau a gymerwyd yn ein rhaglen ymyrryd, Dechrau'n Deg.

Gwyddom eisoes fod clefydau sy'n gysylltiedig â ffactorau ffordd o fyw yn broblem fawr a bod cymryd camau parhaus i fynd i'r afael â'r niwed a achosir gan gamddefnyddio tybaco ac alcohol yn hanfodol. Cydnabyddwn hefyd fod angen cymryd camau i leihau gordewdra a chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol, fel y cydnabuwyd gan Elin Jones wrth gynnig y cynnig. Cydnabyddwn fod cyswllt clir rhwng cyfraddau ysmegu, gordewdra ac incwm.

Mae ein hymgyrchoedd iechyd y cyhoedd, megis Newid am Oes, rhaglenni fel Cymru Iach ar Waith a'r cynllun gweithredu ar reoli tybaco i gyd yn rhan o'n hymrwymiad i newid agweddau at ddewisiadau ffordd o fyw ac ennyn ymdeimlad cryfach o gyfrifoldeb personol dros ein hiechyd ein hunain, fel y cydnabuwyd gan gomisiwn Bevan a chan Elin Jones wrth gynnig y cynnig heddiw.

Mae gan Cymunedau yn Gyntaf hefyd rôl i'w chwarae i gefnogi'r agenda iechyd cyhoeddus yn genedlaethol ac yn lleol. Mae Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg eisoes yn chwarae rhan i gyflawni gwaith amlasiantaeth mwy effeithiol er mwyn gwella canlyniadau iechyd. Nodais ddisgwyliad clir iawn fod yn rhaid i fyrdau iechyd a llywodraeth leol feithrin cydberthynas waith fwy cyson ac effeithiol â'n tair rhaglen gwrth-dlodi, sef Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Un enghraifft dda o'r gwaith hwn yw'r gwaith a wneir ar hyn o bryd mewn perthynas â phwysau geni isel. Rydym wedi dwyn ynghyd eiriolwyr gwrth-dlodi o lywodraeth leol, cyfarwyddwyr iechyd y cyhoedd, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg mewn pedwar cyfarfod rhanbarthol ledled Cymru.

Mae'r flaenoriaeth o ran pwysau geni isel y maent yn mynd i'r afael â hi ar y cyd yn herio'r ffordd y mae'r holl bartneriaid hynny'n cydweithio ac yn gofyn am lefel o onestrwydd ynghylch y ffaith nad yw partneriaethau lleol wedi bodoli mor gyson ac effeithiol ag y dylent fod wedi ei wneud yn y gorffennol. Mae'n debygol mai ysmegu yw'r prif beth sy'n effeithio ar bwysau geni isel ac mae cyswllt clir rhyngddo a thlodi. Dyna pam bod gwaith ychwanegol yn cael ei wneud rhwng Cymunedau yn Gyntaf a byrddau iechyd er mwyn annog menywod i roi'r gorau i ysmegu yn ystod beichiogrwydd.

The clear challenge that we have set for the Welsh Government and our partners is for this work to become consistent, systemic and effective. It is simply not acceptable for us to tolerate an inconsistent and inefficient way of working with and for our poorest communities. We will continue to focus on improvement. We will support what works and challenge what does not. We recognise the scale of the challenge that we face in changing lifestyle choices and health outcomes. We also recognise the major health inequalities that exist between our least well off communities and our better-off families. We do not accept that those differences should exist or that Government has no role to play in tackling them. This will remain an important area for this Government and our country's economic future. I thank Plaid Cymru for bringing the debate forward today.

Yr her amlwg a bennwyd gennym ar gyfer Llywodraeth Cymru a'n partneriaid yw sicrhau bod y gwaith hwn yn gyson, yn systematig ac yn effeithiol. Nid yw'n dderbyniol inni oddef ffordd anghyson ac aneffeithlon o weithio gyda'n cymunedau tlotaf a throstynt. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella. Byddwn yn cefnogi'r hyn sy'n gweithio ac yn herio'r hyn nad yw'n gweithio. Cydnabyddwn faint yr her a wynebwn o ran newid dewisiadau ffordd o fyw a chanlyniadau iechyd. Cydnabyddwn hefyd yr anghydraddoldebau iechyd sylweddol sy'n bodoli rhwng ein cymunedau lleiaf cefnog a'n teuluoedd mwyaf cefnog. Ni dderbyniwn y dylai'r gwahaniaethau hynny fodoli nac ychwaith nad oes gan y Llywodraeth rôl i'w chwarae i fynd i'r afael â hwy. Bydd hyn yn parhau'n faes pwysig i'r Llywodraeth hon a dyfodol economaidd ein gwlad. Diolch i Plaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon heddiw.

18:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Elin Jones to reply to the debate.

Galwaf ar Elin Jones i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:03 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd, a diolch i bawb a wnaeth gyfrannu at y ddadl.

Thank you, Presiding Officer, and thank you to everyone who contributed to the debate.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Byddaf yn cychwyn drwy gyfeirio at farn Plaid Cymru am y gwelliannau sydd wedi eu cyflwyno. O ran gwelliant 1 yn enw'r Toriaid, fe fydd Plaid Cymru yn ymatal ar y gwelliant hwnnw, gan fod y gwelliant yn cyfeirio at doriadau i gyllideb y gwasanaeth iechyd, ond fe wnes i ac eraill yn y ddadl hon y pwynt yn glir mai'r modd mwyaf effeithiol o dorri'r linc rhwng afiechyd a thlodi yn deillio o gyllidebau eraill sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y cyllidebau ar gyfer tai, yr amgylchedd a'r economi, ac nid felly'r gyllideb iechyd.

I will start by referring to Plaid Cymru's views on the amendments that have been tabled. With regard to amendment 1 in the name of the Tories, Plaid Cymru will abstain on that amendment, because it refers to cuts to the health service budget, but I and others in this debate made clear that the most effective way of breaking the link between ill health and poverty emerges from other budgets that are held by the Welsh Government, including the budgets for housing, the environment and the economy, rather than the health budget.

Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r ail welliant. Fe wnaeth Darren Millar dynnu sylw at y gwerthusiad o raglenni iechyd cyhoeddus yr oedd y Llywodraeth ei hun wedi ei gomisiynu a'r ffaith fod y gwerthusiad hwnnw yn dangos nad yw rhai o'r rhaglenni sydd wedi eu rhedeg gan y Llywodraeth dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn arbennig o lwyddiannus. Nid yw hynny i feirniadu'r ffaith fod y rhaglenni hynny wedi eu rhedeg, oherwydd, ambell waith, mae eisiau syniadau newydd a thrio gwneud pethau yn wahanol, ond mae'n bwysig dysgu'r gwersi a stopio gwneud rhywbeth os ydyw'n cael ei werthuso i fod yn aflwyddiannus. Felly, mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn gwerthuso rhaglenni iechyd cyhoeddus o'r math hwn.

Plaid Cymru will support the second amendment. Darren Millar highlighted the evaluation of public health programmes that the Government itself had commissioned and the fact that that evaluation demonstrated that some of the programmes run by the Government over the past few years have been particularly successful. That is not to criticise the fact that those programmes were initiated, because, on occasion, we need new ideas and we need to try to do things differently, but it is important to learn the lessons and to cease doing something if it is evaluated as being unsuccessful. Therefore, it is important that the Government evaluates public health programmes of this type.

O ran gwelliant 3, nid ydwyf yn credu bod y Toriaid wedi disgwyl, wrth roi'r gwelliant hwn gerbron, y byddem yn rhoi rhyw fath o groeso blanced i weithrediadau'r Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, er ein bod ni fel plaid yn cefnogi un o'r polisiau y cyfeirir ato yn y gwelliant, sef yr isafswm cyflog.

In terms of amendment 3, I do not believe that the Tories had expected, in tabling this amendment, that we would give a blanket welcome to the actions of the United Kingdom Government, although, as a party, we support one of the policies referred to in the amendment, namely the minimum wage.

Tynnodd Joyce Watson sylw at y ffaith fod y toriadau lles y mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd yn cael effaith uniongyrchol ar les iechyd meddwl pobl, a menywod yn benodol yn ôl yr adroddiad y bu iddi sôn amdano yng nghyswilt Ystradgynlais.

Joyce Watson drew attention to the fact that the welfare cuts imposed by the United Kingdom Government are having a direct impact on people's mental health, and specifically on that of women, according to the report she referred to in relation to Ystradgynlais.

Fe wnaeth Lindsay Whittle a Rhodri Glyn Thomas dynnu sylw at y ffaith bod Aelodau Seneddol Llafur ac o bob plaid arall heblaw Plaid Cymru heddiw wedi pleidleisio o blaid cam arall yn y toriadau ar gyfer y wladwriaeth les yn San Steffan.

O ran y pedwerydd gwelliant, bydd Plaid Cymru yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol.

Hoffwn gyfeirio yn gyntaf at gyfraniad Darren Millar. Os deallais yn iawn, rwy'n credu y bu iddo wadu'r cysylltiad rhwng tlodi ac iechyd gwael. Yr hyn a ddywedaf i yw, 'all evidence points to the contrary'. Mae amodau byw yn cyfrannu llawn cymaint at lefelau afiechyd ag y mae'r dewisiadau byw gan unigolion.

Lindsay Whittle drew our attention to the growth industry over the past few years of food banks, which so many people in our societies are now dependent upon. There have been recent academic articles in the 'British Medical Journal' that have drawn particular attention to the next public health emergency facing our society, namely malnutrition, especially in our children. That is in twenty-first-century Wales and twenty-first-century UK, and it is a shame.

Felly, mae gwaith penodol y gall y Llywodraeth fod yn canolbwyntio arno. Cyfeiriodd Jocelyn Davies yn benodol iawn at y gwaith pwysig a'r cysylltiad pwysig rhwng ansawdd tai a lefelau iechyd pobl. Bu i Rhodri Glyn Thomas hefyd amlinellu'r dystiolaeth sy'n bodoli bod iechyd meddwl yn elwa'n sylweddol iawn o fod yn agos ac o gael mynediad at fannau agored a gwyrdd.

Croesawaf dipyn o'r hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog yn ei ymateb i'r ddadl. Rwy'n siomedig na chyfeiriodd yn benodol iawn at yr angen i ddeddfu ar wahardd ysmegu mewn ceir. Fel y dywedais yn fy nghyfraniad, mae 41% o bobl ddi-waith, digyflog, y tlotaf yn ein cymdeithas, yn parhau i ysmegu. Mae angen gwarchod y plant hynny yn ogystal â phlant yr 14% cyfoethocaf yn ein cymdeithas rhag mwg mewn ceir. Byddwn wedi gwerthfawrogi clywed beth yw bwriad ac amserlen y Llywodraeth wrth symud ymlaen, rwy'n gobeithio, at ddeddfu yn y maes hwn.

Felly, i gloi, mae gan yr unigolyn gyfrifoldeb, wrth gwrs, i fwyta, yfed a byw mor iach â phosibl, ond mae hefyd gan y Llywodraeth gyfrifoldeb i wella amodau byw pobl a chymdeithasau ac, yn fwy na dim, i godi pobl mas o dlodi gyda chyfle am waith a chyfle am incwm teg i bawb.

Lindsay Whittle and Rhodri Glyn Thomas highlighted the fact that Labour Members of Parliament, and MPs of all other parties with the exception of Plaid Cymru, today voted in favour of another stage in the cuts to the welfare state in Westminster.

In terms of the fourth amendment, Plaid Cymru will support the Liberal Democrat amendment.

I would like to refer in the first instance to the contribution made by Darren Millar. If I understood it correctly, I think that he denied the link between poverty and poor health. What I would say is that all evidence points to the contrary. Living conditions contribute just as much to levels of ill health as people's lifestyle choices.

Tynnodd Lindsay Whittle ein sylw at dwf banciau bwyd dros y blynyddoedd diwethaf, y mae cynifer o bobl yn ein cymdeithasau bellach yn dibynnu arnynt. Cafwyd erthyglau academaidd yn ddiweddar yn y 'British Medical Journal' a dynnodd sylw penodol at yr argyfwng iechyd y cyhoedd nesaf sy'n wynebu ein cymdeithas, sef diffyg maeth, yn enwedig ymhlith ein plant. Mae'n drueni mawr bod hynny'n digwydd yng Nghymru a'r DU yn yr unfed ganrif ar hugain.

Therefore, there is very specific work that the Government could be concentrating on. Jocelyn Davies made specific reference to the important work and the important link between the quality of housing and people's health. Rhodri Glyn Thomas outlined the evidence that exists that people with mental health problems can benefit a great deal from having access to open and green spaces.

I welcome much of what was said by the Deputy Minister in his response to the debate. I am disappointed that he did not make specific reference to the need to legislate on the banning of smoking in cars. As I said in my contribution, 41% of the poorest people in society—the unemployed and unwaged—continue to smoke. We need to safeguard their children as well as the children of the 14% most wealthy in our society from the effects of second-hand smoke in cars. I would have liked to have heard the Government's intention and timetable in progressing, I hope, towards legislating in this area.

Therefore, to conclude, the individual has a responsibility, of course, to eat, drink and live as healthily as possible, but the Government also has a responsibility to improve the living conditions of people and communities, and, above all, to lift people out of poverty by giving them the opportunity to work and to earn a fair income.

18:08

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. Therefore, I will defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Voting deferred until voting time.*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

The Business Committee agreed that voting time would take place immediately after the Plaid Cymru debate, so I intend to move straight to the votes. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish the bell to be rung? I see there are not.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfnod pleidleisio yn digwydd yn syth ar ôl dadl Plaid Cymru, felly bwriadaf symud yn syth i bleidleisio. Cyn imi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

## Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5477](#)

*Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 11, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5477](#)

*Derbyniwyd gwelliant: O blaid 50, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5477](#)

*Derbyniwyd gwelliant: O blaid 40, Yn erbyn 0, Ymatal 10.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5477](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 38, Yn erbyn 0, Ymatal 11.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5477](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 35, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

*Cafodd gwelliant 5 ei ddad-ddethol.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5477](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 35, Yn erbyn 15, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5477](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

Cynnis NDM5477 fel y'i diwygiwyd:

Cynnis bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol yn Lloegr i rewi'r dreth gyngor am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.
2. Yn nodi ymhellach bod Llywodraeth yr Alban wedi sicrhau bod cymorth ar gael i awdurdodau lleol yn yr Alban i rewi'r dreth gyngor ar gyfer 2014/15; a bod rhewi o'r fath wedi bod ar waith ers 2008/09.

## Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5477](#)

*Amendment not agreed: For 11, Against 39, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5477](#)

*Amendment agreed: For 50, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5477](#)

*Amendment agreed: For 40, Against 0, Abstain 10.*

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5477](#)

*Amendment agreed: For 38, Against 0, Abstain 11.*

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5477](#)

*Amendment agreed: For 35, Against 15, Abstain 0.*

*Amendment 5 deselected.*

[Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5477](#)

*Amendment agreed: For 35, Against 15, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5477](#)

*Amendment agreed: For 39, Against 11, Abstain 0.*

Motion NDM5477 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes that the UK Government has made support available to local authorities in England to freeze council tax for a fourth successive year.
2. Further notes that the Scottish Government has made support available to local authorities in Scotland to freeze council tax for 2014/15; and that such a freeze has been in place since 2008/09.

3. Yn cydnabod swyddogaeth y dreth gyngor o ran darparu ffrwd refeniw i gynnal swyddi a gwasanaethau lleol ac yn credu bod lefelau'r dreth gyngor yn fater i awdurdodau lleol unigol fel rhan o'u proses cyllideb.

4. Yn nodi'r sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu llywodraeth leol a'r tebygolrwydd o bwysau parhaol ar gyllidebau awdurdodau lleol.

5. Yn credu er bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am bennu eu lefelau treth gyngor eu hunain, a'u bod yn atebol i'w hetholwyr am hynny, y dylent wrth wneud hynny ystyried amgylchiadau economaidd talwyr y dreth gyngor yn eu hardal.

6. Yn croesawu'r camau sydd wedi cael eu cymryd i ddiogelu'r cartrefi tlotaf yng Nghymru rhag toriadau Llywodraeth y DU i gymorth y dreth gyngor.

7. Yn croesawu'r cynnig yn y Bil Tai (Cymru) i gynyddu'r dreth gyngor ar dai gwag, a oedd yn argymhellid allweddol yn nadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar dai gwag ym mis Chwefror 2013.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5477 fel y'i diwygiwyd](#)

Derbyniwyd y cynnig NDM5477 fel y'i diwygiwyd: O blaid 39, Yn erbyn 11, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5478](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 35, Yn erbyn 15, Ymatal 0.

3. Acknowledges the role of council tax in providing a revenue stream to sustain local services and jobs and believes council tax levels are a matter for individual local authorities as part of their budget process.

4. Notes the difficult financial situation facing local government and the likelihood of sustained pressures on local authority budgets.

5. Believes that while local authorities are responsible for setting their own council tax levels, for which they are accountable to their electorate, in doing so they should take account of the economic circumstances of council tax payers in their area.

6. Welcomes the action taken to protect the poorest households in Wales from UK Government cuts to council tax support.

7. Welcomes the proposal within the Housing (Wales) Bill to increase council tax on empty homes, which was a key recommendation of the Welsh Liberal Democrat debate on empty homes in February 2013.

[Result of the vote on motion NDM5477 as amended.](#)

Motion NDM5477 as amended agreed: For 39, Against 11, Abstain 0.

[Result of the vote on motion NDM5478](#)

Motion agreed: For 35, Against 15, Abstain 0.

18:12

## Dadl Fer: Denu Merched i Wyddoniaeth—yr Achos dros Fanteisio i'r Eithaf ar Botensial Gwyddoniaeth yng Nghymru

I have agreed to allow a minute each to Joyce Watson, Julie Morgan, Rebecca Evans and Eluned Parrott in this debate.

I want to begin this debate by saying that we do not lack for high-level role models for women in science. For example, on BBC Radio 4's programme 'The Life Scientific' on Sunday 16 March, I heard Professor Anne Glover talking about her life as a scientist. Jim al-Khalili introduced her as the most influential scientist in Europe, as she is the scientific adviser to José Manuel Barroso and advises him on the science behind many of the European Commission's policy initiatives. During the programme, she spoke of the need to share the pleasure of science with citizens across Europe by ensuring scientific education for all, which would lead to a population more able to demand better information. She emphasised that this in particular would allow women a much louder voice in their society as a result.

## Short Debate: Women into Science —the Case for Maximising Science Potential in Wales

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi cytuno i roi munud yr un i Joyce Watson, Julie Morgan, Rebecca Evans ac Eluned Parrott yn y ddadl hon.

Hoffwn ddechrau'r ddadl hon drwy ddweud nad ydym yn brin o fodelau rôl ar lefel uchel i fenywod ym maes gwyddoniaeth. Er enghraifft, ar raglen BBC Radio 4 'The Life Scientific' ddydd Sul 16 Mawrth, clywais yr Athro Anne Glover yn sôn am ei bywyd fel gwyddonydd. Fe'i cyflwynwyd gan Jim al-Khalili fel y gwyddonydd mwyaf dylanwadol yn Ewrop, gan mai hi yw cyngorydd gwyddonol José Manuel Barroso ac hi sy'n rhoi cyngor iddo ar y wyddoniaeth sy'n sail i lawer o fentrau polisi'r Comisiwn Ewropeaidd. Yn ystod y rhaglen, soniodd am yr angen i rannu plaser gwyddoniaeth â dinasyddion ledled Ewrop drwy sicrhau addysg wyddonol i bawb, a fyddai'n arwain at boblogaeth â mwy o allu i fynnu gwybodaeth well. Pwysleisiodd y byddai hyn, o ganlyniad, yn arbennig yn rhoi llais llawer cryfach i fenywod mewn cymdeithas.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In the last few weeks, we have seen a huge breakthrough in the science behind the big bang theory. Two eminent scientists, Dr Hiranya Peiris and Dr Maggie Aderin-Pocock appeared on Newsnight and gave what I thought was an excellent summary of the theory and the recent discoveries in easily accessible language. The next day, the 'Daily Mail' carried a column asserting that they were selected not for their acknowledged scientific pre-eminence, but because the selection was based on gender and birthplace.

Dr Peiris said in response:

'It is deeply disappointing that you thought it acceptable to print an article drawing attention to the gender and race of scientific experts, suggesting that non-white, non-male scientists are somehow incapable of speaking on the basis of their qualifications and expertise.'

Professor Julie Williams, our chief scientist, has recently commented that women at professorial level are seriously under-represented at just 14%, although they do well in areas of work lower than professorial level. She thinks that this is due to what is called 'unconscious bias' and the subtleties around selections for appointment. She spoke at the Institute of Welsh Affairs 'Women in Science' event, which highlighted many of the points that I am highlighting here tonight.

An American study by the Center for Talent Innovation, called 'Athena Factor 2.0: Accelerating Female Talent in Science, Engineering & Technology', found that there were four fundamental reasons why women leave, or do not enter in the first place, STEM-related workplaces. These were: a hostile male culture; isolation as the sole female, no buddy network or no role model to guide them; a scarcity of sponsors and funding opportunities; and difficulty with executive presence, as it is called, which is being asked to display leadership attributes normally associated with males. I really thought that these moments in time had passed. When these issues were addressed in specific studied companies, however, and the women's contributions were properly valued, those companies invariably showed increased market share and many found new markets altogether.

Yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, gwelsom ddatblygiad mawr o ran y wyddoniaeth sy'n sail i ddamcaniaeth y glec fawr. Ymddangosodd dau wyddonydd blaenllaw, Dr Hiranya Peiris a Dr Maggie Aderin-Pocock, ar Newsnight gan roi crynodeb ardderchog, yn fy marn i, o'r ddamcaniaeth a'r darganfyddiadau diweddar mewn iaith hawdd ei deall. Drannoeth, cyhoeddwyd colofn yn y 'Daily Mail' yn honni eu bod wedi cael eu dewis ar sail eu rhyw a'u man geni, yn hytrach na'u statws gwyddonol cydnabyddedig.

Gan ymateb i hynny, dywedodd Dr Peiris:

Mae'n siomedig iawn eich bod wedi barnu ei bod yn dderbyniol argraffu erthygl yn tynnu sylw at ryw a hil arbenigwyr gwyddonol, gan awgrymu rywffordd na all gwyddonwyr nad ydynt yn ddynion gwyn siarad ar sail eu cymwysterau a'u harbenigedd.

Dywedodd yr Athro Julie Williams, ein prif wyddonydd, yn ddiweddar nad yw menywod wedi'u cynrychioli'n ddigonol o bell ffordd ar lefel athrawol, sef 14% yn unig, er eu bod yn llwyddo mewn meysydd gwaith is na'r lefel athrawol. Cred fod hyn o ganlyniad i'r hyn a elwir yn 'rhagfarn anymwybodol' a manylion prosesau dethol ar gyfer penodiadau. Anerchodd ddigwyddiad 'Menywod mewn Gwyddoniaeth' y Sefydliad Materion Cymreig, a dynnodd sylw at lawer o'r pwyntiau y tynnaf sylw atynt yma heno.

Canfu astudiaeth yn America gan y Center for Talent Innovation, sef 'Athena Factor 2.0: Accelerating Female Talent in Science, Engineering & Technology', fod pedwar rheswm sylfaenol pam mae menywod yn gadael gweithleoedd cysylltiedig â STEM, neu pam nad ydynt yn ymuno â gweithleoedd o'r fath i ddechrau, sef: diwylliant gwrywaidd gelyniaethus; cael eu hynysu fel yr unig fenyw, dim rhwydwaith cyfeillion na model rôl i'w tywys; prinder noddwyr a chyfleoedd ariannu; ac anhawster o ran presenoldeb gweithredol, fel y'i gelwir, sef ceisiadau i ddangos nodweddion arweinyddiaeth a gysylltir fel arfer â dynion. Roeddwn o ddifrif yn credu mai problemau'r gorffennol oeddynt. Fodd bynnag, pan ymdriniwyd â'r materion hyn yn y cwmnïau penodol a astudiwyd, a phan gafodd cyfraniadau'r menywod eu hystyried o ddifrif, yn ddiau, cynyddodd cyfran y cwmnïau hynny o'r farchnad a daeth llawer ohonynt o hyd i farchnadoedd cwbl newydd.

In the UK overall, only one in 20, that is 5.3%, of women in work, are employed in a job role where science, technology, engineering, maths or computer science skills are central. This compares with 31.3% of males. This means that men are six times more likely to work in STEM occupations than women. In Wales, women make up 47.7% of the general workforce, but only 30% of the STEM workforce. If health and social care occupations in STEM are discounted, that figure, unfortunately, goes down to 9% women, or 91% men. At more senior levels, the overall disparity is even greater. The Davies review has today highlighted that women in executive positions account for only 6.9% of all executive posts in the FTSE 100 companies, and 25.5% of non-executive posts. The explanation is, as aired on the 'Today' programme this morning, that there is unconscious bias as women's curricula vitae exhibit less experience in traditional management skill sets—whatever that means. So, the same poor explanation exists here as in the US.

The Women's Engineering Society has pointed out that 85% of engineering and technology graduates from the UK are men. In addition, the proportion of female fellows at UK institutions ranges from 49% at the Royal Society of Chemistry down to just 1.5% at the Institution of Engineering and Technology. Girls subject choices at school and their preconceptions of engineering as a career have been highlighted in the Perkins review as being significant factors for female under-representation in engineering occupations. It is absolutely imperative that we continue to address the issues about why girls shy away from STEM subjects at school and that we continue to do so until we have parity. Choices and decisions about STEM are formed early. Careers education needs to start earlier—ideally from the age of 11.

The Welsh Government's national science academy and sector work panel fund activities to engage young people in STEM, for example supporting Airbus to run an all-girls cohort of industrial cadets. The Welsh Government is reviewing the curriculum, including science and technology aspects, and is providing financial incentives for high-quality STEM graduates to enter teaching. It is also investing in STEM apprenticeships and actively supporting the engineering sector to pilot and test new ideas. Professor Julie Williams said in her acceptance remarks that the need to ensure that every child in Wales knows the great opportunities that exist for them in science and that science can be fun is absolutely imperative. We really must get this across to our young people.

Yn y DU yn gyffredinol, dim ond un o bob 20, sef 5.3%, o fenywod mewn gwaith, a gaiff eu cyflogi mewn swydd lle mae sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg neu gyfrifiadureg yn ganolog, o gymharu â 31.3% o ddynion. Mae hyn yn golygu bod dynion chwe gwaith yn fwy tebygol o weithio mewn galwedigaethau STEM na menywod. Yng Nghymru, menywod yw 47.7% o'r gweithlu cyffredinol, ond dim ond 30% o'r gweithlu STEM. Os diystyrir galwedigaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn STEM, mae'r ffigur hwnnw, yn anffodus, yn gostwng i 9% o fenywod, neu 91% o ddynion. Ar lefelau uwch, mae'r gwahaniaeth cyffredinol yn fwy byth. Heddiw nododd adolygiad Davies mai dim ond 6.9% o'r holl swyddi gweithredol yng nghwmnïau'r FTSE 100, a 25.5% o swyddi anweithredol, a ddelir gan fenywod mewn swyddi gweithredol. Fel y darlledwyd ar raglen 'Today' y bore yma, yr esboniad yw bod rhagfarn anymwybodol gan fod curricula vitae menywod yn dangos llai o brofiad o ran setiau sgiliau rheoli traddodiadol—beth bynnag yw hynny. Felly, caiff yr un esboniad gwael ei ddefnyddio yma ag yn yr UD.

Mae'r Gymdeithas Peirianeg i Fenywod wedi nodi mai dynion yw 85% o raddedigion peirianeg a thechnoleg o'r DU. Yn ogystal, mae cyfran cymrodorion benywaidd o fewn sefydliadau'r DU yn amrywio o 49% yn y Gymdeithas Cemeg Frenhinol i ddim ond 1.5% yn y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg. Nododd adolygiad Perkins fod dewisiadau pwnc merched yn yr ysgol a'u rhagdybiaethau o beirianeg fel gyrfa yn ffactorau pwysig o ran y ffaith nad yw menywod wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn swyddi peirianeg. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn parhau i ymdrin â'r materion sy'n golygu bod merched yn ymwrthod â phynciau STEM yn yr ysgol a'n bod yn parhau i wneud hynny hyd nes y bydd cydraddoldeb. Gwneir dewisiadau a phenderfyniadau am STEM ar gam cynnar. Mae angen i addysg gyrfaedd ddechrau'n gynharach—yn ddelfrydol o 11 oed.

Mae academi gwyddoniaeth genedlaethol a phanel gwaith sector Llywodraeth Cymru yn ariannu gweithgareddau i ennyn diddordeb pobl ifanc mewn STEM, er enghraifft, helpu Airbus i gynnal carfan merched yn unig o gadetiaid diwydiannol. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cwricwlwm, gan gynnwys agweddau ar wyddoniaeth a thechnoleg, ac yn darparu cymhellion ariannol i raddedigion STEM o ansawdd uchel fynd ati i addysgu. Mae hefyd yn buddsoddi mewn prentisiaethau STEM ac yn rhoi cefnogaeth weithredol i'r sector peirianeg dreialu a phrofi syniadau newydd. Dywedodd yr Athro Julie Williams yn ei sylwadau derbyn fod yr angen i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn gwybod bod cyfleoedd ardderchog ar gael iddo ym maes gwyddoniaeth ac y gall gwyddoniaeth fod yn hwyl yn gwbl hanfodol. Rhaid inni fynd ati o ddifrif i gyfleu hyn i'n pobl ifanc.

However, despite this, many children, especially girls, rule out STEM choices, even though they like science, are good at it and think that what scientists do is valuable. This is because, crucially, children, young people and their families have a very narrow view of the careers that STEM qualifications can lead to. Many think in terms only of the obvious and traditional routes—research scientist, civil engineer, doctor—and are unaware of the wide range of careers that STEM qualifications make possible. They need to be informed that science and mathematics qualifications keep your options open and lead to a range of well-paid and interesting careers, both within and beyond STEM. This needs to be constantly reinforced throughout their options choice years.

The evidence shows that families constitute the greatest source of influence on 10 to 14-year-olds' aspirations. Children from families that are already familiar with the world of science and technology are much more likely than their peers to want to study science post-16 and/or work in science careers afterwards. An Ofsted report entitled 'Successful Science' looked at the strengths and weaknesses of science across primary and secondary schools in England and highlighted the role of outstanding teaching by qualified teachers in promoting female pupils' engagement in particular. Learning and progress was assured where the science teachers were suitably qualified. It should be noted that two-thirds of ICT and computer science teachers in England had no relevant qualification at that time. This state of affairs is being addressed, I understand, by the departments of education in England and Scotland and is highlighted here as a challenge for Wales in the recent ICT review. The previous Minister for education deliberately put funding into teacher education in this area and the Welsh Government is far from being complacent. For example, the STEM Cymru project, led by the engineering education scheme in Wales, aims to encourage 12 to 19-year-olds to study STEM subjects and participate in industry-linked technological and engineering activities. The Enterprise and Business Committee, on which I serve, has recently announced a review of policy needs in this area to assess progress and effectiveness.

The Welsh Government's wider skills concept is to be welcomed as well, and the skills action plan, for example, states that:

'Science, technology, engineering and maths (STEM) graduates offer skills and knowledge that are highly valued in the labour market. Chemistry and physics graduates will earn, on average, 30% more over their working lives than A-level holders, a significantly higher premium than graduates in subjects including psychology, linguistics, and history.'

Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae llawer o blant, yn enwedig merched, yn diystyru dewisiadau STEM, er eu bod yn hoffi gwyddoniaeth, yn rhagori ynddi ac yn credu bod yr hyn y mae gwyddonwyr yn ei wneud yn werthfawr. Mae hyn, yn hollbwysig, am fod gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd syniad cul iawn o'r gyrfaedd y gall cymwysterau STEM arwain atynt. Mae llawer ond yn meddwl yn nhermau'r llwybrau amlwg a thraddodiadol—gwyddonydd ymchwil, peiriannydd sifil, meddyg—ac nid ydynt yn ymwybodol o'r amrywiaeth eang o yrfaedd y gellir eu dilyn gyda chymwysterau STEM. Mae angen iddynt gael gwybod bod cymwysterau gwyddoniaeth a mathemateg yn ehangu eich opsiynau ac yn arwain at amrywiaeth o yrfaedd diddorol sy'n talu cyflog uchel, o fewn STEM a thu hwnt i'r pynciau hynny. Mae angen atgyfnerthu hyn yn gyson drwy gydol y blynyddoedd pan fyddant yn dewis eu hopsiynau.

Dengys y dystiolaeth mai teuluoedd sy'n cael y dylanwad mwyaf ar ddyheadau plant rhwng 10 a 14 oed. Mae plant o deuluoedd sydd eisoes yn gyfarwydd â byd gwyddoniaeth a thechnoleg yn llawer mwy tebygol na'u cyfoedion o fod eisieu astudio gwyddoniaeth ôl-16 a/neu weithio mewn gyrfaedd gwyddoniaeth wedyn. Ystyriodd adroddiad gan Ofsted o'r enw 'Successful Science' gryfderau a gwendidau gwyddoniaeth ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd yn Lloegr a thynnodd sylw at rôl addysgu rhagorol gan athrawon cymwysedig yn arbennig wrth annog merched i ymgysylltu â'r pwnc. Llwyddwyd i sicrhau dysgu a chynnydd pan oedd athrawon gwyddoniaeth yn meddu ar gymwysterau addas. Dylid nodi nad oedd gan ddwy ran o dair o athrawon TGCh a chyfrifiadureg yn Lloegr unrhyw gymhwyster perthnasol ar y pryd. Mae'r adrannau addysg yn Lloegr a'r Alban yn ymdrin â'r sefyllfa honno, fel y deallaf, a thynnwyd sylw at y mater yma yn yr adolygiad TGCh diweddar fel her i Gymru. Neilltuoedd y Gweinidog addysg blaenorol arian yn fwiadol ar gyfer y maes hwn ac nid yw Llywodraeth Cymru yn gorffwys ar ei rhwyfau o bell ffordd. Er enghraifft, nod prosiect STEM Cymru, o dan arweiniad y cynllun addysg peirianeg yng Nghymru, yw annog plant rhwng 12 a 19 oed i astudio pynciau STEM a chymryd rhan mewn gweithgareddau technolegol a pheirianeg sy'n gysylltiedig â diwydiant. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Pwyllgor Menter a Busnes, yr wyf yn aelod ohono, adolygiad o anghenion polisi yn y maes hwn er mwyn asesu cynnydd ac effeithiolrwydd.

Dylid croesawu cysyniad sgiliau ehangach Llywodraeth Cymru hefyd, ac mae'r cynllun gweithredu sgiliau, er enghraifft, yn nodi:

Mae graddedigion gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) yn cynnig sgiliau a gwybodaeth a werthfawrogir yn fawr yn y farchnad lafur. Bydd graddedigion cemeg a ffiseg, ar gyfartaledd, yn ennill 30% yn fwy yn ystod eu bywydau gwaith na deiliaid Safon Uwch, premiwm sylweddol uwch na graddedigion mewn pynciau sy'n cynnwys seicoleg, ieithyddiaeth, a hanes.

Those are also useful subjects, I hasten to add. Employers tell us that the demand for STEM graduates is likely to grow significantly over the next few years. However, in Gower College, in my own constituency, for example, the figures show that, for full-time vocational courses, only 5% of the engineering students are female. Some 54% of the general science students are female, which is excellent, but only 9% of the computing students are female. In full-time general education courses, this picture is a little bit better and, overall, the picture is 48% female and 52% male, which is excellent. However, when you drill down into the figures, you get 21% for physics and only 17% for computing. However, we know that the skills developed through the study of STEM subjects are highly valued by all businesses. A Confederation of British industry study found that 72% of all UK businesses rely on people with STEM skills. These are seen to be analytical skills, critical thinking and problem solving, digital literacy, creativity and innovation and something called personal effectiveness.

Careers Wales suggests that the differences in take-up could be attributed to girls' misconceptions about physics, often from parental pressure, and that gender stereotyping should be addressed at the earliest possible age in primary schools. I acknowledge that there is a wide-ranging curriculum review here in Wales, but a new GCSE in computer science could only assist, alongside a new computing curriculum that focuses on teaching students the fundamentals of programming and creating technology, which would help put Wales back in the lead in producing UK programmers and systems analysts instead of just being IT consumers.

At GCSE level, girls and boys do equally well. The percentage of A-level physics students who are female, however, has stayed at 20% for the past 20 years or more without moving. It is 21% in Gower College this year, for example. This emphasises the fact that starting to inspire people at 16 years old is far too late. Choices are made and options are closed off before then. The proportion of females applying in higher education is 38% compared to 55% for all subjects. The acceptance is 27% compared with 54% and in engineering this drops to 13% and 12% respectively.

The irony is that girls outperform boys in STEM areas. An e-skills report into IT found that females consistently achieve higher grades than males in all IT-related subjects, but they fill just 17% of IT and telecoms professional occupations. Gender imbalance is prevalent across all IT-related courses, and this is worsening over time. Some 15% of acceptances to computing degree courses are female and the proportion of females taking computing A-levels remains low at 9%. However, let us not forget that the overall workforce is 45% female—47.7% in Wales.

Wrth gwrs, mae'r rheini hefyd yn bynciau defnyddiol. Dywed cyflogwyr wrthym fod y galw am raddedigion STEM yn debygol o gynyddu'n sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, yng Ngholeg Gŵyr, yn fy etholaeth i, er enghraifft, dengys y ffigurau, ar gyfer cyrsiau galwedigaethol llawn amser, mai dim ond 5% o'r myfyrwyr peirianeg sy'n ferched. Merched yw tua 54% o'r myfyrwyr gwyddoniaeth gyffredinol, sy'n ardderchog, ond dim ond 9% o'r myfyrwyr cyfrifiadureg sy'n ferched. Mewn cyrsiau addysg gyffredinol llawn amser, mae'r darlun rhywfaint yn well ac, yn gyffredinol, ceir rhaniad o 48% o ferched a 52% o ddynion, sy'n ardderchog. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi'r ffigurau yn fanylach, dim ond 21% yw'r ganran ar gyfer ffiseg a dim ond 17% ar gyfer cyfrifiadureg. Fodd bynnag, gwyddom fod pob maes busnes yn rhoi gwerth mawr ar y sgiliau a gaiff eu meithrin drwy astudio pynciau STEM. Canfu astudiaeth gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain fod 72% o'r holl fusnesau yn y DU yn dibynnu ar bobl â sgiliau STEM. Ystyrir eu bod yn sgiliau dadansoddol, meddwl beirniadol a datrys problemau, llythrennedd digidol, creadigrwydd ac arloesedd a rhywbeth a elwir yn effeithiolrwydd personol.

Mae Gyrfa Cymru yn awgrymu y gellid priodoli'r gwahaniaethau o ran niferoedd i gamsyniadau merched am ffiseg, yn aml o ganlyniad i bwysau gan rieni, ac y dylid ymdrin ag achosion o stereoteipio yn ôl rhyw cyn gynted â phosibl mewn ysgolion cynradd. Rwy'n cydnabod bod adolygiad eang ar waith o'r cwricwlwm yma yng Nghymru, ond byddai TGAU newydd mewn cyfrifiadureg yn sicr o fudd, ynghyd â chwricwlwm cyfrifiadurol newydd sy'n canolbwyntio ar addysgu hanfodion rhaglennu a chreu technoleg i fyfyrwyr, a fyddai'n helpu i roi Cymru ar y blaen unwaith eto wrth gynhyrchu rhaglennwyr a dadansoddwyr systemau yn y DU yn hytrach na dim ond defnyddwyr TG.

Ar lefel TGAU, mae merched a bechgyn yn gwneud cystal â'i gilydd. Fodd bynnag, mae canran y myfyrwyr ffiseg Safon Uwch sy'n ferched wedi aros yn ddigymffwrdd ar 20% ers rhyw 20 mlynedd bellach. Yng Ngholeg Gŵyr eleni, er enghraifft, mae'n 21%. Mae hyn yn pwysleisio'r ffaith ei bod yn llawer rhy hwyr i geisio dechrau ysbrydoli pobl yn 16 oed. Mae dewisiadau wedi'u gwneud a'r opsiynau wedi cau cyn hynny. Cyfran y merched sy'n gwneud cais ym maes addysg uwch yw 38% o gymharu â 55% ar gyfer pob pwnc. Derbynir 27% o gymharu â 54% ac mewn peirianeg, mae'r canrannau yn gostwng i 13% a 12% yn y drefn honno.

Yr eironi yw bod merched yn perfformio'n well na bechgyn y meysydd STEM. Canfu adroddiad e-sgiliau ar TG fod merched yn gyson yn cyflawni graddau uwch na dynion ymhob pwnc sy'n gysylltiedig â TG, ond dim ond 17% o'r swyddi proffesiynol ym maes TG a thelathrebu a ddelir ganddynt. Mae anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn amlwg ar draws pob cwrs sy'n gysylltiedig â TG, ac mae hyn yn gwaethygu dros amser. Dim ond tua 15% o'r myfyrwyr a gaiff eu derbyn ar gyrsiau gradd mewn cyfrifiadureg sy'n ferched ac mae cyfran y merched sy'n astudio cyrsiau safon Uwch mewn cyfrifiadureg yn parhau'n isel, sef 9%. Fodd bynnag, rhaid inni gofio mai merched yw 45% o'r gweithlu cyffredinol—47.7% yng Nghymru.

The Minister for education has today issued a written statement on his response to the report of the ICT steering group, in which he says that Professor Graham Donaldson will chair a wide-ranging and independent review. I urge the Minister for education to continue to push hard in this area, because, again, the Perkins review points out that the UK has the lowest proportion of female engineers in the European Union. Fewer than one in 10 engineering professionals is a woman. This is a crucial issue. Engineering is failing to draw on the whole of the talent pool. The way the global economy is changing should be good for engineers and good for Britain and Wales, but we are at risk of not making the most of opportunities that will come our way.

Measures that could be encouraged include high-profile media campaigns reaching out to young people, and especially girls aged 11 to 14, with inspirational messages and the diverse role models that I highlighted at the beginning of this short debate. It is completely unacceptable in the twenty-first century that women in Wales still do not have equal access to STEM work opportunities. Although we have many good schemes and initiatives, much more must be done to ensure that we get women into STEM-related employment and that, once they are there, they stay there and get the recognition they richly deserve.

18:25

### Joyce Watson [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Julie, for bringing this debate. My contribution comes from 'Building the Future: Women in Construction', produced by The Smith Institute. It says that

'As recently as January this year, an Architects' Journal survey highlighted by the Welsh equality organisation Chwarae Teg indicated that 66 percent of female architects had experienced some form of sexism in their careers, with 31 percent saying it happened regularly.'

Those female architects would have taken STEM subjects. It goes on to say that,

'This figure has risen since the survey began in 2011. Eighty-eight percent of women felt that having children put them at a disadvantage in the industry, and only 32 percent went back to their old role working the same hours after starting a family. Interestingly, 12.8 percent had left their companies to set up their own practices.'

With women making up 53% of that available workforce, and with us investing nationally in the construction industry to raise the GDP, I feel that we really have to address the issues about women who make up 11% of a total workforce in the construction industry; we have to keep them there.

Mae'r Gweinidog addysg heddiw wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar ei ymateb i adroddiad y grŵp llywio TGCh, lle y nodi y bydd yr Athro Graham Donaldson yn cadeirio adolygiad eang ac annibynnol. Erfyniaf ar y Gweinidog addysg i barhau i ddwyn pwysau yn y maes hwn, oherwydd, unwaith eto, nodi adolygiad Perkins fod gan y DU y gyfran isaf o beirianwyr benywaidd yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae llai nag un o bob 10 o weithwyr proffesiynol ym maes peirianeg yn ferched. Mae'n fater hollbwysig. Mae peirianeg yn methu â manteisio ar y gronfa dalent gyfan. Dylai'r ffordd y mae'r economi fyd-eang yn newid fod o fudd i beirianwyr ac i Brydain a Chymru, ond mae perygl na fyddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a fydd ar gael inni.

Mae'r mesurau y gellid eu hannog yn cynnwys ymgyrchoedd amlwg yn y cyfryngau i estyn allan i bobl ifanc, ac yn enwedig i ferched rhwng 11 ac 14 oed, gyda negeseuon ysbrydoledig a'r modelau rôl amrywiol y tynnais sylw atynt ar ddechrau'r ddadl fer hon. Mae'n gwbl annerbyniol yn yr unfed ganrif ar hugain nad oes gan ferched yng Nghymru fynediad cyfartal i gyfleoedd gwaith STEM. Er bod llawer o gynlluniau a mentrau da ar waith, mae'n rhaid gwneud llawer mwy er mwyn sicrhau bod merched yn ymgymryd â swyddi sy'n gysylltiedig â STEM a'u bod wedyn yn aros ac yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei llawn haeddu.

Diolch, Julie, am gyflwyno'r ddadl hon. Daw fy nghyfraniad o 'Building the Future: Women in Construction', a gynhyrchwyd gan Sefydliad Smith. Noda

Mor ddiweddar â mis Ionawr eleni, nododd arolwg gan yr Architects' Journal y tynnodd Chwarae Teg sylw ato fod 66 y cant o benseiri benywaidd wedi dioddef rhyw fath o rywiaeth yn eu gyrfaedd, gyda 31 y cant yn dweud ei fod yn digwydd yn rheolaidd.

Byddai'r penseiri benywaidd hynny wedi astudio pynciau STEM. Aiff ymlaen i nodi,

Mae'r ffigur hwn wedi codi ers dechrau'r arolwg yn 2011. Roedd 88 y cant o fenywod o'r farn bod cael plant yn golygu eu bod o dan anfantaes yn y diwydiant, a dim ond 32 y cant a ddychwelodd i'w hen swydd gan weithio'r un oriau ar ôl dechrau teulu. Yn ddi-ddorol, roedd 12.8 y cant wedi gadael eu cwmnïau i sefydlu eu cwmni eu hunain.

Gan mai menywod yw 53% o'r gweithlu hwnnw sydd ar gael, a chan ein bod yn buddsoddi'n genedlaethol yn y diwydiant adeiladu er mwyn codi'r CMC, teimlaf fod yn rhaid inni ymdrin â'r ffaith bod 11% o gyfanswm gweithlu'r diwydiant adeiladu yn ferched; rhaid inni eu cadw yno.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:26

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I think that we all like to believe that we judge people fairly on their merits, irrespective of gender, but the reality, in study after study, is that many of us are actually very bad at it. Perhaps the unconscious bias is no more alive and well than it is in terms of the field of science. It was shown in a recent House of Commons report on women in scientific careers that panels like to employ people who are just like them—usually white males.

Credaf fod pob un ohonom yn hoffi credu ein bod yn barnu pobl yn deg yn ôl eu rhinweddau, ni waeth beth fo'u rhyw, ond y realiti, mewn astudiaeth ar ôl astudiaeth, yw bod llawer ohonom mewn gwirionedd yn wael iawn am wneud hynny. Efallai bod y rhagfarn anymwybodol ar ei gwaethaf ym maes gwyddoniaeth. Dangoswyd mewn adroddiad diweddar ar ferched mewn gyrfaeodd gwyddonol gan Dŷ'r Cyffredin fod paneli yn hoffi cyflogi pobl sydd yn union debyg iddynt—dynion gwyn fel arfer.

Another fascinating study tested identical CVs for laboratory manager roles. They just changed the names and found that the male candidate was significantly more likely to be hired, paid more and offered more support by men and women alike. Similarly, all of the data show that women are much less successful in winning grants from all of the UK research councils as well. Is that because we are less inventive, less imaginative? I hardly think so.

Profodd astudiaeth arall hynod ddi-ddorol CVs union debyg ar gyfer swyddi fel rheolwr labordy. Yr unig beth a newidiwyd oedd yr enwau a chafwyd bod yr ymgeisydd gwrywaidd yn llawer mwy tebygol o gael ei gyflogi, o gael cyflog uwch ac o gael mwy o gefnogaeth gan ddynion a merched fel ei gilydd. Yn yr un modd, dengys yr holl ddata fod merched yn llawer llai llwyddiannus wrth ennill grantiau gan holl gynghorau ymchwil y DU hefyd. A yw hynny am ein bod yn llai dyfeisgar, yn llai creadigol? Rwy'n amau hynny.

This means that we need to ask people who work in science to challenge their own preconceptions about women's place in the workplace, particularly in the scientific field, but we also need to challenge children and young people to identify their own stereotypes about women and girls in science, so that they can understand the truly outstanding contribution that they can make.

Mae hyn yn golygu bod angen inni ofyn i bobl sy'n gweithio ym maes gwyddoniaeth i herio eu rhagdybiaethau eu hunain am statws merched yn y gweithle, yn enwedig yn y maes gwyddonol, ond mae angen inni hefyd herio plant a phobl ifanc i nodi eu stereoteipiau eu hunain am fenywod a merched mewn gwyddoniaeth, er mwyn iddynt allu deall y cyfraniad gwirioneddol eithriadol y gallant ei wneud.

18:27

**Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am very pleased to support Julie James's debate today and I will also be very pleased to welcome a number of women scientists to the GE Healthcare reception that I am sponsoring next week here in the Senedd.

Mae'n bleser mawr gennyf gefnogi dadl Julie James heddiw a bydd yn bleser mawr gennyf hefyd groesawu nifer o fenywod sy'n wyddonwyr i dderbynwest GE Healthcare a noddir gennyf yr wythnos nesaf yma yn y Senedd.

I am very concerned that women have the STEM qualifications but do not have the jobs. Julie James has already mentioned the cosmic inflation theory about the origin of the universe in which Cardiff University recently played a very pivotal role. I want to highlight the role of the woman scientist there, Dr Carole Tucker. We have outstanding women scientists in Wales, including our own chief scientist, Julie Williams, whom Julie James has already mentioned, but we need a lot more.

Rwy'n bryderus iawn bod gan fenywod gymwysterau STEM ond nad oes ganddynt swyddi. Soniodd Julie James eisoes am y ddamcaniaeth chwyddiant cosmig o ran tarddiad y bydysawd y chwaraeodd Prifysgol Caerdydd ran bwysig iawn ynddi yn ddiweddar. Hoffwn dynnu sylw at rôl y gwyddonydd benywaidd yno, Dr Carole Tucker. Mae gennym wyddonwyr benywaidd rhagorol yng Nghymru, gan gynnwys ein prif wyddonydd ein hun, Julie Williams, y cyfeiriodd Julie James ati eisoes, ond mae angen llawer mwy.

18:28

**Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for bringing this debate today on a subject that is very close to my heart. It is very true that we have no shortage of prominent women scientists, including Dr Tucker, who I had the privilege of working alongside in Cardiff University on a number of engagement projects to do with astrophysics and the research work that she was doing. However, there are challenges that we must face up to. We must understand where it is that women are disappearing from the career paths in the sciences. It is not just about recruiting them into the academic career route in the first place; we lose them between doctoral research and post-doctoral research, and we need to understand the reasons why that happens.

Diolch i'r Aelod am gyflwyno'r ddadl hon heddiw ar bwnc sy'n agos iawn at fy nghalon. Mae'n hollol wir nad oes unrhyw brinder o ran gwyddonwyr benywaidd blaenllaw, gan gynnwys Dr Tucker, y cefais y ffrind o gydweithio â hi ym Mhrifysgol Caerdydd ar nifer o brosiectau ymgysylltu yn ymwneud ag astroffiseg a'r gwaith ymchwil roedd wrthi'n ei wneud. Fodd bynnag, mae yna heriau y mae'n rhaid inni eu hwynebu. Rhaid inni ddeall ble mae merched yn diflannu oddi ar y llwybrau gyrfa yn y gwyddorau. Nid dim ond mater o'u recriwtio i'r llwybrau gyrfa i ddechrau mohono; rydym yn eu colli rhwng gwaith ymchwil doethurrol a gwaith ymchwil ôl-ddoethurrol, ac mae angen inni ddeall y rhesymau pam mae hynny'n digwydd.

I have also spoken many times about the importance of encouraging women to go into technical apprenticeships, as, indeed, has Joyce Watson. I wonder whether the Welsh Government would consider introducing some form of school liaison programme for young people to show them that there are ambassadors out there, there are people who are leading the way, there are people for them to follow and they will not be they only woman in a technical apprenticeship if that is a route that they want to take.

Rwyf hefyd wedi siarad droeon am bwysigrwydd annog menywod i ymgymryd â phrentisiaethau technegol, fel, yn wir, y gwnaeth Joyce Watson. Tybed a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno rhyw fath o raglen cyswllt mewn ysgolion i bobl ifanc er mwyn dangos iddynt bod llysgenhadon allan yno, bod pobl sy'n arwain y ffordd, bod yna bobl iddynt eu dilyn ac nad hwy fydd yr unig ferch mewn prentisiaeth dechnegol os yw hynny'n llwybr yr hoffent ei ddilyn.

18:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to reply to the debate.

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ymateb i'r ddatl.

18:29 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

I think that we all welcome the debate today. We all fully appreciate the emphasis that we must place on attracting women into science and to complement the strategic goals set on the 'Science for Wales' agenda. Listening to this debate today, it could almost be a debate about who is involved in politics and who gets where. I think that there are very similar difficulties in relation to what happens between female politicians and female scientists.

Credaf fod pob un ohonom yn croesawu'r ddatl heddiw. Mae pob un ohonom yn llawn werthfawrogi'r pwyslais y mae'n rhaid inni ei roi ar ddenu menywod i faes gwyddoniaeth ac i ategu nodau strategol agenda 'Gwyddoniaeth i Gymru'. Gan wrando ar y ddatl hon heddiw, gallai bron fod yn ddatl am bwy sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth a phwy sy'n cyrraedd pa swyddi. Credaf fod anawsterau tebyg iawn o ran yr hyn sy'n digwydd i fenywod mewn gwleidyddiaeth ac mewn gwyddoniaeth.

I think that we also have to recognise that achieving our goals depends on actions in schools and engagement activities out of school in our further education colleges, training provider networks, universities, research bodies and, importantly, business communities, because I think that it is in the business communities that there is a lot of further work to be undertaken. The Welsh Government has a vital role in encouraging the support and promotion of women in science, engineering and technology—in all these areas. The scientific expertise that our universities have to offer is varied, unique and gaining a world-class reputation in some quarters. We know that that reputation needs to include a reputation for the breaking down of gender barriers, inspiring, motivating and empowering women in all the sciences and making it possible for them to make it a career-long commitment with realistic expectations of reaching the most senior posts.

Credaf fod yn rhaid inni hefyd gydnabod bod cyflawni ein nodau yn dibynnu ar gamau gweithredu mewn ysgolion a gweithgareddau ymgysylltu y tu allan i'r ysgol yn ein colegau addysg bellach, rhwydweithiau darparwyr hyfforddiant, prifysgolion, cyrff ymchwil ac, yn bwysig, gymunedau busnes, oherwydd credaf fod llawer o waith pellach i'w wneud yn y cymunedau busnes. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl hanfodol wrth annog ymdrechion i gefnogi a dyrchafu menywod mewn gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg—yn yr holl feysydd hyn. Mae'r arbenigedd gwyddonol sydd ar gael o fewn ein prifysgolion yn amrywiol, yn unigryw ac yn ennill enw da ledled y byd mewn rhai meysydd. Gwyddom fod angen i'r enw da hwnnw gynnwys enw da am chwalu rhwystrau o ran rhyw, ysbrydoli, ysgogi a grymuso menywod ymhob rhan o'r gwyddorau a'u galluogi i wneud ymrwymiad gydol gyrfa gyda disgwyliadau realistig y gallant gyrraedd y swyddi uchaf.

It is interesting that we need to do further work and take actions on why there is such an attrition rate suffered by female academics and researchers. We need to be seeking to keep them active in research and allowing them to progress after career breaks for childcare or any other reasons, but it is significant that they go in, they go through the system and, all of a sudden, it comes to a stop, and they are not there. I think that these are issues that we really have to look into more.

Mae'n ddiddorol bod angen inni wneud mwy o waith a chymryd camau o ran pam bod academyddion ac ymchwilwyr benywaidd yn dioddef cyfradd athreulio o'r fath. Mae angen inni geisio sicrhau eu bod yn parhau i chwarae rhan weithgar mewn gwaith ymchwil a'u galluogi i ddatblygu eu gyrfa ar ôl cymryd saib at ddibenion gofal plant neu unrhyw resymau eraill, ond mae'n arwyddocaol eu bod yn dechrau arni, yn mynd drwy'r system ac, yn sydyn ddigon, yn rhoi'r gorau iddi, ac nad ydynt yno mwyach. Credaf fod angen inni fwrw ati o ddifrif i ystyried y materion hyn ymhellach.

Obviously, everybody has commented that we have a new Chief Scientific Adviser for Wales, who is a real role model, I think, for what women can achieve. Professor Williams is extremely keen to see steps taken to ease the path, provide more opportunities and fairer procedures for bringing on and bringing in female scientific and technical talent. We aim for more role models to inspire and influence women into science at all levels. It is interesting that we in this Chamber might know the female role models, but how much does the outside world know about these female role models? How much do they know in schools? How much do they know in FE? Unless these female role models are out and about, showing what can be done, we are not going to influence changes in society.

Professor Williams and her team are investigating how we can build upon the success of Sêr Cymru with future initiatives to attract and retain research talent in Wales. This may, potentially, include measures to support the recruitment, retention and professional development of the most promising early and mid-career researchers, including those returning from career breaks. This would be very positive work for us to undertake.

We are dispelling the myths that science is difficult and exclusive and that long-term careers are unattainable, especially for women, and we have to keep debunking all these illogical thoughts. We have to debunk some of the mythology about this. This is a subject that I regularly raise with my ministerial colleagues, and I have enormous support across Government about the whole implementation of the science agenda, particularly in terms of the gender agenda. This also provides me with the opportunity to discuss progress on the science agenda and allows us to work together to consider strategies and actions, not the least of which is the issue of how to attract and retain women in science and to enthuse and engage our students from as early an age as possible in STEM subjects.

In my department, sector teams are working to address the widespread concern in the industry at the lack of women pursuing STEM careers and also the concerns of industry about where we are going to get software engineers from in the future, and some of those issues. The advanced materials and manufacturing sector is helping to encourage girls into careers in engineering and is supporting programmes such as the Ford Saturday club and the Airbus industrial cadet scheme, which Julie has already alluded to. These are very successful schemes. If you just look at the Airbus programme, you will see that the female cohort numbered 73 from across schools in north Wales. When you look at the Ford Saturday club, you see that it runs up to two courses during the year, each covering 12 Saturdays. This is very important work that industry is undertaking.

Yn amlwg, mae pawb wedi nodi bod gennym Brif Gyngorydd Gwyddonol newydd i Gymru, sydd yn fodel rôl go iawn, fe gredaf, o ran yr hyn y gall merched ei gyflawni. Mae'r Athro Williams yn awyddus iawn i weld camau ar waith i hwyluso'r llwybr, i ddarparu mwy o gyfleoedd a gweithdrefnau tecach ar gyfer datblygu a denu menywod â thalent wyddonol a thechnegol. Ein nod yw darparu mwy o fodelau rôl i ysbrydoli menywod a dylanwadu arnynt i ymgymryd â gwyddoniaeth ar bob lefel. Mae'n ddiddorol ein bod ni yn y Siambr hon o bosibl yn ymwybodol o'r modelau rôl benywaidd, ond faint y mae'r byd y tu allan yn ei wybod amdanynt? Faint y maent yn ei wybod mewn ysgolion? Faint y maent yn ei wybod mewn AB? Oni fydd y modelau rôl benywaidd hyn i'w gweld yn amlwg, gan ddangos beth y gellir ei wneud, ni allwn ddylanwadu ar newidiadau mewn cymdeithas.

Mae'r Athro Williams a'i thîm yn ymchwilio i'r modd y gallwn adeiladu ar lwyddiant Sêr Cymru gyda mentrau yn y dyfodol i ddenu a chadw talent ymchwil yng Nghymru. Gall hyn, o bosibl, gynnwys mesurau i gefnogi'r trefniadau recriwtio a chadw a'r trefniadau datblygu proffesiynol ar gyfer yr ymchwilwyr newydd a chanol gyrfa mwyaf addawol, gan gynnwys y rheini sy'n dychwelyd o seibiannau gyrfa. Byddai hyn yn waith cadarnhaol iawn inni ymgymryd ag ef.

Rydym yn chwalu'r mythau bod gwyddoniaeth yn anodd ac yn anghynhwysol a bod gyrfaedd hirdymor yn anghyraeddadwy, yn enwedig i fenywod, a rhaid inni barhau i chwalu'r holl syniadau afresymegol hyn. Rhaid inni chwalu rhywfaint o'r fytholeg gysylltiedig. Codaf y pwnc hwn yn rheolaidd gyda'm cyd-Weinidogion, ac mae gennyf gefnogaeth aruthrol ar draws y Llywodraeth o ran rhoi'r agenda wyddoniaeth ar waith, yn enwedig o ran yr agenda rhyw. Mae hyn hefyd yn rhoi'r cyfle imi drafod cynnydd ar yr agenda wyddoniaeth ac yn ein galluogi i gydweithio er mwyn ystyried strategaethau a chymau gweithredu, gan gynnwys sut i ddenu a chadw menywod ym maes gwyddoniaeth ac ennyn brwdfrydedd a diddordeb ein myfyrwyr o oedran mor ifanc â phosibl ym mhynciau STEM.

Yn fy adran i, mae timau sector yn gweithio i ymdrin â'r pryder eang yn y diwydiant o ran y prinder menywod sy'n dilyn gyrfaedd STEM a hefyd bryderon y diwydiant ynghylch o ble y daw peirianwyr meddalwedd yn y dyfodol, a rhai o'r materion hynny. Mae'r sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch yn helpu i annog merched i ddilyn gyrfaedd mewn peirianneg ac yn cefnogi rhaglenni megis clwb dydd Sadwrn Ford a chynllun cadetiaid diwydiannol Airbus, y cyfeiriodd Julie ato eisoes. Maent yn gynlluniau llwyddiannus iawn. Os ystyrir rhaglen Airbus, llwyddwyd i ddenu 73 o ferched o ysgolion ledled y gogledd. O ran clwb dydd Sadwrn Ford, mae'n cynnal hyd at ddau gwrs yn ystod y flwyddyn, gyda phob un yn para am 12 dydd Sadwrn. Mae'n waith pwysig iawn y mae'r diwydiant yn ymgymryd ag ef.

The science advisory council for Wales has looked at the issue of science engagement activities, which support and complement education in school, and it has made some helpful suggestions that are being considered. I know that education officials are engaged with the Institute of Physics about the particular issue that Julie James raised of girls not taking up science at A-level and beyond, and are already planning actions to address it. I have no doubt that my colleague the Minister for Education and Skills will be able to say more about this in the coming weeks. The National Science Academy also funds the engineering education scheme Wales programme, including getting girls into the engineering programme. These schemes not only look to rectify the gender imbalance, but also provide an insight into industry and manufacturing and awareness raising of local career opportunities, because, as Julie James said when she introduced the debate, people are not aware of the career opportunities offered by taking these subjects.

So, we are keen to ensure that more young people are encouraged to study science, technology and maths to a higher level. This is about the Government looking at the fundamental issues around the development of STEM skills. The key challenges to the Welsh science and maths curriculum are reflected on, and addressed to facilitate this in a whole range of activities.

We already recognise the importance of women's participation in science. We have to be focused, determined and encouraging, but we also have to work towards widening opportunities for women, providing access to the best learning, research and development. It is only by that that we will succeed, as a nation, in rebalancing the number of women coming into science.

Mae cyngor cyngori ar wyddoniaeth Cymru wedi ystyried gweithgareddau ymgysylltu ym maes gwyddoniaeth, sy'n cefnogi ac yn ategu addysg mewn ysgolion, ac wedi gwneud rhai awgrymiadau defnyddiol sy'n cael eu hystyried. Gwn fod swyddogion addysg, ar y cyd â'r Sefydliad Ffiseg, yn trafod y mater penodol a gododd Julie James nad yw merched yn astudio gwyddoniaeth ar lefel Safon Uwch a thu hwnt, a'u bod eisoes yn cynllunio camau i ymdrin â hynny. Yn ddiâu, bydd fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn gallu ymhelaethu ar hyn yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r Academi Gwyddoniaeth Genedlaethol hefyd yn ariannu rhaglen cynllun addysg peirianeg Cymru, gan gynnwys denu merched i'r rhaglen peirianeg. Mae'r cynlluniau hyn nid yn unig yn anelu at unioni'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau, ond hefyd at ddarparu dealltwriaeth o'r diwydiant a gweithgynhyrchu ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfaedd lleol, oherwydd, fel y dywedodd Julie James wrth gyflwyno'r ddadl, nid yw pobl yn ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa y gall astudio'r pynciau hyn esgor arnynt.

Felly, rydym yn awyddus i sicrhau y caiff mwy o bobl ifanc eu hannog i astudio gwyddoniaeth, technoleg a mathemateg i lefel uwch. Mae angen i'r Llywodraeth ystyried y materion sylfaenol sy'n gysylltiedig â meithrin sgiliau STEM. Ystyrir yr heriau allweddol i'r cwricwlwm gwyddoniaeth a mathemateg yng Nghymru, ac ymdrinnir â hwy, er mwyn hwyluso hyn o fewn amrywiaeth lawn o weithgareddau.

Rydym eisoes yn cydnabod pwysigrwydd cyfranogiad merched mewn gwyddoniaeth. Rhaid inni sicrhau ffocws, gweithredu mewn ffordd benderfynol a chalonogol, ond rhaid inni hefyd weithio tuag at ehangu cyfleoedd i fenywod, gan sicrhau y gallant gael gafael ar y dysgu, yr ymchwil a'r datblygiad gorau. Dim ond drwy wneud hynny y byddwn yn llwyddo, fel gwlad, i ailgydbwyso nifer y merched a gaiff eu denu i faes gwyddoniaeth.

18:35

## **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Minister. That brings today's business to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:35.*

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Diolch, Weinidog. Daw hynny â busnes heddiw i ben.

*The meeting ended at 18:35.*